Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIRYNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEYCOUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| DYDD IAU, 7 MAWRTH 2024 | THURSDAY, 7 MARCH, 2024 |
| am 2.00 o'r gloch yp | at 2.00 pm |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr, 2023.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**5. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2023/24**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror, 2024.

**6. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2024/25**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror, 2024.

**7. STRATEGAETH GYFALAF 2024 - 2029**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror, 2024.

**8. CYLLIDEB 2024/25**

**(a) Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2024/25**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror, 2024.

**(b) Cyllideb Cyfalaf 2024/25**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror, 2024.

**(c) Penderfyniad Drafft ar osod y Dreth Gyngor 2024/25**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-2028**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror, 2024.

**10. ADOLYGU ARDALOEDD A MANNAU PLEIDLEISIO YNYS MÔN**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**11. AELODAETH A CHYFANSODDIAD Y CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**12. DATGANIAD POLISI TÂL 2024**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaetth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod hybrid Arbennig a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Trefor Ll Hughes MBE, Aled M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Llinos Medi, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Ken Taylor, Dafydd R Thomas, Alwen Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood, Arfon Wyn. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Cyllid (CK),<br>Cyfreithiwr- Llywodraethiant Corfforaethol a Chontractau (MY),<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME),<br>Rheolwr Strategaeth a Busnes Gwasanaeth (GP),<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts a Jackie Lewis |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023 yn gywir.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y difrod sylweddol a wnaed i Neuadd y Dref yn dilyn tân yno nos Sul. Roedd yn dymuno diolch i'r Gwasanaethau Brys am ddiogelu preswylwyr Lôn Glanhwfa ac am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn.

- Llongyfarchwyd Mr Paul Woodhouse, Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Uwchradd Caergybi, a Ms Liah Williams, Ysgol Pencarnisiog, ar eu llwyddiant yng Ngwobrau Addysg Gogledd Cymru 2023.

- Llongyfarchwyd PC Lisa Thomas a Ms Angharad Jones o dîm Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor am eu gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Ynys Môn, gwaith a gafodd ei gydnabod yng ngwobrau Partneriaethau Datrys Problemau Heddlu Gogledd Cymru.

- Dywedodd y Cadeirydd fod Rhaglen Gymunedol Ynys Môn wedi cael ei chanmol yn ddiweddar yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel i Gymru, a hynny am yr effaith y mae'n ei gael ar leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn trefi ledled yr Ynys. Enillodd y prosiect y categori "Partneriaeth" am y ffordd gynhwysol y mae'n hyrwyddo diogelwch cymunedol.

- Llongyfarchwyd Mrs Annwen Morgan wedi iddi ymgymryd â rôl Cadeirydd newydd Fforwm Iaith Ynys Môn.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Gynhadledd Oed Gyfeillgar a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 8 Tachwedd. Siaradodd Ms Sioned Young, Swyddog Datblygu Cymunedol Ynys Môn Oed Gyfeillgar y Cyngor yn y gynhadledd, yn ogystal â Ms Brenda Roberts, Cadeirydd Cyngor yr Henoed Ynys Môn.

- Llongyfarchwyd tîm pêl-rwyd merched Ynys Môn a fu'n cystadlu yn Nhwrnamaint yr Ynysoedd yn Ynys Manaw yn ddiweddar.

- Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Dafydd Roberts, o'r Adran Budd-daliadau, wedi rhyddhau ei sengl Nadolig cyntaf yn ddiweddar, sef 'Amser yr Ŵyl'.

- Llongyfarchwyd pawb a gymerodd ran yn y Ffair Aeaf yn Llanfair ym Muall eleni. Llongyfarchiadau arbennig i Tony a Iona Ponsonby, sydd yn denantiaid ar un o ffermydd y Cyngor, a braf oedd gweld llwyddiant Ffermwyr Ifanc Ynys Môn yn y Ffair Aeaf.

- Llongyfarchwyd y Ffermwyr Ifanc am gynnal Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc ym Mona'n ddiweddar.

* * * *

Roedd y Cadeirydd yn dymuno canmol cyfraniad trigolion Ynys Môn sydd wedi dod ynghyd i gynnal digwyddiadau cymunedol yn ystod mis Rhagfyr. Diolchodd i'r holl wirfoddolwyr am ledaenu ysbryd yr ŵyl ledled yr Ynys ac am eu gwaith gydag unigolion llai ffodus yn ein cymdeithas.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch hefyd i staff y Cyngor fydd yn gweithio dros y Nadolig er mwyn darparu gwasanaethau allweddol.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i holl staff ysgolion a phobl ifanc sydd wedi paratoi a chymryd rhan mewn gwahanol sioeau Nadolig ar hyd a lled yr Ynys.

* * * *

Nododd y Cadeirydd fod cyfnod y Nadolig yn gallu bod yn anodd i rai teuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau heriol, salwch neu brofedigaeth.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor Sir neu aelod o Staff sydd wedi cael profedigaeth.

Safodd Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

**5. DATGANIAD O GYFRIFON 2022/23 AC ADRODDIAD ISA 260**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 7 Rhagfyr 2023.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Datganiad o Gyfrifon 2022/2023 a'r Adroddiad ISA 260 wedi cael eu trafod fel rhan o'r broses sgriwtini a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. Mae Archwilio Cymru wedi derbyn y cyfrifon ac nid ydynt wedi gofyn am unrhyw newidiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones fod angen i'r Datganiad o Gyfrifon fod ar gael i breswylwyr edrych arno i weld sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ariannol. Cyfeiriodd at Gynllun Pensiwn y Cyngor a holodd a fyddai'n bosib derbyn adroddiad ar wahân gan fod y mater yn un mor gymhleth. Dywedodd hefyd fod dyledion rhenti tai wedi cynyddu gan fod pobl yn wynebu anawsterau oherwydd yr argyfwng costau byw. Cyfeiriodd hefyd at faterion amgylcheddol a holodd p'un a yw'r adnoddau ariannol yn mynd i'r afael â'r angen ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor. Yn ei farn ef, mae angen i'r Pencampwr Amgylcheddol gyflwyno adroddiad blynyddol ar strategaeth amgylcheddol y Cyngor, a dylai'r 12 Pencampwr arall gyflwyno adroddiadau blynyddol ar eu meysydd cyfrifoldeb hwythau hefyd, er mwyn nodi eu hymdrechion i hyrwyddo'r gwasanaethau a gynrychiolir ganddynt.

Wrth ymateb i sylwadau'r Cynghorydd R Ll Jones, dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Datganiad Cyfrifon ar gael ar wefan y Cyngor er mwyn i breswylwyr

weld sut mae adnoddau ariannol y Cyngor yn cael eu gwario ac mae'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiadau chwarterol hefyd. Nododd fod y Cynllun Pensiwn yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd ac mae adroddiadau rheolaidd a gweddarllediadau o gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau ar gael ar eu gwefan ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu hefyd. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai at y sylw am gynnydd mewn dyledion rhent a dywedodd fod gan y Gwasanaethau Tai Dîm Cynhwysiant Ariannol a gallant ddarparu cyngor a chefnogaeth i denantiaid os ydynt yn wynebu anawsterau ariannol. Dywedodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi trafod y mater yn ddiweddar, gan bwysleisio ei bod yn bwysig fod tenantiaid nad ydynt yn gymwys i dderbyn budd-dal tai a chefnogaeth ariannol ar hyn o bryd yn cael eu hannog i gysylltu â'r Cyngor os ydynt yn wynebu problemau ariannol. Mewn ymateb i'r sylwadau am yr amgylchedd, dywedodd arweinydd y Cyngor fod gan y Cyngor raglen gorfforaethol i leihau ôl-troed carbon pob gwasanaeth o fewn y Cyngor ac mae adroddiadau cynnydd blynyddol yn cael eu cyflwyno ar y gwaith hwnnw. Cyfeiriodd at y Pencampwyr gwasanaeth a nododd fod eu gwaith yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau a gyflwynir i'r Cyngor ac roedd yn cytuno efallai bod angen tynnu mwy o sylw at rôl y Pencampwyr gwasanaeth yn adroddiadau blynyddol y gwasanaethau.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod anghysonderau hanesyddol yng nghronfeydd pensiwn rhai athrawon a gofynnodd a yw'r mater hwn wedi cael ei ddatrys. Gofynnodd hefyd a fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i ddatrys y problemau concrit RAAC mewn dwy ysgol uwchradd ar yr ynys. Cyfeiriodd hefyd at ffi Archwilio Cymru, gan nodi fod cynnydd o 20%, neu £75k, yn y swn a gofynnodd a fyddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn gallu rhoi pwysau ar Archwilio Cymru gan fod pob awdurdod lleol yn wynebu pwysau ar eu cyllidebau. Gofynnodd y Cynghorydd Jones hefyd a fyddai modd ad-dalu rhan o'r swm o £625k a ddyrannwyd ar gyfer astudiaethau archeolegol Horizon ar safle Wylfa, gan fod yr astudiaethau wedi'u cwblhau ar y safle a byddai modd defnyddio'r arian i hyrwyddo'r safle ar gyfer ei ddatblygu.

Mewn ymateb i'r sylwadau gan y Cynghorydd Aled M Jones, dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Gronfa Pensiynau Athrawon a Chronfa Bensiwn Gwynedd yn ddwy gronfa ar wahân, a chynghorwyd athrawon i edrych ar eu cronfa bensiwn a'u cofnodion cyflogaeth. O ran ffi Archwilio Cymru, dywedodd yr Aelod Portffolio nad oes dewis gan y Cyngor ond defnyddio gwasanaethau Archwilio Cymru ac maent yn gallu pennu eu ffioedd eu hunain am y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd ei fod yn cytuno y gallai CLlLC roi pwysau ar Archwilio Cymru a byddai'n codi'r mater yng nghyfarfodydd CLlLC yn y dyfodol. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor i'r sylwadau am y problemau concrit RACC mewn dwy ysgol uwchradd a dywedodd fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymorth ariannol i gywiro'r sefyllfa. Ymatebodd hefyd i'r sylwadau am y swm o £625k a ddyrannwyd i gwrdd â chostau astudiaethau archeolegol Horizon ar Safle Wylfa a nododd fod yr arian yn rhan o gynllun polisi cynllunio gyda Horizon i ddatblygu'r safle. Dywedodd y Prif Weithredwr fod eitemau archeolegol wedi'u canfod ar y safle a dywedodd bod rhaid ymdrin â'r eitemau hynny yn unol â dyletswyddau statudol a'r gobaith yw y bydd modd eu harddangos i'r cyhoedd eu gweld.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Owen nad oedd ei enw wedi'i gynnwys ar y rhestr o Aelodau Etholedig sy'n aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Wylfa, a gynhwysir yn Atodiad 1 yn yr adroddiad (Datgeliad Parti Cysylltiedig – Cynrychiolaeth Rhanddeiliaid gyda Sefydliadau Trydydd Parti).

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022/2023 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i lofnodi'r cyfrifon;**
- **Nodi'r cynnydd o £72k yn y tanwariant yng Nghronfa'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, oherwydd diwygiadau a wnaed yn ystod y cyfnod archwilio sy'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor. Mae hyn yn cynyddu'r tanwariant am y flwyddyn o £1.212m i £1.284m.**
-

**6. NEWID YR AMSER A GANIATEIR I AELODAU'R CYHOEDD SIARAD YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 4 Hydref 2023. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd Penderfyniad Portffolio gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd ar 24 Tachwedd 2023 i'r Cyngor ei dderbyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer materion Corfforaethol a Gwasanaeth Cwsmer fod hwn yn gynnig i gynyddu'r amser a ganiateir i'r cyhoedd siarad yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion o 3 munud i 5 munud ac mae Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r cynnig.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i newid y cyfeiriad ym mharagraff 4.6.21.6 o'r Cyfansoddiad o 3 munud i 5 munud (sef yr amser sydd ar gael i'r siaradwyr cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio);**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i newid unrhyw gyfeiriad yn y canllawiau sy'n gysylltiedig â'r drefn i nodi mai 5 munud sydd ar gael i siaradwyr cyhoeddus.**

**7. CYNLLUN STRATEGOL ADNODDAU AC AILGYLCHU – 2023-2028**

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei dderbyn – adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini ac Adfywio ar 22 Tachwedd 2023.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu ar gyfer 2023-2028 yn cefnogi dyheadau allweddol y Cyngor a geir yng Nghynllun y Cyngor. Mae Cynllun y Cyngor yn datgan bod rhaid i'r Cyngor gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2028 a chyrraedd y targed allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Nododd fod dyletswydd ar yr holl breswylwyr ac ymwelwyr i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy.

Ychwanegodd y byddai cymeradwyo'r Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu'n dangos fod y Cyngor yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol fel rhan o'r fenter ailgylchu. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod perthynas waith dda'n bodoli rhwng y Cyngor a sefydliadau megis CLlLC, Llywodraeth Cymru a WRAP Cymru, a bydd hynny'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r targed ailgylchu 70%. Mae cyfraddau ailgylchu Ynys Môn yn 65% ar hyn o bryd (ond gall y ffigwr amrywio yn ystod gwahanol gyfnodau yn ystod y flwyddyn). Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd dros gyfnod o chwe wythnos yn ddiweddar, rhwng 11 Medi a 20 Hydref 2023. Dyluniwyd yr ymgynghoriad i gasglu adborth ar ffrydiau gwaith allweddol i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy o wastraff domestig a derbyniwyd bron i 200 o ymatebion. Ychwanegodd fod rhai o'r ymatebwyr yn nodi nad yw'r bocs ailgylchu ar gyfer cardfwrdd yn ddigon mawr ac mae angen ystyried dulliau eraill o ddarparu ar gyfer yr anghenion hynny, e.e., darparu sachau i gasglu cardfwrdd ychwanegol. Nododd hefyd fod angen ail-addysgu pobl ynglŷn â phwysigrwydd ailgylchu, yn enwedig y genhedlaeth iau.

Roedd Arweinydd y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, ond gan nad oedd y Cynllun Strategol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor tan ddiwedd Rhagfyr, cynigiodd welliant, sef bod y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu'n cael ei weithredu rhwng 2024 a 2029.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio at argymhellion y Pwyllgor i'r Cyngor yn dilyn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2023, pan ystyriwyd y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu. Roedd yr argymhellion yn cynnig rhoi camau penodol ar waith, gan gynnwys cynyddu cyfraddau ailgylchu bwyd; bod angen darparu bin gwastraff pan gyflwynir ceisiadau cynllunio am siopau gwerthu bwydydd cyflym; nodi bod ailgylchu a gwastraff yn gyfrifoldeb corfforaethol i nifer o wasanaethau'r Cyngor ac y dylid darparu ymgyrchoedd Cadw Cymru'n Daclus er mwyn addysgu plant am bwysigrwydd ailgylchu; mae ailgylchu gwastraff biniau yn ein trefi a'n cymunedau arfordirol yn agwedd y mae angen rhoi sylw pellach iddo ac mae'r mater hwn yn gysylltiedig â chynlluniau strategol eraill megis y Cynllun Rheoli Cyrchfan a'r Cynllun Rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol.

Dywedodd y Cynghorwyr Jeff Evans a Pip O'Neill fod tipio anghyfreithlon wedi gwaethygu yng Nghaergybi ac mae angen cynorthwyo pobl nad ydynt yn gallu mynd â gwastraff i'r canolfannau ailgylchu. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Adain Rheoli Gwastraff yn darparu trwyddedau ar gyfer cerbydau sy'n tynnu trelar a faniau. Nododd mai bwriad y broses hon yw atal cerbydau masnachol rhag codi tâl ar bobl i gasglu eu gwastraff.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Adran Rheoli Gwastraff a'r Tîm Cyfathrebu, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini a Chyfathrebu, wedi cychwyn ymgyrch i dynnu sylw at broblemau tipio anghyfreithlon, gan annog pobl i fod yn gyfrifol am ailgylchu gwastraff yn briodol.

**PENDERFYNWYD derbyn y gwelliant, sef bod Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu Ynys Môn yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y cyfnod 2024-2029 (cynllun 5 mlynedd).**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **Dyddiad:** | **7 MAWRTH 2024** |
| **Pwnc:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023/24** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**01248 752133**<br>**claire.klimaszewski@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Ystyried a derbyn yr Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2023/24

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Adroddiad craffu ac er gwybodaeth yw hwn ac nid yw ystyried opsiynau'n berthnasol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa rheoli trysorlys lle mae penderfyniadau ynglŷn â benthyca a buddsoddi wedi cael eu gwneud yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Nid oes angen penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn a fydd yn effeithio ar gyllideb y Cyngor.

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Dim sylwadau ychwanegol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau ychwanegol. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n craffu ar yr adroddiad hwn ar 8 Chwefror 2024. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 10 | **Arall** | Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ag Pwyllgor Gwaith:- • Derbyn Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2023/24 a'i argymell i'r Cyngor llawn heb sylwadau. |

| **E – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae rheoli trysorlys yn allweddol o ran hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion yr Ynys yn yr hir dymor gan fod cynlluniau benthyca'n cynorthwyo i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau fod asedau ar gael heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid hefyd i gynlluniau trysorlys fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw penderfyniadau Rheoli Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canol yn creu anfantais i genedlaethau'r dyfodol. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Mae'n rhaid i'r strategaeth Rheoli Trysorlys a'r gweithgareddau fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru'r effaith yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyca, megis o dan y cynllun Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Yn aml, mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Roedd / mae ysgolion newydd / estyniadau o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorir â dinasyddion Môn bob blwyddyn ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf flynyddol, ac mae cyfran o'r rhaglen honno'n ddibynnol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys. Mae ymgynghori mwy manwl yn digwydd mewn perthynas â rhai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion. |
| 5 | **Nodwch effeithiau posib y penderfyniad hwn ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u cyllido trwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn helpu i wella hygyrchedd a chaniatáu amrywiaeth. |
| 6 | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Gwaith monitro statudol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys yw hwn, nid penderfyniad strategol. |
| 7 | **Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.** | Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy fenthyca'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu a thyfu'r iaith Gymraeg, megis ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 2 2023/24
Atodiad B – Dadansoddiad o Fenthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) Cyngor Sir Ynys Môn fesul blwyddyn Aeddfedu
Atodiad C – Dadansoddiad Economaidd – Link Group
Atodiad CH – Dadansoddiad BBGC – Link Group

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 – Cyngor Sir Ynys Môn 9 Mawrth 2023 https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=127&MId=4049&Ver=4&LLL=1
- Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 1 2023/24 – Pwyllgor Gwaith 24 Hydref 2023 https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=4211&Ver=4&LLL=1

## 1. Cefndir

**1.1** Mae'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2023/24 yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau rheoli trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canol. Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i gynorthwyo i nodi beth yw blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.

**1.2** Mae gweithgareddau rheoli trysorlys yn unol â'r DSRhT, yn allweddol ar gyfer gweithredu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28, Strategaeth Gyfalaf 2023/24 yn ogystal â sawl cynllun strategol a gweithredol cysylltiedig. Mae gwariant cyfalaf yn hanfodol i sicrhau fod y Cyngor yn meddu ar yr asedau tymor hir, megis swyddfeydd y cyngor, ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol, tai Cyngor, isadeiledd TGCh, meddalwedd a chyfarpar, cerbydau ac offer, sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor, ac i gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu hadnewyddu, eu hymestyn neu eu hamnewid yn ôl yr angen a bod asedau newydd, megis ysgolion newydd, yn cael eu hadeiladu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

**1.3** Mae cyllid cyfalaf yn brin, felly mae'r Cyngor yn cyllido rhai prosiectau cyfalaf trwy fenthyca â chefnogaeth, lle mae'r Cyngor yn derbyn cyllid ar gyfer hynny yn y grant cynnal refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru, neu fenthyca digefnogaeth, sy'n cael ei gyllido'n llawn gan y Cyngor. Fel arfer bydd benthyca'n cael ei wneud trwy fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Mae hyn yn rhan allweddol o'r gwaith rheoli trysorlys, a dyna sydd i gyfrif am y cyswllt pwysig â'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith.

**1.4** Mae'r Côd Ymarfer Rheoli Trysorlys 2021, sydd yn ganllaw statudol, yn diffinio rheoli trysorlys fel:

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.*"

## 2. Cyflwyniad

**2.1** Mae rheoli trysorlys yn cynnwys tasgau sy'n sicrhau fod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd, a buddsoddi arian dros ben, yn ychwanegol i'r hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Mae'n rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau yn y DU sydd â statws credyd uchel, fel y diffinnir yn y DSRhT. Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei arian, yn unol â'r Côd, ac mae'n sicrhau fod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel y gall y Cyngor dalu cyflenwyr, staff a budd-daliadau ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw ar fuddsoddiadau, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi i dderbyn y gyfradd log uchaf posib o fewn y grŵp o sefydliadau sydd yn ddiogel ac yn cwrdd â'r meini prawf yn y DSRhT 2023/24. Elfen olaf Rheoli Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor, i sicrhau nad yw lefel benthyca'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthyca yn fforddiadwy.

**2.2** Un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthyca, sef, yn ei hanfod, cynllunio llif arian yn y tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall rheoli arian yn y tymor hwy gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio llif arian dros ben yn y tymor hwy ac, ar adegau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyledion i gwrdd ag amcanion y Cyngor yn gysylltiedig â risg a chostau.

**2.3** Mae cyswllt agos rhwng Strategaeth Gyfalaf 2023/24, Rhaglen Gyfalaf 2023/24 ac adroddiadau monitro chwarterol y gyllideb gyfalaf a gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor. Yn unol â deddfwriaeth, gall y Cyngor ond benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf, nid costau refeniw, ac eithrio pan fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyfarwyddeb cyfalafu ar gyfer gwariant refeniw eithriadol penodol, megis cyfalafu ôl-daliadau tâl cyfartal. Mae'r strategaeth gyfalaf, y rhaglen gyfalaf flynyddol a'r DSRhT i gyd yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y Cyngor sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2023/28. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwaith o fonitro gweithgareddau rheoli trysorlys yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r DSRhT.

## 3. Diweddariad Economaidd

**3.1** Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys allanol y Cyngor, Link Group, yn anfon nifer o ddiweddariadau bob wythnos, megis adroddiadau economaidd ac adroddiadau credyd, er mwyn cynorthwyo swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae Link Group wedi darparu diweddariad economaidd ar gyfer yr ail chwarter, ac mae copi ohono yn Atodiad C. Mae Link Group wedi darparu'r rhagolwg o gyfraddau llog canlynol yn ddiweddar hefyd:-

**Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaen Banc Lloegr, chwyddiant a Chyfraddau BBGC, rhwng Ionawr 2024 a Medi 2025.**

| | 15 Ion 2024 | Mawrth 2024 | Mehefin 2024 | Medi 2024 | Rhagfyr 2024 | Mawrth 2025 | Mehefin 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 5.25% | 5.25% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% | 3.00% |
| Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr – *Capital Economics* | Rhagfyr - 3.7% | 3.8% | 2.9% | 0.80% | 0.70% | 0.90% | 0.6% | 1.2% |
| Cyfradd blwydd-dal 5 mlynedd BBGC (%) | 4.63% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.80% |
| Cyfradd blwydd-dal 10 mlynedd BBGC (%) | 4.86% | 4.70% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% |
| Cyfradd blwydd-dal 25 mlynedd BBGC (%) | 5.43% | 5.20% | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.60% | 4.40% | 4.30% |
| Cyfradd blwydd-dal 50 mlynedd BBGC (%) | 5.24% | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.40% | 4.20% | 4.10% |

**3.2** Targed chwyddiant Banc Lloegr, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant godi'n uwch na'r ffigwr hwn ym mis Awst 2021, ac roedd cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) wedi cyrraedd ei lefel uchaf, sef 11.1%, erbyn mis Hydref 2022 o ganlyniad i effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a arweiniodd at gynnydd sylweddol ym mhrisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am fwy o amser na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023, i 8.7%, ac roedd yr MPD wedi gostwng i 7.9% erbyn diwedd y chwarter cyntaf. Parhau i ostwng wnaeth cyfraddau chwyddiant yn ystod yr ail chwarter ac roedd yr MPD yn 6.7% ar 30 Medi 2023.

**3.3** Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng i'w lefel isaf, sef 0.1%, er mwyn cefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cododd Banc Lloegr y gyfradd i 0.25%, ac yna gwelwyd cynnydd o rhwng 0.25% a 0.75% (sef y cynnydd uchaf) yn y gyfradd sylfaen ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC). Ym mis Awst 2023, cododd y MPC y gyfradd sylfaen i 5.25%, ac ni newidiwyd y gyfradd o 5.25% yng nghyfarfod yr MPC ym mis Medi 2023, sef y tro cyntaf i hynny ddigwydd ers Rhagfyr 2021. Pleidleisiodd yr MPC o blaid peidio â newid y gyfradd o 5.25% yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023 hefyd.

**3.4** Ym mis Mawrth 2023, roedd DSRhT 2023/24 yn adrodd bod disgwyl i gyfradd sylfaen Banc Lloegr gyrraedd uchafbwynt o 4.5% yn yr haf ac y byddai cyfraddau'n gostwng yn araf yn ystod 2024 a 2025. Yn yr adolygiad rheoli trysorlys ar gyfer chwarter 1, nodwyd nad oedd disgwyl i gyfradd sylfaen Banc Lloegr godi'n uwch na 5.25%. Dengys y dadansoddiad uchod bod y gyfradd o 5.25% wedi aros yr un fath yn ystod pedwar cyfarfod olynol o'r MPC. Er hynny, mae risg y bydd chwyddiant yn codi yn sgil problemau cyflenwi sy'n deillio o'r rhyfel yn Gaza a phroblemau gyda llongau ar y Môr Coch sydd wedi arwain at wrthdaro ehangach. Erbyn hyn, mae mwy o risg y gallai'r gyfradd sylfaen godi eto, mewn ymdrech i reoli chwyddiant.

**3.5** Mae'r Cyngor yn elwa ar gyfradd sylfaen uwch ar gyfer buddsoddi arian parod sydd dros ben, ac mae hynny wedi cynorthwyo'r Cyngor i ennill dros £1m mewn taliadau llog. Er hynny, mae benthyciadau'n costio mwy i'r Cyngor ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Mae benthyca allanol yn cael ei ohirio, felly, hyd nes na fydd y balansau arian parod yn ddigonol i barhau i ddefnyddio balansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol).

**4. Sefyllfa Fenthyca'r Cyngor 30 Medi 2023.**

**4.1** Benthyciadau BBGC – Mae benthyciadau allanol y Cyngor gyda'r BBGC yr un fath ag a nodwyd yn y DSRhT ym mis Mawrth 2023, ac eithrio bod £8k o'r prif swm gwreiddiol wedi cael eu had-dalu. Yr angen i osgoi benthyca tra bod cyfraddau llog yn codi sydd i gyfrif am hyn. Yn hytrach, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor Link Group ar fenthyca yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Y gost yn gysylltiedig â hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi, ond, serch hynny, mae costau benthyca'n uwch na'r enillion ar fuddsoddiadau. I sicrhau fod gan y Cyngor ddigon o arian i dalu ei gredydwyr a chyflogau, mae'n rhaid cadw digon o arian parod mewn cyfrifon galw ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y cyfrifon hyn yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn parhau i wneud arbedion rhesymol ar log taladwy wrth ddefnyddio balansau arian parod.

**4.2** Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr lawn o fenthyciadau BBGC sy'n parhau i fod yn ddyledus. Mae'r benthyciad hynaf yn dyddio o 1969, ac mae cyfraddau llog y mwyafrif o'r benthyciadau'n uwch na chyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y gyfradd log. Maent wedi cael eu trefnu yn ôl y flwyddyn ariannol pryd mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad. Yn ogystal, mae gwerth presennol y benthyciadau wedi'i gynnwys yn y golofn olaf gan fod gwerth arian yn gostwng dros amser. Mae hyn yn adlewyrchiad mwy realistig o effaith y benthyciadau yn y dyfodol. Cyfanswm y benthyciadau yw £119.564m, ond gwerth y benthyciadau hyn, ar ôl eu gostwng i'w gwerth presennol, yw £47.666m. Amcangyfrifir bod y benthyciad o £15m, sydd i'w ad-dalu yn 2068/2069, yn cyfateb i £3.190m ar brisiau heddiw, gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt o 3.5% ar gyfer y sector cyhoeddus.

**Tabl 2a- Benthyciadau BBGC sy'n Ddyledus - 30 Medi 2023**

| Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2023 | | | |
|---|---|---|---|
| | BBGC / BBGC Aeddfedu £'000 | BBGC EIP / Blwydd-dal £ '000 | Cyfanswm Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2023 £'000 |
| Benthyciad Dyledus | 119,400 | 164 | 119,564 |
| Hyd cyfartalog (blynyddoedd) | 30.82 | 4.06 | 35 |
| Cyfradd cyfartalog (%) | 4.53 | 9.42 | 14 |

**Tabl 2b – Proffil Aeddfedrwydd Benthyciadau BBGC sy'n ddyledus 30 Medi 2023**

| Nifer o flynyddoedd nes i'r benthyciad aeddfedu | Prifswm £'m | Gwerth Presennol o'r Prifswm £'m |
|---|---|---|
| <1 | 2 | 2 |
| 1 i 3 | 1 | 1 |
| 4 i 6 | 4 | 3 |
| 7 i 10 | 3 | 3 |
| 11 i 14 | 2 | 2 |
| 15 i 22 | 23 | 12 |
| 23 i 33 | 42 | 15 |
| 34 i 50 | 41 | 10 |
| | **120** | **48** |

**4.3** Benthyciadau Salix – Sefydliad Llywodraeth Cymru yw Salix ac mae'n darparu benthyciadau di-log, ac yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac er mwyn cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd y DSRhT 2023 yn dangos fod gan y Cyngor, yn Chwefror 2023, £3.099m o fenthyciadau di-log yn ddyledus i Salix. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi derbyn mwy o fenthyciadau a gymeradwywyd gan Salix gan fod prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyciadau Salix wedi datblygu ymhellach. Roedd gan y Cyngor £4.035m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2023. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn ddibynnol ar y cytundeb, ac mae 2 ad-daliad y flwyddyn yn cael eu gwneud fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden, yn ogystal â sawl prosiect cynaliadwy arall.

**Tabl 3 – Benthyciadau Eraill sy'n Ddyledus ar 30 Medi 2023.**

| Benthyciadau Eraill ar 30 Medi 2023 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Benthyciad Salix 1 £'000 | Benthyciad Salix 2 £'000 | Benthyciad Salix 3 £'000 | Benthyciad Salix 4 £'000 | Benthyciad Salix 5 £'000 | Benthyciad Salix 6 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Balans Dyledus | 16.5 | 114.0 | 349.8 | 158.4 | 1,873.7 | 1,522.9 | **4,035.3** |
| Dyddiad Ad-dalu | 2024/25 | 2025/26 | 2027/28 | 2029/30 | 2031/32 | 2035/36 | |
| Cyfradd Llog (%) | - | - | - | - | - | - | **-** |

## 5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**5.1** Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2023/24, sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2023.

**5.2** Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau'r elw (enillion) uchaf posibl ar ei fuddsoddiadau sy'n gymesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd, sy'n cyd-fynd â lefel y risg y mae'r Cyngor am ei gymryd.

**5.3** Parhaodd cyfraddau buddsoddi i gynyddu yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, ac mae'r Cyngor wedi elwa trwy fuddsoddi mewn buddsoddiadau diogel cyfnod penodol. Ym mis Awst 2023, cynyddodd Banc Lloegr y gyfradd sylfaenol i 5.25% ac mae wedi aros ar 5.25%. Mae mwy o risg y gallai'r gyfradd sylfaenol gyrraedd ei lefel uchaf y tu hwnt i 5.25% oherwydd y gwrthdaro presennol yn y Dwyrain Canol ac effaith cyflenwadau oherwydd bod llongau'n cael eu targedu yn y Môr Coch.

**5.4** **Teilyngdod i gael Credyd –** Ychydig o newidiadau sydd wedi bod i gyfraddau credyd yn ystod y chwarter dan sylw. Fodd bynnag, mae swyddogion yn parhau i fonitro'r rhain yn ofalus, a mesurau teilyngdod credyd eraill, i sicrhau mai dim ond gwrthbartïon priodol sy'n cael eu hystyried at ddibenion buddsoddi.

**5.5** **Meini Prawf ar gyfer Gwrthbartíon Buddsoddi –** Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn bodloni ofynion swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

**5.6** **Balans y Buddsoddiadau –** Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30 Medi 2023 oedd £45.345m, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Roedd yr elw ar y buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 yn £1.088m, a disgwylir i gyfanswm y llog y gellir ei dderbyn ar y buddsoddiadau a restrir isod fod yn £1.752m ar gyfer 2023/24. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae'r balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd yn ymarferol adnewyddu pob un o'r buddsoddiadau hyn pan fyddant wedi aeddfedu.

**Tabl 4 - Buddsoddiadau a ddelir rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023**

| Gwrthbarti | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Cyfradd Llog<br>% | Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 30 Medi 2023 | Prifswm Buddsoddi ar 30 Medi 2023 | Amcangyfrif o'r llog a enillir am y cyfnod<br>£ | Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog ar y buddsoddiadau hyn 2023/24<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NatWest - Cyfrif Galw - amcangyfrif am y cyfnod | 01/04/2023 | 31/03/2024 | 1.70% | 2,844,585 | 2,844,585 | 93,176 | 174,649 |
| Banc yr Alban - Cyfrif Galw | 18/04/2023 | 31/03/2024 | 5.14% | 7,500,000 | 7,500,000 | 156,591 | 349,341 |
| National Westminster Bank – Cyfnod Penodol | 11/01/2023 | 11/07/2023 | 4.10% | 10,000,000 | - | 113,452 | 113,452 |
| National Westminster Bank – Cyfnod Penodol | 11/07/2023 | 11/01/2024 | 5.88% | 10,000,000 | 10,000,000 | 130,488 | 296,416 |
| Santander | 10/02/2023 | 10/05/2023 | 4.00% | 7,500,000 | - | 32,055 | 32,055 |
| Santander | 10/05/2023 | 10/11/2023 | 4.76% | 7,500,000 | 7,500,000 | 139,866 | 179,967 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 06/04/2023 | 06/07/2023 | 4.17% | 5,000,000 | | 51,982 | 51,982 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 06/07/2023 | 08/01/2024 | 5.47% | 5,000,000 | 5,000,000 | 64,441 | 139,373 |
| Goldman Sachs | 22/12/2022 | 22/06/2023 | 3.83% | 7,500,000 | - | 64,533 | 64,533 |
| Goldman Sachs | 22/06/2023 | 22/12/2023 | 5.52% | 7,500,000 | 7,500,000 | 113,425 | 207,567 |
| Cyngor Wakefield | 22/08/2023 | 22/09/2023 | 5.23% | 5,000,000 | - | 22,210 | 22,210 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 25/10/2022 | 25/04/2023 | 3.80% | 5,000,000 | - | 12,493 | 12,493 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 25/04/2023 | 25/10/2023 | 4.30% | 5,000,000 | 5,000,000 | 93,068 | 107,795 |
| **Cyfanswm** | | | | | **45,344,585** | **1,087,779** | **1,751,832** |

**5.7** Gosododd y Cyngor gyllideb o £1.036m ac, ar ôl trosglwyddo llog sy'n ddyledus ar falensau ysgolion a'r CRT, fe barheir i amcangyfrifo y rhagorir ar y targed cyllidebol yma yn 2023/24

**5.8 Terfynau Awdurdodedig –** Gall swyddogion gadarnhau na aethpwyd yn uwch na'r terfynau awdurdedig o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023.

## 6. Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

### 6.1 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor

Mae Tabl 5 isod yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf yn chwarter 2:-

**Tabl 5 – Gwariant Cyfalaf**

| | Amcangyfrif Gwreiddiol 2023/24 £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig a Gymeradwywyd 2023/24 £'000 | Cyllideb hyd at 30 Medi 2023 £'000 | Gwariant hyd at fis Medi 2023 £'000 | Chwarter 2 Amcangyfrif ar gyfer Cyfanswm Gwariant 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 24,405 | 40,030 | 11,997 | 10,760 | 36,431 |
| CRT | 13,557 | 19,988 | 7,003 | 7,943 | 21,878 |
| **Cyfanswm** | **37,962** | **60,018** | **19,000** | **18,703** | **58,309** |

**6.1.1** Paratowyd y gyllideb wreiddiol ym mis Ionawr 2023 cyn gwybod beth oedd y llithriad o 2022/23. Mae'r gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd yn cynnwys £13.477m o lithriad o 2022/23, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin 2023. Cafodd cyllideb gyfalaf ychwanegol o £8.579m ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae £7.044m o'r cynlluniau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyllido gan grantiau. Mae'r newidiadau yn ystod y flwyddyn yn dangos bod disgwyl i swm benthyca digefnogaeth ostwng £2.797m, er bod disgwyl i fenthyca â chefnogaeth gynyddu £1.661m. Mae benthyca â chefnogaeth yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn y Grant Cynnal Refeniw blynyddol.

**6.1.2** Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £60.018m, ac roedd disgwyl i £58.309m o'r swm hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth 2024, fel yr adroddwyd yn yr adroddiad monitro cyfalaf chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, roedd £18.7m o wariant gwirioneddol wedi'i wneud yn erbyn cyllideb a broffiliwyd o £19m, a ddangosodd fod gwariant yn agos iawn at y gyllideb ar 30 Medi 2023.

### 6.2 Newidiadau o ran Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf

**6.2.1** Mae rhai newidiadau i'r modd y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn Tabl 6 isod, oherwydd y newidiadau i'r gyllideb gyfalaf a nodwyd yn 6.1.1 a 6.1.2 uchod.

**6.2.2** Mae Tabl 6 isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategol y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan daliadau refeniw ar gyfer ad-dalu dyledion (Darpariaeth Refeniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthyca uniongyrchol hwn hefyd. Gallai ffynhonnell y cyllid ar gyfer prosiectau hefyd newid ar ddiwedd y flwyddyn gan fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol i liniaru pwysau cyllido cyfalaf. Mae hyn hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ymateb i gynigion diweddarach o gyllid grant allanol lle gofynnir i'r Cyngor ddisodli'r cyllid yn y flwyddyn ond i sicrhau bod cyllid yn y flwyddyn nesaf i gyflawni amodau'r grant sy'n cael ei gynnig.

**Tabl 6 – Amcangyfrif o Gyllid Gwariant Cyfalaf**

| Cyllid Cyfalaf | 2023/24 Amcangyfrif gwreiddiol £'000 | 2023/24 Amcangyfrif Diwygiedig £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau Cyfalaf | 22,367 | 35,229 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 443 |
| Cronfeydd wrth gefn | 0 | 4,096 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,221 | 11,635 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,077 | 8,500 |
| Benthyca Digefnogaeth | 2,797 | 38 |
| Benthyciad | 0 | 77 |
| **Cyfanswm** | **37,962** | **60,018** |

## 6.3 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

### 6.3.1 Dangosydd Darbodus - Terfynau Dyled Allanol

Mae'r tabl isod yn dangos, ar 30 Medi 2023, fod y Cyngor ymhell o fewn y terfynau dyled a osodwyd gan Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2023/24 a rhagwelir y bydd £50k o fewn yr uchafswm ar fenthyca (terfyn awdurdodedig) a £45k o fewn y terfyn gweithredol ar 31 Mawrth 2024.

Y terfyn awdurdodedig yw'r swm uchaf posibl y caniateir i'r Cyngor ei fenthyca. Gellir newid hyn dim ond os yw'n fforddiadwy a gyda chaniatâd y Cyngor llawn. Dylid ystyried opsiynau eraill yn gyntaf, megis adolygu'r prosiectau a gyllidir drwy fenthyca neu ystyried ffynonellau cyllido eraill. Y terfyn gweithredol yw'r lefel o fenthyca lle mae'n rhaid iddo sbarduno'r adolygiad o opsiynau ar gyfer cyllido prosiectau neu gamau eraill i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig.

**Tabl 7 – Dyled Allanol o'i gymharu â Therfynau Benthyca**

| Dangosydd Darbodus - Terfynau Dyled Allanol | DSRhT 2023/24 £'000 | Swm o fewn Terfynau Dyled DSRhT ar 30 Medi 2023 £'000 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca 31 Mawrth 2023 £'000 | Amcangyfrif Swm o fewn Terfynau Dyled y DSRhT ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Awdurdodedig - benthyca cyffredinol | 175,000 | 51,400 | 175,000 | 49,851 |
| Terfyn Gweithredol - benthyca cyffredinol | 170,000 | 46,400 | 170,000 | 44,851 |
| Benthyca cyffredinol gwirioneddol 30 Medi 2023 | 123,600 | AMH | 125,149 | AMH |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 5,000 | 5,000 | - | - |

## 6.4. Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

**6.4.1** Mae Tabl 8 isod yn dangos y GCC, sef yr angen sylfaenol i fenthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Mae disgwyl i'r GCC fod £1.451m yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae hyn yn ymwneud a GCC cronfa'r Cyngor, ac yn ymwneud a llithriad o raglen gyfalaf 2022/23. Mae hyn yn cuddio'r ffaith fod cynnydd o £4.133m yn ymwneud a benthyca digefnogaeth sydd wedi'i ddyrannu i brosiectau sydd wedi llithro i 2023/24 a bod gostyngiad ym menthyca digefnogaeth o £2.759m yn ymwneud a'r rhaglen ysgolion Band B. Yn ogystal, mae llithriad o £0.077m ar brosiect a gyllidir gan fenthyciad Salix. Disgwylir newidiadau wrth i'r DSRhT gael ei baratoi cyn i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn gael ei chwblhau. Gall prosiectau cyfalaf hefyd lithro am amryw o resymau neu deuir o hyd i gyllid arall i leihau'r swm benthyca sydd ei angen.

**Tabl 8 – Newid yn y Gofynion Cyllido Cyfalaf 2023/24 ar 30 Medi 2023**

| Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | 2023/24 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000 | 2023/24 Amcangyfrif Diwygiedig £'000 |
|---|---|---|
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 111,697 | 113,148 |
| GCC – CRT | 38,286 | 38,286 |
| Cyfanswm GCC | 149,983 | 151,434 |
| **Symudiad net yn GCC** | - | 1,451 |

**6.4.2 Dadansoddiad o fenthyca**

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r GCC diwygiedig a ragwelir ar gyfer 2023/24 yw £151.434m. Mae hyn yn cynnwys £123.600m o fenthyca allanol, yn bennaf gan y BBGC gyda benthyciadau di-log Salix ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Y gwahaniaeth rhwng y GCC, sef faint o wariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthyca, a'r benthyca allanol / gwirioneddol a wneir, yw'r benthyca mewnol. Dyma lle mae'r Cyngor wedi defnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf er mwyn gohirio'r benthyca gwirioneddol cyhyd ag y bo modd, i arbed taliadau llog sy'n daladwy. Mae hyn yn unol â DSRhT 2023/24 a dyma'r dull a argymhellir gan Link Group, ymgynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor, oherwydd effaith yr economi ar gyfraddau llog a giltiau y mae cyfraddau llog BBGC yn seiliedig arnynt. Pan fydd balansau arian parod yn mynd yn rhy isel, bydd y benthyciad hwn yn cael ei allanoli trwy gymryd benthyciadau newydd gan y BBGC. Er mwyn lleihau'r taliadau cyllido cyfalaf, mae'n debygol y byddai benthyciadau tymor byrrach hyd at bum mlynedd yn cael eu trefnu.

**Tabl 9 – Proffil benthyca rhwng benthyca allanol a benthyca mewnol (defnyddio balansau arian parod)**

| | Y sefyllfa bresennol ar 30 Medi 2023 £'000 | Amcangyfrif o'r GCC Diwygiedig 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyca allanol | 123,600 | 125,154 |
| Benthyca mewnol | 27,834 | 26,280 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | - | - |
| **(blwyddyn diwedd y flwyddyn)** | **151,434** | **151,434** |

## 7. Aildrefnu Dyledion

**7.1** Mae'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod presennol, gan fod enillion gilt, sy'n tanategu cyfraddau BBGC a benthyciadau'r farchnad, wedi codi'n sylweddol. Cwblhawyd ymarfer ym mis Mehefin 2023, a oedd yn dangos y byddai newid benthyciadau presennol am fenthyciadau newydd yn denu disgowntiau ond, oherwydd y cyfraddau llog uwch, byddai'r llog a fyddai'n daladwy hyd nes y byddai'r benthyciadau hynny'n aeddfedu yn llawer iawn uwch ac, felly'n anfforddiadwy gan y byddai'r costau refeniw cyllido cyfalaf yn cynyddu.

## 8. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus

**8.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthyca fforddiadwy. Yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24. Dywed y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

**8.2** Mae'r holl weithrediadau rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## 9. Casgliad

**9.1** Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i adneuo balansau arian dros ben mewn banciau diogel yn y DU ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi elwa ar y cynnydd yn y gyfradd llog yn ystod y cyfnod gyda £1.088m mewn llog i'w dderbyn ar yr adneuon hyn. Rhagwelir y bydd y llog a amcangyfrifir y gellir ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn gyfan ar y buddsoddiadau sy'n weithredol yn ystod y cyfnod yn £1.752m. Mae tri o adneuon wedi'u trefnu ers 30 Medi 2023, a bydd adroddiad arnynt maes o law. Dylid nodi y bydd y CRT, yr ysgolion a'r symiau mae'r Cyngor yn ei ddal ar ran eraill yn derbyn cyfran o'r llog y gellir ei dderbyn yn seiliedig ar eu balansau ar 31 Mawrth 2024 a'r gyfradd llog gyfartalog o'r holl adneuon. Dylid nodi hefyd, bod balansau arian y Cyngor yn lleihau, felly, efallai na fydd y llog a geir yn y dyfodol yn cyrraedd y lefelau yn 2023/24.

**9.2** Nid yw'r Cyngor wedi gwneud cais am unrhyw fenthyciadau BBGC yn ystod y cyfnod i leihau llog sy'n daladwy a gohirio'r benthyca a nodwyd ar gyfer cyllido prosiectau cyfalaf penodol hyd nes y bydd angen. Mae'r Cyngor wedi benthyg benthyciadau di-log gan Salix ar gyfer prosiectau cyfalaf effeithlonrwydd ynni / carbon isel.

**9.3** I grynhoi, mae safbwynt Rheoli Trysorlys y Cyngor yn parhau'n sefydlog gyda gwell adenillion ar fuddsoddiadau na ragwelwyd a'r holl ddangosyddion darbodus yn parhau o fewn y ffiniau a'r targedau a osodwyd yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24. Nid oes unrhyw fenthyca allanol newydd wedi digwydd wrth i strategaeth y Cyngor barhau i fod i ddefnyddio benthyca mewnol i gyllido gwariant cyfalaf ond wrth i arian wrth gefn gael ei ddefnyddio (cydbwyso'r gyllideb, lleihau balansau ysgolion, defnydd o arian wrth gefn y CRT er mwyn cyllido gwariant cyfalaf) mae lefel yr arian parod sydd ar gael yn lleihau sydd o ganlyniad wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fuddsoddi a'r lefel o fenthyca mewnol y gellir ei gefnogi. Bydd hyn yn gofyn am newid strategaeth yn y dyfodol gan y bydd angen ymgymryd â benthyca allanol ychwanegol.

**MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**A SWYDDOG ADRAN 151**

| Aeddfedrwydd - Blwyddyn Ariannol | Cyfeirnod Benthyciad BBGC | Prifswm £ | Cyfradd Llog % | Gwerth Presennol Prifswm Benthyciad ar 3.5% £ |
|---|---|---|---|---|
| 2023/2024 | 475890 | 1,000,000 | 8.5 | |
| | 473692 | 569,200 | 7.875 | |
| | 475927 | 284,600 | 8.5 | |
| Cyfanswm 2023/2024 | | 1,853,800 | | 1,853,800 |
| 2026/2027 | 474962 | 853,800 | 8.625 | |
| | 503948 | 527,601 | 3.67 | |
| Cyfanswm 2026/2027 | | 1,381,401 | | 1,245,945 |
| 2027/2028 | 473954 | 674,502 | 7 | |
| | 493424 | 1,000,000 | 5.2 | |
| | 503949 | 490,601 | 3.73 | |
| Cyfanswm 2027/2028 | | 2,165,103 | | 1,886,762 |
| 2028/2029 | 400773 | 20,064 | 9.5 | |
| | 503950 | 262,440 | 3.8 | |
| Cyfanswm 2028/2029 | | 282,504 | | 237,861 |
| 2029/2030 | 401356 | 5,903 | 9.25 | |
| | 401772 | 3,934 | 9.25 | |
| | 402384 | 5,962 | 9.375 | |
| | 402971 | 1,156 | 9.125 | |
| | 403625 | 7,149 | 9.25 | |
| | 406721 | 12,590 | 9.25 | |
| | 474795 | 853,800 | 8.625 | |
| | 503951 | 684,697 | 3.85 | |
| Cyfanswm 2029/2030 | | 1,575,192 | | 1,281,419 |
| 2030/2031 | 407327 | 8,981 | 9.375 | |
| | 408828 | 5,651 | 9.25 | |
| | 409994 | 7,992 | 9.75 | |
| | 410218 | 4,879 | 9.75 | |
| | 410734 | 2,153 | 9.625 | |
| | 410915 | 8,782 | 9.75 | |
| | 411471 | 7,912 | 9.25 | |
| | 503952 | 450,706 | 3.91 | |
| Cyfanswm 2030/2031 | | 497,055 | | 390,681 |
| 2031/2032 | 475733 | 1,280,700 | 8.625 | |
| | 503953 | 660,449 | 3.96 | |
| Cyfanswm 2031/2032 | | 1,941,149 | | 1,474,131 |
| 2032/2033 | 422775 | 26,935 | 9.25 | |
| | 423932 | 33,446 | 9.5 | |
| | 426595 | 1,252 | 9.875 | |
| | 503954 | 314,886 | 4.01 | |
| Cyfanswm 2032/2033 | | 376,518 | | 276,263 |
| 2033/2034 | 503955 | 636,565 | 4.05 | |
| Cyfanswm 2033/2034 | | 636,565 | | 451,273 |
| 2034/2025 | 503956 | 623,834 | 4.09 | |
| Cyfanswm 2034/2025 | | 623,834 | | 427,292 |
| 2035/2036 | 503957 | 611,357 | 4.13 | |
| Cyfanswm 2035/2036 | | 611,357 | | 404,586 |

| Aeddfedrwydd - Blwyddyn Ariannol | Cyfeirnod Benthyciad BBGC | Prifswm £ | Cyfradd Llog % | Gwerth Presennol Prifswm Benthyciad ar 3.5% £ |
|---|---|---|---|---|
| 2036/2037 | 503958 | 599,130 | 4.16 | |
| Cyfanswm 2036/2037 | | 599,130 | | 383,086 |
| 2037/2038 | 503959 | 587,147 | 4.18 | |
| Cyfanswm 2037/2038 | | 587,147 | | 362,729 |
| 2038/2039 | 503960 | 225,467 | 4.2 | |
| Cyfanswm 2038/2039 | | 225,467 | | 134,579 |
| 2039/2040 | 493437 | 5,000,000 | 4.95 | |
| Cyfanswm 2039/2040 | | 5,000,000 | | 2,883,530 |
| 2040/2041 | 493438 | 3,500,000 | 4.95 | |
| Cyfanswm 2040/2041 | | 3,500,000 | | 1,950,213 |
| 2042/2043 | 503961 | 999,781 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2042/2043 | | 999,781 | | 520,042 |
| 2043/2044 | 503962 | 1,020,120 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2043 / 2044 | | 1,020,120 | | 512,678 |
| 2044/2045 | 503963 | 1,009,718 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2044 / 2045 | | 1,009,718 | | 490,290 |
| 2045/2046 | 503964 | 11,464,215 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2045 / 2046 | | 11,464,215 | | 5,378,444 |
| 2050/2051 | 490892 | 2,000,000 | 4.15 | |
| Cyfanswm 2050/2051 | | 2,000,000 | 4.15 | 790,024 |
| 2052/2053 | 491677 | 6,800,000 | 4.2 | |
| | 492220 | 5,000,000 | 4.05 | |
| | 492698 | 6,000,000 | 4.25 | |
| | 493722 | 5,000,000 | 4.55 | |
| | 493723 | 1,138,400 | 4.55 | |
| | 493906 | 4,300,000 | 4.55 | |
| Cyfanswm 2052 / 2053 | | 28,238,400 | | 10,412,858 |
| 2054/2055 | 474612 | 3,000,000 | 8.375 | |
| Cyfanswm 2054 / 2055 | | 3,000,000 | | 1,032,691 |
| 2055/2056 | 476679 | 1,500,000 | 8 | |
| | 476783 | 2,000,000 | 7.875 | |
| Cyfanswm 2055 / 2056 | | 3,500,000 | | 1,164,064 |
| 2056/2057 | 478340 | 2,000,000 | 7.875 | |
| | 479464 | 3,000,000 | 7.125 | |
| Cyfanswm 2056 / 2057 | | 5,000,000 | | 1,606,714 |
| 2057/2058 | 479465 | 3,000,000 | 7.125 | |
| | 479802 | 3,000,000 | 6.875 | |
| | 480214 | 2,000,000 | 6.5 | |
| | 480215 | 512,854 | 6.5 | |
| Cyfanswm 2057/2058 | | 8,512,854 | | 2,643,037 |
| 2059/2060 | 483423 | 1,763,308 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2059/2060 | | 1,763,308 | | 511,064 |
| 2064/2065 | 508920 | 10,000,000 | 2.24 | |
| Cyfanswm 2064 / 2065 | | 10,000,000 | | 2,357,791 |
| 2066/2067 | 505939 | 6,200,000 | 2.2 | |
| Cyfanswm 2066 / 2067 | | 6,200,000 | | 1,412,397 |
| 2068/2069 | 508376 | 15,000,000 | 2.49 | |
| Cyfanswm 2068/2069 | | 15,000,000 | | 3,189,889 |
| **Cyfanswm** | | **119,564,619** | | **47,666,132** |

## Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r Rhagolygon

- Yn ystod hanner cyntaf 2023/24:-
  - Bu cynnydd pellach o 100bps mewn cyfraddau llog, gan fynd â'r Gyfradd Banc o 4.25% i 5.25% ac, o bosibl, roedd y tynhau ar ei lefel uchaf.
  - Mae giltiau tymor byr, canolig a hir yn parhau'n uchel wrth i chwyddiant godi, er mawr syndod.
  - Gostyngiad o 0.5% m/m mewn CMC gwirioneddol ym mis Gorffennaf, yn bennaf oherwydd mwy o streiciau.
  - Bu gostyngiad o ran chwyddiant CPI o 8.7% ym mis Ebrill i 6.7% ym mis Awst, ei gyfradd isaf ers mis Chwefror 2022, ond yr uchaf o hyd yn y G7.
  - Bu gostyngiad o ran chwyddiant craidd CPI i 6.2% ym mis Awst o 7.1% ym mis Ebrill a mis Mai - ar ei uchaf ers 31 mlynedd ar y pryd.
  - Mae amodau'r farchnad lafur wedi arafu, ond does dim tystiolaeth eto ei fod wedi arwain at ostwng twf mewn cyflogau (wrth i dwf 3 mis fesul blwyddyn o enillion cyfartalog godi i 7.8% ym mis Awst, ac eithrio taliadau bonws).
- Mae'r cwymp 0.5% m/m mewn CMC ym mis Gorffennaf yn awgrymu bod twf sylfaenol wedi colli momentwm ers yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd rhywfaint o'r cwymp ym mis Gorffennaf oherwydd bod bron i ddwywaith cymaint o ddiwrnodau gwaith wedi'u colli oherwydd streiciau ym mis Gorffennaf (281,000) nag ym mis Mehefin (160,000). Ond gydag allbwn yn gostwng mewn 10 allan o'r 17 sector, mae'n ymddangos bod awgrym o wendid sylfaenol.
- Yn sgil y gostyngiad yn y Mynegeion Rheolwr Prynu cyfansawdd o 48.6 ym mis Awst i 46.8 ym mis Medi roedd ar ei lefel isaf ers i gyfnodau clo COVID-19 leihau gweithgaredd ym mis Ionawr 2021. O edrych ar y ffigyrau moel, mae'n gyson â'r cynnydd o 0.2% ch/ch mewn CMC gwirioneddol yn y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin, gyda gostyngiad o hyd at 1% yn dilyn yn ail hanner 2023.
- Nid yw'r cynnydd o 0.4% m/m o ran lefelau gwerthiant manwerthu ym mis Awst cystal ag y mae'n edrych gan ei fod yn adlewyrchu'n rhannol y cynnydd mewn gwerthiant ar ôl y tywydd anarferol o wlyb ym mis Gorffennaf. Roedd lefel gwerthiant ym mis Awst 0.2% yn is na'r lefel ym mis Mai, gan awgrymu bod llawer o'r gwytnwch o ran gweithgarwch manwerthu yn hanner cyntaf y flwyddyn wedi lleihau.
- Wrth i effaith gynyddol cyfraddau llog uwch ddwysáu dros y chwe mis nesaf, credwn y bydd yr economi yn parhau i golli momentwm ac y bydd yn wynebu rhywfaint o ddirwasgiad yn fuan. Mae'r galw mawr am lafur, twf cyflym mewn cyflogau a chymorth ariannol gan y llywodraeth i gyd wedi cefnogi incwm aelwydydd dros y flwyddyn ddiwethaf. A gyda chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) heibio ei lefel uchaf a'r ffaith bod disgwyl iddo ostwng ymhellach, mae'r economi wedi mynd trwy'r argyfwng costau byw heb fynd i ddirwasgiad. Ond er bod y gwaethaf a'r cwympo mwyaf mewn incwm gwario gwirioneddol aelwydydd y tu cefn i ni, mae'r ffaith bod y llywodraeth yn mynd i roi'r gorau'n raddol i'r pecynnau cymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod yr argyfwng ynni yn golygu bod incwm gwirioneddol yn annhebygol o wella'n sylweddol. Bydd cyfraddau llog uwch yn taro'n galed yn fuan hefyd. Rydym yn disgwyl i Fanc Lloegr gadw cyfraddau llog, yn fwy na thebyg, ar y lefel uchaf o 5.25% tan ail hanner 2024. Mae cyfraddau morgais yn debygol o aros yn uwch na 5.0% am tua blwyddyn.
- Er bod y farchnad lafur yn dynn parhaodd i lacio, gyda chyflogaeth yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf yn gostwng o 207,000. Mae'r gostyngiad pellach yn nifer y swyddi gwag o 1.017m ym mis Gorffennaf i 0.989m ym mis Awst yn awgrymu bod y farchnad lafur wedi llacio ychydig ymhellach ers mis Gorffennaf. Dyma'r tro cyntaf iddi ostwng o dan 1m ers Gorffennaf 2021. Ar 3.0% ym mis Gorffennaf, ac yn debygol o fod wedi gostwng i 2.9% ym mis Awst, mae'r gyfradd swyddi gwag yn agosáu at 2.5%, a fyddai'n gyson â thwf cyflog arafach. Yn y cyfamser, mae'r gostyngiad o 48,000 yn y cyflenwad o weithwyr yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf yn gwrthbwyso rhywfaint o'r llacio yn y farchnad lafur. Roedd hynny oherwydd cynnydd o 63,000 mewn anweithgarwch yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf wrth i fwy o bobl adael y farchnad lafur oherwydd salwch tymor hir neu i fynd i mewn i addysg. Mae'r cyflenwad llafur yn dal i fod 0.3% yn is na'i lefel cyn y pandemig ym mis Chwefror 2020.
- Ond nid yw'r arafu yn amodau'r farchnad lafur wedi arwain at ostwng twf mewn cyflogau. Er i gyfradd twf enillion cyfartalog lacio'n sydyn o lefel uwch ddiwygiedig +2.2% ym mis Mehefin i -0.9% ym mis Gorffennaf, roedd llawer o hynny oherwydd nad oedd y taliadau bonws untro i staff y GIG ym mis Mehefin yn cael eu hailadrodd ym mis Gorffennaf. Cododd y gyfradd uchaf 3 mis fesul blwyddyn o 8.4% (wedi newid o 8.2%) i 8.5%, a olygai fod y twf yng nghyflogau'r DU yn parhau i fod yn llawer cyflymach nag yn yr UD ac yn ardal yr Ewro. Ar ben hynny, er bod cyfradd cyflogau yn y sector preifat, a fesurir yn agos gan Fanc Lloegr, wedi gostwng ychydig ym mis Gorffennaf, o 8.2% am 3 mis fesul blwyddyn ym mis Mehefin i 8.1% am 3 mis fesul blwyddyn, mae'n dal ymhell uwchlaw'r hyn a ragwelwyd gan Fanc Lloegr, sef gostyngiad i 6.9% ym mis Medi.

- Bu gostyngiad o ran chwyddiant CPI o 6.8% ym mis Gorffennaf i 6.7% ym mis Awst, y gyfradd isaf ers mis Chwefror 2022. Y syndod cadarnhaol mwyaf oedd y gostyngiad mewn chwyddiant CPI craidd, lle bu gostyngiad o 6.9% i 6.2%. Mae hynny'n gwyrdroi'r holl gynnydd ers mis Mawrth ac yn golygu bod y bwlch rhwng y DU a mannau eraill wedi lleihau (chwyddiant craidd yr UD yw 4.4% ac, yn ardal yr Ewro, mae'n 5.3%). Bu gostyngiad mewn chwyddiant nwyddau craidd o 5.9% i 5.2% ac mae'r llacio pellach mewn chwyddiant prisiau cynhyrchwyr nwyddau craidd, o 2.2% ym mis Gorffennaf i'r lefel isaf mewn 29 mis o 1.5% ym mis Awst, yn awgrymu y bydd yn y pen draw yn gostwng yn agos at sero. Ond y datblygiad mwyaf cadarnhaol oedd y gostyngiad mewn chwyddiant gwasanaethau o 7.4% i 6.8%. Mae hynny hefyd yn gwyrdroi'r rhan fwyaf o'r cynnydd ers mis Mawrth ac yn mynd ag ef yn is na'r rhagolwg a gyhoeddwyd gan Fanc Lloegr ddechrau mis Awst, sef 7.2%.
- Yn ei gyfarfod polisi ariannol diweddaraf ar 20 Medi, gadawodd Banc Lloegr gyfraddau llog heb eu newid ar 5.25%. Mae'n ymddangos bod y llacio o ran chwyddiant CPI gwan ym mis Awst, y llacio diweddar yn y farchnad lafur a'r arolygon gweithgarwch pesimistaidd wedi argyhoeddi Banc Lloegr ei fod eisoes wedi codi digon ar y cyfraddau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y penderfyniad y bleidlais yn "agos". Pleidleisiodd pum aelod MPC (Bailey, Broadbent, Dhingra, Pill a Ramsden) dros ddim newid a phleidleisiodd y pedwar arall (Cunliffe, Greene, Haskel a Mann) dros godiad o 25bps.
- Fel Fed UDA, mae Banc Lloegr eisiau i'r marchnadoedd gredu yn y naratif uwch am hirach. Nid oedd y datganiad yn dweud bod cyfraddau wedi cyrraedd y lefel uchaf ac unwaith eto dywedodd os oedd tystiolaeth o bwysau chwyddiant mwy parhaus "byddai angen tynhau ymhellach o ran polisi". Dywedodd y Llywodraethwr Bailey, "byddwn yn gwylio'n agos i weld a oes angen rhagor o gynnydd". Fe wnaeth y Banc hefyd gadw'r canllawiau llym y bydd cyfraddau'n parhau i "gyfyngu'n ddigonol am gyfnod digonol".
- Mae'r naratif hwn yn gwneud synnwyr gan nad yw Banc Lloegr am i'r marchnadoedd benderfynu y bydd uchafswm mewn cyfraddau yn cael ei ddilyn yn fuan gan doriadau mewn cyfraddau llog, a fyddai'n llacio amodau ariannol ac yn tanseilio ei ymdrechion i ddileu chwyddiant. Mae'r iaith hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i Fanc Lloegr ymateb i ddatblygiadau newydd. Gallai cynnydd mewn chwyddiant gwasanaethau, cynnydd arall mewn twf cyflogau a / neu naid arall ym mhrisiau olew ei orfodi i godi cyfraddau yn y cyfarfod nesaf ar 2 Tachwedd, neu hyd yn oed oedi ym mis Tachwedd a chodi cyfraddau ym mis Rhagfyr.
- Bu gostyngiad yn enillion Giltiau 10 mlynedd o uchafbwynt o 4.74% ar 17 Awst i 4.44% ar 29 Medi, yn bennaf gan fod buddsoddwyr wedi ailedrych ar eu disgwyliadau o ran cyfraddau llog. Ond hyd yn oed ar ôl y gostyngiad diweddar, mae'r cynnydd mewn enillion Giltiau wedi bod yn uwch na'r cynnydd yn y rhan fwyaf o gynnyrch arall llywodraeth y Farchnad Ddatblygedig ers dechrau'r flwyddyn. Wrth edrych ymlaen, unwaith y bydd chwyddiant yn arafu, bydd enillion Giltiau'n lleihau ymhellach. Bydd dirwasgiad (cymharol) dros y ddau chwarter nesaf yn cefnogi'r safbwynt hwn os yw'n helpu i lacio'r farchnad lafur (diweithdra uwch / llai o gynnydd mewn cyflogau).
- Gwanhaodd y bunt o'i lefel uchel o $1.30 yng nghanol mis Gorffennaf i $1.21 ddiwedd mis Medi. Yn hanner cyntaf y flwyddyn, fe gododd y bunt yn ôl yn gryf ar ôl llanast Truss yr hydref diwethaf. Roedd y codiad hwnnw'n cael ei yrru i raddau helaeth gan y newid sylweddol yn nisgwyliadau cyfraddau llog y DU. Fodd bynnag, dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae disgwyliadau o ran cyfraddau llog wedi gostwng yn sydyn wrth i chwyddiant ddechrau gostwng, wrth i dwf arafu, a galwodd Banc Lloegr ar roi diwedd ar ei gylch o godi cyfraddau.
- Mae'r FTSE 100 wedi codi mwy na 2% ers diwedd mis Awst, o tua 7,440 ar 31 Awst i 7,608 ar 29 Medi. Mae hyn yn wedi cael ei yrru'n bennaf gan brisiau ynni uwch a roddodd hwb i brisiau cwmnïau ynni. Mae nifer cymharol uchel y FTSE 100 o gwmnïau ynni yn helpu i esbonio pam y gwnaeth ecwiti'r DU berfformio'n well nag ecwiti yr UD ac ardal yr Ewro ym mis Medi. Serch hynny, mor ddiweddar â 21 Ebrill roedd y FTSE 100 yn 7,914.

Paratowyd yr atodiad hwn gan Link Group – Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

**Dadansoddiad Cyfraddau BBGC 1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023**


Er nad oedd angen benthyciadau BBGC newydd ar y Cyngor yn ystod y cyfnod, mae'r manylion isod yn darparu'r wybodaeth am newidiadau yng nghyfraddau BBGC yng nghyd-destun cyfraddau llog a giltiau cynyddol.


**Cyfraddau sicrwydd aeddfedrwydd BBGC (giltiau ynghyd â 80bps) am y flwyddyn hyd yma hyd at 29 Medi 2023**

Roedd enillion giltiau a chyfraddau sicrwydd BBGC yn gyffredinol yn cynyddu trwy gydol hanner cyntaf 2023/24. Ddechrau mis Ebrill, y gyfradd 5 mlynedd oedd y rhan rataf o'r gromlin, sef 4.14%, tra bod y gyfradd 25 mlynedd yn gymharol gostus ar 4.58%.

Ym mis Gorffennaf, gwelwyd cyfraddau tymor byr yn cyrraedd uchafbwynt ar eu mwyaf costus. Cynyddodd y gyfradd 1 flwyddyn i 6.36% a'r gyfradd 5 mlynedd i 5.93%. Er, maes o law, bu gostyngiad yn nisgwyliadau cyfraddau tymor byr, symudodd y rhai tymor canolig yn uwch trwy Awst a chododd y gyfradd 10 mlynedd yn uwch i 5.51% a'r gyfradd 25 mlynedd i 5.73%. Roedd y gyfradd 50 mlynedd yn 4.27% ar 5 Ebrill ond cododd i 5.45% ar 28 Medi.

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfraddau yn gostwng yn ôl dros y ddwy neu dair blynedd nesaf wrth i chwyddiant ostwng. Disgwylir i'r mesur chwyddiant CPI ostwng yn is na 2% yn ail hanner 2024, ac rydym yn rhagweld y bydd cyfraddau 50 mlynedd yn 3.90% erbyn diwedd mis Medi 2025. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd a fydd y cyfraddau'n gostwng mor bell â hynny oherwydd lefel y giltiau yn y farchnad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.






**CYFRADDAU BBGC UCHEL / ISEL / CYFARTALOG AR GYFER 01.04.23 – 29.09.23**

| | Blwyddyn | 5 Mlynedd | 10 Mlynedd | 25 Mlynedd | 50 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Isel | 4.65% | 4.14% | 4.20% | 4.58% | 4.27% |
| Dyddiad | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 05/04/2023 |
| Uchel | 6.36% | 5.93% | 5.51% | 5.73% | 5.45% |
| Dyddiad | 06/07/2023 | 07/07/2023 | 22/08/2023 | 17/08/2023 | 28/09/2023 |
| Cyfartaledd | 5.62% | 5.16% | 5.01% | 5.29% | 5.00% |
| Wedi ei Daenu | 1.17% | 1.79% | 1.31% | 1.15% | 1.18% |

- Mae'r cyfraddau BBGC cyfredol wedi'u gosod fel elw dros enillion giltiau fel a ganlyn:-

  - Mae **Cyfradd Safonol BBGC** yn gilt ynghyd â 100 pwynt sylfaen (G+100bps)
  - Mae **Cyfradd Sicrwydd BBGC (GF)** yn gilt ynghyd â 80 pwynt sylfaen (G+80bps)
  - Mae **Cyfradd Isadeiledd Lleol BBGC** yn gilt ynghyd â 60 pwynt sylfaen (G+60bps)
  - Mae **Cyfradd Sicrwydd BBGC (CRT)** yn gilt ynghyd â 40 pwynt sylfaen (G+40bps)

- Bydd **Banc Isadeiledd y DU** yn rhoi benthyg i awdurdodau lleol sy'n bodloni meini prawf ei gynllun ar gyfradd a bennir ar hyn o bryd yn gilt ynghyd â 40bps (G+40bps).

Patatowyd yr atodiad hwn gan Link Group – Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **Dyddiad:** | **7 MAWRTH 2024** |
| **Pwnc / Testun:** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

- Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i God Darbodus CIPFA a Chodau Rheoli Trysorlys CIPFA, y cyhoeddwyd y fersiynau diweddaraf ohonynt yn 2021.

- Mae'r DSRhT hwn yn cydymffurfio â'r gofynion yn y ddau god ac yn nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal gweithgareddau rheoli trysorlys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau'r Cyngor yn ddiogel ac yn ddigon hygyrch fel bod digon o arian parod ar gyfer taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r DSRhT, fel sy'n ofynnol gan y codau, hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau bod lefelau benthyca'r Cyngor yn parhau'n ddarbodus a fforddiadwy.

- Cyflwynodd Cod Darbodus CIPFA, 2021 (A29) adroddiadau monitro yn amlach ar waith rheoli'r trysorlys. Cyn fersiwn 2021 o'r cod, adolygiad canol blwyddyn o reoli'r trysorlys ac adroddiad monitro alldro diwedd blwyddyn rheoli'r trysorlys oedd y safonau gofynnol. Yn unol â'r Cod Darbodus diwygiedig, mae'r Cyngor bellach yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar reoli'r trysorlys sy'n arwain at adroddiad alldro rheoli'r trysorlys, ar ddiwedd y flwyddyn.

- Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth fonitro ar y dangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol ac a nodir yn yr atodiadau yn y DSRhT. Mae'r adroddiadau'n amlygu unrhyw amrywiadau sylweddol o'r dangosyddion cymeradwy ac yn cynnwys rhagolygon ar fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen i'r adroddiadau ychwanegol fynd i'r Cyngor llawn, felly, cyflwynir y rhain i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo. Bydd adroddiadau ar adolygiad canol blwyddyn ac alldro rheoli'r trysorlys yn parhau i gael eu harchwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**Argymhellion**

- I gymeradwyo y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

| | | |
|---|---|---|
| **C – Pam fo hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Amherthnasol | | |
| **DD – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae rheoli'r trysorlys yn allweddol i hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion tymor hir yr Ynys gan fod cynlluniau benthyca yn helpu i gyllido'r gwariant cyfalaf i sicrhau bod asedau ar gael rŵan ac yn y dyfodol. Rhaid i gynlluniau'r Trysorlys hefyd fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol dan anfantais oherwydd penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canolig. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Rhaid i strategaeth a gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy i liniaru'r effaith ar y dyfodol. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyca, megis Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill a gyllidir gan fenthyca, helpu i leihau costau yn y dyfodol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn aml yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion / estyniadau newydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'u cyllido / yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorir â Dinasyddion Môn bob blwyddyn am y rhaglen gyfalaf flynyddol, y mae rhywfaint ohoni'n dibynnu ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Ymgynghorir yn fanylach ar rai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Bydd asedau newydd a gyllidir drwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni ailwampio ac adnewyddu blynyddol hefyd yn helpu i gynyddu hygyrchedd a galluogi amrywiaeth. |
| **6** | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Mae'r DSRhT yn ofynnol bob blwyddyn. |
| **7** | **Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir trwy fenthyca yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr Iaith Gymraeg a chynnydd ynddi, megis yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a adeiladwyd yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)** | |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151(gorfodol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 ydi hwn |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Arall** | Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith i:-<br>• Argymell i'r Cyngor llawn i dderbyn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2024/25, heb unrhyw newidiadau pellach. |

**F - Atodiadau:**

1. Egwyddorion Allweddol Rheoli'r Trysorlys
2. Cefndir economaidd
3. Rhagolygon graddfeudd llog
4. Proffil benthyciadau'n aeddfedu
5. Datganiad Polisi DRI
6. Buddsoddiadau penodol ac amhenodol
7. Meini prawf gwrthbartïon
8. Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddiadau
9. Cynllun dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151
10. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
11. Eglurhad o Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys
12. Geirfa o ddangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys, a gwybodaeth amdanynt

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):**

- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023;
- Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2022/23, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 26 Hydref 2023;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Mehefin 2023;
- Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023;
- Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 8 Chwefror 2024;
- Strategaeth Gyfalaf 2024/28 – Pwyllgor Gwaith, 29 Chwefror 2024

ATODIAD A


**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS**

**STRATEGAETH FUDDSODDI BLYNYDDOL, DATGANIAD POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF A DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2024/25 yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canolig. Mae wedi'i gwblhau mewn perthynas â Chod Darbodus CIPFA 2021 a Chod Trysorlys CIPFA 2021.

**1.2** Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion a'i weledigaeth strategol. Mae cylch strategol y Cyngor isod yn dangos bod Cynllun y Cyngor yn ganolog i waith y Cyngor. Rhaid i holl gynlluniau strategol a gweithredol y Cyngor fod yn gyson â Chynllun y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau a'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol y Cynllun. Mae'r cylch yn dangos mai Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, ochr yn ochr â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yw'r strategaethau ariannol allweddol i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth allweddol a gofynion CIPFA a'u bod yn canolbwyntio ar fodloni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllid y Cyngor yn targedu'r swyddogaethau a'r gwasanaethau cywir i gyflawni nodau'r Cyngor.




## 2. CEFNDIR

**2.1** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."

**2.2** Mae rheoli'r trysorlys yn ymwneud â thasgau sy'n sicrhau bod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd a buddsoddi arian dros ben, dros yr hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau'r DU sydd â statws credyd uchel. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch ei gronfeydd yn unol â'r Cod ac yn sicrhau bod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel bod y Cyngor yn gallu talu cyflenwyr, staff a budd-daliadau, ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw, mae'r Cyngor yn buddsoddi i gael y gyfradd llog uchaf posib o fewn y gronfa o sefydliadau sy'n ddiogel ac yn cwrdd â meini prawf y strategaeth hon. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor i sicrhau nad yw costau benthyca'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthyca yn fforddiadwy.

**2.3** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig, gan bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd gweithgareddau'r trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod, fel rheol, yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

## 3. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS YNYS MÔN

**3.1** Yn ogystal â'r polisïau risg corfforaethol, y gofrestr, y camau gweithredu a'r monitro, mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb am stiwardiaeth dda o arian cyhoeddus o ddifri a bydd holl arferion rheoli'r trysorlys yn diogelu arian cyhoeddus. Mae'n amhosib dileu pob risg, ond bydd holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoli i leihau'r risg y mae cyllid y Cyngor yn agored iddo, fel a ganlyn:-

**3.1.1** Bydd penderfyniadau buddsoddi bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad yn gyntaf. Hylifedd yw'r ail ystyriaeth, gan fod angen i'r Cyngor gael mynediad ar unwaith at ddigon o arian i dalu taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yn olaf, ni fydd y Cyngor yn ceisio uchafu'r incwm a enillir ar fuddsoddiadau oni bai fod y buddsoddiadau'n hynod ddiogel a bod digon o fynediad ar unwaith i gronfeydd.

**3.1.2** Dim ond mewn banciau a chymdeithasau adeiladu hynod ddiogel sydd â statws credyd uchel y bydd adneuon banc, neu fuddsoddiadau mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu, yn cael eu rhoi, a hynny'n unol â'r meini prawf yn Atodiad 7.

**3.1.3** Bydd benthyciadau i awdurdodau lleol yn cael eu hystyried ar ôl cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

**3.1.4** Caniateir buddsoddiadau mewn cronfeydd marchnad arian cyfradd AAA.

**3.1.5** Bydd y Cyngor yn anelu at gadw isafswm o £10m mewn cyfrifon mynediad ar unwaith, os oes digon ym malansau'r Cyngor.

**3.1.6** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, yng nghyd-destun gwarchod arian cyhoeddus.

**3.1.7** Bydd y Cyngor yn benthyca'n fewnol os oes digon o falansau arian parod, er mwyn leihau neu ohirio llog sy'n daladwy, yn enwedig pan fo cyfraddau llog yn codi.

**3.1.8** Os oes angen benthyca at ddibenion cymwys, dylai unrhyw fenthyciadau ystyried a yw cyfraddau'n debygol o godi neu ostwng yn y tymor canolig. Dylai benthyciadau tymor byr liniaru'r llog sy'n daladwy os yw cyfraddau'n debygol o ostwng yn y tymor byr neu'r tymor canolig, a dylid ystyried benthyciadau tymor hwy os rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn cynyddu yn y tymor canolig i'r tymor hir.

**3.1.9** Mae gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor a bydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau bod buddsoddiadau'n ddiogel, yn hygyrch ac y gwneir y gorau o'r llog derbyniadwy o fewn buddsoddiadau diogel. Bydd benthyca yn seiliedig ar ofynion Strategaeth Gyfalaf 2024/28 a rhaglenni blynyddol, ond dim ond os yw'n fforddiadwy, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa ariannol ar y pryd a gwybodaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

**3.1.10** Ni ellir gosod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar ei ben ei hun, a rhaid ystyried y sefyllfa economaidd gan fod hyn yn effeithio ar gyfraddau llog buddsoddi, cost benthyca a chryfder ariannol gwrthbartïon.

## 4. CYD-DESTUN ALLANOL

**4.1** Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn Atodiad 2. Mae Tabl 1 isod yn dangos rhagolygon cyfradd sylfaenol diweddar Banc Lloegr, chwyddiant a chyfraddau Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a ddarparwyd gan Link Group.

**Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaenol y Banc, Chwyddiant a Chyfraddau BBGC Ionawr 2024 i Medi 2025**

| | 15 Ion 2024 | Maw 2024 | Meh 2024 | Medi 2024 | Rhag 2024 | Maw 2025 | Meh 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 5.25% | 5.25% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% | 3.00% |
| Chwyddiant CPI – Economeg Cyfalaf | Rhag - 3.7% | 3.8% | 2.9% | 0.80% | 0.70% | 0.90% | 0.6% | 1.2% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 5 ml (%) | 4.63% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.80% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 10 ml (%) | 4.86% | 4.70% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 25 ml (%) | 5.43% | 5.20% | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.60% | 4.40% | 4.30% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 50 ml (%) | 5.24% | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.40% | 4.20% | 4.10% |

**4.2** Targed chwyddiant Banc Lloegr, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant gynyddu y tu hwnt i hyn o fis Awst 2021, gyda'r gyfradd CPI yn cyrraedd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022 oherwydd effaith goresgyniad yr Wcráin, a achosodd gynnydd sylweddol mewn prisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am gyfnod hwy na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023 i 8.7%, gyda CPI yn gostwng i 7.9% ar ddiwedd y chwarter cyntaf. Parhaodd cyfraddau chwyddiant i ostwng yn yr ail chwarter, gyda CPI yn 6.7% ar 30 Medi 2023 a 4% ar 31 Rhagfyr 2023.

**4.3** Ar ddechrau'r pandemig, gostyngwyd y gyfradd sylfaenol i'w phwynt isaf ar 0.1% i gefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cynyddodd Banc Lloegr y gyfradd i 0.25% ac yna cynyddodd y gyfradd sylfaenol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (yr MPC) rhwng 0.25% i 0.75% ar ei gynnydd uchaf. Ym mis Awst 2023, cynyddodd yr MPC y gyfradd sylfaenol i 5.25%, ym mis Medi 2023 nid oedd y gyfradd o 5.25% wedi newid ar gyfer cyfarfod cyntaf yr MPC er mis Rhagfyr 2021. Pleidleisiodd yr MPC hefyd dros beidio â newid y 5.25% yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023. Adroddodd DSRhT 2023/24 ym mis Mawrth 2023 bod disgwyl i gyfradd sylfaenol y banc gyrraedd uchafbwynt o 4.5% yn yr haf ac y byddai'r cyfraddau'n gostwng yn araf yn 2024 a 2025. Yn yr adolygiad o waith rheoli'r trysorlys ar gyfer chwarter 1, amlygwyd y rhagwelid y byddai cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn cyrraedd uchafbwynt o 5.25%. Dengys y dadansoddiad uchod nad yw'r gyfradd o 5.25% wedi newid i bedwar Pwyllgor MPC yn olynol. Fodd bynnag, mae risg o gynnydd mewn chwyddiant oherwydd materion cyflenwad sy'n deillio o'r gwrthdaro yn Gaza a materion llongau yn y Môr Coch, sydd wedi arwain at wrthdaro ehangach. Bellach, mae risg uwch y gallai'r gyfradd sylfaenol gyrraedd ei hanterth ar gyfradd uwch mewn ymdrechion i reoli chwyddiant.

**4.4** Mae'r Cyngor yn elwa o gyfradd sylfaenol uwch ar gyfer buddsoddi arian dros ben, sydd wedi helpu'r Cyngor i ennill mwy na £1m mewn llog derbyniadwy. Ond mae benthyciadau i'r Cyngor yn ddrytach ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Felly, mae benthyca allanol yn cael ei ohirio hyd nes na all balansau arian barhau i gynnal y defnydd o falansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol).

## 5. SEFYLLFA FENTHYCA BRESENNOL Y CYNGOR

**5.1** Benthyca gan y BBGC – mae benthyciadau allanol y Cyngor gan y BBGC yn aros yr un fath â'r hyn a gyflwynwyd yn y DSRhT ym mis Mawrth 2023, ac eithrio ad-daliad o £8k o'r prifswm ar fenthyciadau blwydd-dal. Mae hyn oherwydd yr angen i osgoi benthyca tra bod cyfraddau llog yn cynyddu. Yn lle hynny, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor Link Group ar fenthyca yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Cost cyfle hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi. Fodd bynnag, mae costau benthyca'n uwch nag enillion buddsoddi. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i dalu credydwyr a chyflogau, rhaid i ddigon o arian parod aros mewn cyfrifon galwadau ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y rhain yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn dal i allu gwneud arbedion rhesymol ar y llog taladwy tra'n defnyddio balansau arian parod.

**5.2** Yn Atodiad 4 ceir y rhestr lawn o fenthyciadau gan y BBGC a gymerwyd allan ac sy'n dal yn daladwy. Mae'r benthyciad hynaf yn dyddio'n ôl i 1969, ac mae gan y mwyafrif o'r benthyciadau gyfraddau llog uwch na'r cyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog. Trefnir y rhain erbyn y flwyddyn ariannol y disgwylir i'r benthyciadau gael eu had-dalu.

**Tabl 2 - Bwrdd Benthyciadau'r Gwaith Cyhoeddus (BBGC)**

| Benthyciadau'r BBGC ar 30 Medi 2023 | | | |
|---|---|---|---|
| | BBGC / BBGC Adeg Aeddfedu £'000 | EIP y BBGC/ Blwydd-daliadau £ | Cyfanswm Benthyciadau'r BBGC ar 31 Rhagfyr 2023 £'000 |
| Benthyciad sy'n weddill (£'000) | 119,400 | 164 | 119,564 |
| Oes gyfartalog (blynyddoedd) | 30.82 | 4.06 | 34.88 |
| Cyfradd gyfartalog (%) | 4.53 | 9.42 | 4.54 |

**5.3** Benthyca gan Salix – sefydliad Llywodraeth Cymru yw Salix sy'n rhoi benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac i helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Dangosodd DSRhT 2023 fod gan y Cyngor, ym mis Chwefror 2023, £3.099m o fenthyciadau di-log heb eu talu i Salix. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi derbyn mwy o'r benthyciadau a gymeradwywyd gan Salix oherwydd y bu mwy o gynnydd gyda'r prosiectau a gyllidwyd gan fenthyciadau gan Salix.

Roedd gan y Cyngor £4.035m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2023. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn dibynnu ar y cytundeb, gyda dau ad-daliad y flwyddyn, fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden ac amrywiol brosiectau cynaliadwy eraill.

**Tabl 3 – Benthyciadau Salix ar 30 Medi 2023**

| Benthyciadau Eraill ar 30 Medi 2023 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Benth. Salix 1<br>£'000 | Benth. Salix 2<br>£'000 | Benth. Salix 3<br>£'000 | Benth. Salix 4<br>£'000 | Benth. Salix 5<br>£'000 | Benth. Salix 6<br>£'000 | CYFANSWM<br>£'000 |
| Swm sy'n weddill | 16.5 | 114.0 | 349.8 | 158.4 | 1,873.7 | 1,522.9 | **4,035.3** |
| Dyddiad Ad-dalu | 2024/25 | 2025/26 | 2027/28 | 2029/30 | 2031/32 | 2035/36 | |
| % y gyfradd llog | - | - | - | - | - | - | **-** |

## 6. BALANSAU BUDDSODDI'R CYNGOR AR 31 RHAGFYR 2023

**6.1** Cyfanswm balans y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £33.227M, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Yr elw o'r buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023 oedd £1.603m a'r disgwyl yw y bydd cyfanswm y llog derbyniadwy ar y buddsoddiadau a restrir isod yn £1.909m ar gyfer 2023/24. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd hi'n hyfyw i adnewyddu'r holl fuddsoddiadau hyn pan fyddant yn aeddfedu.

**Tabl 4 – Buddsoddiadau 1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023**

| Gwrthbarti | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Cyfradd Llog | Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2023 | Prifswm Buddsoddi 31 Rhagfyr 2023 | Amcangyfrif o'r llog enillwyd am y cyfnod | Amcangyfrif Cyfanswm Llog 2023/24 ar y Buddsoddiadau yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nat West CallAccount – cyfartalog am y cyfnod** | **01/04/2023** | **31/03/2024** | **1.46%** | **R** | **7,536,347** | **109,414** | **145,942** |
| **Cyfrif Galw Lloyds** | **18/04/2023** | **31/03/2024** | **5.14%** | **7,500,000** | **5,691,167** | **252,417** | **325,349** |
| **Banc National Westminster – tymor sefydlog** | **11/01/2023** | **11/07/2023** | **4.10%** | **10,000,000** | **-** | **113,452** | **113,452** |
| **Banc National Westminster – tymor sefydlog** | **11/07/2023** | **11/01/2024** | **5.88%** | **10,000,000** | **10,000,000** | **278,696** | **296,416** |
| **Santander** | **10/02/2023** | **10/05/2023** | **4.00%** | **7,500,000** | **-** | **32,055** | **32,055** |
| **Santander** | **10/05/2023** | **10/11/2023** | **4.76%** | **7,500,000** | **-** | **179,967** | **179,967** |
| **Cymdeithas Adeiladu Nationwide** | **06/04/2023** | **06/07/2023** | **4.17%** | **5,000,000** | **-** | **51,982** | **51,982** |
| **Cymdeithas Adeiladu Nationwide** | **06/07/2023** | **08/01/2024** | **5.47%** | **5,000,000** | **5,000,000** | **133,378** | **139,373** |
| **Goldman Sachs** | **22/12/2022** | **22/06/2023** | **3.83%** | **7,500,000** | **-** | **64,533** | **64,533** |
| **Goldman Sachs** | **22/06/2023** | **22/12/2023** | **5.52%** | **7,500,000** | **-** | **207,567** | **207,567** |
| **Cyngor Wakefield** | **22/08/2023** | **22/09/2023** | **5.23%** | **5,000,000** | **-** | **22,210** | **22,210** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | **25/10/2022** | **25/04/2023** | **3.80%** | **5,000,000** | **-** | **12,493** | **12,493** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | **25/04/2023** | **25/10/2023** | **4.30%** | **5,000,000** | **-** | **107,795** | **107,795** |
| **Banc National Westminster – tymor sefydlog** | **11/01/2024** | **10/03/2024** | **5.25%** | **10,000,000** | **-** | **-** | **84,863** |
| **Santander** | **10/11/2023** | **09/02/2024** | **5.34%** | **5,000,000** | **5,000,000** | **37,307** | **66,567** |
| **Cymdeithas Adeiladu Nationwide** | **08/01/2024** | **08/04/2024** | **5.11%** | **0** | **-** | **-** | **58,100** |
| | | | | | **33,227,514** | **1,603,266** | **1,908,663** |

## 7. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

**7.1** Cyllidir gwariant cyfalaf yn rhannol o fenthyciadau, felly, mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth Gyfalaf a'r strategaeth hon. Mae crynodeb gwariant cyfalaf 2024/25 i 2027/28 yn cyflwyno tri opsiwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae pob un o'r tri senario yn ystyried y gwaith sydd ei angen ar asedau'r Cyngor neu a fydd angen asedau amnewid. Cyflwynir y tri opsiwn fel y senarios lleiaf, posibl ac uchaf, a'r gofyniad uchaf yw'r symiau i ddod â holl asedau'r Cyngor i safon uchel neu ased newydd lle mae angen amnewidiadau. Mae'r gwariant cyfalaf yn y strategaeth hon yn defnyddio'r senario cyntaf – lleiafswm, oherwydd y diffyg cyllid sylweddol ar gyfer 2024/25 ac, o bosibl, ar gyfer y blynyddoedd ar ôl hynny.

**7.2** Mae Tabl 5 isod yn dangos gwariant amcangyfrifedig a chyllid ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028. O 2025/26 ymlaen, dyma'r buddsoddiad cyfalaf isaf oherwydd materion cyllido sylweddol. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd unrhyw fenthyca digefnogaeth oherwydd efallai na fydd hyn yn fforddiadwy o ystyried pwysau'r gyllideb refeniw a wynebir gan y Cyngor. Dim ond dyraniad benthyca â chefnogaeth y Cyngor sydd wedi'i gynnwys yn adran cyllido tabl 5.

**Tabl 5 – Cyllid a Gwariant Cyfalaf Amcangyfrifedig 2023/24 i 2027/28**

| | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 | 2026/27 £'000 | 2027/28 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor – heb gynnwys Eiddo Buddsoddi | 34,380 | 15,565 | 5,028 | 4,876 | 4,836 |
| CRT | 13,362 | 35,145 | 29,974 | 20,831 | 21,455 |
| Eiddo Buddsoddi | 2,780 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **50,522** | **50,710** | **35,002** | **25,707** | **26,291** |
| Grantiau Cyfalaf | 28,669 | 15,978 | 6,205 | 6,244 | 6,284 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 157 | 25 | 151 | 0 | 0 |
| Arian wrth Gefn a Chyfraniadau | 14,089 | 12,025 | 10,936 | 7,454 | 7,298 |
| Balans a Gyllidwyd gan Fenthyciadau | 7,607 | 22,682 | 17,710 | 12,009 | 12,709 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **50,522** | **50,710** | **35,002** | **25,707** | **26,291** |

**7.3** Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC gan ei fod, hefyd, yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) sydd wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Er bod benthyca mewnol yn arbed costau llog taladwy i'r Cyngor, codir y ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) ar sail yr angen sylfaenol i fenthyca (y GCC) nid y benthyciad gwirioneddol.

**7.4** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i fenthyciadau na all eu fforddio.

**7.5** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion pan ddaw'n ddyledus, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn, a'r enw ar y tâl hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI). Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2024/25 yn **Atodiad 5**. Cafodd polisi DIR y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ac unwaith eto ar gyfer y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2022. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r benthyciadau mewnol.

**7.6** Yn 2018, adolygodd y Cyngor ei bolisi DRI a mabwysiadodd ddull Rhandaliadau Cyfartal Oes Ased i gyfrifo ei dâl DRI ar gyfer benthyca gyda chefnogaeth a benthyca digefnogaeth. Mae'r polisi diwygiedig o 1 Ebrill 2022 yn mabwysiadu dull blwydd-dal, gan ddefnyddio dull tebyg i forgais ad-daliad safonol, lle mae swm yr ad-daliad, sy'n gyfuniad o ad-dalu'r benthyciad gwreiddiol a'r llog, yn aros yn gyson. O ganlyniad, mae swm y benthyciad gwreiddiol a ad-delir yn y blynyddoedd cynnar yn isel ac mae'n cynyddu dros amser. Felly, o dan y dull blwydd-dal, mae'r tâl DRI yn isel yn y blynyddoedd cyntaf cyn cynyddu dros amser.

**7.7** Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DIR hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod i ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2022, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £268k, ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a gyllidwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.

**7.8** Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DRI ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**

**Gofyniad Cyllido Arian Cyfalaf a Benthyca 2022/23 i 2027/28**

| | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Amcan** | **Amcan** | **Amcan** | **Amcan** | **Amcan** |
| **Balans agoriadol y GCC** | **144,112** | **150,588** | **171,991** | **188,238** | **198,521** |
| Gwariant Cyfalaf | 50,522 | 50,710 | 35,002 | 25,707 | 26,291 |
| Grantiau Cyfalaf Allanol | (28,669) | (15,978) | (6,205) | (6,244) | (6,284) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (157) | (25) | (151) | 0 | 0 |
| Cyfraniadau Refeniw ac Arian wrth Gefn | (14,089) | (12,205) | (10,936) | (7,454) | (7,298) |
| Darpariaeth Isafswm Refeniw Isaf | (1,131) | (1,279) | (1,463) | (1,726) | (1,933) |
| **Balans Cau'r GCC** | **150,588** | **171,991** | **188,238** | **198,521** | **209,297** |
| **BENTHYCA ALLANOL** | | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Allanol** | **123,799** | **121,557** | **158,593** | **175,644** | **185,696** |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 0 | 22,682 | 17,710 | 12,009 | 12,709 |
| Benthyca i Gyllido Ad-dalu Benthyca | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau yn lle Benthyca Mewnol | 0 | 15,000 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau | (2,242) | (646) | (639) | (1,977) | (2,763) |
| **Balans cau Benthyciadau Allanol** | **121,557** | **158,593** | **175,664** | **185,696** | **195,642** |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol** | **20,342** | **29,060** | **13,427** | **12,603** | **12,854** |
| Amnewid Benthyciadau Mewnol | 0 | (15,000) | 0 | 0 | 0 |
| Cyllido Ad-daliadau Benthyca o Fenthyciadau Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-daliadau Benthyciadau Allanol | 2,242 | 646 | 639 | 1,977 | 2,763 |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 7,607 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | (1,131) | (1,279) | (1,463) | (1,726) | (1,933) |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | **29,060** | **13,427** | **12,603** | **12,854** | 13,684 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **150,617** | **172,020** | **188,267** | **198,550** | **209,326** |

## 8. STRATEGAETH FENTHYCA

**8.1** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu nad yw'r angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn gan ddyledion benthyca gan ddefnyddio arian fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus, gan fod disgwyl i gyfraddau benthyca tymor canolig a thymor hir ddisgyn o'u lefelau presennol unwaith y rhoddir sylw i bryder cyffredinol am chwyddiant trwy bolisi ariannol tynn yn y tymor byr.

Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2024/25. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn mewn cyfraddau benthyca, yna bydd benthyciadau'n cael eu gohirio.
- os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch mewn cyfraddau benthyca nag a ragwelir ar hyn o bryd, bydd cyllid ar raddfa sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir iddynt fod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Rhagolwg tymor hir Link Group (y tu hwnt i 10 mlynedd) yw 3%. Mae holl gyfraddau sicrwydd y BBGC yn sylweddol uwch na'r gyfradd hon ar hyn o bryd. Felly, gellir cael gwell gwerth o fuddsoddiadau tymor byr nes bod cyfraddau'r banc yn gostwng.

### 8.2 Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

**8.2.1** Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau i allanoli benthyca. Mae angen rhoi ystyriaeth gofalus barhaus i'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau benthyca a chyfraddau buddsoddi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y ceir lefel briodol o reoli risg er mwyn sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

**8.2.2** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, y disgwyl yw y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyciadau allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

**8.2.3** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyciadau allanol tymor hir yn 2023/24, yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen, gan fod cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch nawr. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyciadau mewnol.

### 8.3 Benthyca Ymlaen Llaw i Gwrdd ag Anghenion

**8.3.1** Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, a hynny er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw, o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath.

### 8.4 Aildrefnu Dyledion

**8.4.1** Efallai y byddir yn ystyried aildrefnu benthyciadau cyfredol yn ein portffolio dyledion tra bod cyfraddau ad-dalu dyled yn gynnar yn parhau i fod yn uchel, ond dim ond os oes arian dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad, neu ail-gydbwyso'r portffolio i roi mwy o sicrwydd a ystyrir yn briodol.

**8.4.2** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyledion yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddo weithredu.

### 8.5 Benthyca o flaen yr angen

Y BBGC yw prif ffynhonnell benthyca'r Cyngor, gyda rhai benthyciadau gan y sefydliad sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, Salix, ar gyfer cyllido prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Cyfradd sicrwydd y BBGC yw giltiau ac 80 pwynt sail (0.8%). Gellid ystyried benthyca gan yr isod:-

- Awdurdodau Lleol;
- Asiantaeth UK Municipal Bond – benthyciadau cyfun;
- Cronfeydd Marchnad Arian.

## 9. PROFFIL DYLEDION

**9.1** Yn Atodiad 4, gwelir proffiliau aeddfedu benthyciadau'r Cyngor. Bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Mae hyn, hefyd, yn cynnwys gwerth presennol taliadau'r benthyciad i adlewyrchu gwir effaith symiau'r benthyciad yn y dyfodol, drwy ddisgowntio'r prif fenthyciadau gan 3.5%, sef y gyfradd tymor hir a argymhellir i fesur gwerth arian dros amser. Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir ar y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

**Tabl 7 – Proffil Aeddfedrwydd Benthyciadau BBGC, Ionawr 2024**

| Nifer o flynyddoedd tan fydd y benthyciad yn Aeddfeduumber of Years until Loan Matures | Prifswm £'m | Gwerth Presennol y Prifswm £'m | Cronnus % |
|---|---|---|---|
| <1 | 1.87 | 1 | 1.6 |
| 1 i 3 | 1.44 | 1 | 2.8 |
| 4 i 6 | 4.04 | 3 | 6.1 |
| 7 i 10 | 3.38 | 3 | 9.0 |
| 11 i 14 | 2.42 | 2 | 11.0 |
| 15 i 22 | 23.22 | 12 | 30.4 |
| 23 i 33 | 41.74 | 15 | 65.3 |
| 34 I 50 | 41.48 | 10 | 100.0 |
| **CYFANSWM** | **119.58** | **47** | |

## 10. STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI TEILYNGDOD CREDYD

**10.1** Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hwy. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu bydd y gyfradd sail yn parhau ar 5.25% ond bydd yn cychwyn lleihau o Medi 2024. Felly byddai strategaeth fuddsoddi hyblyg yn briodol i fanteisio i'r eithaf ar enillion. Yn yr un modd, er bod angen y rhan fwyaf o falansau arian i reoli cynnydd a gostyngiad mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

**10.2 Rheoli Risg**

Cyngor Sir Ynys Môn yw un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru. Mae'n cael yr ail setliad isaf gan Lywodraeth Cymru, gyda Merthyr Tudful yn cael yr isaf. Nid oes gan y Cyngor y balansau cyngor mawr sydd gan rai o'r awdurdodau mwy, er bod yna gynghorau mwy gyda balansau tebyg neu lai. Rheoli risg yw'r brif ystyriaeth ar gyfer holl fuddsoddiadau'r Cyngor.

**10.2.1** Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd, gydag archwaeth risg y Cyngor am fuddsoddiadau risg isel yn unig.

**10.2.2** Defnyddir **meini prawf** sylfaenol o ran **statws credyd** (Atodiad 7) er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

**10.2.3** **Gwybodaeth arall**: nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad. Mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt.

**10.2.4** Gall buddsoddiadau fod yn rhai penodol neu amhenodol (mae Atodiad 6 yn diffinio'r rhain ac yn rhoi rhagor o wybodaeth). Yn unol â'i ofyniad i fuddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, mewn buddsoddiadau penodedig yn unig y bydd y Cyngor yn buddsoddi.

- Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu'n fuddsoddiadau amhenodol dim ond oherwydd bod y cyfnod aeddfedu'n fwy na blwyddyn.
- **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac / neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

**10.2.5** Bydd cyfyngiadau benthyca (symiau ac aeddfedrwydd) i bob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics fel y'i nodir yn adran Teilyngdod Credyd y strategaeth hon.

**10.2.6** Bydd y Cyngor hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am fwy na 365 diwrnod (gweler Atodiad 10).

**10.2.7** Ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwrthbartïon y tu allan i'r DU oni bai fod y statws credyd yn AAA neu'n uwch ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis peryglu teilyngdod credyd buddsoddiadau'r DU. Dim ond gyda gwrthbartïon o wledydd sydd â graddfa **sofraniaeth sylfaenol** penodedig y byddir yn buddsoddi (gweler Atodiad 9).

**10.2.8** Mae'r Cyngor hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i roi cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw, o gofio archwaeth risg y Cyngor hwn yng nghyd-destun lefel disgwyliedig y balansau ariannol a bod angen hylifedd trwy gydol y flwyddyn.

**10.2.9.** Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.

**10.3 Polisi Teilyngdod Credyd**

**10.3.1** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.
- Ni fydd yn buddsoddi mewn gwrthbartïon onid oes ganddynt sgôr credyd fel y'i hamlinellir yn Atodiad 7.

**10.3.2** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf statws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Group.

**10.3.3** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

- Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd *Link*. Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti / cynllun buddsoddi'n cwrdd bellach â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.

**10.3.4** Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd tymor byr a hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Yn yr un modd, wrth osod isafswm ar gyfer graddfeydd dyled sofran, ni fydd y Cyngor yn gosod isafswm graddfa ar gyfer y DU.

**10.4 Cyfyngiadau Gwledydd**

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd, ac eithrio'r DU, â graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AAA yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad hwn, yn Atodiad 8. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn. Yn ymarferol, mae buddsoddiadau'n dueddol o gael eu rhoi ym manciau'r DU am resymau diogelwch. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys ar gyfer y digwyddiad annhebygol y bydd angen eithriadol i fuddsoddi mewn gwrthbartïon hynod ddiogel mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, os bydd banciau'r DU yn digwydd colli teilyngdod eu credyd ac yn methu meini prawf penodol y Cyngor ar Gwrthbartïon.

## 11. LLYWODRAETHU A RHEOLI

**11.1** Mae'r Cod Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at awdurdodau lleol yn hunanreoleiddio, ac mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Cod.

**11.2** Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli'r Trysorlys i Aelodau.

### 11.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

**11.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried, a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**11.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**11.3.3** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli'r trysorlys yn cael hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli'r trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022. Trefnir rhagor o hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli'r trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**11.3.4** Mae gan swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli'r trysorlys wybodaeth a sgiliau cynhwysfawr ar gyfer rheoli swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Mae'r Swyddog Adran 151 yn chwarae rhan allweddol mewn Rheoli'r Trysorlys ac mae'n cymeradwyo neu'n gwrthod unrhyw fuddsoddiadau a gynigir gan y tîm. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli, darparu, llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

**11.3.5** Bydd Arweinydd y Tîm Perfformiad Adnoddau yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant a dderbynnir gan swyddogion sy'n ganolog i swyddogaeth y Trysorlys. Yn yr un modd, bydd cofnod ffurfiol o hyfforddiant rheoli'r trysorlys / cyllid cyfalaf a gaiff Aelodau hefyd yn cael ei gadw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**11.3.6** Mae Cynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys ac esboniad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 i'w gweld yn Atodiad 9.

## 12. CYNGOR AR REOLI'R TRYSORLYS

**12.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Group, Link Treasury Services Limited yn ymgynghorwyr allanol iddo ar reoli'r trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ailwahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021, am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2024 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd. Link Group, Treasury Solutions enillodd y tendr hwnnw.

**12.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli'r trysorlys.

## 13. DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS

**13.1** Mae Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn Atodiad 10 yn ymwneud â fforddiadwyedd, bod yn ddarbodus ac maent yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol, y meincnod rhwymedigaethau a strwythur aeddfedu dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion nid yn unig ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond, hefyd, ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn Atodiad 10.

## 14. ADRODD

**14.1** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf bum prif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol.

- Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys – yr adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn edrych at y dyfodol ac yn ymwneud â'r isod:-
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli'r trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

**14.2** Adroddiadau Chwarterol Rheoli'r Trysorlys – bydd rhain yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd y sefyllfa gyfalaf, diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**14.3** Adroddiad Blynyddol diwedd blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn rhoi manylion detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau gwirioneddol y trysorlys o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

**14.4** Mae angen craffu digonol ar yr adroddiadau uchod cyn eu hargymell i'r Cyngor. Cyflawnir y rôl hon gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn craffu ar adroddiadau chwarter 1 a chwarter 3 a gyflwynwyd gan Gôd Darbodus 2021.

## 15. CASGLIAD

**15.1** I grynhoi, mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 yn parhau'r strategaeth o ddull ddarbodus o fenthyca, er mwyn cyfyngu'r goblygiadau refeniw, a defnyddio benthyca mewnol pan fo balansau arian parod yn caniatáu. Mae'r strategaeth fuddsoddi'n parhau'r polisi o sicrhau diogelwch ac hylifedd adneuon dros elw.

**15.2** Dros oes y strategaeth, rhagwelir byddai balansau arian parod yn lleihau'n sylweddol pe parheir i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu i gyllido'r gyllideb refeniw a pharheir i ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai i gyllido gwariant cyfalaf. Bydd rhaid ymgymryd a lefel uwch o fenthyca er mwyn cyllido rhaglen gyfalaf y Cyngor, tra'n dal i gynnal balansau arian parod digonol i gyllido rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus

**ATODIAD 1**

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2021)***, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi arian rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 3:**
Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:-

"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, tra'n anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn orbenodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb llym am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

**1.** Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- datganiad ar y polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli trysorlys; ac

- arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu canol blwyddyn a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.

3. Y Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu Polisïau ac Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi'r Awdurdod ar yr ARhT ac os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli Trysorlys.

4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar strategaethau a pholisïau rheoli trysorlys.

**ECONOMIC BACKGROUND**


- The third quarter of 2023/24 saw:
  - A 0.3% m/m decline in real GDP in October, potentially partly due to unseasonably wet weather, but also due to the ongoing drag from higher interest rates. Growth for the second quarter, ending 30th September, was revised downwards to -0.1% and growth on an annual basis was also revised downwards, to 0.3%;
  - A sharp fall in wage growth, with the headline 3myy rate declining from 8.0% in September to 7.2% in October, although the ONS “experimental” rate of unemployment has remained low at 4.2%;
  - CPI inflation continuing on its downward trajectory, from 8.7% in April to 4.6% in October, then again to 3.9% in November;
  - Core CPI inflation decreasing from April and May’s 31 years’ high of 7.1% to 5.1% in November, the lowest rate since January 2022;
  - The Bank of England holding Bank Rate at 5.25% in November and December;
  - A steady fall in 10-year gilt yields as investors revised their interest rate expectations lower.
- The revision of GDP data in Q2 to a 0.1% q/q fall may mean the mildest of mild recessions has begun. Indeed, real GDP in October fell 0.3% m/m which does suggest that the economy may stagnate again in Q3. The weakness in October may partly be due to the unseasonably wet weather. That said, as the weakness was broad based it may also be the case that the ongoing drag from higher interest rates is more than offsetting any boost from the rise in real wages.
- However, the rise in the flash composite activity Purchasing Managers Index, from 50.7 in November to 51.7 in December, did increase the chances of the economy avoiding a contraction in Q3. The improvement was entirely driven by the increase in the services activity balance from 50.9 to 52.7. (Scores above 50 point to expansion in the economy, although only tepid in this instance.) The press release noted that this was primarily driven by a revival in consumer demand in the technological and financial services sectors. This chimes with the further improvement in the GfK measure of consumer confidence in December, from -24 to -22. The services PMI is now consistent with non-retail services output growing by 0.5% q/q in Q3, but this is in stark contrast to the manufacturing sector where the output balance slumped from 49.2 to 45.9 and, at face value, the output balance is consistent with a 1.5% q/q fall in manufacturing output in Q3.
- The 0.3% m/m fall in retail sales volumes in October means that after contracting by 1.0% q/q (which was downwardly revised from -0.8% q/q) in Q2, retail activity remained weak at the start of Q3. That suggests higher interest rates are taking a bigger toll on real consumer spending.
- Higher interest rates have filtered through the financial channels and weakened the housing market but, overall, it remains surprisingly resilient with the Halifax house price index recently pointing to a 1.7% year on year increase whilst Nationwide’s December data pointed to a -1.8% year on year decrease. However, the full weakness in real consumer spending and real business investment has yet to come as currently it is estimated that around two thirds to a half of the impact of higher interest rates on household interest payments has yet to be felt.
- Overall, we expect real GDP growth to remain subdued throughout 2024 as the drag from higher interest rates is protracted but a fading of the cost-of-living crisis and interest rate cuts in the second half of 2024 will support a recovery in GDP growth in 2025.


- The labour market remains tight by historical standards, but the sharp fall in wage growth seen in October will reinforce the growing belief in markets that interest rates will be cut mid-2024. Wage growth eased in October much faster than the consensus expected. Total earnings fell by 1.6% m/m, which meant the headline 3myy rate eased from 8.0% in September to 7.2% in October. This news will be welcomed by the Bank of England. Indeed, the timelier three-month annualised rate of average earnings growth fell from +2.4% to -1.2%. Excluding bonuses, it fell from 5.3% to 2.0%. Furthermore, one of the Bank's key barometers of inflation persistence, regular private sector pay growth, dropped from 7.9% 3myy to 7.3%, which leaves it comfortably on track to fall to 7.2% by December, as predicted by the Bank in November.
- The fall in wage growth occurred despite labour demand being stronger in October than expected. The three-month change in employment eased only a touch from +52,000 in September to +50,000 in October. But resilient labour demand was offset by a further 63,000 rise in the supply of workers in the three months to October. That meant labour supply exceeded its pre-pandemic level for the first time, and the unemployment rate remained at 4.2% in October. In the three months to November, the number of job vacancies fell for the 17$^{th}$ month in a row, from around 959,000 in October to around 949,000. That has reduced the vacancy to unemployment ratio as demand for labour eases relative to supply, which may support a further easing in wage growth in the coming months.
- CPI inflation fell from 6.7% in September to 4.6% in October, and then again to 3.9% in November. Both these falls were bigger than expected and there are clear signs of easing in domestic inflationary pressures. The fall in core CPI inflation from 5.7% to 5.1% in November was bigger than expected (consensus forecast 5.6%). That's the lowest rate since January 2022. Some of the decline in core inflation was due to the global influence of core goods inflation, which slowed from 4.3% to 3.3%. But some of it was due to services inflation falling from 6.6% to 6.3%. The Bank views the latter as a key barometer of the persistence of inflation and it came in further below the Bank's forecast of 6.9% in its November Monetary Policy Report. This will give the Bank more confidence that services inflation is now on a firmly downward path.
- The Bank of England sprung no surprises with its December monetary policy committee (MPC) meeting, leaving interest rates at 5.25% for the third time in a row and pushing back against the prospect of near-term interest rate cuts. The Bank continued to sound hawkish, with the MPC maintaining its tightening bias saying that "further tightening in monetary policy would be required if there were evidence of more persistent inflationary pressures". And it stuck to the familiar script, saying that policy will be "sufficiently restrictive for sufficiently long" and that "monetary policy is likely to need to be restrictive for an extended period of time". In other words, the message is that the MPC is not yet willing to endorse investors' expectations that rates will be cut as soon as May 2024.
- Looking ahead, our colleagues at Capital Economics forecast that the recent downward trends in CPI and core inflation will stall over the next few months before starting to decline more decisively again in February. That explains why we think the Bank of England won't feel comfortable cutting interest rates until H2 2024.
- The fall in UK market interest rate expectations in December has driven most of the decline in 10-year gilt yields, which have fallen in line with 10-year US Treasury and euro-zone yields. 10-year gilt yields have fallen from 4.68% in October 2023 to around 3.70% in early January, with further declines likely if the falling inflation story is maintained.
- Investors' growing expectations that the Fed will cut interest rates soon has led to an improvement in risk sentiment, which has boosted the pound and other risky assets. In addition, the rise in the pound, from $1.21 in November to $1.27 now, has also been supported by the recent relative decline in UK wholesale gas prices.

- The further fall in 10-year real gilt yields in December has supported the recent rise in the FTSE 100. That said, the index remains 5% below its record high in February 2023. This modest rise in equities appears to have been mostly driven by strong performances in the industrials and rate-sensitive technology sectors. But UK equities have continued to underperform US and euro-zone equities. The FTSE 100 has risen by 2.2% in December, while the S&P 500 has risen by 3.8%. This is partly due to lower energy prices, which have been a relatively bigger drag on the FTSE 100, due to the index's high concentration of energy companies.

In the chart below, the rise in gilt yields across the curve in the first half of 2023/24, and therein PWLB rates, is clear to see, prior to the end of year rally based on a mix of supportive domestic and international factors.

**PWLB RATES 3.4.23 - 29.12.23**






**HIGH/LOW/AVERAGE PWLB RATES FOR 3.4.23 – 29.12.23**

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| **Low** | 4.65% | 4.13% | 4.20% | 4.58% | 4.27% |
| **Date** | 06/04/2023 | 27/12/2023 | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 05/04/2023 |
| **High** | 6.36% | 5.93% | 5.53% | 5.96% | 5.74% |
| **Date** | 06/07/2023 | 07/07/2023 | 23/10/2023 | 23/10/2023 | 23/10/2023 |
| **Average** | 5.60% | 5.09% | 5.03% | 5.35% | 5.08% |
| **Spread** | 1.71% | 1.80% | 1.33% | 1.38% | 1.47% |

**MPC meetings 2nd November and 14th December 2023**

- On 2nd November, the Bank of England's Monetary Policy Committee (MPC) voted to keep Bank Rate on hold at 5.25%, and on 14th December reiterated that view. Both increases reflected a split vote, the latter by 6 votes to 3, with the minority grouping voting for an increase of 0.25% as concerns about "sticky" inflation remained in place.
- Nonetheless, with UK CPI inflation now at 3.9%, and core inflating beginning to moderate (5.1%), markets are voicing a view that rate cuts should begin in Q1 2024/25, some way ahead of the indications from MPC members. Of course, the data will be the ultimate determinant, so upcoming publications of employment, wages and inflation numbers will be of particular importance, and on-going volatility in Bank Rate expectations and the gilt yield curve can be expected.
- In addition, what happens outside of the UK is also critical to movement in gilt yields. The US FOMC has kept short-term rates in the range of 5.25%-5.50%, whilst the ECB has moved its Deposit rate to a probable peak of 4%. Markets currently expect both central banks to start cutting rates in 2024.

| PWLB debt | Current borrowing rate as at 08.01.24 p.m. | Target borrowing rate now (end of Q4 2025) | Target borrowing rate previous (end of Q3 2025) |
|---|---|---|---|
| 5 years | 4.53% | 3.70% | 3.80% |
| 10 years | 4.67% | 3.90% | 3.80% |
| 25 years | 5.19% | 4.20% | 4.20% |
| 50 years | 4.97% | 4.00% | 4.00% |

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group, Treasury Solutions*

**Rhagolygon Graddfeydd Llog 2024/2025**

**Interest Rate Forecasts 2024/2025**

PWLB rates and forecast shown below have taken into account the 20 basis point certainty rates.

| Interest Rate Forecasts | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bank Rate | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 | Dec-25 |
| Link | 5.25% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% | 3.00% | 3.00% |
| Cap Econ | 5.25% | 5.00% | 4.50% | 4.00% | 3.50% | 3.00% | 3.00% | 3.00% |
| 5Y PWLB RATE | | | | | | | | |
| Link | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.80% | 3.70% |
| Cap Econ | 4.50% | 4.30% | 4.20% | 4.00% | 3.90% | 3.80% | 3.80% | 3.70% |
| 10Y PWLB RATE | | | | | | | | |
| Link | 4.70% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.90% |
| Cap Econ | 4.50% | 4.40% | 4.20% | 4.10% | 4.10% | 4.10% | 4.10% | 4.10% |
| 25Y PWLB RATE | | | | | | | | |
| Link | 5.20% | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.60% | 4.40% | 4.30% | 4.20% |
| Cap Econ | 5.10% | 4.80% | 4.60% | 4.30% | 4.40% | 4.40% | 4.50% | 4.60% |
| 50Y PWLB RATE | | | | | | | | |
| Link | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.40% | 4.20% | 4.10% | 4.00% |
| Cap Econ | 4.70% | 4.60% | 4.50% | 4.30% | 4.30% | 4.30% | 4.40% | 4.40% |

*Additional notes by Link on this forecast table: -*

- Our central forecast for interest rates was previously updated on 7 November and reflected a view that the MPC would be keen to further demonstrate its anti-inflation credentials by keeping Bank Rate at 5.25% until at least H2 2024. We expect rate cuts to start when both the CPI inflation and wage/employment data are supportive of such a move, and when there is a likelihood of the overall economy enduring at least a slowdown or mild recession over the coming months (although most recent GDP releases have surprised with their on-going robustness).
- Naturally, timing on this matter will remain one of fine judgment: cut too soon, and inflationary pressures may well build up further; cut too late and any downturn or recession may be prolonged.
- In the upcoming months, our forecasts will be guided not only by economic data releases and clarifications from the MPC over its monetary policies and the Government over its fiscal policies, but also international factors such as policy development in the US and Europe, the provision of fresh support packages to support the faltering recovery in China as well as the on-going conflict between Russia and Ukraine, and Gaza and Israel.

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group*

| DADANSODDIAD BENTHYCIADAU PWLB YN AEDDFEDU 2024/25 YMLAEN / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2024/25 ONWARDS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Aeddefedu PWLB Maturity £'000** | **Blwydd-dal PWLB EIP/ Annuity £'000** | **Benthyciadau Marchnad/ Market Loans £'000** | **Amrywiol/ PWLB Variable £'000** | **Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing £'000** | **%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %** |
| 2024/25 | 0 | 18 | 0 | 0 | 18 | 0.0 |
| 2025/26 | 0 | 20 | 0 | 0 | 20 | 0.0 |
| 2026/27 | 1,381 | 22 | 0 | 0 | 1,403 | 1.2 |
| 2027/28 | 2,165 | 24 | 0 | 0 | 2,189 | 1.9 |
| 2028/29 | 262 | 26 | 0 | 0 | 288 | 0.2 |
| 2029/30 | 1,539 | 21 | 0 | 0 | 1,560 | 1.3 |
| 2030/31 | 451 | 15 | 0 | 0 | 466 | 0.4 |
| 2031/32 | 1,941 | 9 | 0 | 0 | 1,950 | 1.7 |
| 2032/33 | 315 | 7 | 0 | 0 | 322 | 0.3 |
| 2033/34 | 637 | 0 | 0 | 0 | 637 | 0.6 |
| 2034/35 | 624 | 0 | 0 | 0 | 624 | 0.5 |
| 2035/36 | 611 | 0 | 0 | 0 | 611 | 0.5 |
| 2036/37 | 599 | 0 | 0 | 0 | 599 | 0.5 |
| 2037/38 | 587 | 0 | 0 | 0 | 587 | 0.5 |
| 2038/39 | 226 | 0 | 0 | 0 | 226 | 0.2 |
| 2039/40 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.2 |
| 2040/41 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 3.0 |
| 2042/43 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0.8 |
| 2043/44 | 1,020 | 0 | 0 | 0 | 1,020 | 0.9 |
| 2044/45 | 1,010 | 0 | 0 | 0 | 1,010 | 0.9 |
| 2045/46 | 11,464 | 0 | 0 | 0 | 11,464 | 9.7 |
| 2050/51 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 1.7 |
| 2052/53 | 28,238 | 0 | 0 | 0 | 28,238 | 24.0 |
| 2054/55 | 3,000 | 0 | 0 | 0 | 3,000 | 2.6 |
| 2055/56 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 3.0 |
| 2056/57 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.2 |
| 2057/58 | 8,513 | 0 | 0 | 0 | 8,513 | 7.2 |
| 2059/60 | 1,763 | 0 | 0 | 0 | 1,763 | 1.5 |
| 2064/65 | 10,000 | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 8.5 |
| 2066/67 | 6,200 | 0 | 0 | 0 | 6,200 | 5.3 |
| 2068/69 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | 15,000 | 12.7 |
| | **117,546** | **162** | **0** | **0** | **117,708** | **100.0** |
| Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life (years) | 31.14 | 3.42 | 0.00 | 0.00 | 31.10 | |
| Cyfartaledd graddf (%)/ Average rate (%) | 4.47 | 9.42 | 0.00 | 0.00 | 4.47 | |

| PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2024/25 YMLAEN / OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2024/25 ONWARDS | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Benthyciad Salix Loan 1 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 2 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 3 £'000** | **Benthyciad Salix Loan £'000** | **Benthyciad Salix Loan 5 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 6 £'000** | **Cyfanswm / Total £'000** |
| 2024/25 | 8 | 46 | 64 | 26 | 220 | 264 | 628 |
| 2025/26 | 0 | 45 | 64 | 26 | 220 | 264 | 619 |
| 2026/27 | 0 | 0 | 64 | 27 | 220 | 264 | 575 |
| 2027/28 | 0 | 0 | 63 | 27 | 220 | 264 | 574 |
| 2028/29 | 0 | 0 | 63 | 27 | 220 | 264 | 574 |
| 2029/30 | 0 | 0 | 0 | 13 | 221 | 265 | 499 |
| 2030/31 | 0 | 0 | 0 | 0 | 221 | 265 | 486 |
| 2031/32 | 0 | 0 | 0 | 0 | 221 | 265 | 486 |
| 2032/33 | | | | | | 265 | 265 |
| 2033/24 | | | | | | 265 | 265 |
| 2034/35 | | | | | | 265 | 265 |
| 2035/36 | | | | | | 265 | 265 |
| **Cyfanswm / Total** | 8 | 91 | 318 | 146 | 1,763 | 3,175 | 5,501 |

**ATODIAD 5**

**Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar gyfer 2024/25**

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor a'r CRT sydd wedi cronni bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC) drwy dâl refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf - DRI), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os oes angen (darpariaeth refeniw wirfoddol - VRP).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DRI cyn pob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad DRI isod, sydd heb newid o bolisi DRI 2023/24:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (CFR), codir DRI drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Mae'n bosib na fydd taliadau DRI sy'n seiliedig ar ddull blwydd-dal oes ased yn dod i rym tan y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Gall y Swyddog Adran 151 ohirio'r tâl DRI tan y flwyddyn gyllidol sy'n dilyn y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Bydd amcangyfrifo oes yr ased, cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd yn newid dros oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrifo oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion Statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r DRI ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oed yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny.

Bydd yr DRI a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am ei gyfran o'r benthyca â chefnogaeth a digefnogaeth, hefyd yn seiliedig ar y dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Bydd unrhyw ad-daliadau sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau cyllid yn cael eu gweithredu fel DRI ac yn gyson â'r sail blwydd-dal oes ased dros oes y brydles neu'r cynllun PFI.

**Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol**

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

**(a)** bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a

**(b)** nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a

**(c)** nad yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20 (1) (d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a

**(d)** gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:

- **(i)** Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
- **(ii)** awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
- **(iii)** cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2024/25 nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na chyda chyrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuon gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 7 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategorïau o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2024/25 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategorïau o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

## Meini Prawf Gwrthbartïon

| Categori | Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's) | Terfyn Arian | Terfyn Amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol) | F1+ | P-1 | A-1+ | AAA | Aaa | AAA | £10m | 5 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA | Aa2 | AA | £10m | 3 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA- | Aa3 | AA- | £10m | 364 diwrnod |
| | F1 | P-1 | A-1 | A | A2 | A | £7.5m | 6 mis |
| Banciau'r Deyrnas Unedig sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £10m | 364 diwrnod |
| Banc y NatWest (wedi ei Wladoli'n Rhannol) | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £30m | 364 diwrnod |
| Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig (waeth beth fo'r raddfa credyd) | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | Dim uchafswm | Dim uchafswm |
| Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig ** | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £10m | 364 diwrnod |
| Cronfeydd Marchnad Arian | d/b | d/b | d/b | AAA | AAA | AAA | £5m | 6 mis |

***fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003*

**Nodiadau ac Eglurhad**

**(1) Terfyn Arian Parod**

**(i)** Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc) mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);

**(ii)** Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuon dros 364 o ddyddiau yw £15m.

**(2) Terfyn Amser**

**(i)** I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

**(3) Arian Gwledydd Tramor**

**(i)** Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) - (yn seiliedig ar y cyfenwadur lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.

**(ii)** Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Unedig waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.

**(iii)** Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Unedig oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y Deyrnas Unedig a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

**(4) Graddfa Credyd yn Gostwng**

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 19 Rhagfyr 2022]**

*Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.*

***Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael***

AAA

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA+

- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

AA

- Abu Dhabi (Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)

AA-

- Gwlad Belg
- Qatar
- Ffrainc (wedi' hisraddio gan Fitch 2023)
- **Y D.U.**

**Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys**

**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR), Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

**(ii) Pwyllgor Gwaith**

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-

  – Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  – Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  – Derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
  – Derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

**Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn**

**cynnwys:**


- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgysylltu ag archwilwyr allanol;
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
    - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
    - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
    - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
    - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
    - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

## DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS — ATODIAD 10
## GOSOD CYLLIDEB 2024/25

| Rhif | Dangosydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fforddiadwyedd** | **2022/23 gwirioneddol** | **2023/24 amcangyfrif** | **2024/25 cynnig** | **2025/26 cynnig** | **2026/27 cynnig** |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 3.11% | 2.31% | 3.12% | 3.20% | 3.15% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys setliad) | 7.26% | 6.10% | 10.38% | 13.19% | 14.72% |
| | Cyfanswm | 3.57% | 2.73% | 3.89% | 4.24% | 4.35% |
| | **Bod yn ddarbodus** | | | | | |
| **3** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol? | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| | **Gwariant cyfalaf** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **4,5** | Amcangyfrif o [neu wir] wariant cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 29,510 | 32,330 | 15,565 | 5,028 | 4,836 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 11,180 | 18,192 | 35,145 | 29,974 | 26,291 |
| | Cyfanswm | **40,690** | **50,522** | **50,710** | **35,002** | **31,127** |
| **6,7** | Amcangyfrif o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, neu'r gwir Ofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 105,825 | 112,483 | 116,485 | 117,598 | 118,670 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 38,287 | 38,105 | 55,506 | 70,640 | 79,851 |
| | Cyfanswm | **144,112** | **150,588** | **171,991** | **188,238** | **198,521** |
| | **Dyled Allanol** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **8** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 175,000 | 175,000 | 205,664 | 215,696 | 225,642 |
| | : Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| | : Cyfanswm | **180,000** | **180,000** | **215,664** | **225,696** | **235,642** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Terfyn gweithredol | | | | | |
| | : Benthyca cyffredinol | 170,000 | 170,000 | 200,664 | 210,696 | 220,642 |
| | : Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| | : Cyfanswm | **175,000** | **175,000** | **210,664** | **220,696** | **230,642** |
| **10** | Dyled Allanol Awirioneddol | **125,348** | | | | |
| **Rheoli'r Trysorlys** | | **2022/23 gwirioneddol** | **2023/24 amcangyfrif** | **2024/25 cynnig** | **2025/26 cynnig** | **2026/27 cynnig** |
| **11** | Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | (bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn y terfyn ar gyfer pob blwyddyn) | | | | | |
| | | | **2024/25 Terfyn uchaf** | | **2024/25 Terfyn isaf** | |
| **12** | Y terfynau uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 months ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 months ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a thrososdd | | 100% | | 0% | |
| | | | Dim newid | | Dim newid | |
| **13** | Meincnod Rhwymedigaethau (gweler y siart isod) | | | | | |


Liability Benchmark 23/24 - 27/28
250,000
200,000
150,000
100,000
50,000
-
£'Millions
23/24
24/25
25/26
26/27
27/28
Loans CFR
Gross Loans Requirement (Benchmark)
Forecast Net Loan Debt (Net Loans Requirement)
Total Existing Loan Debt Outstanding

ATODIAD 11

**ATODIAD 11**

**Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys**

## DANGOSYDDION DARBODUS

### A) Fforddiadwyedd

#### 1 a 2 Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

### (B) Bod yn Ddarbodus

#### 3 Dyled Gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2024/25 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion refeniw.

### C) Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol.

Bydd lefel cyllido gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

#### 4 a 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2022/23 hyd at 2025/26 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

#### 6 a 7 Anghenion Benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth Refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae’r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu’r GCC ac o’r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae’r mathau hyn o gynlluniau’n cynnwys cyfleuster benthyca ac o’r herwydd, nid oes raid i’r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynllun

**CH) Dyled Allanol**

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli’r uchafswm benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i’r terfyn hwn ac mae angen i’r Cyngor llawn osod neu ddiwygio’r terfyn. Mae’n adlewyrchu’r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny’n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw’n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma’r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae’r Llywodraeth yn cadw’r opsiwn i reoli naill ai’r cyfan o gynlluniau’r holl Gynghorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio’r pŵer hwnnw.

   Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda’r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw’n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a’r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb**.**

9. **Y ffin weithredol.** Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai’n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu’n uwch gan ddibynnu ar lefelau’r ddyled wirioneddol a’r gallu i gyllido tanfenthyca trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.

10. **Gwir ddyled allanol.** Mae’n rhaid i’r Cyngor ddatgelu’r balans cau ar gyfer gwir fenthyca gros mewn perthynas â’r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymiadau tymor hir eraill, ac felly, gwir lefel cyfanredol dyledion allanol ar ddyddiad y Fantolen.

## DANGOSYDDION TRYSORLYS

11. **Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Tymor Hir**. Mae’r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo i reoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau’r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnar er mwyn adennill arian. Mae’r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau’r Cyngor i ddibenion rheoli trysorlys yn unig.

12. **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**. Mae’n ofynnol i’r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae’n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy. Y rheswm yw ceisio rheoli’r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido.

13. **Meincnod Rhwymedigaethau.** Y dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2024/25 yw’r Meincnod Rhwymedigaethau. Mae’n rhaid i’r Cyngor amcangyfrif a mesur y meincnod rhwymedigaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a’r ddwy flynedd ddilynol. Mae’r Meincnod Rhwymedigaethau’n cynnwys pedair rhan:-

    1. **Dyledion benthyciadau cyfredol sy’n ddyledus**: benthyciadau cyfredol y Cyngor sydd yn parhau i fod yn ddyledus yn y dyfodol.
    2. **GCC Benthyciadau**: mae hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â’r diffiniad o GCC benthyciadau yn y Côd Darbodus ac mae amcangyfrifon i’r dyfodol yn seiliedig ar fenthyca darbodus a gymeradwywyd a DIR a gynlluniwyd.

3. **Gofyniad benthyca net**: Bydd hyn yn dangos dyledion benthyciadau gros y Cyngor wedi tynnu buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i amcangyfrif i'r dyfodol ac yn seiliedig ar y benthyca darbodus a gymeradwywyd, DIR a gynlluniwyd ac unrhyw lif arian sylweddol arall a ragwelir.
4. **Meincnod Rhwymedigaethau** (neu ofyniad benthyca gros): mae hwn yn gyfartal i'r gofyniad benthyca net ynghyd â'r lwfans hylifedd tymor byr.

## Geirfa

### GWARIANT CYFALAF
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

### CYLLIDO CYFALAF
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

### GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF
Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca.

### RHAGLEN GYFALAF
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

### DERBYNIADAU CYFALAF
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

### CIPFA
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

### CYFRIF REFENIW TAI (CRT)
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai y Cyngor.

### LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR
Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

### DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI)
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

### DYLED NET
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca arnynt ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau, ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA Â CHEFNOGAETH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth gyfrifo ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DIGEFNOGAETH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn cyllido ei wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côd y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad:** | **7 MAWRTH 2024** |
| **Pwnc:** | **STRATEGAETH GYFALAF 2024 – 2029** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Robin Williams – Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio – Cyllid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:** | **Marc Jones**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Marc Jones**<br><br>**rmjfi@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhellion a Rhesymau

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017) yn gofyn i bob awdurdod baratoi strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid iddi osod y cyd-destun tymor hir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi. Bwriad y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Mae'r strategaeth gyfalaf wedi'i chysylltu â nifer o gynlluniau a strategaethau eraill. Maent yn cynnwys:-

- Cynllun y Cyngor;
- Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol;
- Y Strategaeth TG, gan gynnwys Strategaeth Digidoleiddio Ysgolion;
- Strategaeth Sero Net Lleihau Carbon;
- Strategaeth Gwelliannau Hamdden;
- Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg;
- Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu;
- Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai;
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai;
- Strategaeth Rheoli Trysorlys.

Argymhellir i'r Cyngor llawn dderbyn y Strategaeth Gyfalaf am y blynyddoedd ariannol 2024/25 i 2028/29.

## B – Pa opsiynau eraill y gwnaethoch chi eu ystyried a pham y gwnaethoch eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod mabwysiadu'r strategaeth gyfalaf yn ofyniad yng Nghôd Darbodus Ariannol CIPFA.

## C – Pam bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â gofynion y Côd a Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y strategaeth ac argymell ei gymeradwyo i'r Cyngor llawn.

| | | |
|---|---|---|
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn cyd-fynd â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn?** | | |
| Bydd y Cyngor llawn yn rhoi cymeradwyaeth ar gyfer y strategaeth. | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor?** | | |
| Bydd y strategaeth gyfalaf yn ffurfio'r sail ar gyfer cyllideb cyfalaf 2024/25, fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024. | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r strategaeth gyfalaf yn crynhoi'r buddsoddiad cyfalaf tymor hir sydd ei angen gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei amcanion tymor hir fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor. Mae Cynllun y Cyngor yn gynllun 5 mlynedd sy'n nodi amcanion strategol y Cyngor sydd wedi cael eu dylunio i fynd i'r afael ag anghenion tymor hir yr Ynys. |
| **2** | A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaeth bellach ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae'r strategaeth gyfalaf yn nodi gofyniad buddsoddi cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddylunio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ac er mwyn osgoi costau sylweddol yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch bwy os gwelwch yn dda. | Er mwyn darparu'r rhaglen fuddsoddi gyfalaf, mae'n rhaid cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r DU, awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, cyrff cyllid grant arall a phartneriaid cyflenwi. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi bod yn rhan o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Eglurwch os gwelwch yn dda. | Ymgynghorwyd â dinasyddion cyn drafftio'r Cynllun y Cyngor terfynol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau hynny sydd wedi'u diogelu dan Deddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd buddsoddiad cyfalaf yn helpu nifer o grwpiau gwarchodedig, drwy fuddsoddi mewn adeiladau, darparu grantiau cyfleusterau'r anabl, buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden ac ati. |
| **6** | Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd buddsoddiad cyfalaf yn bwydo arian sylweddol i mewn i'r economi leol ac yn helpu i ddarparu swyddi lleol. Bydd y buddsoddiad mewn tai yn darparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pobl leol. |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i drin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg. | Gwneir buddsoddiad cyfalaf o fewn cymunedau lleol drwy fuddsoddi mewn ysgolion, mân-ddaliadau, eiddo masnachol ac ati. Bydd y buddsoddiad yn helpu i gynnal cymunedau lleol, fydd yn cael effaith fuddiol ar yr iaith Gymraeg. |
| **E -** | **Gyda phwy y gwnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Mae sylwadau gan y TA wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – cafodd y strategaeth ei ddrafftio gan y Swyddog Adran 151. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA, ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u hystyried wrth drafod yr adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim effaith uniongyrchol ar staff. |
| **5** | **Eiddo** | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried strategaeth TG a Ddigidol y Cyngor. |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol. |

| |
|---|
| **F - Atodiadau:** |
| Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2024 - 2029 |
| **FF – Papurau Cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Cynllun y Cyngor 2023 – 2028<br>Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 – yn cael ei diweddaru ym mis Mawrth 2024<br>Cynllun Ariannol Tymor Canol – Pwyllgor Gwaith, 26 Medi 2023<br>Cyllideb Refeniw 2024/25 – Cynigion Cychwynnol – Pwyllgor Gwaith, 23 Ionawr 2024 |

Ynys Môn

The Isle of Anglesey



# Strategaeth Gyfalaf

# 2024-2029

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English.

## Rhagair gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

Mae buddsoddi Cyfalaf yn angenrheidiol ar gyfer Ynys Môn o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol ond, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau tymor hir yn seiliedig ar wybodaeth ddeallus glir, yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor hir mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'u bod yn fforddiadwy yn y tymor hir.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod y gofynion buddsoddi tymor hir sy'n deillio o Gynllun y Cyngor a strategaethau cysylltiedig eraill, mae'n asesu fforddiadwyedd y cynlluniau hynny ac yn adnabod yr adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r cynlluniau hynny.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ddogfen allweddol sy'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu gwneud mewn ffordd drefnus, sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei brif amcanion tra'n sicrhau nad yw hyfywedd tymor hir y Cyngor mewn perygl.





Cynghorydd Llinos Medi,
Arweinydd y Cyngor



Dylan J. Williams,
Prif Weithredwr

# Pam Rydym Angen Strategaeth Gyfalaf?

- Mae Côd Darbodus CIPFA yn gosod allan gofyniad bod pob awdurdod lleol yn gorfod paratoi strategaeth gyfalaf.
- Yn ddelfrydol, dylai'r Strategaeth gwmpasu 10 i 15 mlynedd, ond nid yw'r ansicrwydd presennol ynglŷn â chyllid yn caniatáu ar gyfer datblygu cynllun mor hir-dymor.
- Mae'n sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi sy'n rhoi ystyriaeth lawn i:-
  - Stiwardiaeth;
  - Gwerth am Arian;
  - Pwyll;
  - Cynaliadwyedd;
  - Fforddiadwyedd.
- Cyfrannu at gydymffurfiaeth gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf?

- Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau tymor hir, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau hynny'n gallu dibynnu ar wybodaeth glir a chywir. Mae hyn yn cynnwys:-
  - Edych ar gynlluniau gwariant cyfalaf tymor hir ac unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor;
  - Ystyried y goblygiadau cyllido tymor hir o ran fforddiadwyedd a risgiau posib;
  - Bod â throsolwg clir o drefniadau rheoli asedau'r Cyngor ac unrhyw ofynion cynnal a chadw sydd â goblygiadau o ran adnoddau a chynllunio busnes.
- Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn edrych ar yr asedau newydd neu'r gwelliannau sydd eu hangen i asedau, megis adeiladu'r Cyngor, ysgolion, tai, cyfleusterau gofal cymdeithasol a chyfleusterau hamdden, er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol ynghyd â'i oblygiadau statudol niferus.
- Drwy'r cynllun hwn, rydym yn bwriadu gwario a buddsoddi lefel briodol o gyfalaf i ddiwallu'r blaenoriaethau ac amcanion hyn, tra'n sicrhau bod ein cynlluniau yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

# Gwariant Cyfalaf 2019/20 – 2023/24

| | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m | 2022/23 £'m | 2023/24 (Rhagolwg) £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal Asedau Presennol | 5.419 | 6.934 | 6.865 | 9.139 | 8.173 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 0.316 | 0.951 | 4.507 | 6.317 | 7.080 |
| Gwella Cyfleusterau Hamdden | 0.119 | 0.123 | 0.211 | 0.336 | 0.718 |
| Rheoli Gwastraff | 0.180 | 3.213 | 2.270 | 0.213 | 0.110 |
| Cyflawni Sero Net | 0.000 | 0.052 | 1.742 | 1.372 | 2.947 |
| Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd | 3.140 | 1.481 | 1.194 | 2.491 | 1.092 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau'r UE | 2.224 | 2.563 | 1.361 | 4.511 | 3.270 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau Llywodraeth Cymru / y DU | 3.490 | 3.419 | 3.590 | 2.119 | 8.825 |
| Isadeiledd / Offer TG Ysgolion | 1.088 | 0.596 | 0.603 | 0.341 | 0.113 |
| Eiddo Buddsoddi | 0.115 | 0.091 | 0.253 | 0.242 | 0.000 |
| Prosiectau Eraill wedi'u Cyllido gan Grantiau | 2.114 | 1.084 | 1.140 | 2.429 | 0.000 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 11.812 | 12.623 | 9.723 | 11.180 | 20.529 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **30.013** | **33.129** | **33.457** | **40.690** | **52.857** |

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen allweddol sydd yn ganolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod, mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid i sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:-**

Tudalen 75

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

Ein chwech amcan strategol

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

# Cynllun y Cyngor 2023-28

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



## Gwerthoedd

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.


[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.







[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

# Y berthynas rhwng Cynlluniau a Strategaethau'r Cyngor

Tudalen 78



# • Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol Allweddol

- **Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn cydberthyn er mwyn helpu i adnabod y lefel fforddiadwy o refeniw ac adnoddau cyfalaf sydd ei angen er mwyn cyflawni prif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Yn ogystal, mae'r rhain yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau'r Cyngor.**

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)

Caiff ei adolygu'n rheolaidd er mwyn helpu gosod allan y gofyniad tebygol o ran adnoddau ar gyfer y tair blynedd nesaf, a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyniad hwn. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod allan y prif flaenoriaethau ynghylch sut y dylid gwario cyllid cyfalaf er mwyn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae'n cydnabod fod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar y CATC, y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol, ac mae hefyd yn cael ei dylanwadu ganddynt.

## Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT)

Mae'n gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys ar gyfer y flwyddyn. Maent yn darparu'r fframwaith a'r rheolyddion sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu costau refeniw a chyfalaf cyflenwyr, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, a'i fod ar gael, a sicrhau nad yw benthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf yn mynd y tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r **Gyllideb Refeniw Flynyddol** yn cael ei chefnogi gan CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT - Bob blwyddyn, mae'r costau cyllido cyfalaf refeniw yn cael eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod cyllideb refeniw. Ar brydiau, defnyddir cyfraniadau refeniw i gyllido costau cyfalaf.

**Y Rhaglen Gyfalaf Flynyddol** - Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus, megis cynnal a chadw.


# Prif feysydd blaenoriaeth

Mae cyflawni'r flaenoriaeth strategol, ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.



Rydym am wneud yn siŵr:-

- Bod gennym ddigon o gyllid i fuddsoddi yn y blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf;
- Ein bod ni'n gallu cynnal ein hasedau cyfalaf a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- Bod strategaeth y Cyngor yn ddigon hyblyg i gwrdd ag unrhyw anghenion sy'n ymgodi a chymryd mantais o unrhyw gyfleoedd cyllido pan fyddant yn codi.



# Egwyddorion ac Amcanion i Gefnogi'r Gwaith o Gyflawni Prif Amcanion

- Rhaid i brosiectau cyfalaf fod yn gysylltiedig ag asedau a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanon allweddol, sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor, ynghyd â'i strategaethau gweithredol allweddol a chyfrifoldebau statudol.
- Pob blwyddyn wrth adolygu'r strategaeth hwn a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf blynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.
- Bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei flaenoriaethu o fewn y Rhaglen Gyfalaf.
- Bydd Derbyniadau Cyfalaf o Werthiant Ysgolion Dros Ben yn cael eu defnyddio fel cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (fel nodir yn yr Achos Busnes Derfynol) neu fel cyllid cyfalaf cyffredinol.
- Gellir ail-fuddsoddi derbyniadau yn yr ystâd yn dilyn gwerthu mân-ddaliadau'r Cyngor, os ydi'r blaenoriaethau gwario eraill yn caniatáu hynny.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu i gynnal a chadw neu ddisodli asedau presennol y Cyngor - Adeiladau'r Cyngor, Offer TG, Cerbydau, Rhwydwaith Ffyrdd.
- Bydd y Cyngor yn anelu i ddefnyddio cyllid cyfalaf i drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir.
- Bydd unrhyw brosiect newydd sydd angen cyllid cyfatebol i ddenu cyllid grant yn cael ei asesu ar sail achos fesul achos gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Bydd yr asesiad yn ystyried y lefel o gyllid grant, a yw'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, y goblygiadau ar gyfer y gyllideb refeniw a lefel y cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf roi sylw i'r targedau carbon sero net a rhaid defnyddio dewisiadau amgen glân lle, yn draddodiadol, defnyddiwyd offer / cyfleusterau / asedau oedd yn cynhyrchu carbon.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio hefo'i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwymo i weithio fel rhan o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflwyno prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd Benthyca Digefnogaeth yn cael ei ystyried os bydd y gofynion cyllid cyfalaf blynyddol yn fforddiadwy ac yn cynnal lefel dderbyniol o gostau cyllid cyfalaf yn erbyn gwariant refeniw net.
- Gweithredir benthyciadau allanol yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor er mwyn cynnal balansau arian parod digonol, ac er mwyn lleihau ffioedd cyllid cyfalaf.

# Ffynonellau Cyllid y Rhaglen Gyfalaf

| Math o Gyllid | Ffynhonnell | Cyfyngiadau Defnydd | Goblygiadau Refeniw | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | Llywodraeth Cymru | Dim | Dim | |
| Benthyca â Chefnogaeth | BBGC | Dim | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Costau refeniw wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad. |
| Benthyca Digefnogaeth | BBGC | Rhaid bodloni gofynion y Côd Darbodus | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Gan fod costau llawn yn disgyn ar y Cyngor, mae'n rhaid i unrhyw brosiect sy'n cael ei cyllido drwy fenthyciad digefnogaeth, fel arfer, greu incwm ychwanegol neu arbedion refeniw i fodloni'r DRI a ffioedd llog. |
| Cymunedau Dysgu (Grantiau a Benthyca) | Llywodraeth Cymru a BBGC | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Mae LIC yn cyllido 65% (67% drwy fenthyca â chefnogaeth a 33% drwy grant). Mae'r Cyngor yn cyllido 35% drwy fenthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf. |
| Cymunedau Dysgu (Model Buddsoddi ar y Cyd) | Llywodraeth Cymru | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | Telir ffi refeniw blynyddol i Gwmni Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) am 25 mlynedd | 92% o'r gost refeniw wedi'i cyllido gan Lywodraeth Cymru, gyda'r 8% sy'n weddill yn disgyn fel cost refeniw'r Cyngor. |
| Cyllid Grant Penodol | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyllidwyr Eraill | Yn unol â'r amodau grant | Dim | Efallai y bydd cyllid grant angen lefel o gyllid cyfatebol. |
| Derbyniadau Cyfalaf | Gwerthiant Asedau'r Cyngor | Dim | Dim | Rhaid defnyddio derbyniadau cyfalaf er mwyn cyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu benthyciadau presennol. |
| Arian Wrth Gefn y Cyngor | Cyngor | Dim | Dim | |
| Cyfraniadau o'r gyllideb refeniw | Cyngor | Dim | Dim | |
| Arian Wrth Gefn y CRT | Cyngor | Gwariant Cyfalaf y CRT yn unig | Dim | |

# Asedau Presennol y Cyngor

| Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 39 | Clybiau Ieuenctid | 1 | Ffordd Cerbydau | 1,188 km |
| Ysgolion Uwchradd | 5 | Unedau Busnes | 68 | Troedffordd | 661 km |
| Canolfan Addysg y Bont | 1 | Safleoedd Manwerthu | 20 | Llwybr Beicio | 211 km |
| Swyddfeydd | 2 | Canolfannau Cymunedol | 8 | Strwythurau | 539 |
| Amgueddfeydd ac Archifau | 2 | Sefydliadau Addysgol Eraill | 3 | Goleuadau | 20,014 goleuadau |
| Llyfrgelloedd | 7 | Eiddo Amrywiol | 8 | Draeniad | 28,064 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 5 | Porthladdoedd a Phierau | 7 | Arwyddion heb eu goleuo | 7,629 |
| Cartrefi Gofal Plant (Cartrefi Clyd) | 3 | Angorfeydd | 468 | Asedau Priffyrdd Arall | 9,239 |
| Canolfannau Gofal Dydd | 4 | Stoc Dai | 3,979 uned | | |
| Canolfannau Hamdden | 4 | Tir Meddianedig | Amryw | | |
| Cyfleusterau Cyhoeddus | 22 | Parciau a Mannau Agored | 47 | | |
| Mân-ddaliadau | 75 | Cerbydau | 200 | | |

# Cynnal Asedau Presennol

- Sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod a gofynion addysgol y dyfodol- £230m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Swyddfeydd y Cyngor- £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Canolfannau Hamdden - £7m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Adeiladau Gofal Cymdeithasol - £2.4m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Unedau Busnes - £0.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Mân-ddaliadau - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd - £0.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw– Cyfleusterau Cyhoeddus - £0.1m
- Gofyniad Cynnal a Chadw Ffyrdd Blynyddol - £2m - £2.5m i gynnal cyflyrau presennol ffyrdd
- Offer TG – Disodli caledwedd presennol bob 3 i 10 mlynedd
- Cerbydau – Disodli cerbydau presennol bob 5 – 7 mlynedd – angen symud at ffynhonnell tanwydd sy'n garbon niwtral
- Grant Cyfleusterau Anabl – Gofyniad cyllidebol gwerth £750k bob blwyddyn

# Cynnal Asedau Presennol

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae cynnal a chadw asedau presennol mewn cyflwr sy'n sicrhau eu bod yn weithredol yn allweddol i sicrhau y gellir barhau i ddarparu gwasanaethau.
- Byddai buddsoddi / diweddaru a disodli asedau presennol a dechrau cael gwared ar yr ôl groniad cynnal a chadw angen gwariant cyfalaf sy'n fwy na £10m bob blwyddyn. Mae hyn y tu hwnt i'r lefel bresennol o gyllido a bydd angen blaenoriaethu buddsoddi.
- Mae buddsoddi yn asedau TG yn caniatau'r Cyngor gynnal ei galedwedd TG, sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Pob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn ein hasedau presennol er mwyn eu hamddiffyn ar gyfer y dyfodol.
- Bydd asedau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn cael eu blaenoriaethu wrth ddyrannu cyllid cyfalaf.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu ar gyfer cynnal a chadw neu ddisodli asedau'r Cyngor – Adeiladau'r Cyngor, Offer TG , Cerbydau.
- Y strategaeth gyfredol yw i ddefnyddio'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd rhaid cael benthyca digefnogaeth sylweddol i gyllido'r gweddill, a bydd hyn yn ei dro'n arwain at DRI a thaliadau llog gwerth tua £750k y flwyddyn.
- Yn y tymor hwy, byddwn yn asesu ein hasedau a gadwyd yn unol â'n hanghenion gwasanaeth yn y dyfodol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Anelu i gyllido ar y lefel ganlynol:-
  - Adeiladau Addysg - £1.0m
  - Adeiladau Arall y Cyngor - £0.6m
  - Cynnal a Chadw Priffyrdd - £2.0m
  - Cerbydau - £0.3m
  - Offer TG - £0.3m
  - Grant Cyfleusterau Anabl - £0.75m
- Mae'r lefelau cyllid hyn yn ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael a blaenoriaethau cyllido eraill, ond maent yn nodi'r gofyniad isaf.
- Daw hyn i £4.95m, gyda'r cyllideb ychwanegol yn cael ei gyllido drwy fenthyca digefnogaeth, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau o'r cyllidebau refeniw.
- Bydd y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo modd a phan fo hynny'n fforddiadwy.

# Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'n raglen sylweddol a fydd yn arwain at defnyddio'r cyllid cyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella ysgolion neu adeiladu adeiladau newydd yn y tymor hir.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Rhaglen o hyd a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i'r eithaf.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n llunio'r rhaglen amlinellol strategaethol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r yngor am y 9 mlynedd nesaf.
- Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar wella / disodli y 5 ysgol uwchradd y Cyngor.
- Bydd cyllid yn parhau ar ffurf cymysgedd o grantiau gan Lywodraeth Cymru a benthyca â chefnogaeth (65% o'r gost), a benthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf (35% o'r gost).

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf yn dilyn gwerthu ysgolion nad ydym eu hangen mwyach i gyllido'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Y gost o adeiladu ysgol uwchradd newydd yw oddeutu £70m, ac mae hyn yn debygol o ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) Llywodraeth Cymru i gyllido'r gost o ddisodli un adeilad ysgol.
- Mae unrhyw gynllun newydd yn annhebygol o ddechrau tan 2026/27.

# Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Canolfannau Hamdden yn darparu gwasanaeth bwysig i drigolion Môn sy'n cyfrannu tuag at eu iechyd a'u lles.
- Mae 3 allan o 4 Canolfan Hamdden y Cyngor oddeutu 50 oed, ac mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal a chadw'r adeiladau a diweddaru cyfleusterau.
- Byddai'r gost amcangyfrifiadol oddeutu £40m i £50m a ni all y Cyngor ei gyllido ar ei ben ei hun.

Tudalen 87

MÔN ACTIF

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r adeiladau fel y gallant barhau i weithredu dros y tymor byr i ganolig, gyda'r nod o barhau i weithredu'r 4 ganolfan.
- Bydd y Cyngor yn asesu dyfodol tymor hir y 4 canolfan , a bydd y penderfyniad yn gysylltiedig ag anghenion cymunedau, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r cyllid sydd ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Y strategaeth tymor hir yw gweithio er mwyn cael cyllid grant i wneud gwaith adnewyddu neu ail-adeiladu y Canolfannau.
- Mae gan y Cyngor oddeutu £1.5m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig (a gynhyrchwyd drwy ad-daliad TAW a drwy werthu Cwrs Golff Llangefni) i'w ddefnyddio i gynnal a chadw ac uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur ac i'w ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant allan, pe byddai unrhyw gyfleoedd yn codi.



# Rheoli Gwastraff

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Rhaid i'r Cyngor ddiogelu gwasanaethau 'busnes fel arfer' a chydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol / cwrdd â thargedau e.e. y targed i ailgylchu 70% o wastraff cartref.

- Mae'r buddsoddiad cyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf oddeutu £8.8m, yn cynnwys:-
    - Adnewyddu asedau busnes fel arfer - £2.9m;
    - Newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu / gwastraff i gwrdd â thargedau - £1.1m (gyda buddsoddidad pellach mewn fflyd newydd ar ôl 8 mlynedd o'r cytundeb presennol);
    - Newidiadau isadeiledd i gefnogi newidiadau gwasanaeth i gwrdd â thargedau statudol - £2.0m;
    - Datgarboneiddoi'r fflyd ac offer - £2.8m.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Cynllun Strategol newydd y Cyngor ar gyfer Adnoddau ac Ailgylchu yn nodi pedwar blaenoriaeth allweddol i sicrhau bod gwasanaethau 'busnes fel arfer' yn cael eu cynnal a'u gwella i gwrdd â gofynion cyfreithiol / targedau'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o chydranddeiliaid i wella ei gyfraddau ailgylchu i gwrdd â thargedau statudol, ond bydd rhaid buddsoddi yn ein canolfannau hailgylchu, offer, peiriannau a cherbydau cyfredol er mwyn cyflawni hyn.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Nid oes gan y Cyngor gyllid wedi ei adnabod ar gyfer y buddsoddiad hwn a byddai'n rhaid ei gyflawni drwy fenthyca digefnogaeth ac unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo.

# Cyflawni Sero Net

### Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i'r Cyngor fod yn sero net erbyn 2030.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried targedau carbon sero net.

Tudalen 89




### Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Er mwyn cyflawni'r targed o sero net, bydd angen buddsoddi'n sylweddol yn:-
  - Adeiladau'r Cyngor - er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac i newid i ffynonellau ynni sy'n garbon niwtral;
  - Cerbydau - troi oddi wrth gerbydau petrol a disel;
  - Tai Cyngor – trosi pob eiddo i fod yn garbon niwtral lle bo'n bosibl / hyfyw;
  - Teithio cynaliadwy;
  - Datblygu isadeiledd gwefru cerbydau trydan;
  - Gwella bioamrywiaeth ar dir y Cyngor;
  - Sicrhau bod yr holl adeiladau newydd wedi'u dylunio i fod yn garbon niwtral.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw gyllid craidd ar gyfer cyflawni'r amcan hwn.
- Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau a gwneud bid am gyllid grant a all ddarparu prosiectau pan dderbynnir y cyllid grant.
- Bydd y Cyfrif Refeniw Tai yn darparu cyllid er mwyn symud tuag at ddarparu stoc dai'r Cyngor yn carbon niwtral.

# Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor wedi adnabod nifer o ardaloedd lle mae angen gwella amddiffyn rhag llifogydd.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae  Llywodraeth Cymru'n cyllido 85% o'r gost cyfalaf ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd drwy grantiau. Darperir y 15% sy'n weddill gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddi oddeutu £2m bob blwyddyn mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Golyga hyn y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid cyfatebol o £300k bob blwyddyn.
- Oherwydd y cyllid grant sylweddol a ellir ei ddenu drwy ddyrannu cyllid cyfatebol, bydd y strategaeth yn parhau i flaenoriaethu'r broses o ddyrannu cyllid cyfatebol o fewn y rhaglen gyfalaf.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Blaenoriaethu darparu cyllid cyfatebol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru
- Blaenoriaethu gwariant ar gynlluniau sy'n amddiffyn y nifer uchaf o eiddo ar gyfer pob punt sy'n cael ei gwario

# Cyllid Grant gan Lywodraeth y DU

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Sicrhau bod Ynys Môn yn dal i elwa o'r cyllid grant sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru swydd wedi cymryd lle cyllid grant yr UE.
- Sicrhau ein bod ni'n parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n darparu buddion i drigolion a chymunedau Ynys Môn.

Tudalen 91



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Llywodraeth y DU wedi disodli'r cyllid grant blaenorol gan yr UE gyda chyllid grant lleol a rhanbarthol ychwanegol – sef, ar hyn o bryd, y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i wneud bid am gyllid er mwyn cwblhau prosiectau sy'n gwella'r isadeiledd leol a'r economi leol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Asesir y broses o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel cyllid cyfatebol ar sail achos fesul achos, gan ystyried pwysigrwydd y prosiect ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Cymru, y buddion posibl sy'n deillio o gwblhau'r prosiect a'r cydbwysedd rhwng cyllid cyfatebol a chyllid grant.
- Oni bai am yr ymrwymiadau presennol, nid oes unrhyw ymrwymiadau cyllid cyfatebol newydd wedi'u gwneud ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2028.



# Isadeiledd ac Offer TG mewn Ysgolion

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r ffordd y mae ysgolion yn darparu addysg wedi newid ac mae TG yn chwarae mwy o ran yn y ddarpariaeth addysg ac o ran rheoli ysgolion.
- Mae buddsoddi mewn isadeiledd ac offer TG ar gyfer disgyblion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau i wella a moderneiddio'r ddarpariaeth addysg.

Tudalen 92



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy gynllun Grant HWB. Mae hyn wedi caniatau diweddaru isadeiledd TG mewn ysgolion a phrynu dyfeisiau ar gyfer disgyblion unigol.
- Mae amod y grant HWB yn gofyn fod y Cyngor yn ymrwymo i ddisodli'r offer a brynwyd drwy'r grant pan ddaw i ddiwedd ei oes defnyddiol. Bydd angen oddeutu £1.3m o wariant yn ystod 2027/28 i wneud hyn, a bydd angen buddsoddiad sylweddol pellach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Mae'r Cyngor hefo £0.46m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido peth o'r gost, a bwriadwyd gwneud cyfraniad blynyddol o'r gyllideb refeniw bob blwyddyn er mwyn cynyddu lefel y gronfa wrth gefn yma. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau ariannol presennol yn golygu bod y cyfraniad hwn wedi dod i ben yn 2023/24.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gweithredol rhwng chydranddeiliaid i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Edrych ar opsiynau amgen i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol.



# Eiddo Buddsoddi

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae gan y Cyngor nifer o eiddo sy'n cael eu gosod ar sail fasnachol ac sy'n cynhyrchu incwm blynyddol ar gyfer y Cyngor. Maent yn cynnwys unedau diwydiannol, swyddfeydd, unedau manwerthu a mân-ddaliadau.
- Mae'r eiddo yma'n darparu llety gwerthfawr i gefnogi busnesau lleol ac maent yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi yn yr economi leol.

Tudalen 93



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae'r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddatblygu unedau newydd drwy gyllid grant, yn bennaf gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau diweddar o ddatblygiadau yn cynnwys unedau newydd ym Mhenrhos, Caergybi, ac unedau yn Ystâd Ddiwydiannol Bryn Cefni.
- Rhwng 2010 a 2015, cafwyd gwared ar nifer o fân-ddaliadau, ac fe unwyd tir er mwyn creu unedau mwy o ran maint a hyfywedd. Ail-fuddsoddwyd y derbyniadau cyfalaf o werthiant yr eiddo hyn er mwyn diweddaru'r eiddo a oedd yn weddill. Fodd bynnag, nid yw'r ffynhonnell hon o gyllid ar gael bellach.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn nodi'n bwriad ar gyfer ein gwahanol ystadau ac asedau a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i'r gyllideb gyfalaf.
- Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei gyllid cyfalaf craidd er mwyn buddsoddi yn yr eiddo hyn, yn ogystal â chyllid grant daw ar gael neu fenthyca digefnogaeth.



# Tai Cymdeithasol a Fforddiadwy

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor yn darparu tai ar gyfer oddeutu 4,000 o denantiaid ar hyn o bryd, ac mae'n darparu llety fforddiadwy i drigolion mwyaf bregus Ynys Môn.
- Mae'r galw am lety rhent isel, fforddiadwy o safon ar Ynys Môn yn parhau i gynyddu. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn ei stoc dai presennol a chynyddu'r stoc hwnnw er mwyn parhau i gwrdd â'r galw cynyddol.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Parhau i ddatblygu, neu ail-brynu, 45 uned bob blwyddyn ac, yn ogystal, buddsoddi yn y ddarpariaeth gofal ychwanegol newydd, uned 40 gwely a gynllunir i'w agor yn 2026/27.
- Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc bresennol er mwyn sicrhau bod eiddo'n parhau i gynnal safon SATC, a bod unrhyw waith i ddiweddaru eiddo nad ydynt wedi'u diweddaru hyd yma, yn digwydd pan fydd yr eiddo ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Defnyddio asedau ariannol y Cyfrif Refeniw Tai i gyllido'r buddsoddiad sydd ei angen.
- Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi. Cyllidir gwariant cyfalaf drwy'r warged blynyddol a gyflawnir drwy'r cyfrif refeniw, y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, balansau cronfeydd wrth gefn presennol y CRT a drwy fenthyca digefnogaeth.
- Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd gwblhau 3 prif brawf ariannol cyn ei roi ar waith. Mae hyn yn sicrhau fod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy, a bod modd ei gyllido drwy incwm rhentu yn y dyfodol.
- Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT yn amcanu y bydd £54m yn cael ei fuddsoddi yn y stoc bresennol, a bydd £75m yn cael ei fuddsoddi yn natblygiad eiddo newydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- Mae'r Cynllun Busnes wedi gosod cap ar fenthyca, sef 6.5 gwaith swm yr incwm rhent.

# Crynodeb o Wariant Cyfalaf 2024/25 hyd at 2028/29

| | Isafswm £'m | Posibl £'m | Uchafswm £'m |
|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Asedau Presennol | 21.88 | 30.98 | 48.77 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 3.03 | 49.73 | 61.22 |
| Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden | 1.50 | 7.50 | 40.50 |
| Rheoli Gwastraff | 0.00 | 5.88 | 8.80 |
| Cyflawni Sero Net | 0.00 | 7.50 | 7.50 |
| Rhaglen Amddiffyn rhag Llifogydd | 0.00 | 5.00 | 10.00 |
| Isadeiledd / Offer TG mewn Ysgolion | 0.46 | 1.55 | 1.55 |
| Eiddo Buddsoddi | 0.00 | 1.00 | 4.00 |
| Ffyniant Bro | 7.81 | 7.81 | 7.81 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 64.13 | 129.50 | 129.50 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **98.81** | **246.45** | **319.65** |



- Mae'r isafswm yn defnyddio'r cyllid sydd wedi'i sicrhau y gwyddys amdano. Mae'r uchafswm yn cyfeirio at y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni holl amcanion y Cyngor, a dwyn ynghyd yr holl asedau presennol i gyflwr derbyniol.
- Mae'r swm posibl yn defnyddio lefel o fenthyca digefnogaeth a all fod yn fforddiadwy os, a phryd, fydd sefyllfa cyllideb refeniw'r Cyngor yn gwella.
- Gall cyllid grant, pan fydd wedi'i sicrhau, ganiatáu i'r Cyngor ddisodli benthyciadau â grantiau a chaniatáu iddo symud o'r Isafswm i'r Posibl ar gost refeniw is, neu ganiatáu iddo symud o'r Posibl i'r Uchafswm.
- Mae'n bosib y bydd cyllid grant arall hefyd ar gael ar gyfer prosiectau eraill a byddant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf pan fydd y cyllid hwnnw wedi cael ei sicrhau ac, felly, maent wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

# Crynodeb ar Gyllido Gwariant Cyfalaf 2024/25 hyd at 2028/29

| | Isafswm £'m | Posibl £'m | Uchafswm £'m |
|---|---|---|---|
| Benthyca â Chefnogaeth | 10.79 | 10.79 | 10.79 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 11.09 | 11.09 | 11.09 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca â Chefnogaeth | 0.00 | 5.58 | 15.74 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca Digefnogaeth | 2.85 | 7.33 | 10.45 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Grant Llywodraeth Cymru | 0.00 | 2.75 | 6.97 |
| Cyllid Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) | 0.00 | 27.90 | 27.90 |
| Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru | 0.00 | 9.50 | 13.75 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0.18 | 2.44 | 2.44 |
| Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig | 1.96 | 2.66 | 2.66 |
| Cyllid Ffyniant Bro | 7.81 | 7.81 | 7.81 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr y CRT | 13.45 | 13.45 | 13.45 |
| Grantiau Eraill y CRT | 8.69 | 8.69 | 8.69 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Gwarged Blynyddol y CRT | 41.99 | 41.99 | 41.99 |
| Benthyca Digefnogaeth – Cronfa Gyffredinol | 0.00 | 29.11 | 80.12 |
| Benthyca Digefnogaeth – CRT | 0.00 | 65.36 | 65.36 |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **98.81** | **246.45** | **319.21** |

# Effaith Gwariant Cyfalaf ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a Benthyca Allanol

| | Isafswm | | Posibl | | Uchafswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m |
| 2024/25 | 168.846 | 144.338 | 192.739 | 168.556 | 192.930 | 168.653 |
| 2025/26 | 169.728 | 145.859 | 213.849 | 190.934 | 226.245 | 203.099 |
| 2026/27 | 170.532 | 146.041 | 229.615 | 206.978 | 261.488 | 238.524 |
| 2027/28 | 171.252 | 145.438 | 253.443 | 230.945 | 302.795 | 279.706 |
| 2028/29 | 171.885 | 146.734 | 271.596 | 251.575 | 328.996 | 308.085 |

- Mae effaith yr uchod ar derfyn awdurdodedig a ffin weithredol y Cyngor wedi'i nodi yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

# Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cronfa Gyffredinol

| | | Isafswm | | Posibl | | Uchafswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Refeniw Net (GRN) Amcangyfrifedig £'m | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % |
| 2024/25 | 184.219 | 5.921 | 3.21 | 6.462 | 3.51 | 6.542 | 3.55 |
| 2025/26 | 189.746 | 6.068 | 3.20 | 6.979 | 3.68 | 7.437 | 3.92 |
| 2026/27 | 195.438 | 6.164 | 3.15 | 7.433 | 3.80 | 8.576 | 4.39 |
| 2027/28 | 201.301 | 6.212 | 3.09 | 8.289 | 4.12 | 9.869 | 4.90 |
| 2028/29 | 207.340 | 6.308 | 3.04 | 8.792 | 4.24 | 10.536 | 5.08 |

- Tybir y bydd y gwariant refeniw net yn cynyddu 3% bob blwyddyn o 2025/26.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Strategaeth Rheoli Trysorlys
- Ni fyddai'r costau DRI a Llog ychwanegol yn cael eu cyllido drwy Gyllid Allanol Cyfun, a byddai angen cynnydd yn y Dreth Gyngor i'w gyllido.
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

# Blaenoriaethu Gwariant Cyfalaf a Gosod Cyllidebau Cyfalaf Blynyddol

- Bydd cyllidebau blynyddol yn cael eu gosod i gynnal asedau presennol a bydd y cyllid yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd y gwasanaethau'n cael eu gwahodd i gyflwyno bid am gyllid ar gyfer prosiectau un tro. Bydd y bidiau'n cael eu hasesu o ran:-
    - Y modd y maent yn cyfrannu at yr amcanion yng Nghynllun y Cyngor;
    - A ydynt yn cyfrannu at liniaru unrhyw un o risgiau corfforaethol y Cyngor;
    - Effaith y prosiect ar fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol;
    - Effaith y prosiect ar gostau refeniw yn y dyfodol h.y. fydd costau refeniw'n cynyddu ta'n gostwng;
    - A fydd y prosiect yn cael ei gyllido'n rhannol drwy gyllid grant ac, os felly, faint.
- Mae'r cyllidebau cyfalaf ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu llunio y tu allan i'r broses hon.

# Monitro a Rheoli Gwariant a Benthyca Cyfalaf

Mae Gwariant Cyfalaf a'r benthyciadau perthnasol yn cael eu monitro a'u rheoli gan y Cyngor, fel a ganlyn:-

- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Benthyca Darbodus - yn cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau rheoli trysorlys blynyddol a bob hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau Monitro Gwariant Cyfalaf Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Sgriwtini Cyllid;
- Cynigir Cyllideb Cyfalaf Blynyddol gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'i cymeradwyir gan y Cyngor llawn.

Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer y swyddogaeth Rheoli Trysorlys o fewn y Cyngor yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a gefnogir gan weithwyr cyllid proffesiynol, cymwys a phrofiadol, gan gynnwys y Rheolwr Cyfrifeg, Rheolwr Cyllid a Chyfrifydd Cyfalaf.


Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi Link Asset Services i ddarparu cyngor arbenigol ar reoli trysorlys.

Mae Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar reoli trysorlys sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau.

# Strategaeth buddsoddi Rheoli Trysorlys

- Mae Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor wedi ei nodi yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, ond fe'i crynhoir fel a ganlyn:-
    - Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi gyda sefydliadau ariannol sydd â'r statws credyd uchaf fel y nodir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.
    - Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy sicrhau'r egwyddor diogelwch, hylifedd ac elw, yn y drefn honno. Nid yw buddsoddiadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau'r elw mwyaf yn unig. Adroddir ar fuddsoddiadau'n chwarterol drwy'r adroddiadau diweddaru Rheoli Trysorlys.
    - Ni fydd buddsoddiadau ariannol yn cael eu cyllido drwy fenthyca ychwanegol.
    - Bydd y Cyngor yn cadw isafswm balansau arian parod sy'n cyfateb i'r lefel gytunedig o falansau cyffredinol, sydd ar hyn o bryd yn 5% o gyllideb gwariant refeniw net y Cyngor, sy'n £9.5m ar gyfer 2024/25.
    - Mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys ar ffurf eiddo buddsoddi (eiddo manwerthu, swyddfeydd ac unedau masnachol) sy'n cynhyrchu incwm rhent blynyddol, er nad yw'r incwm a gynhyrchir yn sylweddol yn nhermau incwm blynyddol cyffredinol y Cyngor. Nid oes bwriad i werthu'r eiddo hyn yn y dyfodol agos.
    - Bydd y Cyngor yn cymryd mantais o unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo er mwyn datblygu mwy o eiddo buddsoddi, ond ni chymerir unrhyw fenthyca sylweddol ychwanegol mwy er mwyn datblygu rhagor o unedau.

# Risgiau o ran Darparu'r Strategaeth Gyfalaf a'r Gyllideb Cyfalaf




Tudalen 102

# Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Mae gofyniad cyfalaf y Cyngor i foderneiddio a diweddaru asedau presennol ac i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn fwy na £300m dros y 5 mlynedd nesaf, ac mae gallu'r Cyngor i gyflawni wedi'i gyfyngu oherwydd diffyg cyllid sydd heb ei neilltuo gan lywodraeth ganolog.
- Mae gallu'r Cyngor i ymgymryd â benthyca digefnogaeth, yn unol â gofynion y Côd Darbodus, wedi'i gyfyngu ar sail fforddiadwyedd, gan y byddai'n gosod cost annerbyniol ar dreth dalwyr yn y dyfodol.
- Mae'r isafswm cyllid sydd ar gael drwy fenthyca â chefnogaeth a'r grant cyfalaf cyffredinol yn annigonol er mwyn cyllido'r isafswm sydd ei angen i gynnal asedau presennol y Cyngor i lefel sy'n galluogi'r asedau hynny i gael eu gweithredu'n ddiogel ac effeithiol.
- Er mwyn cyflawni ei amcanion corfforaethol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau cyllid grant ychwanegol, ond efallai na fydd hyn yn ddigonol er mwyn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen tuag at gyflawni ei amcanion.
- Er mwyn symud o'r isafswm, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried ymgymryd â benthyca digefnogaeth cyfyngedig, ond mae'n rhaid i hyn fod ar lefel fforddiadwy, gan ystyried yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu'r Cyngor.
- Efallai y bydd ffactorau allanol, megis deddfwriaeth newydd neu addasedig, lefelau perfformiad newydd neu'r angen i osgoi methiannau gwasanaeth, yn dwysau'r angen i symud o'r isafswm yn gynt na'r hyn a ystyrir yn ddymunol neu fforddiadwy.
- Gellir osgoi buddsoddiad cyfalaf ychwanegol drwy resymoli asedau ac ymestyn bywyd asedau presennol.
- Rhoddir blaenoriaeth i gyllido'r prosiectau hynny sy'n cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor orau e.e. y rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy.
- Darperir cyllid cyfatebol lle mae'r prosiect yn cael ei gyllido'n bennaf gan grantiau allanol ac os yw'r prosiect yn unol ag amcanion corfforaethol y Cyngor.
- Bydd prosiectau'r CRT yn parhau i gael eu hasesu ar wahân i brosiectau Cronfa'r Cyngor.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **29 CHWEFROR 2024** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2024/25** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB REFENIW 2024/25**

**1.1 Pwrpas**

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2024/25. Bydd modd wedyn i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024. Dyma'r materion y mae angen cytuno arnynt:-

- Cyllideb Refeniw y Cyngor ac, yn sgil hynny, y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a ddiweddarwyd;
- Defnyddio unrhyw gyllid unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

**1.2 Crynodeb**

Dengys y papur hwn gynigion manwl y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 y mae angen eu hystyried yn derfynol a chytuno arnynt, a'r effaith ddilynol ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Materion i'r Cyngor gytuno arnynt yw'r rhain a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac mae'n gosod y cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Serch hynny, dylid nodi y caiff adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac efallai, bryd hynny, bydd gwybodaeth am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn fwy eglur.

**2. ARGYMHELLION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR 2024/25**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Gytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y'i dangosir yn Adran 4 o Atodiad 1 ac yn Atodiad 2;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £9.2m o falansau cyffredinol;
- Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1;
- Argymell i'r Cyngor llawn gyllideb net o £184.165m ar gyfer y Cyngor Sir ac, yn sgil hynny, cynnydd o 9.50% yn y Dreth Gyngor (8.6% ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 0.9% ar gyfer yr Ardoll Tan) (£136.44 – Band D), gan nodi y caiff cynnig ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor ar 7 Mawrth 2024;

- Bod addasiad yn cael ei wneud ar gyfer unrhyw fân wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a’r setliad terfynol, gan ddefnyddio’r gyllideb wrth gefn gyffredinol sydd wedi’i chynnwys yng nghyllideb 2024/25, neu trwy wneud cyfraniad i neu o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys;
- Awdurdodi’r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno’r cynigion terfynol i’r Cyngor;
- Cytuno y gellir defnyddio cyllid o’r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;
- Gofyn i’r Cyngor awdurdodi’r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o’r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo’n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i’r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o’r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k heb ganiatâd o flaen llaw y Pwyllgor Gwaith;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn codi i 100% ac yn aros ar 100% ar gyfer tai gwag.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi y gyllideb arfaethedig gychwynnol. Mae‘r gyllideb arfaethedig derfynol yn ystyried y setliad terfynol i lywodraeth leol, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae’n rhaid i’r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn i’r Cyngor ei ystyried.

**CH - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2024/25 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024.

**D - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

**Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Wrth lunio y gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut:- | Mae manylion unrhyw gynigion am arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy- | Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd ar y gyllideb arfaethedig ac mae'r manylion i’w gweld yn yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn cytuno ar y gyllideb arfaethedig derfynol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosib y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd unrhyw gynigion sydd wedi’u cynnwys yng nghyllideb derfynol 2024/25 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. | Yn sgil y gyllideb, bydd trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Bydd y rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ac ni ddylai'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol weld unrhyw / fawr ddim effaith ariannol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn ategu'r gyllideb arfaethedig derfynol. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (**gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r TA ac, fel y cyfryw, ystyriwyd sylwadau'r Swyddog. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| **5** | **Eiddo** | - |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | - |
| **7** | **Sgriwtini** | Cafodd y gyllideb arfaethedig derfynol ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod 27 Chwefror 2024. Rhoddir canlyniad y cyfarfod ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod ac ymgynghorwyd â nhw trwy gydol y broses o osod y gyllideb. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Gweler Adran 2 yn yr adroddiad. |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Gyllideb Arfaethedig
- Atodiad 2 – Crynodeb o Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2024/25 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 23 Ionawr 2024
- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2024/25 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 16 Ionawr 2024
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 – 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 26 Medi 2023

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynigion ar gyfer cyllideb refeniw arfaethedig 2024/25 a dyma un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae'n sicrhau fod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a'r Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.

**1.2.** Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i nodi arbedion refeniw yn cael eu llywio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023, a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2025/26**

| | **2024/25 £'m** | **2025/26 £'m** |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 174.569 | 177.710 |
| Pwysau Cyllidebol a Chwyddiant | 13.072 | 5.368 |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **187.641** | **183.078** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan ragdybio cynnydd o 3.0% yn 2024/25 a 1.0% yn 2025/26) | 127.375 | 128.649 |
| Y Dreth Gyngor (gan ragdybio cynnydd o 5% yn 2024/25 a 2025/26) | 50.335 | 52.852 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **177.710** | **181.501** |
| | | |
| **Gofynion Cyllido Ychwanegol / Y Gofyn am Arbedion** | **9.931** | **1.577** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog – Staff nad ydynt yn Athrawon | 3.5% | 2.0% |
| Dyfarniadau Cyflog – Athrawon | 5.6% | 2.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 4.9% | 1.6% |
| Noder – Mae'r ffigyrau ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyllid i gywiro'r gyllideb sail gan nad oedd y ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau yng nghyllideb 2023/24 yn ddigonol. | | |

**1.3.** Roedd y ffigyrau a nodwyd yn y CATC yn seiliedig ar ragdybiaethau a gwybodaeth a oedd ar gael pan luniwyd y CATC. Yn hytrach na darparu asesiad cywir o'r gofyn cyllidebol, pwrpas y CATC yw darparu asesiad lefel uchel o'r bwlch posib yn y gyllideb.

**1.4.** Pan luniwyd y gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd dyfarniad cyflog 2023/24 wedi cael ei gytuno, roedd chwyddiant wedi dechrau gostwng yn gyflym ac roedd y rhagdybiaethau ar gyfer chwyddiant yn llai tebygol o fod yn anghywir, ac roedd y prisiau ynni newydd ar gyfer y flwyddyn o Hydref 2023 i Fedi 2024 wedi cael eu derbyn. Roedd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd ynglŷn â'r gyllideb sail.

**1.5.** Roedd ffigyrau cyffredinol y setliad drafft a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r rhagolwg yn y CATC, er bod y ffigwr ar gyfer Ynys Môn ychydig yn is, a hynny oherwydd y ffordd mae'r fformiwla cyllido yn gweithio. Derbyniodd y Cyngor gynnydd o 2.5%, o gymharu â chynnydd o 3.0% a oedd wedi'i gynnwys yn y CATC.

**1.6.** Serch hynny, er gwaetha'r newidiadau hyn a'r ffaith fod y bwlch cyllido'n is nag a ragwelwyd yn y CATC, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau'n heriol yn 2024/25 a 2025/26, ac mae disgwyl i gostau barhau i gynyddu, oherwydd chwyddiant a chynnydd yn y galw, ond nid oes fawr o obaith y bydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n ddigon i gwrdd â'r cynnydd mewn costau yn llawn.

## 2. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG GYCHWYNNOL

**2.1.** Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2024, trafododd y Pwyllgor Gwaith y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r setliad dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023.

**2.2.** Roedd y setliad dros dro ychydig yn is na'r disgwyl, gyda'r Cyngor yn derbyn £126.973m, sef cynnydd o £3.308m (2.67%) mewn termau ariannol ond, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n cael eu trosglwyddo i'r setliad ac effaith y newid i sylfaen y dreth, roedd y cynnydd wedi'i addasu yn £3.107m (2.51%).

**2.3.** Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £184.219m ar gyfer 2024/25 ac, ar sail yr AEF dros dro o £126.973m, byddai angen cynnydd o 10.9% yn y Dreth Gyngor yn ogystal â defnyddio £4.425m o falansau cyffredinol y Cyngor, i gydbwyso'r gyllideb.

**2.4.** Wrth osod y gyllideb arfaethedig, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod angen gwarchod gwasanaethau rheng flaen a chynyddu cyllidebau i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau Oedolion a Phlant.

**2.5.** Roedd y gyllideb arfaethedig yn cynnwys cyfyngu'r cynnydd chwyddiant ar gyfer cyllideb datganoledig ysgolion, gan olygu gostyngiad o £1.25m yn y gyllideb, ac roedd yn cynnwys targed arbedion o £1m a fyddai'n cael ei gyflawni trwy leihau'r gweithlu, peidio â defnyddio premiwm y Dreth Gyngor i gyllido prosiectau tai am un flwyddyn, gan arbed £1.2m, yn ogystal ag arbedion eraill yn y gyllideb a phrosiectau cynhyrchu incwm gwerth £1.327m.

**2.6.** Er nad yw'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) wedi'i fwriadu fel mesur o lefel ddisgwyliedig cyllideb refeniw net y Cyngor, mae'n rhoi rhyw syniad p'un a yw lefel cyllideb y Cyngor yn rhesymol i'r Cyngor. Mae'r AGS ar gyfer 2024/25 yn £175.877m ac mae'r gyllideb arfaethedig, felly, yn 104.7% o'r AGS.

## 3. PWYLLGOR SGRIWTINI

**3.1.** Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliad dros dro a'r setliad terfynol, bu'n rhaid cwtogi amserlen y gyllideb ar gyfer 2024/25 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu gosod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30(6)). Bu i'r Panel Sgriwtini Cyllid hefyd archwilio cynigion buddsoddi gwasanaethau yn fanwl yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2024, a chyflwynwyd sylwadau'r Panel i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16 Ionawr 2024.

**3.2.** Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y gyllideb arfaethedig gychwynnol 2024/25 yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2024. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cyllideb arfaethedig gychwynnol y Pwyllgor Gwaith..

**3.3.** Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2024, rhoes y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyriaeth bellach i'r gyllideb arfaethedig derfynol, a bydd adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

## 4. Y BROSES YMGYNGHORI

**4.1.** Er bod yr amserlen rhwng cyhoeddi y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r dyddiad terfynol ar gyfer gosod y Dreth Gyngor yn un fer, cynhaliwyd ymgynghoriad byr, a gofynnwyd i breswylwyr ateb nifer o gwestiynau ynglŷn â'u blaenoriaethau gwariant a chyllido. Oherwydd yr amserlen fer, cyfyngwyd ar y nifer a'r math o gwestiynau a ofynnwyd er mwyn cael digon o amser i ddadansoddi'r ymatebion.

**4.2.** Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'w weld yn Atodiad 2. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi o'r ymgynghoriad:-

- O'r holl ymatebion a dderbyniwyd, roedd addysg ac ysgolion yn un o'r pum prif flaenoriaeth i 77%, wedi'i ddilyn gan oedolion a phlant bregus, 68%, a chasglu gwastraff ac ailgylchu, 66%.

- Roedd 61% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad:-

  **"Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer y gyllideb yn ceisio diogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor, adennill costau gwasanaeth drwy ffioedd a thaliadau, lle mae modd gwneud hynny, parhau i fuddsoddi, a lle bo'n bosib, moderneiddio a thrawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau"**

- Roedd 49.3% o ymatebwyr yn fodlon talu mwy mewn ffioedd a thaliadau er mwyn gwarchod gwasanaethau, ond ni fyddai 50.7% yn fodlon gwneud hynny.
- Roedd 79% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig i ddefnyddio cyllid ychwanegol o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a thai gwag i gyfrannu at gyllido gwasanaethau yn 2024/25.
- Ymateb amrywiol a gafwyd i'r cwestiwn yn gofyn a oedd preswylwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion i wneud arbedion, ac roedd llai o gefnogaeth i gynigion a fyddai'n effeithio ar Ysgolion neu'r Gwasanaethau Oedolion.
- Dim ond 29% oedd o blaid y cynnydd arfaethedig o 10.9% yn y Dreth Gyngor, ac nid oedd 36% yn dymuno gweld unrhyw gynnydd, tra bod 88% yn cefnogi cynnydd o 5% neu lai.
- Er mwyn cydbwyso'r gyllideb, roedd 36% yn dymuno i'r diffyg yn y gyllideb gael ei gyllido'n gyfan gwbl o'r cronfeydd wrth gefn, gyda 84% yn dymuno i o leiaf 50% o'r diffyg gael ei gyllido o'r cronfeydd wrth gefn.
- O ran y gwasanaethau y byddai'r rheiny a ymatebodd yn fodlon iddynt gael eu cwtogi, roedd y gwasanaethau mwy dewisol eu natur (Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd, Twristiaeth a Llyfrgelloedd) ar ben y rhestr, ac roedd ymatebwyr yn dymuno gweld gwasanaethau mwy hanfodol (gofal cymdeithasol, ysgolion, tân, a chasglu gwastraff) yn cael eu gwarchod.

## 5. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL

**5.1.** Pan luniwyd y gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd y Cyngor yn disgwyl penderfyniad terfynol ynglŷn â chyllidebau cyrff sy'n codi ardoll a sefydliadau eraill sy'n derbyn cyfraniad gan y Cyngor. Mae Tabl 2 isod yn dangos yr effaith ar gyllideb y Cyngor ar ôl gwneud addasiadau i adlewyrchu penderfyniadau terfynol y cyrff dan sylw.

**5.2.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi y bydd cynghorau yn Lloegr yn derbyn £600m o gyllid ychwanegol yn 2024/25, a chaiff hynny ei gadarnhau'n ffurfiol yng nghyllideb y Canghellor ar 6 Mawrth 2024. Bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn £25m o gyllid canlyniadol yn sgil y cyllid ychwanegol hwn, ac maent wedi cadarnhau y caiff £10.6m o'r cyllid ychwanegol ei ddefnyddio i adfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i lefel 2023/24. Mae'r £14.4m sy'n weddill wedi cael ei ddyrannu gan ddefnyddio fformiwla'r setliad Llywodraeth Leol. Effaith y cyllid ychwanegol hwn yw cynnydd o £332k yn y Cyllid Allanol Cyfun.

**5.3.** Mae un pwynt yn weddill nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol, ac mae'n ymwneud â'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniad y cyflogwr tuag at bensiynau athrawon a phensiynau'r gwasanaeth tân. Y disgwyl o hyd yw y bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gyllido'r costau ychwanegol yn llawn ac y bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn cyllid ychwanegol i'w drosglwyddo i'r Cynghorau. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y ddwy lywodraeth a gallai olygu bod y Cyngor yn derbyn cyllid ychwanegol yn 2024/25.

**5.4.** Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo 3 grant refeniw i'r setliad terfynol :-

- Gweithredu Fframwaith Perfformiad a Gwelliant - £40,000;
- Darparu Atal Llifogydd - £225,000;
- Claddedigaethau Plant - £16,240.

O ystyried pa mor hwyr derbyniwyd yr hysbysiad, fe ymgorfforir y grantiau yma i gyllideb y gwasanaeth perthnasol yn 2024/25 ac fe adolygir y gyllideb yn ystod 2024/25 a'i addasu'n unol a hynny yn 2025/26, petai'r swm a drosglwyddir i mewn i'r gyllideb ddim ei angen yn ei gyfanrwydd.

**5.5.** Adolygwyd nifer o gyllidebau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig derfynol ac mae hyn wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r gyllideb arfaethedig derfynol. Dyma'r newidiadau:-

- Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi adolygu ei gyllideb arfaethedig derfynol ac mae ardoll y Cyngor wedi gostwng gan £87k yn sgil hynny.

- Derbyniwyd y prisiau ynni ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2023 a Medi 2024 ac mae'r prisiau wedi gostwng. Adolygwyd lefel chwyddiant ar gyfer 2024/25, ac aseswyd y gellir gostwng y cyllidebau ynni gan £220k.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cap ar y lluosydd Trethi Annomestig ac mae hyn, ynghyd â'r cynllun rhyddhad trosiannol, yn golygu gostyngiad o £84k yn y gyllideb.

- Pan benderfynwyd ar y gyllideb i gyllido cost Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, roedd disgwyl i nifer yr hawlwyr gynyddu ar ddiwedd cyfnod yr haf 2023. Mae'r adolygiad ar ddiwedd chwarter 3 blwyddyn ariannol 2023/24 yn dangos na welwyd y cynnydd disgwyliedig yn nifer yr hawlwyr. Mae hyn yn golygu y gellir gostwng y gyllideb gan £150k.

- Roedd y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn cynnwys £2.88m i gwrdd â chost galw ychwanegol yn y Gwasanaethau Oedolion, i fynd i'r afael â bwriad Llywodraeth Cymru i dorri Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac am fod disgwyl cynnydd uwch na chwyddiant mewn costau. Dengys y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 3 ostyngiad sylweddol yn y gorwariant a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth. Eitemau unwaith ac am byth, gan gynnwys swyddi gweigion ac incwm cronnus o flynyddoedd blaenorol, sydd i gyfrif yn bennaf am y newid ac nid ydynt yn effeithio ar gyllideb 2024/25, ond mae rhai newidiadau'n golygu bod angen llai o gyllideb ar gyfer 2024/25. Mae adfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i lefelau 2023/24 (gweler paragraff 5.2 uchod), ynghyd â newidiadau eraill, yn golygu bod angen £500k yn llai o gyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion.

**5.6** Mae effaith y newidiadau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig y Cyngor**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Gychwynnol 2024/25** | | **184.219** |
| **Addasiadau** | | |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | (0.087) | |
| Chwyddiant yn gysylltiedig ag Ynni | (0.220) | |
| Lluosydd Trethi Annomestig | (0.084) | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | (0.150) | |
| Pwysau ar Gyllideb y Gwasanaethau Oedolion | (0.500) | |
| Grantiau sy'n trosglwyddo i'r Setliad | 0.281 | |
| | | (0.760) |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig 2024/25** | | **183.459** |
| **Cyllidir gan** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun – dros dro | 126.973 | |
| Cyllid Allanol Cyfun Ychwanegol | 0.332 | |
| Grantiau sy'n trosglwyddo i'r Setliad | 0.281 | |
| | | 127.586 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm ar ail gartrefi a thai gwag) | | 52.821 |
| Cronfeydd wrth Gefn | | 4.425 |
| **Cyllid Diwygiedig 2024/25** | | **184.832** |
| **Cyllid sy'n weddill o gymharu â'r Gyllideb Refeniw Net** | | **1.373** |

**5.7** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried nifer o opsiynau i sicrhau fod y cyllid diwygiedig yn cyfateb i'r gyllideb refeniw net:-

- Gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 8.02%, bydd hyn yn defnyddio'r holl gyllid sy'n weddill o gymharu â'r gyllideb refeniw net;
- Gostwng yr arbedion arfaethedig yn y gyllideb gan £1.373m. Byddai hyn yn cynyddu'r gyllideb refeniw net i £184.832m cyfateb i'r cyllid diwygiedig;
- Gostwng y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb, o £4.425m i £3.052m;
- Cyfuniad o'r 3 opsiwn a nodir uchod.

**5.8** Er bod y Pwyllgor Gwaith yn deall y pwysau sy'n wynebu teuluoedd oherwydd yr argyfwng costau byw, maent yn cydnabod hefyd bod rhaid iddynt ystyried yr effaith ar gyllideb 2025/26, yn ogystal â sicrhau bod lefel y cynnydd yn cydbwyso cyllideb 2024/25. Mae gosod Treth Gyngor is yn effeithio ar y man cychwyn ar gyfer 2025/26, a bydd gosod lefel y Dreth Gyngor yn rhy isel yn cynyddu'r diffyg yng nghyllideb 2025/26, gan wanhau sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor.

**5.9** Mae'r rhan fwyaf o'r arbedion arfaethedig yn gyraeddadwy ac mae'r effaith ar y Cyngor wedi cael ei asesu cyn cytuno ar y cynigion. Cyfyngu ar y cynnydd i gwrdd â chwyddiant mewn ysgolion yw'r cynnig sy'n effeithio fwyaf ar ddarparu gwasanaethau. Mae sefyllfa ariannol pob ysgol yn amrywio ac mae'n ddibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys newid yn niferoedd y disgyblion, cyllid grant ychwanegol tu allan i'r gyllideb graidd a lefel balansau ysgolion. Mae'r broses sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd i osod y gyllid wedi nodi fod nifer fechan o ysgolion yn cael cryn drafferth gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 ac, er na fyddai gostwng y cyfyngiad arfaethedig yn datrys problemau yn gysylltiedig â'r gyllideb ym mhob ysgol yn 2024/25, byddai unrhyw ostyngiad yn cynorthwyo i liniaru problemau ariannol ysgolion.

**5.10** Bydd lefel sylweddol o arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso cyllideb 2024/25 a dyma'r lefel arfaethedig uchaf ers nifer o flynyddoedd. Ar sail y rhagamcanion presennol, ni fydd yn bosib defnyddio arian wrth gefn eto yn 2025/26 i gyfrannu at y cyllid cyffredinol. Gallai gostwng y cyfraniad yn 2024/25 olygu y byddai modd defnyddio arian wrth gefn eto yn 2025/26, ond nid i'r un graddau. Bydd hyn, unwaith eto, yn lleihau'r diffyg cyllidebol fydd yn wynebu'r Cyngor yn 2025/26, gan ganiatáu i wasanaethau gael eu cwtogi'n fwy graddol yn hytrach na gorfod torri amrywiaeth eang o wasanaethau mewn blwyddyn. Serch hynny, dylid nodi nad yw defnyddio arian wrth gefn ond yn gohirio'r angen i ostwng cyllideb refeniw net gyffredinol y Cyngor, ac nid yw defnyddio'r cronfeydd yn ateb parhaol i'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

**5.11** Ar ôl ystyried yr holl ffactorau uchod, mae cyllideb arfaethedig terfynol y Pwyllgor Gwaith yn addasu'r gyllideb arfaethedig cychwynnol fel a ganlyn:-

- Bod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn cael ei ostwng i 9.5%, ac mae 0.9% yn gysylltiedig â'r cynnydd yn ardoll yr Awdurdod Tân, a 8.6% yn gysylltiedig â gofyn cyllidebol y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd o £136.44 yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D, a chyfanswm y gost i eiddo Band D fydd £1,572.30. Mae hyn yn gostwng cyfanswm incwm y Dreth Gyngor gan £667k.

- Mae'r cyfyngiad ar y cynnydd i ysgolion yn cael ei ostwng o 2.5% i 1.5%. Mae hyn yn cynyddu cyllideb gyffredinol ysgolion gan £498k o'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd yn y gyllideb arfaethedig gychwynnol.

- Nad yw'r cynigion arbedion ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (£100k) yn cael eu gweithredu yn 2024/25.

- Bod £50k o'r arbedion arfaethedig ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth gofal cymdeithasol anstatudol yn cael eu cadw er mwyn cyllido'r' costau trosiannol yr eir iddynt wrth ail-fodelu'r gwasanaeth.

- Ychwanegu £46k i'r gyllideb glanhau toiledau cyhoeddus i gwrdd a'r costau ychwanegol yn dilyn ail-dendro'r gwasanaeth.

- Bod y cynnig i leihau oriau agor y Canolfannau Hamdden yn cael ei addasu i ganiatáu i Ganolfan Hamdden Amlwch barhau i aros ar agor tan 3y.p., yn hytrach na cau am 1y.p. fel nodwyd yn y gyllideb arfaethedig cychwynnol, ar gost ychwanegol o £12k.

**5.12** Mae Tabl 3 isod yn dangos cynnig y gyllideb derfynol, ar ôl gwneud yr addasiadau uchod:-

**Tabl 3**

**Y Gyllideb Arfaethedig Derfynol 2024/25**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig Arfaethedig 2024/25 yn unol â Thabl 2** | | **183.459** |
| **Addasiadau Terfynol** | | |
| Gostwng y Cyfyngiad ar Chwyddiant i Ysgolion i 1.5% | | 0.498 |
| Addasiad i Gynigion Arbedion | | 0.150 |
| Cyllideb ychwanegol ar gyfer glanhau toiledau cyhoeddus | | 0.046 |
| Addasu oriau agor Canolfan Hamdden | | 0.012 |
| Balans cyllid i Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol | | (0.001) |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig ar gyfer 2024/25** | | **184.164** |
| **Cyllidir gan** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 127.586 | |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys Premiwm ar Ail Gartrefi a Thai Gwag) | 52.153 | |
| Arian wrth Gefn | 4.425 | |
| **Cyllid Diwygiedig ar gyfer 2024/25** | | **184.164** |

## 6. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**6.1.** O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ariannol arfaethedig.

**6.2.** Mae amcangyfrifon yn y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'r rhagdybiaethau'n cynnwys elfen o risg. Gellir lliniaru effaith y risg hwn drwy lunio cynlluniau a chyllidebau wrth gefn a chreu cronfeydd wrth gefn ariannol.

**6.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon yn y gyllideb yn cyfeirio'n unig at p'un a ydynt wedi cael eu cyfrifo'n gywir. Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai bod elfen o risg ynghylch p'un a fydd cynlluniau'n cael eu cyflawni neu dargedau'n cael eu cyrraedd. Mae gwahanol risgiau i'r gyllideb yn cael eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant Tâl** – Mae risg chwyddiant yn isel pan fydd lefelau chwyddiant yn isel a'r newid cyffredinol yn y raddfa chwyddiant yn fychan, a dyna fu'r achos am nifer o flynyddoedd. Ni wnaed cynnig tâl ar gyfer staff NJC ar gyfer 2024/25 ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi dweud eto beth fydd y dyfarniad cyflog ar gyfer Athrawon o Fedi 2024, felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â chwyddiant tâl a, chan fod y bil cyflogau yn fwy na £100m, gallai camgymeriad o 1% yn y rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant tâl arwain at ddiffyg o £1m yn 2024/25. Mae'r risg yn cael ei liniaru gan fod y Cyngor wedi creu cronfa wrth gefn glustnodedig i gyllido unrhyw bwysau oherwydd chwyddiant. Byddai'r cyllid yn cael ei ryddhau i gyllido unrhyw anghenion ychwanegol yn y gyllideb cyflogau, a byddai'r gyllideb hirdymor yn cael ei chywiro yn 2025/26.

- **Risg Chwyddiant Prisiau –** Roedd y mesur chwyddiant cyffredinol (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)) ar ei uchaf ym mis Rhagfyr 2022, a dechreuodd ostwng yn sylweddol yn ystod 2023, a rhagwelir y bydd chwyddiant yn neu o gwmpas 2% erbyn canol neu ddiwedd yr haf. Nid oedd disgwyl i'r CPI ddisgyn i 2% mor gyflym pan osodwyd y gyllideb gychwynnol ac, felly, os yw chwyddiant yn gostwng yn arafach na'r disgwyl, mae darpariaeth ddigonol yn y gyllideb i gwrdd â'r risg hwn. Serch hynny, nodir y gallai chwyddiant ar gyfer rhai mathau o wariant fod yn uwch (bwyd, ynni, deunyddiau adeiladu) a gallai'r Cyngor wynebu chwyddiant gwirioneddol sy'n wahanol iawn i ffigwr y CPI. Mae'r Cyngor yn cael ei warchod rhag y risg i ryw raddau gan fod y rhan fwyaf o'n contractau mwyaf (prydau ysgol, cynnal a chadw priffyrdd, casglu gwastraff ac ati) yn defnyddio mynegeion chwyddiant o fis Medi, Hydref neu Dachwedd 2023 i benderfynu ar chwyddiant yn 2024/25. Gan fod y ffigyrau hyn yn hysbys, maent wedi'u hymgorffori yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25.

- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw blwyddyn unigol yn sgil y llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn fuddiol. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn nodi bod rhaid buddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd y buddsoddiad yn y lle cyntaf, ac nid yw enillion ar fuddsoddiadau'n gymaint o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly, yn ddibynnol ar enillion uchel ar fuddsoddiadau. Mae cyfraddau llog wedi aros yn uchel, ac mae'r Cyngor wedi derbyn enillion o dros 5% ar fuddsoddiadau. Wrth osod y gyllideb, mae amcangyfrif o'r llog derbyniadwy wedi'i ymgorffori yn y gyllideb, ond mae risg na fydd y gyllideb yn cael ei gwireddu os yw cyfraddau llog yn dechrau gostwng yn gyflym, neu os yw'r cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi'n is na'r disgwyl. Mae'r mwyafrif o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfradd sefydlog ac ni fyddant yn newid os bydd cyfraddau llog yn codi. Ystyrir, felly, bod y risg cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y gorffennol mae'n risg ddigolledol ar gyfer risg chwyddiant, oherwydd os yw un yn cynyddu, mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.

- **Risg Grantiau –** Dyma risgiau sy'n gysylltiedig â'r nifer fawr o grantiau penodol a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru (LlC), neu gyrff eraill, ac maent yn darparu dros £25m o gyllid ychwanegol. Dengys y setliad terfynol y bydd y rhan fwyaf o'r grantiau gan LlC aros ar lefel 2023/24, neu byddant yn cael eu gostwng ar lefel Cymru gyfan. Nid yw lefel y cyllid grant penodol ar gyfer Ynys Môn yn eglur, ac mae hynny'n wir ar gyfer yr holl grantiau. Yn ôl y rhagolygon cychwynnol, bydd cyllid grant i ysgolion rhwng 8% a 10% yn is nac yn 2023/24. Er mai'r ymateb cyntaf yw dweud bod rhaid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd pan fydd grant yn dod i ben, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd hyn yn bosib pan fydd termau contractau'n golygu na ellir torri gwariant mor gyflym â'r incwm, neu gallai olygu talu costau diswyddo nad ydynt yn cael eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r Cyngor yn penderfynu bod rhaid parhau â'r gwariant gan fod y gweithgaredd a gyllidir yn bwysig iawn i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn meddu ar y wybodaeth orau ar gyfer bob grant, ond ni ellir diystyru newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn gyfan gwbl.

- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 5% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio cynnydd o hyd at 5%. Os yw elastigedd y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod y galw'n gostwng, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gallai hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Gallai'r argyfwng costau byw gael effaith ar incwm a gynhyrchir gan wasanaethau megis hamdden, meysydd parcio, cynllunio a rheoliadau adeiladu, oherwydd gallai defnyddwyr ddewis gostwng eu gwariant ar y gwasanaethau hyn nad ydynt yn hanfodol. Bydd angen monitro'r cyllidebau net yn ofalus ac, os bydd rhaid, gwtogi gwariant i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn incwm.

- **Risg yn gysylltiedig â'r Galw –** Gall nifer o wasanaethau weld newid yn y galw am eu gwasanaethau. Gellir rhagdybio rhai a'u cynnwys wrth osod y gyllideb, e.e. newid mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn anoddach eu darogan a gall cynnydd bychan mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaeth yn unol â lefelau presennol, a bydd y balansau cyffredinol, neu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig mewn rhai achosion, yn cwrdd â chynnydd yn y galw. Mae cyllideb 2024/25 yn seiliedig ar y galw presennol am wasanaeth ym maes gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd, er bod risg y gallai'r galw barhau i gynyddu, tu hwnt i'r gyllideb, yn 2024/25. Byddai hyn yn golygu fod y gwasanaethau hynny sy'n cael eu heffeithio yn gorwario a byddai'n rhaid cyllido'r gorwariant o arian wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor.

- **Risg Optimistiaeth –** Yn y gorffennol, y risg mwyaf o dan yr amgylchiadau presennol, mae'n debyg, yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion yn rhy optimistaidd ynglŷn â'r arbedion a wneir, neu na fydd y galw am wasanaethau, a gofal cymdeithasol yn benodol, yn cynyddu'n sylweddol. Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys dros £2.3m o arbedion y bydd rhaid eu cyflawni, ac mae'n cynnwys targed o arbed £1m trwy gwtogi staff, gyda'r arbedion hynny'n cael eu canfod pan ddaw swyddi'n wag. Os na fydd y targed arbedion yn cael ei gyflawni, bydd yn arwain at orwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 a byddai'r gorwariant hwnnw'n cael ei gyllido o arian wrth gefn y Cyngor.

- **Y risg o fod yn rhy ofalus –** Mae'r risg hwn yn cyferbynnu â'r risg optimistiaeth: y perygl ein bod yn rhy ofalus wrth lunio ein cyllidebau a'u bod, felly'n uwch na'r gofyn, a byddai hynny'n arwain at osod y Dreth Gyngor sy'n uwch na'r gofyn, rhywbeth y mae Aelodau'n awyddus i'w osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon â'r broses ar gyfer gosod y gyllideb a bod y gyllideb yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob gwasanaeth, yn seiliedig ar sefyllfa gyfredol y ffactorau perthnasol.

- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Pan osodir sylfaen y dreth, cydnabyddir y gall nifer y tai gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, fel y cyfrwy, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sy'n cael eu cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor petai'r niferoedd yn gostwng yn sylweddol. Er hynny, dylid nodi bod nifer y tai gwag a ddefnyddiwyd i gyfrifo sylfaen y dreth wedi codi o 417 eiddo ym mis Hydref 2022 i 431 eiddo ym mis Hydref 2023, ac roedd nifer yr ail gartrefi wedi gostwng o 2,724 i 2,443. Mae sawl ffactor yn effeithio ar nifer yr ail gartrefi, ond efallai bod cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi o 50% i 75% ym mis Ebrill 2023 wedi cyfrannu at y newid ac, oherwydd hynny, mae codi'r premiwm ar ail gartrefi o 75% i 100% yn creu risg sylweddol yn 2024/25. Gallai'r cynnydd annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo, h.y. un o ddibenion cynyddu'r premiwm, ond, gall olygu bod mwy o berchnogion yn peidio â thalu neu'n osgoi talu trwy drosglwyddo i drethi busnes, neu ddefnyddio dulliau eraill i osgoi talu. I linau'r risg, cyflogir staff ychwanegol i adnabod achosion o osgoi talu trethi ac, yn sgil hynny, sicrhau fod llai o bremiwm yn cael ei golli. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfan o'r premiwm ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan niferoedd uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol yn yr incwm yn arwain at gwtogi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y mentrau hyn yn y dyfodol.

  **Incwm y Dreth Gyngor –** Mae incwm y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sail y dreth ym mis Tachwedd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sail y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth i eithriadau a disgowntiau person sengl gael eu caniatáu. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn, ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y swm gwirioneddol a gesglir a'r gyllideb.

  Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar raddfa gasglu'r Cyngor hefyd, wrth i fwy o deuluoedd wynebu problemau ariannol oherwydd bod prisiau'n codi. Gallai hyn arwain at golled ariannol yn 2024/25, neu yn y dyfodol, pan fydd rhaid, yn y pendraw, ddileu dyledion nad oes modd eu casglu.

**6.4.** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod, a'r camau lliniaru, barn y Swyddog Adran 151 yw bod y cyllidebau'n gadarn ac yn gyraeddadwy, ac mae lefel iach balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig presennol y Cyngor yn ddigon i liniaru'r risgiau a nodwyd.

## 7. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL

**7.1.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn ymgorffori nifer o ragdybiaethau ynglŷn â lefelau incwm a gwariant tebygol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn ddieithriad, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o risgiau ariannol, a chyfeirir atynt ym mharagraff 5 uchod.

**7.2.** Mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 adolygu unrhyw gyllidebau neu gronfeydd wrth gefn yn eu cyfanrwydd, ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried y tymor canolig, lle bo angen, ac ystyried datblygiadau allweddol a allai gael effaith ar yr angen i ddefnyddio adnoddau unwaith ac am byth.

**7.3.** Cymerir safbwynt cadarn ar reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cronfeydd unwaith ac am byth yn ddigonol i gyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol.

**7.4.** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiad uniongyrchol mewn gwariant, a'r effaith yn sgil hynny ar wasanaethau, cyn ised â phosib. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor canolig a hir y Cyngor, ac i arbedion gael eu gweithredu mewn ffordd raddol a strwythuredig dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae rhywfaint o risg bob amser y ceir gwariant neu orwariant annisgwyl, oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i ymdopi â'r pwysau hwn.

**7.5.** Ar 31 Mawrth 2023, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £14.039m, ac mae hyn yn cyfateb i 8.04% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2023/24, neu 11.29% o beidio â chynnwys y gyllideb ddatganoledig ysgolion. Yn ystod y flwyddyn, dyranwyd £3.78m i gyllido cyllideb 2023/24 ac, ar ôl ystyried y sefyllfa ariannol ar gyfer 2023/24 a chaniatáu ar gyfer trosglwyddo gwerth £2.825m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i'r balansau cyffredinol, rhagwelir balans o £15.219m. Ar ôl caniatáu ar gyfer defnyddio £4.425m fel cyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25, byddai'r balans diwygiedig yn disgyn i £10.79m, neu 5.88% o gyllideb refeniw net 2024/25.

**7.6.** Mae trosglwyddo'r arian wrth gefn clustnodedig yn ôl i'r balansau cyffredinol, a defnyddio'r cronfeydd hyn yn ystod y flwyddyn wedi gostwng y balans o £19.637m ar ddechrau 2023/24 i £14.038m, sef y lefel a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**7.7.** Roedd gan ysgolion falansau gwerth £6.751m ar ddechrau blwyddyn ariannol 2023/24, ond mae disgwyl iddynt ostwng i £3.799m erbyn diwedd 2023/24. Mae disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r balansau hyn i gyllido cyllideb 2024/25.

**7.8.** Mae lefel y balansau cyffredinol yn fater i'r Cyngor benderfynu arno, yn seiliedig ar argymhelliad Swyddog Adran 151 y Cyngor. Serch hynny, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mae barn yn amrywio ynglŷn â p'un a ddylai'r gyllideb refeniw net eithrio'r gyllideb ddatganoledig ysgolion, gan fod ysgolion yn dal eu balansau eu hunain i gwrdd â chostau annisgwyl. Ar sail y sefyllfa ariannol bresennol, mae cryn hyder y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25.

**7.9.** Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2024/25 os na fydd digon o gyllid yn y gyllideb refeniw arfaethedig i gwrdd â chostau gwirioneddol y Cyngor yn 2024/25.

## 8. Y DRETH GYNGOR

**8.1.** Yn 2023/24, roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn £1,435.86, y 18fed o'r 22 Awdurdod yng Nghymru, ac mae'n is na chyfartaledd Cymru, sef £1,541. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Cymhariaeth o Daliadau Dreth Gyngor Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D 2023/24<br>£ | Y swm uwch na / o dan Ynys Môn<br>£ | Canran uwch na / o dan Ynys Môn<br>% |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,435 | | |
| Gwynedd | 1,603 | + 168 | 11.65 |
| Conwy | 1,580 | + 145 | 10.10 |
| Sir Ddinbych | 1,535 | + 100 | 6.96 |
| Sir y Fflint | 1,522 | + 87 | 6.02 |
| Wrecsam | 1,454 | + 19 | 1.32 |

**8.2.** Cyllideb y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25 (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth a'r premiwm) yw £47.63m. Felly, mae bob 1% o gynnydd yn creu swm ychwanegol o £476k.

**8.3.** Ar ôl ystyried ffigwr disgwyliedig y setliad terfynol, sef £127.305m, y gofyn cyllidebol diwygiedig o £183.551m (gweler Atodiad 2) a defnyddio £4.093m o gronfeydd wrth gefn, byddai angen £52.153m o gyllid Dreth Gyngor. I gyllido'r gofyn cyllidebol diwygiedig, byddai angen cynnydd o 9.50% yn y Dreth Gyngor, gan olygu fod y tâl ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,572.30, sef cynnydd o £136.44, neu £2.62 yr wythnos.

## 9. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**9.1.** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig, a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

**9.2.** Ni fydd y gyllideb arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, ni ystyrir bod angen unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 10. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**10.1.** Fel y nodwyd ym mharagraff 1, mae'r sefyllfa economaidd wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ym mis Medi 2023.

**10.2.** Y prif faes sy'n creu ansicrwydd o ran y SATC wrth symud ymlaen yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ac mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn ffactor sylweddol hefyd.

**10.3.** Mae'r SATC a ddiweddarwyd ar gyfer 2025/26 a 2026/27 i'w weld yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**

**Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 a 2026/27**

| | **2025/26 £'m** | **2026/27 £'m** |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen<br>Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 184.164<br>6,820 | 183.619<br>5.500 |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **190.984** | **189.119** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan dybio cynnydd o 1.0% yn 2025/26 a 2.0% yn 2026/27)<br>Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2025/26 a 4% 2026/27) | (128.862)<br>(54.757) | (131.439)<br>(56.947) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(183.619)** | **188.386** |
| | | |
| **Cyllid Ychwanegol Gofynnol / Arbedion Gofynnol** | **7.365** | **0.733** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog – Staff nad ydynt yn Athrawon | 2.0% | 2.0% |
| Dyfarniadau Cyflog - Athrawon | 2.4% | 2.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 1.7% | 2.0% |

**10.4.** Mae amcangyfrif y CATC uchod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a all newid wrth i ni symud tuag at 2025/26, ond dengys y cynllun y bydd angen torri gwariant y gyllideb refeniw net yn sylweddol yn 2025/26, swm o thua £7m. Unwaith eto, gellir gwrthbwyso hyn yn rhannol trwy ddefnyddio mwy o gyllid o'r arian wrth gefn ond, unwaith eto, nid yw hyn ond yn gohirio'r angen i dorri'r gyllideb tan 2026/27.

**10.5.** Mae sefyllfa cyllid cyfalaf hefyd yn cael effaith ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol, gan nad yw lefel bresennol y cyllid yn ddigon i gynnal adeiladau a ffyrdd y Cyngor i'r safon bresennol a buddsoddi mewn cerbydau a chaledwedd TG newydd. Bydd diffyg cyllid cyfalaf yn golygu bod costau trwsio a chynnal a chadw holl asedau'r Cyngor yn cynyddu wrth i'w hoes ddefnyddiol gael ei ymestyn. Bydd rhaid ystyried buddsoddi a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal, wrth leihau'r costau ychwanegol a fydd yn disgyn ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol.

**10.6.** Mae'r sefyllfa'n gwella yn 2026/27, gyda'r disgwyliad y bydd chwyddiant wedi gostwng yn ôl i darged Banc Lloegr o 2% ac y bydd y cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â chwyddiant. Y newid anhysbys fydd galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd, a all roi pwysau sylweddol ar gyllidebau pe baent yn cynyddu. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw yn effeithio ar y ffigyrau a ragwelir yn Nhabl 5 uchod.

**10.7.** Cyflwynir SATC a ddiweddarwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025.

## 11. CASGLIADAU

**11.1.** Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy a'i bod yn adlewyrchu'r galwadau a wynebir gan wasanaethau ar hyn o bryd, er y nodir y byddai parhad yr argyfwng costau byw yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Nid yw'r sefyllfa ariannol a wynebir gan y Cyngor yn unigryw i Fôn, mae'r 22 gyngor arall yng Nghymru'n wynebu'r un sefyllfa, yn ogystal â mwyafrif helaeth o gynghorau yn Lloegr.

**11.2.** Mae'r setliad i lywodraeth leol yn unol â'r rhagolygon ac nid yw'n ddigon i gwrdd â chostau cynyddol o ganlyniad i chwyddiant uchel, dyfarniadau cyflog a chynnydd yn y galw am wasanaethau. Fel y rhagwelwyd, er mwyn gosod cyllideb gytbwys tra'n cynnal gwasanaethau a darparu ar gyfer cynnydd yn y galw, yr unig ddewis sydd gan y Cyngor yw torri'r gyllideb, yn ogystal â chynyddu'r Dreth Gyngor a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus.

**11.3.** Mae sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor yn dal yn gymharol gryf, er bod lefel y balansau a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi lleihau yn ystod 2023/24 ac, er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2024/25 yn strategaeth cymharol ddiogel, nid yw'n strategaeth y gellir ei defnyddio yn y tymor hir. Byddai'n bosib defnyddio cronfeydd wrth gefn, i raddau llai, i gydbwyso cyllideb 2025/26, ond gallai'r sefyllfa newid yn ystod 2024/25.

**11.4.** Mae'r sefyllfa yn 2025/26 yn ymddangos yn anos. Dim ond ychydig o gynnydd a ddisgwylir yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn is na lefel chwyddiant, dyfarniadau cyflog ac ati. Ni fydd y Cyngor yn gallu dibynnu ar yr arian wrth gefn i ddarparu'r un lefel o gyllid ac felly bydd rhaid cwtogi gwasanaethau a / neu gynnydd sy'n fwy na chwyddiant i alluogi'r Cyngor i osod cyllideb gytbwys yn 2025/26.

**11.5.** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn cyflawni'r amcanion canlynol:-

- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau presennol ar y gyllideb a chyflawni'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu darparu;
- Defnyddio cyfuniad o dorri'r gyllideb, defnyddio cronfeydd wrth gefn a chynyddu'r Dreth Gyngor i osod cyllideb gytbwys;

.

- Gosod lefel Dreth Gyngor sy'n cymharu ag asesiad Llywodraeth Cymru o lefel Dreth Gyngor Ynys Môn, ac sy'n unol â'r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran maint a math.

**12. ARGYMHELLION**

**12.1.** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo i gyfarfod y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024, y gyllideb arfaethedig derfynol, fel y nodir ym Mharagraff 4.

**CYNNIG Y GYLLIDEB DERFYNOL AR GYFER 2024/25 FESUL GWASANAETH**

| | **Cyllideb Derfynol Arfaethedig 2024/25 £** |
|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 67.924 |
| Gwasanaethau Oedolion | 39.197 |
| Gwasanaethau Plant | 14.432 |
| Gwasanaethau Tai | 1.660 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 20.354 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 6.130 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 7.620 |
| Adnoddau | 4.017 |
| Busnes y Cyngor | 2.125 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.800 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **164.259** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2.143 |
| Ail godi tâl ar y CRT | (0.800) |
| Cymorth ar gyfer Cynlluniau Cymorth i Brynu Tai Lleol | 0.000 |
| Ardollau | 4.931 |
| Cyllid Cyfalaf | 5.753 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 0.109 |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol | 0.105 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 7.283 |
| Arbedion Staffio heb eu neilltuo | (1.000) |
| **Cyfanswm Cyllidebau a Neilltuwyd** | **182.824** |
| Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1.381 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2024/25** | **184.164** |
| **Cyllidir Gan** | |
| Grant Cymorth Refeniw | 102.245 |
| Trethi Annomestig | 25.341 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor) | 52.153 |
| Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor | 4.425 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **184.164** |
| **Gwahaniaeth rhwng y Gyllideb a'r Cyllid** | **0.000** |

ATODIAD 3

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyllideb y Cyngor 2024 / 2025

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

**12 Chwefror 2024**

## 1. Cyflwyniad

Agorwyd yr ymgynghoriad o 24 Ionawr 2024 tan 8 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor, a chafodd ei hyrwyddo ar ein cyfryngau cymdeithasol. Rhannwyd hefyd gopïau caled o'r arolwg mewn adeiladau cyhoeddus ledled Môn.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu adborth gan drigolion Ynys Môn ar y gyllideb drafft ar gyfer 2024/25.


Derbyniwyd cyfanswm o 864 ymateb wedi'u cwblhau'n llawn, gan gynnwys;

- 734 arolwg wedi'u cwblhau ar-lein
- 120 arolwg wedi'u cwblhau ar gopi caled
- 10 ymateb trwy ebost
- Derbynom wyth ymateb ysgrifenedig pellach ar ffurf llythyr.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o ganlyniadau arolwg yr ymgynghoriad, a'r prif themâu sydd wedi'u hadnabod o'r adborth. Mae adran 2 yn seiliedig ar y 854 arolwg a gwblhawyd yn llawn. Mae crynodeb o'r 10 ebost a wyth ymateb a dderbyniwyd ar ffurf llythyr wedi'i gynnwys yn adran 3 isod.

## 2. Crynodeb o'r Canlyniadau

2.1.1. **Roedd cwestiwn 1 yn gofyn - Hoffem glywed safbwyntiau pobl am y cymunedau maen nhw'n byw ynddynt. Nodwch a ydych yn llenwi'r holiadur hwn:**





2.1.2. **Roedd cwestiwn 3 yn gofyn - Pa wasanaethau sydd fwyaf pwysig i chi?**
Mae'r canlyniadau'n dangos mai'r pum brif flaenoriaeth yw (gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 5):

| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Addysg ac Ysgolion: £61.2m | 77% | 651 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus: £47.3m | 68% | 572 |
| Casglu Gwastraff, Gwaredu ac Ailgylchu: £10.3m | 66% | 555 |
| Ffyrdd a Rhwydweithiau: £7.9m | 56% | 474 |
| Canolfannau Hamdden: £1.2m | 42% | 352 |


2.1.3. **Roedd cwestiwn 4 yn gofyn - Mae strategaeth y gyllideb y Cyngor yn ceisio, diogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor, adfer costau gwasanaethau drwy ffioedd a thaliadau, lle mae modd gwneud hynny, a pharhau i fuddsoddi, lle bo'n bosibl, er mwyn moderneiddio a thrawsnewid y ffordd mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau.**

**Ydych chi'n cytuno gyda'r nodau hyn?**
Roedd 61% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.




2.1.4. **Roedd cwestiwn 5 yn gofyn - Mae'r cynigion ar gyfer cyllideb 2024/25 yn caniatáu buddsoddiad parhaus sylweddol yn y cyllidebau gofal cymdeithasol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau?**

**Ydych chi'n cytuno â hyn?**
Roedd 67% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.



2.1.5. **Roedd cwestiwn 6 yn gofyn - Mae cynnig y gyllideb yn caniatáu cynnydd cyffredinol o 5% mewn ffioedd disgresiwn. Mae'r ffioedd hyn ar gyfer gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, megis: canolfannau hamdden, prydau bwyd, ffioedd lansio cerbydau dŵr personol, rheoli plâu, mynediad i amgueddfeydd, gwasanaethau casglu gwastraff (gan gynnwys gwastraff gardd gwyrdd).**

**A fyddech chi'n barod i dalu mwy i ddiogelu gwasanaeth rhag toriadau yn y gyllideb?**
Byddwn 49.3%     Na fyddwn 50.7%

2.1.6. **Roedd cwestiwn 7 yn gofyn – Ar gyfer pa wasanaeth fyddech chi'n fodlon talu mwy ar ei gyfer? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**


| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Canolfannau Hamdden | 54.6% | 358 |
| Ffioedd Lansio Cerbydau Dŵr Personol | 48.8% | 320 |
| Mynediad i Amgueddfeydd | 41.2% | 270 |
| Ffioedd Rheoli Plâu | 39.8% | 261 |
| Gwasanaethau Casglu Gwastraff (gan gynnwys gwastraff gardd gwyrdd) | 37.0% | 243 |
| Prydau Bwyd Ysgol | 35.8% | 235 |

Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn cynnwys adran testun rhydd ac yn gofyn i ymatebwyr nodi pa wasanaethau y bydden nhw'n fodlon talu mwy ar eu cyfer. Darparodd 170 o ymatebwyr argymhellion pellach, gellir rhannu'r rhain sy'n berthnasol i'r cwestiwn hwn i'r saith categori canlynol:

- Dim (55) – dywedodd ymatebwyr eu "bod nhw'n talu digon o'r dreth gyngor yn barod".
- Meysydd parcio a phriffyrdd (26) – argymhellodd ymatebwyr gynyddu ffioedd parcio a mesurau gorfodi parcio, yn ogystal â gwneud gwelliannau i wasanaethau priffyrdd.
- Addysg(18) – argymhellodd ymatebwyr dalu mwy am ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prydau bwyd, clybiau ysgol a thripiau ysgol.
- Llyfrgelloedd a Diwylliant (10) – ymatebwyr yn fodlon talu i ymweld ag Oriel Môn, a thalu ffioedd dychwelyd llyfrau'n hwyr.
- Gwasanaethau Cymdeithasol (9) – ymatebwyr yn fodlon talu mwy am wasanaethau perthnasol, gan gynnwys bathodynnau glas, addasiadau a ffioedd gofal.
- Cynllunio a'r Amgylchedd (9) – ymatebwyr yn fodlon talu mwy am ffioedd cynllunio, gan gynnwys rheoli adeiladau ac unrhyw wasanaethau sy'n gysylltiedig â gwella'r amgylchedd.
- Gweithgareddau Hamdden (4) – ymatebwyr yn fodlon talu mwy am aelodaeth i ganolfannau hamdden a morwrol.

2.1.7. **Roedd cwestiwn 8 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol a gynhyrchir o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag i gefnogi'r gwaith o ariannu gwasanaethau yn 2024 a 2025?**

Roedd 79% yn cytuno'n gryf neu gytuno.




2.1.8. **Roedd cwestiwn 9 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynigion i wneud arbedion sylweddol?**

| Dewis Ateb | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Cynnydd o £1 y mis yng nghost pecyn Môn Actif: arbediad posibl o £62,000 | 673 | 153 |
| Cynyddu y ffioedd parcio mewn meysydd parcio arfordirol a ffioedd am barcio am 4 + awr, ond rhewi'r gost am barcio am 1 awr a 2 awr yn y meysydd parcio canol trefi: arbediad posibl o £100,000 | 644 | 190 |
| Lle'n bosib, lleihau costau staffio cyffredinol trwy adolygu strwythurau a dyletswyddau staff pan ddaw swyddi yn wag: arbediad posibl o £1,000,000 | 632 | 197 |
| Rhesymoli cymorth gweinyddol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid: arbediad posibl o £50,000 | 531 | 274 |
| Ailfodelu'r ddarpariaeth gofal dydd oedolion a symud i fodel gwasanaeth yn y gymuned: arbediad posibl o £102,000 | 529 | 281 |
| Addasu oriau agor y 4 Canolfan Hamdden, lle mae'r defnydd lleiaf, i adlewyrchu'r defnydd presennol o'r canolfannau: arbediad posibl o £39,500 | 458 | 366 |
| Gostwng y gyllideb diogelwch ffyrdd: arbediad posibl o £10,000 | 409 | 399 |
| Gostyngiad o 5% yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol: arbediad posibl o £87,000 | 181 | 641 |
| Gostwng cyllidebau trwsio a chynnal a chadw ar gyfer cartrefi gofal preswyl y mae'r Cyngor yn berchen arnynt: arbediad posibl o £70,000 | 226 | 596 |
| Cyfyngu'r cynnydd ariannol i ysgolion 2.5% yn is na phwysau chwyddiant: arbediad posibl o £1,246,000 | 289 | 528 |
| Lleihau gwasanaethau cymorth gofal anstatudol y tu allan i oriau: arbediad posibl o £96,500 | 289 | 525 |
| Gostwng y gyllideb i integreiddio disgyblion i addysg prif ffrwd: arbediad posibl o £100,000 | 303 | 513 |

2.1.9. **Roedd cwestiwn 10 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno gyda'r lefel arfaethedig o 9.78% o gynnydd yn y Dreth Gyngor (ynghyd â 1.12% i gwrdd ag Ardoll y Gwasanaeth Tân)?**
**Byddai cynnydd o 9.78% yn cynyddu cyllid y cyngor o £5.2 miliwn.**

| | |
|---|---|
| Nac ydw | 71.2% |
| Ydw | 28.8% |

2.1.10. **Roedd cwestiwn 11 yn gofyn – Faint o gynnydd y dylid ei gyflwyno i'r Dreth Gyngor? (Byddai cynnydd o 9.78% yn cynyddu cyllid y cyngor o £5.2 miliwn)**

| Dewis Ateb | % | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Dim cynnydd – fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth £5.2m | 35.6% | 212 |
| Cynnydd rhwng 3% a 5% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £2.7m a £3.7m | 30.4% | 181 |
| Cynnydd rhwng 0% a 3% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £3.7m a £5.2m | 22.5% | 134 |
| Cynnydd rhwng 5% a 7.5% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £1.6m a £2.7m | 10.1% | 60 |
| Cynnydd rhwng 7.5% a 10% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £0.4m a £1.6m | 1.5% | 9 |

2.1.11. **Roedd cwestiwn 12 yn gofyn – sut fyddech chi'n adfer y diffyg cyllid a nodwyd yn y cwestiwn blaenorol?**

| Dewis Ateb | % | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Opsiwn 5: Dim toriad yng nghyllidebau'r gwasanaethau. Ariannu'r y cyfan gan ddefnyddio'r arian wrth gefn. | 30.9% | 180 |
| Opsiwn 3: Ariannu'r y cyfan gan ddefnyddio'r arian wrth gefn. Ariannu'r 50% trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. | 27.7% | 161 |
| Opsiwn 4: Ariannu'r 50% trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. Mwyafrif trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. | 25.4% | 148 |
| Opsiwn 2: Mwyafrif trwy ddefnyddio'r arian wrth gefn. Defnyddio ychydig o'r arian wrth gefn. | 12.0% | 70 |
| Opsiwn 1: Defnyddio ychydig o'r arian wrth gefn. Dim defnydd o'r arian wrth gefn. | 4.0% | 23 |

2.1.12. **Roedd cwestiwn 13 yn gofyn - Cyllidebau pa wasanaethau fyddech chi'n fodlon eu lleihau? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**

| Dewis Ateb | % | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Archifau ac Amgueddfeydd | 63.9% | 493 |
| Twristiaeth a Morwrol | 63.2% | 488 |
| Llyfrgelloedd | 49.9% | 385 |
| Diogelu'r Cyhoedd, Cynllunio, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd | 40.7% | 314 |
| Rheoli'r Amgylchedd a Chefn Gwlad | 33.4% | 258 |
| Datblygiad Economaidd | 32.3% | 249 |
| Canolfannau Hamdden | 31.2% | 241 |
| Cyngor ar Dai a Chymorth Llesiant | 29.5% | 228 |
| Atal Digartrefedd | 23.7% | 183 |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 21.9% | 169 |
| Ffyrdd a Rhwydweithiau | 18.9% | 146 |
| Casglu Gwastraff, Gwaredu ac Ailgylchu | 15.7% | 121 |
| Gwasanaethau Tân | 13.1% | 101 |
| Addysg ac Ysgolion | 12.6% | 97 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus | 8.7% | 67 |

# 3 Ymatebion Ysgrifenedig

Derbyniwyd chwech llythyr yn berthnasol i addysg a oedd yn cynrychioli cyfanswm o 13 ysgol gynradd ac arweinwyr ysgolion (1 llythyr ar ran penaethiaid mewn dalgylch / 2 lythyr gan lywodraethwr ysgol / 2 llythyr gan benaethiaid ysgolion / 1 llythyr gan undeb llafur).

Roedd pob un yn bryderus am y cyllid sydd ar gael i gynnig darpariaeth cyn y 2.4% o ostyngiad, ac maent bellach yn bryderus iawn. Ymhlith rhai o'r prif bwyntiau o'r llythyrau mae:

- Ail edrych ar y fformiwla ariannu bresennol ar gyfer ysgolion ar yr ynys.
- Argymell i ysgolion uwchradd gymryd rhaniad 60%/40% gydag ysgolion cynradd ar gyfer y gostyngiad yng nghyllideb ysgolion.
- Mae ysgolion yn gorfod rhoi'r gorau i ddarparu gwersi nofio, llyfrgelloedd, ymweliadau diwylliannol, gwersi cerdd a gweithgareddau chwaraeon.
- Mae nifer o ysgolion yn gorfod cynyddu maint dosbarthiadau yn uwch na'r 30 disgybl a argymhellir.
- Mae rhai ysgolion yn gweld niferoedd yn disgyn yn sylweddol, ac yn pryderu am ddyfodol yr ysgol.
- Nid yw'r gyllideb bresennol yn adlewyrchu gofyniad yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae ysgolion yn poeni na fyddant yn gallu bodloni gofynion y cwricwlwm.
- Mae nifer o ysgolion methu fforddio papur, llyfrau ac adnoddau ysgol

- Mae nifer o benaethiaid a staff yn gweithio oriau ychwanegol yn wirfoddol, ac mae pryderon gwirioneddol yn bodoli ynghylch llesiant staff.
- Ni does digon o gyllideb i gyflogi cymhorthyddion dosbarth / un i un.
- Nid yw'r gyllideb ADY a dderbyniwyd gan y Cyngor yn bodloni costau cymhorthyddion un i un.
- Nid yw'r toriad o 2.5% i'r gyllideb yn ystyried y cynnydd yng nghyflogau athrawon sydd eisoes wedi'i gymryd gan ysgolion - Dim ond 24% o'r aelodau a gynrychiolwyd gan undebau llafur a ddywedodd y gallent fforddio codiad cyflog 2023/24 o'r cyllidebau presennol ac y byddai'n rhaid iddynt wneud toriadau.
- Mae pryderon ynghylch iechyd a diogelwch ar rai safleoedd.
- Mae llawer yn ansicr ynghylch rhai o'r cytundebau partneriaeth, ac a ydynt yn cael gwerth am arian ar gyfer y ddarpariaeth.
- Caniatáu i ysgolion osod diffyg trwyddedig ac annog y rhai sydd heb i ailfeddwl am y sefyllfa.
- Yn syml, nid oes gan ysgolion yr adnoddau sydd eu hangen arnynt ar hyn o bryd, bydd toriadau pellach yn ddinistriol i ysgolion a'u dysgwyr, gyda goblygiadau i'r cymunedau ehangach am genedlaethau i ddod.

Roedd y ddau lythyr olaf a dderbyniwyd yn cynrychioli Cyngor Tref a Chymuned a nodir eu prif sylwadau isod:

- Anfodlonrwydd gyda'r cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor oherwydd bod adroddiadau cychwynnol o gyllideb 2023 yn nodi disgwyliad o tua 6% o gynnydd
- Mae angen buddsoddiad pellach ar y rhwydwaith ffyrdd oherwydd bod llawer o ffyrdd wedi cau am gyfnod yn ystod y flwyddyn
- Mae llawer o ymgynghoriadau wedi bod gan y cyngor dros y flwyddyn ond dim byd i ddweud beth ddigwyddodd o ganlyniad i'r ymgynghoriadau
- Pryderon am fodolaeth yr adran dwristiaeth sydd wir ei angen

Darparwyd sylwadau pellach yn ymwneud ag arbedion posibl eraill hefyd yn yr ymatebion penagored i gwestiwn 7 (2.1.6 uchod) ynghyd â 10 ymateb e-bost. Rhestrir rhai o'r awgrymiadau isod:

- Lleihau nifer y cynghorwyr
- Ailstrwythuro staff
- Gweithio gyda chynghorau eraill / uno gyda chynghorau eraill
- Newid cyflenwyr adeiladau
- Lleihau nifer y casgliadau bin gwyrdd yn ystod y gaeaf
- Cau'r ysgolion hanner gwag
- Sicrhau bod staff yn gweithio ac yn effeithlon
- Cyflwyno Trwyddedau Parcio i ardaloedd poblog
- Cyflwyno treth gwyliau
- Gweithio gyda mwy o fudiadau gwirfoddol

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 CHWEFROR 2024** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB CYFALAF 2024/25** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS – DIPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>**01248 762601**<br>**rmjfi@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb cyfalaf ar gyfer 2024/25, fydd yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024.

**ARGYMHELLION**

Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol i'r Cyngor llawn ar gyfer 2024/25:-

| | Cyfeirnod | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2023/24 a ddygwyd ymlaen | | 6,102 |
| Atgyweirio / Disodli Asedau | | 4,856 |
| Rhaglen Cymunedau Dysgu | | 2,878 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 30,002 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2024/25** | | **43,838** |
| **Cyllidir gan:-** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,222 |
| Cronfa Gyffredinol Benthyca â Chefnogaeth | | 2,164 |
| Cyllid / Cynllun wedi'i Ddadneilltuo ddygwyd ymlaen o 2023/24 | | 470 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 2,700 |
| Arian wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 178 |
| Arian Wrth Gefn y CRT ac Gwarged yn y Flwyddyn | | 17,315 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 11,751 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 936 |
| Cyllid 2023/24 a ddygwyd Ymlaen | | 6,102 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2024/25** | | 43,838 |

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyrir nifer o gynlluniau ychwanegol yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ffactor o ran cyllid fydd fforddiadwyedd a chynyddu cyllid grant allanol.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mater wedi'i neilltuo i'r Pwyllgor Gwaith yw cynnig y gyllideb cyfalaf.

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
|---|---|---|
| Ydy | | |
| **D –** A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
| Amherthnasol | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):** | | |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r gyllideb cyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i fodloni'r amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| 2 | A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau mwy yn y dyfodol. |
| 3 | A ydyn ni wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Mae prosiectau cyfalaf, o ran Cymunedau Dysgu a'r CRT, wedi'u halinio â blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth lunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol? Eglurwch sut. | Fel rhan o broses ymgynghori Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2023 – 2028, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ddinasyddion yn ymwneud â gwariant cyfalaf a'u blaenoriaethau. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith a all y penderfyniad ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r gyllideb cyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i fodloni'r amcanion sydd wedi'u gosod yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| 6 | Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Heb adnabod unrhyw effaith. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg. | Heb adnabod unrhyw effaith. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae opsiynau wedi cael eu hystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2024. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gofynnol) | Mynychodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor gyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Ionawr 2024. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mynychodd y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid gyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Ionawr 2024. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | Mynychodd y Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gyfarfod Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Ionawr 2024. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae sylwadau Pennaeth TGCh wedi cael eu ymgorffori yn yr adroddiad. |
| 7 | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| 9 | **Cyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Cyfalaf 2024/25
Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig Terfynol 2024/25

**FF - Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Strategaeth Cyfalaf – Cyngor llawn 9 Mawrth 2023
Cyllideb Cyfalaf 2023/24 – Cyngor llawn 9 Mawrth 2023
Adroddiadau Monitro Cyfalaf Chwarterol 2023/24 – Pwyllgor Gwaith 26 Medi 2023, 28 Tachwedd 2023

**ATODIAD 1**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2024/25, sydd wedi'i chynnwys isod, yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cyfalaf, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022. Mae'r Strategaeth Cyfalaf wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gyllideb cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25, ond nid yw egwyddorion y strategaeth wedi newid.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH CYFALAF

**2.1.** Cymeradwywyd y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2023/24 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, a bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu'r lefelau cyllido newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodwyd yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2024/25, fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2024.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Cyfalaf cyfredol yn nodi yr egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth lunio ei raglen gyfalaf:-

- Bob blwyddyn, bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu ar gyfer y dyfodol.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid cyfalaf allanol pryd bynnag y bo'n bosibl a fforddiadwy.
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i Raglen Cymunedau Dysgu, a bydd yn parhau i ddefnyddio'n llawn cyllid allanol y rhaglen.

**2.3.** Yna, fe aeth y strategaeth ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu darparu, ac roedd yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Ystyrir y Rhaglen Cymunedau Dysgu ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol.
- Mae disodli asedau presennol a darfodedig yn fuddiol o ran lleihau costau refeniw, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dyrannu cyllid er mwyn gwella offer TG presennol, cerbydau ac adeiladu'r Cyngor, neu gael rhai newydd.
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dosbarthu cyllid yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.
- Bydd swm penodol yn cael ei ddosbarthu'n flynyddol er mwyn cyllido gwaith gwella ffyrdd. Bydd y swm yn ddibynnol ar y swm sydd ei angen i gyflawni isafswm gwerthoedd contract, y lefel o gyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad ar gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.
- Bydd prosiectau sydd angen cyllid cyfatebol yn cael eu hasesu ar sail achos fesul achos, a bydd unrhyw benderfyniad i ddyrannu cyllid yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a chymhareb cyllid y Cyngor â chyllid allanol.
- Cwblheir prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyca digefnogaeth dim ond os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw, neu mae'r incwm ychwanegol a gynhyrchir, yn ddigon i fodloni unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol.

**2.4.** Mae’r Strategaeth Cyfalaf hefyd yn egluro sut y dylid asesu unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- Faint fydd y prosiect yn ei gyfrannu at flaenoriaethau’r Cynllun Corfforaethol;
- A yw’r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg corfforaethol.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2024/25

**3.1.** Dangosir y cyllid sydd ar gael i gyllido’r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi fod y ffigwr ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca a chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau setliad dros dro’r Llywodraeth Lleol. Ni wyddys y ffigyrau terfynol nes bod ffigyrau’r setliad terfynol wedi’u cyhoeddi ar 28 Chwefror 2024. Mae’r lefel o gyllid dan y ddau bennawd wedi aros yn eithaf cyson dros nifer o flynyddoedd, ac ni ddisgwylir y bydd yn newid yn sylweddol rhwng y setliad dros dro a’r setliad terfynol.

**Tabl 1**

**Cyllid Cyfalaf y Disgwylir ar gyfer 2024/25**

| **Ffynhonnell Ariannu** | **£'000** | **£'000** |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf Cronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau / cyllid a ddygwyd ymlaen o 2023/24 | 6,102 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol 2024/25 | 2,222 | |
| Cyllid Cynllun wedi’i Ddadneilltuo a ddygwyd ymlaen o 2023/24 | 470 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,164 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa’r Cyngor)** | | **10,958** |
| **Cymunedau Dysgu** | | |
| Benthyca Digefnogaeth | 2,700 | |
| Arian wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 178 | |
| **Cyllid ar gyfer Cymunedau Dysgu** | | **2,878** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian wrth Gefn CRT | 8,160 | |
| CRT - Gwarged mewn Blwyddyn | 9,155 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr LlC a Grantiau Allanol Eraill | 11,751 | |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | 936 | |
| **Cyllid ar gyfer y CRT** | | **30,002** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2024/25** | | **43,838** |

**3.2.** Mae’r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 £12k yn uwch na’r dyraniad ar gyfer 2023/24, ac mae’n cyd-fynd â’r lefelau cyllido a welwyd dros y 12 mlynedd diwethaf. Ni welwyd cynnydd sylweddol mewn cyllid, er bod gwerth y cyllid wedi lleihau’n sylweddol oherwydd chwyddiant yn ystod y cyfnod hwn.

**3.3.** Er bod gan y Cyngor ysgolion nad ydynt wedi'u gwerthu, mae'r dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd wedi'i ddyrannu i gyllido'r ysgol sydd wedi cymryd eu lle. Mae gan y Cyngor nifer fach o asedau y mae'n dymuno cael gwared arnynt, ond ni chredir eu bod yn eiddo gwerthadwy, ac ni ddisgwylir unrhyw werthiant yn 2024/25. Os bydd unrhyw werthiant yn digwydd, a'u bod yn cynhyrchu derbyniad cyfalaf, bydd y dderbyniad ar gael fel cyllid ychwanegol yn 2025/26.

**3.4.** Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi darparu cyllid mewn arian wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido prosiectau unigol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio £3.78m o arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb refeniw 2023/24, ac mae'n bwriadu defnyddio £4.4m pellach yn 2024/25. Mae hyn wedi lleihau arian wrth gefn y Cyngor i'r isafswm, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn fel cyllid cyfalaf yn 2024/25.

**3.5.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau'r cyfrif hwnnw, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Rhagwelir y bydd balans arian wrth gefn y CRT oddeutu £9.3m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Cynllun Busnes y CRT yn gosod targed o 5% o incwm derbyniadwy (oddeutu £1.2m) fel isafswm balans arian wrth gefn y cyfrif hwn, sy'n golygu y gellir defnyddio'r gweddill i gyllido gwariant cyfalaf yn 2024/25.

## 4. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2024/25

### 4.1. Cynlluniau wedi'u Dwyn Ymlaen o 2023/24

Mae'r adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd chwarter 3 2023/24 yn rhagweld y bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei thanwario £9.236m, er gall y sefyllfa derfynol newid yn ystod y chwarter olaf. Unwaith fydd y sefyllfa derfynol ar gyfer 2023/24 yn wyddys, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ynghyd a chais i gymeradwyo'r broses o ddwyn cyllid ymlaen o 2023/24 i 2024/25.

Mae cynlluniau ymrwymedig a fydd yn cael eu rhedeg am nifer o flynyddoedd o'r flwyddyn bresennol a thu hwnt wedi'u cynnwys yn y rhaglen hon gan fod cyllidebau newydd eu hangen**.**

**Tabl 2**

**Cynlluniau Ddygwyd Ymlaen 2023/24**

| Cynlluniau 2023/24 Ddygwyd Ymlaen | 2024/25 £'000 |
|---|---|
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 1,207 |
| Y Gronfa Ffyniant Bro (amrywiaeth o brosiectau) | 4,895 |
| **Cyfanswm Cynlluniau Ddygwyd Ymlaen** | **6,102** |

### 4.2. Adnewyddu / Disodli Asedau Presennol

Bob blwyddyn, mae'n rhaid buddsoddi yn asedau'r Cyngor er mwyn ymestyn eu hoes a sicrhau eu bod yn addas at eu diben, neu i ddisodli asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Cynigir y canlynol:-

- **Adnewyddu Ysgolion –** Mae'r gost o glirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ym 46 o ysgolion y Cyngor yn sylweddol, ac ni ellir ei gyllido'n llawn yn y tymor byr a chanolig. Efallai y bydd rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor yn lleihau peth o'r gost hon, ond bydd nifer o'r ysgolion presennol yn parhau i gael eu defnyddio yn y tymor hir. Bydd £1m yn cael ei ddyrannu er mwyn gwneud y gwaith brys mae Tîm Eiddo'r Cyngor wedi'i adnabod a'i flaenoriaethu. Bydd y cyllid hefyd yn gyllid cyfatebol ar gyfer grantiau Gwresogi Carbon Isel mae'r Cyngor wedi ymgeisio ar eu cyfer.

- **Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion –** Eto, mae ôl-groniad o waith wedi'i adnabod yn swyddfeydd, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor, ac nid oes digon o gyllid i wneud y gwaith hwn mewn unrhyw un blwyddyn. Mae £600k wedi'i gynnig, a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigon er mwyn talu costau'r rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth sydd angen ei gwblhau.
- **Ailwynebu Priffyrdd** – Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiwn Blynyddol yn cadarnhau fod angen cyllideb flynyddol o £2m er mwyn cynnal amodau Sefydlogrwydd Eiddo (Ataliol) ar ein ffyrdd. Byddai cyllideb dan y swm gofynnol hwn yn arwain at lai o effeithlonrwydd a llai o werth am gyllid oherwydd costau ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o gyllid yn cael ei wario ar waith brys, a'r risg o gynnydd mawn hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Bydd y dyraniad £2m hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer cynlluniau atal llifogydd graddfa fach lle bo'n ofynnol, gan fod y cynlluniau hyn yn helpu i atal llifogydd a diogelu'r rhwydwaith ffyrdd rhag difrod pan fydd llifogydd yn digwydd.
- **Cerbydau –** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel a ddefnyddir. Fodd bynnag, bydd cyflawni hyn o fewn cyfyngiadau cyllido presennol yn heriol, a bydd y Cyngor yn dibynnu ar gyllid grant ychwanegol, neu bydd yn rhaid newid o bryniant uniongyrchol i brydlesu, er mwyn cyflawni'r newid. Mae'r Gwasanaeth wedi nodi i lori graeanu a bysiau mini newydd ar gyfer Trafnidiaeth Cymunedol Môn, fel blaenoriaeth. Mae £206k wedi'i ddyrannu yn y gyllideb arfaethedig i brynu un lori graeanu newydd ac i ddechrau rhaglen disodli bysiau mini Trafnidiaeth Cymunedol Môn.
- **Asedau T.G –** Mae angen buddsoddiad parhaus er mwyn cynnal isadeiledd craidd y Cyngor a disodli dyfeisiadau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd mai £300k sydd ei angen er mwyn cynnal yr isadeiledd craidd ac i ddisodli dyfeisiau bwrdd gwaith.

**4.3. Grantiau Cyfleusterau Anabl**

Mae'r galw am addasiadau mawr i alluogi trigolion anabl i barhau i fyw gartref yn parhau i fod yn uchel. Mae cyllid o £500k ar gyfer addasu tai Cyngor wedi'i gynnwys yng nghyllideb cynnal a chadw arfaethedig y CRT, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido gwaith mewn cartrefi preifat hefyd. Rhagwelir y bydd oddeutu £600k o ymrwymiadau'n bodoli yn 2024/25 yn ychwanegol at unrhyw geisiadau newydd a ddaw i law yn ystod 2024/25. Y cynnig yw cynnal y dyraniad cyllideb blynyddol o £750k ar gyfer 2024/25.

## 5. BIDIAU ERAILL AR GYFER CYLLID YCHWANEGOL UNTRO

**5.1.** Gwahoddwyd gwasanaethau i gyflwyno bidiau am gyllid cyfalaf ar gyfer 2024/25 i gyllido cost prosiectau untro. Derbyniwyd cyfanswm o 13 cais, gwerth £1.793m. Ar ôl ystyried y bidiau, ac o ystyried y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, ni ystyriwyd bod yr un ohonynt yn angenrheidiol i atal y risg o fethiant gwasanaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall hyn newid yn y blynyddoedd i ddod.

**5.2.** Gellid cyllido nifer fechan o'r bidiau drwy fenthyca digefnogaeth, gan fod posib iddynt gynhyrchu arbedion refeniw digonol neu incwm ychwanegol a fyddai'n ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf blynyddol ychwanegol. Gall gwasanaethau gyflwyno achos busnes i'w ystyried yn 2024/25 a fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith pan fydd yr achosion yn cael eu cyflwyno.

## 6. RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU

**6.1** Mae gwaith y Cyngor i foderneiddio'r ystâd ysgolion, drwy raglen Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru'n parhau, er bod y rhaglen bresennol ond yn cynnwys cwblhau estyniad Ysgol y Graig.

**6.2** Bydd bid am y gyfran nesaf o gyllid yn cael ei gyflwyno maes o law ond ar gyfer 2024/25 dim ond cynllun Ysgol Y Graig sydd wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2024/25. Amcangyfrifir y bydd gweddill y cynllun yn costio £3.030m (2024/25 £2.878m a 2025/26 £0.152m) a bydd hyn yn cael ei gyllido yn 2024/25 drwy fenthyca digefnogaeth gwerth £2.7m a'r defnydd o dderbyniadau cyfalaf o werthiant Ysgol Talwrn, sef £0.178m.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Yn y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2024/25, bydd buddsoddiad yn parhau yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth parhaus gyda safonau SATC, gyda £10.185m yn cael ei fuddsoddi. Bydd £12.667m pellach yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac ail-brynu hawl i brynu blaenorol.

**7.2** Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£8.160m), gwarged y refeniw a gynhyrchir yn 2024/25 (£9.155m), Benthyca Digefnogaeth (£0.936m) a grantiau Llywodraeth Cymru (£11.751m).

**7.3** Bydd y rhaglen fuddsoddi tymor hir, yn ogystal â'r ffordd y bydd yn cael ei gylllido dros y 30 mlynedd nesaf, yn cael ei nodi yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai, fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn fuan.

## 8. CRYNODEB O RAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2024/25

**8.1** Mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25 wedi'i chrynhoi yn Nhabl 3 isod, ac wedi'i ddadansoddi mewn manylder yn Atodiad 2:-

**Tabl 3**

**Crynodeb o Raglen Gyfalaf Arfaethedig 2024/25**

| | Cyfeirnod | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau /Dygwyd ymlaen o 2023/24 | Para 4.1 | 6,102 |
| Atgyweirio / Disodli Asedau | Para 4.2 & 4.3 | 4,856 |
| Cymunedau Dysgu | Para 6 | 2,878 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 30,002 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2024/25** | | **43,838** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,222 |
| Benthyca â Chefnogaeth - Cyffredinol | | 2,164 |
| Cynllun wedi'i Ddadneilltuo ddygwyd ymlaen o 2023/24 | | 470 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 2,700 |
| Arian wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 178 |
| Arian Wrth Gefn CRT a Gwarged yn y Flwyddyn | | 17,315 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 11,751 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 936 |
| Cyllid 2023/24 Dygwyd Ymlaen | | 6,102 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2024/25** | | **43,838** |

**ATODIAD 2**

## CYLLIDEB CYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL 2024/25

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chymorth £'000 | Benthyca Digymorth £'000 | Arian Wrth Gefn y CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2023/24 Cynlluniau ymrwymedig dygwyd ymlaen** | | | | | | | |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 1,207 | 1,207 | | | | | |
| Y Gronfa Ffyniant Bro (amrywiaeth o brosiectau) | 4,895 | 4,895 | | | | | |
| **Cyfanswm Cynlluniau Ymrwymedig 2023/24** | **6,102** | **6,102** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Atgyweirio / Disodli Asedau** | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 750 | | 750 | | | | |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | | | 1,000 | | | |
| Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion | 600 | | | 600 | | | |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,000 | | 1,472 | 528 | | | |
| Cerbydau | 206 | | | 206 | | | |
| Asedau TG | 300 | | | 300 | | | |
| **Cyfanswm Atgyweirio / Disodli Asedau** | **4,856** | | **2,222** | **2,634** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Rhaglen Cymunedau Dysgu** | | | | | | | |
| Ysgol y Graig | 2,878 | | | | 2,700 | | 178 |
| **Cyfanswm Rhaglen Cymunedau Dysgu** | **2,878** | | | | **2,700** | | **178** |
| **CYFANSWM CRONFA GYFFREDINOL** | **13,836** | **6,102** | **2,222** | **2,634** | **2,700** | **0** | **178** |

| Cynllun | Cyllideb<br>£’000 | Grantiau Allanol<br>£’000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br>£’000 | Benthyca â Chymorth<br>£’000 | Benthyca Digymorth<br>£’000 | Arian Wrth Gefn y CRT<br>£’000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw wedi’i Gynllunio SATC | 13,000 | 3,646 | | | | 9,354 | |
| Datblygiadau Newydd ac Ail-brynu Eiddo Hawl i Brynu | 17,002 | 8,105 | | | 936 | 7,961 | |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **30,002** | **11,751** | | | **936** | **17,315** | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2024/25** | **43,838** | **17,853** | **2,222** | **2,634** | **3,636** | **17,315** | **178** |

# PENDERFYNIAD DRAFFT AR OSOD Y DRETH GYNGOR 2024/25

\- - - - - -

# DRAFT RESOLUTION ON SETTING THE COUNCIL TAX 2024/25

**PENDERFYNIAD DRAFFT Y DRETH GYNGOR**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu'r Gyllideb 2024/25, yn Adran 5, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb refeniw 2024/25 fel y gwelir honno yn 4.2, Adran 4 o adroddiad y Gyllideb 2024/25, Atodiad 1 ac Atodiad 2.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2024/25.

**(ch)** Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Cyllid 151 y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn y Gyllideb Arfaethedig Derfynol ar gyfer 2024/25 yn Atodiad 2 er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor. Yn ychwanegol, i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y pŵer i drosglwyddo hyd at £50k yr eitem o'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Bydd unrhyw eitem sy'n fwy na £50k angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn gwneir unrhyw drosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2024/25, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 2 Cyllideb Arfaethedig Terfynol 2024/25 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o'r arian wrth gefn clustnodedig a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2024/25 ac ar gyngor y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adain 151, y pŵer i ryddhau hyd at £250k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025, y pwerau a ganlyn:-

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2024/25 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion pwyllog a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynnau am 2024/25 ymlaen fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2024/25 a'r Strategaeth Cyfalaf 2024/25.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2023/24 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig A Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B Dim Disgownt

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2023/24 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C Dim Disgownt

**4.** **PENDERFYNWYD** datgymhwyso unrhyw ddisgownt(au) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac i amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 a gwneud cais am y flwyddyn ariannol 2024/25 swm uwch o'r Ddreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor neu ar gyfer anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) i gymhwyso swm uwch o Dreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) o 100% o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**5.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau yr aiff y Cyngor iddynt mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**6.** Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2023 wedi cymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am y blynyddoedd dilynol oni bai ei fod wedi'i ddiwygio'n sylweddol. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol Dreth Gyngor lleol dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddirymu, ailddeddfu ac/neu ddiwygio'r Polisi. Diwygiodd y Pwyllgor Gwaith y Polisi yma ar 03 Mawrth 2022.

**7.** Yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2023, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, a'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, gymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn2024/25, fel a ganlyn:-

**a)** **33,170.03** yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Y rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a glandrwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sail ar gyfer dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, yw fel a ganlyn:-

| Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned | Sylfaen y Dreth 2024/25 |
|---|---:|
| Amlwch | 1,553.58 |
| Biwmares | 1,128.28 |
| Caergybi | 4,122.23 |
| Llangefni | 2,104.10 |
| Porthaethwy | 1,503.94 |
| Llanddaniel-fab | 376.52 |
| Llanddona | 417.01 |
| Cwm Cadnant | 1,231.69 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,342.23 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 714.29 |
| Bodorgan | 483.02 |
| Llangoed | 698.88 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | 645.03 |
| Llanidan | 436.75 |
| Rhosyr | 1,061.51 |
| Penmynydd | 252.52 |
| Pentraeth | 603.97 |
| Moelfre | 692.31 |

| Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned | Sylfaen y Dreth 2024/25 |
|---|---|
| Llanbadrig | 708.58 |
| Llanddyfnan | 523.53 |
| Llaneilian | 621.16 |
| Llanerch-y-medd | 541.56 |
| Llaneugrad | 194.77 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2,038.26 |
| Cylch y Garn | 427.15 |
| Mechell | 592.04 |
| Rhos-y-bol | 488.24 |
| Aberffraw | 316.77 |
| Bodedern | 423.75 |
| Bodffordd | 424.81 |
| Trearddur | 1,492.47 |
| Tref Alaw | 272.44 |
| Llanfachraeth | 238.36 |
| Llanfaelog | 1,439.20 |
| Llanfaethlu | 279.29 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 573.51 |
| Fali | 1,052.48 |
| Bryngwran | 372.60 |
| Rhoscolyn | 399.54 |
| Trewalchmai | 381.66 |
| **Cyfanswm Sail y Dreth Cyngor** | **33,170.03** |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2024/25, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £244,076,190 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £62,342,087 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** £181,734,103 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 8(a) uchod a chyfanswm 8(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £127,586,070 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig, gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £1,632.44 sef y swm yn 8(c) uchod llai'r swm yn 8(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £1,994,795 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £1,572.30 sef y swm yn 8(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef swn sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

f)

| | | Band D cyfatebol fesul ardal gan gynnwys Cyngor Ynys Mon ac elfennau Cyngor Cymuned / Tref |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,646.91 |
| Biwmares | £ | 1,599.75 |
| Caergybi | £ | 1,737.45 |
| Llangefni | £ | 1,722.33 |
| Porthaethwy | £ | 1,664.46 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,608.57 |
| Llanddona | £ | 1,592.64 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,600.02 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,625.13 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,606.95 |
| Bodorgan | £ | 1,599.66 |
| Llangoed | £ | 1,607.67 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,584.72 |
| Llanidan | £ | 1,610.01 |
| Rhosyr | £ | 1,600.56 |
| Penmynydd | £ | 1,607.58 |
| Pentraeth | £ | 1,601.91 |
| Moelfre | £ | 1,591.83 |
| Llanbadrig | £ | 1,618.47 |
| Llanddyfnan | £ | 1,583.27 |
| Llaneilian | £ | 1,606.95 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,612.26 |
| Llaneugrad | £ | 1,592.82 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,604.70 |
| Cylch y Garn | £ | 1,591.02 |
| Mechell | £ | 1,590.93 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,588.68 |
| Aberffraw | £ | 1,610.19 |
| Bodedern | £ | 1,605.33 |
| Bodffordd | £ | 1,602.90 |
| Trearddur | £ | 1,596.42 |
| Tref Alaw | £ | 1,597.05 |
| Llanfachraeth | £ | 1,614.24 |
| Llanfaelog | £ | 1,602.90 |
| Llanfaethlu | £ | 1,593.81 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,605.42 |
| Fali | £ | 1,616.94 |
| Bryngwran | £ | 1,611.18 |
| Rhoscolyn | £ | 1,592.28 |
| Trewalchmai | £ | 1,609.02 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisio**

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

| | | Treth y Cyngor fesul band, fesul ardal, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys-Mon ac elfennau / Praeseptau Cyngor Cymuned / Tref | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 1,097.94 | 1,280.93 | 1,463.92 | 1,646.91 | 2,012.89 | 2,378.87 | 2,744.85 | 3,293.82 | 3,842.79 |
| Beaumaris | £ | 1,066.50 | 1,244.25 | 1,422.00 | 1,599.75 | 1,955.25 | 2,310.75 | 2,666.25 | 3,199.50 | 3,732.75 |
| Holyhead | £ | 1,158.30 | 1,351.35 | 1,544.40 | 1,737.45 | 2,123.55 | 2,509.65 | 2,895.75 | 3,474.90 | 4,054.05 |
| Llangefni | £ | 1,148.22 | 1,339.59 | 1,530.96 | 1,722.33 | 2,105.07 | 2,487.81 | 2,870.55 | 3,444.66 | 4,018.77 |
| Menai Bridge | £ | 1,109.64 | 1,294.58 | 1,479.52 | 1,664.46 | 2,034.34 | 2,404.22 | 2,774.10 | 3,328.92 | 3,883.74 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,072.38 | 1,251.11 | 1,429.84 | 1,608.57 | 1,966.03 | 2,323.49 | 2,680.95 | 3,217.14 | 3,753.33 |
| Llanddona | £ | 1,061.76 | 1,238.72 | 1,415.68 | 1,592.64 | 1,946.56 | 2,300.48 | 2,654.40 | 3,185.28 | 3,716.16 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,066.68 | 1,244.46 | 1,422.24 | 1,600.02 | 1,955.58 | 2,311.14 | 2,666.70 | 3,200.04 | 3,733.38 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,083.42 | 1,263.99 | 1,444.56 | 1,625.13 | 1,986.27 | 2,347.41 | 2,708.55 | 3,250.26 | 3,791.97 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,071.30 | 1,249.85 | 1,428.40 | 1,606.95 | 1,964.05 | 2,321.15 | 2,678.25 | 3,213.90 | 3,749.55 |
| Bodorgan | £ | 1,066.44 | 1,244.18 | 1,421.92 | 1,599.66 | 1,955.14 | 2,310.62 | 2,666.10 | 3,199.32 | 3,732.54 |
| Llangoed | £ | 1,071.78 | 1,250.41 | 1,429.04 | 1,607.67 | 1,964.93 | 2,322.19 | 2,679.45 | 3,215.34 | 3,751.23 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 1,056.48 | 1,232.56 | 1,408.64 | 1,584.72 | 1,936.88 | 2,289.04 | 2,641.20 | 3,169.44 | 3,697.68 |
| Llanidan | £ | 1,073.34 | 1,252.23 | 1,431.12 | 1,610.01 | 1,967.79 | 2,325.57 | 2,683.35 | 3,220.02 | 3,756.69 |
| Rhosyr | £ | 1,067.04 | 1,244.88 | 1,422.72 | 1,600.56 | 1,956.24 | 2,311.92 | 2,667.60 | 3,201.12 | 3,734.64 |
| Penmynydd | £ | 1,071.72 | 1,250.34 | 1,428.96 | 1,607.58 | 1,964.82 | 2,322.06 | 2,679.30 | 3,215.16 | 3,751.02 |
| Pentraeth | £ | 1,067.94 | 1,245.93 | 1,423.92 | 1,601.91 | 1,957.89 | 2,313.87 | 2,669.85 | 3,203.82 | 3,737.79 |
| Moelfre | £ | 1,061.22 | 1,238.09 | 1,414.96 | 1,591.83 | 1,945.57 | 2,299.31 | 2,653.05 | 3,183.66 | 3,714.27 |
| Llanbadrig | £ | 1,078.98 | 1,258.81 | 1,438.64 | 1,618.47 | 1,978.13 | 2,337.79 | 2,697.45 | 3,236.94 | 3,776.43 |
| Llanddyfnan | £ | 1,062.18 | 1,239.21 | 1,416.24 | 1,593.27 | 1,947.33 | 2,301.39 | 2,655.45 | 3,186.54 | 3,717.63 |
| Llaneilian | £ | 1,071.30 | 1,249.85 | 1,428.40 | 1,606.95 | 1,964.05 | 2,321.15 | 2,678.25 | 3,213.90 | 3,749.55 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,074.84 | 1,253.98 | 1,433.12 | 1,612.26 | 1,970.54 | 2,328.82 | 2,687.10 | 3,224.52 | 3,761.94 |
| Llaneugrad | £ | 1,061.88 | 1,238.86 | 1,415.84 | 1,592.82 | 1,946.78 | 2,300.74 | 2,654.70 | 3,185.64 | 3,716.58 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,069.80 | 1,248.10 | 1,426.40 | 1,604.70 | 1,961.30 | 2,317.90 | 2,674.50 | 3,209.40 | 3,744.30 |
| Cylch y Garn | £ | 1,060.68 | 1,237.46 | 1,414.24 | 1,591.02 | 1,944.58 | 2,298.14 | 2,651.70 | 3,182.04 | 3,712.38 |
| Mechell | £ | 1,060.62 | 1,237.39 | 1,414.16 | 1,590.93 | 1,944.47 | 2,298.01 | 2,651.55 | 3,181.86 | 3,712.17 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,059.12 | 1,235.64 | 1,412.16 | 1,588.68 | 1,941.72 | 2,294.76 | 2,647.80 | 3,177.36 | 3,706.92 |
| Aberffraw | £ | 1,073.46 | 1,252.37 | 1,431.28 | 1,610.19 | 1,968.01 | 2,325.83 | 2,683.65 | 3,220.38 | 3,757.11 |
| Bodedern | £ | 1,070.22 | 1,248.59 | 1,426.96 | 1,605.33 | 1,962.07 | 2,318.81 | 2,675.55 | 3,210.66 | 3,745.77 |
| Bodffordd | £ | 1,068.60 | 1,246.70 | 1,424.80 | 1,602.90 | 1,959.10 | 2,315.30 | 2,671.50 | 3,205.80 | 3,740.10 |
| Trearddur | £ | 1,064.28 | 1,241.66 | 1,419.04 | 1,596.42 | 1,951.18 | 2,305.94 | 2,660.70 | 3,192.84 | 3,724.98 |
| Tref Alaw | £ | 1,064.70 | 1,242.15 | 1,419.60 | 1,597.05 | 1,951.95 | 2,306.85 | 2,661.75 | 3,194.10 | 3,726.45 |
| Llanfachraeth | £ | 1,076.16 | 1,255.52 | 1,434.88 | 1,614.24 | 1,972.96 | 2,331.68 | 2,690.40 | 3,228.48 | 3,766.56 |
| Llanfaelog | £ | 1,068.60 | 1,246.70 | 1,424.80 | 1,602.90 | 1,959.10 | 2,315.30 | 2,671.50 | 3,205.80 | 3,740.10 |
| Llanfaethlu | £ | 1,062.54 | 1,239.63 | 1,416.72 | 1,593.81 | 1,947.99 | 2,302.17 | 2,656.35 | 3,187.62 | 3,718.89 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,070.28 | 1,248.66 | 1,427.04 | 1,605.42 | 1,962.18 | 2,318.94 | 2,675.70 | 3,210.84 | 3,745.98 |
| Valley | £ | 1,077.96 | 1,257.62 | 1,437.28 | 1,616.94 | 1,976.26 | 2,335.58 | 2,694.90 | 3,233.88 | 3,772.86 |
| Bryngwran | £ | 1,074.12 | 1,253.14 | 1,432.16 | 1,611.18 | 1,969.22 | 2,327.26 | 2,685.30 | 3,222.36 | 3,759.42 |
| Rhoscolyn | £ | 1,061.52 | 1,238.44 | 1,415.36 | 1,592.28 | 1,946.12 | 2,299.96 | 2,653.80 | 3,184.56 | 3,715.32 |
| Trewalchmai | £ | 1,072.68 | 1,251.46 | 1,430.24 | 1,609.02 | 1,966.58 | 2,324.14 | 2,681.70 | 3,218.04 | 3,754.38 |

**9.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2024/25, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

**Awdurdod Praeseptio** **Bandiau Prisiau**

| Awdurdod Praeseptio | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 233.10 | 271.95 | 310.80 | 349.65 | 427.35 | 505.05 | 582.75 | 699.30 | 815.85 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

| | | Y Dreth Gyngor fesul Band, ym mhob ardal, sy’n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys-Mon, Preseptau Cyngor Cymundeol / Tref a Phraesept Heddlu Gogledd Cymru | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 1,331.04 | 1,552.88 | 1,774.72 | 1,996.56 | 2,440.24 | 2,883.92 | 3,327.60 | 3,993.12 | 4,658.64 |
| Beaumaris | £ | 1,299.60 | 1,516.20 | 1,732.80 | 1,949.40 | 2,382.60 | 2,815.80 | 3,249.00 | 3,898.80 | 4,548.60 |
| Holyhead | £ | 1,391.40 | 1,623.30 | 1,855.20 | 2,087.10 | 2,550.90 | 3,014.70 | 3,478.50 | 4,174.20 | 4,869.90 |
| Llangefni | £ | 1,381.32 | 1,611.54 | 1,841.76 | 2,071.98 | 2,532.42 | 2,992.86 | 3,453.30 | 4,143.96 | 4,834.62 |
| Menai Bridge | £ | 1,342.74 | 1,566.53 | 1,790.32 | 2,014.11 | 2,461.69 | 2,909.27 | 3,356.85 | 4,028.22 | 4,699.59 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,305.48 | 1,523.06 | 1,740.64 | 1,958.22 | 2,393.38 | 2,828.54 | 3,263.70 | 3,916.44 | 4,569.18 |
| Llanddona | £ | 1,294.86 | 1,510.67 | 1,726.48 | 1,942.29 | 2,373.91 | 2,805.53 | 3,237.15 | 3,884.58 | 4,532.01 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,299.78 | 1,516.41 | 1,733.04 | 1,949.67 | 2,382.93 | 2,816.19 | 3,249.45 | 3,899.34 | 4,549.23 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,316.52 | 1,535.94 | 1,755.36 | 1,974.78 | 2,413.62 | 2,852.46 | 3,291.30 | 3,949.56 | 4,607.82 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,304.40 | 1,521.80 | 1,739.20 | 1,956.60 | 2,391.40 | 2,826.20 | 3,261.00 | 3,913.20 | 4,565.40 |
| Bodorgan | £ | 1,299.54 | 1,516.13 | 1,732.72 | 1,949.31 | 2,382.49 | 2,815.67 | 3,248.85 | 3,898.62 | 4,548.39 |
| Llangoed | £ | 1,304.88 | 1,522.36 | 1,739.84 | 1,957.32 | 2,392.28 | 2,827.24 | 3,262.20 | 3,914.64 | 4,567.08 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 1,289.58 | 1,504.51 | 1,719.44 | 1,934.37 | 2,364.23 | 2,794.09 | 3,223.95 | 3,868.74 | 4,513.53 |
| Llanidan | £ | 1,306.44 | 1,524.18 | 1,741.92 | 1,959.66 | 2,395.14 | 2,830.62 | 3,266.10 | 3,919.32 | 4,572.54 |
| Rhosyr | £ | 1,300.14 | 1,516.83 | 1,733.52 | 1,950.21 | 2,383.59 | 2,816.97 | 3,250.35 | 3,900.42 | 4,550.49 |
| Penmynydd | £ | 1,304.82 | 1,522.29 | 1,739.76 | 1,957.23 | 2,392.17 | 2,827.11 | 3,262.05 | 3,914.46 | 4,566.87 |
| Pentraeth | £ | 1,301.04 | 1,517.88 | 1,734.72 | 1,951.56 | 2,385.24 | 2,818.92 | 3,252.60 | 3,903.12 | 4,553.64 |
| Moelfre | £ | 1,294.32 | 1,510.04 | 1,725.76 | 1,941.48 | 2,372.92 | 2,804.36 | 3,235.80 | 3,882.96 | 4,530.12 |
| Llanbadrig | £ | 1,312.08 | 1,530.76 | 1,749.44 | 1,968.12 | 2,405.48 | 2,842.84 | 3,280.20 | 3,936.24 | 4,592.28 |
| Llanddyfnan | £ | 1,295.28 | 1,511.16 | 1,727.04 | 1,942.92 | 2,374.68 | 2,806.44 | 3,238.20 | 3,885.84 | 4,533.48 |
| Llaneilian | £ | 1,304.40 | 1,521.80 | 1,739.20 | 1,956.60 | 2,391.40 | 2,826.20 | 3,261.00 | 3,913.20 | 4,565.40 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,307.94 | 1,525.93 | 1,743.92 | 1,961.91 | 2,397.89 | 2,833.87 | 3,269.85 | 3,923.82 | 4,577.79 |
| Llaneugrad | £ | 1,294.98 | 1,510.81 | 1,726.64 | 1,942.47 | 2,374.13 | 2,805.79 | 3,237.45 | 3,884.94 | 4,532.43 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,302.90 | 1,520.05 | 1,737.20 | 1,954.35 | 2,388.65 | 2,822.95 | 3,257.25 | 3,908.70 | 4,560.15 |
| Cylch y Garn | £ | 1,293.78 | 1,509.41 | 1,725.04 | 1,940.67 | 2,371.93 | 2,803.19 | 3,234.45 | 3,881.34 | 4,528.23 |
| Mechell | £ | 1,293.72 | 1,509.34 | 1,724.96 | 1,940.58 | 2,371.82 | 2,803.06 | 3,234.30 | 3,881.16 | 4,528.02 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,292.22 | 1,507.59 | 1,722.96 | 1,938.33 | 2,369.07 | 2,799.81 | 3,230.55 | 3,876.66 | 4,522.77 |
| Aberffraw | £ | 1,306.56 | 1,524.32 | 1,742.08 | 1,959.84 | 2,395.36 | 2,830.88 | 3,266.40 | 3,919.68 | 4,572.96 |
| Bodedern | £ | 1,303.32 | 1,520.54 | 1,737.76 | 1,954.98 | 2,389.42 | 2,823.86 | 3,258.30 | 3,909.96 | 4,561.62 |
| Bodffordd | £ | 1,301.70 | 1,518.65 | 1,735.60 | 1,952.55 | 2,386.45 | 2,820.35 | 3,254.25 | 3,905.10 | 4,555.95 |
| Trearddur | £ | 1,297.38 | 1,513.61 | 1,729.84 | 1,946.07 | 2,378.53 | 2,810.99 | 3,243.45 | 3,892.14 | 4,540.83 |
| Tref Alaw | £ | 1,297.80 | 1,514.10 | 1,730.40 | 1,946.70 | 2,379.30 | 2,811.90 | 3,244.50 | 3,893.40 | 4,542.30 |
| Llanfachraeth | £ | 1,309.26 | 1,527.47 | 1,745.68 | 1,963.89 | 2,400.31 | 2,836.73 | 3,273.15 | 3,927.78 | 4,582.41 |
| Llanfaelog | £ | 1,301.70 | 1,518.65 | 1,735.60 | 1,952.55 | 2,386.45 | 2,820.35 | 3,254.25 | 3,905.10 | 4,555.95 |
| Llanfaethlu | £ | 1,295.64 | 1,511.58 | 1,727.52 | 1,943.46 | 2,375.34 | 2,807.22 | 3,239.10 | 3,886.92 | 4,534.74 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,303.38 | 1,520.61 | 1,737.84 | 1,955.07 | 2,389.53 | 2,823.99 | 3,258.45 | 3,910.14 | 4,561.83 |
| Valley | £ | 1,311.06 | 1,529.57 | 1,748.08 | 1,966.59 | 2,403.61 | 2,840.63 | 3,277.65 | 3,933.18 | 4,588.71 |
| Bryngwran | £ | 1,307.22 | 1,525.09 | 1,742.96 | 1,960.83 | 2,396.57 | 2,832.31 | 3,268.05 | 3,921.66 | 4,575.27 |
| Rhoscolyn | £ | 1,294.62 | 1,510.39 | 1,726.16 | 1,941.93 | 2,373.47 | 2,805.01 | 3,236.55 | 3,883.86 | 4,531.17 |
| Trewalchmai | £ | 1,305.78 | 1,523.41 | 1,741.04 | 1,958.67 | 2,393.93 | 2,829.19 | 3,264.45 | 3,917.34 | 4,570.23 |

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 20 Chwefror 2024 |
| Pwnc / Testun: | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028 |
| Deilydd (ion) Portffolio: | Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752520<br>ffreuerowen@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A –Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhelliad: Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Sir y dylid cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Cyngor ar gyfer 2024-2028 ac awdurdodi swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio, i gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun erbyn 31 Mawrth 2024.

Rheswm: Mae'r sail statudol ar gyfer datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) drafft hwn wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae Deddf 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol ym mhob agwedd o'u gwaith:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

Mae'r Ddeddf yn diogelu'r nodweddion canlynol, a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchodedig':

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Mae hefyd yn anelu at leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

| A –Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| Mae Rheoliadau 2011 yn cynnwys dyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynlluniau cydraddoldeb strategol o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Daw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol, sy'n cwmpasu 2020-2024, i ben ar 31 Mawrth 2024, ac erbyn hynny bydd rhaid cyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer 2024-2028.<br><br>Mae'r CCS drafft hwn ar gyfer 2024-2028 yn adeiladu ar ein cynlluniau blaenorol ac yn cynnwys yr amcanion cydraddoldeb hirdymor canlynol ar gyfer cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar Ynys Môn yn ogystal ag yn ein sefydliad. Maent yn fras yn seiliedig ar 'feysydd bywyd' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer monitro cydraddoldeb ac yn cyd-fynd ag amcanion cydraddoldeb cyffredin partneriaid sector cyhoeddus Gogledd Cymru ar gyfer y rhanbarth:<br><br>1. **Addysg**: Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol<br>2. **Y gweithle**: Cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog<br>3. **Safonau byw:** Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchodedig<br>4. **Iechyd, lles a gofal cymdeithasol:** Cymryd camau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol<br>5. **Diogelwch personol:** Cymryd camau i ddiogelu grwpiau gwarchodedig<br>6. **Cymryd rhan:** Cynyddu cyfleoedd ac annog amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau<br>7. **Anfantais economaidd-gymdeithasol**: Cymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais<br>8. **Arferion gwaith**: Gwella ein harferion mewnol i sicrhau tegwch i bawb<br><br>Mae hefyd yn nodi:<br><br>• ein prif flaenoriaethau cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, wedi'u dylanwadu gan ganfyddiadau Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach? sef adroddiad bum mlynedd diweddaraf y Comisiwn ar gyflwr y genedl, yn ogystal ag ymchwil ac ymgynghori lleol<br><br>• ein trefniadau ar gyfer monitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb<br><br>• sut mae'r cynllun hwn yn cyfrannu at weledigaeth ehangach ein Cynllun y Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.<br><br>Er mwyn sicrhau bod y CCS hwn yn cael ei wireddu, byddwn yn canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu blynyddol a byddwn yn adrodd ar gynnydd yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Rhoddir sylw arbennig dros gyfnod y cynllun hwn i godi ymwybyddiaeth a datblygu ein harferion er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn hyrwyddo cydraddoldeb. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill am y rheswm a nodir isod. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gan fod y CCS yn rhan o'r fframwaith polisi, bydd gofyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r cynllun hwn. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r CCS yn gyhoeddiad allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2023 i 2028, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023. Mae ein hamcanion cydraddoldeb drafft 1, 3 a 4 yn arbennig o berthnasol gan eu bod yn cyd-fynd â thri amcan strategol Cynllun y Cyngor:<br><br>• Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol<br>• Gofal Cymdeithasol a Lles: Darparu'r cymorth cywir ar yr adeg cywir<br>• Tai: Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw yn rhywle yn gartref |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae disgwyliad cadarn i awdurdodau lleol gyfrannu at hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru. Mae dyletswyddau cydraddoldeb penodol, fel datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, yn adeiladu ar ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i 'greu Cymru fwy cyfartal', drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genedl. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Gan nad oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â gweithredu'r SEP, ni nodwyd unrhyw gostau/dibyniaethau i'r dyfodol. Mae mabwysiadu amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a rennir yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, rhannu adnoddau ac osgoi dyblygu. |
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | Ers dros ddegawd mae NWPSEN (sy'n cynnwys holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus eraill) wedi cydweithio i ddatblygu a chytuno set o amcanion a rennir ar gyfer y rhanbarth. Cynhaliwyd yr adolygiad NWPSEN diweddaraf yn haf 2023 ac roedd hyn yn cynnwys ymarferiad ymgynghori cyhoeddus. |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut, os gwelwch yn dda. | Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad agos â'n Tîm Rheoli Corfforaethol a'i lywio gan wybodaeth swyddogion sy'n gweithio'n agos gyda grwpiau nodwedd gwarchodedig.<br><br>Gwahoddwyd pobl Ynys Môn hefyd i gymryd rhan yn ein hymarferiad ymgynghori NWPSEN yn ystod haf 2023.<br><br>Dylanwadwyd hefyd ar y cynllun gan ymgysylltu'n uniongyrchol â rhai grwpiau gwarchodedig gan gynnwys ein Fforwm Ieuenctid a defnyddwyr darpariaeth gofal dydd. |
| 5 | Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Pwrpas y CCS yw ein helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i roi sylw dyledus i'r angen i:<br><br>• Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf<br>• Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn<br>• meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.<br><br>Yn ogystal â'r amcanion a'r blaenoriaethau yn y CCS, byddwn yn datblygu egwyddorion cyfle cyfartal i bobl o bob cefndir ac amgylchiadau yn ein holl gynlluniau a gweithdrefnau. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y CCS yn helpu i wella anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys:<br><br>• Darparu cartrefi fforddiadwy a hygyrch o safon i'r rhai mewn angen<br>• Sicrhau bod preswylwyr yn gwybod at ble i droi am gymorth<br>• Sicrhau bod ein penderfyniadau yn ystyriol o anghenion ein preswylwyr mwyaf difreintiedig |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 7 | Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | O dan amcan cydraddoldeb 4, rydym wedi dewis blaenoriaethu darparu gofal cymdeithasol i'n preswylwyr mwyaf bregus yn eu dewis iaith. Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i weithredu'r fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer darparu gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfeirio. |

| E – Gyda phwy yr ymgynhgoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arwain (TA) (gorfodol) | Mae’r Prif Weithredwr, y TA a’r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi trafod, siapio a dylanwadu ar y broses o ddatblygu’r CCS o’r cychwyn cyntaf.<br><br>Cyflwynwyd y CCS drafft i gyfarfod o'r Tîm Arweinyddiaeth ar 30 Ionawr 2024. Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i gynnwys yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol) | Nododd y swyddog fod rhai o'r rhaglenni y cyfeirir atynt yn y cynllun, yn enwedig mewn perthynas â chymorth tai, yn dibynnu ar gyllid grant Llywodraeth Cymru. Nodwyd y gallai cymorth grant gael ei effeithio gan doriadau i gyllid y sector cyhoeddus yn y dyfodol. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel (1) uchod. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Mae adrannau penodol o'r CCS yn ymwneud â materion cyflogaeth. |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TGCh) | Amherthnasol. |
| 7 | Caffael | Amherthnasol. |
| 8 | Sgriwtini | Cyflwynwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar gyfer 2024-2028 gerbron cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 6 Chwefror, 2024. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:<br><br>1. Nodwyd bod y cynllun strategol drafft yn cynnwys wyth amcan cydraddoldeb a gofynnodd y Pwyllgor Sgriwtini i ba raddau mae hynny’n rhy uchelgeisiol, o gofio’r hinsawdd economaidd sydd ohono<br><br>2. Gofynnwyd ynghylch rôl y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn y broses o fonitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb newydd |

| E – Gyda phwy yr ymgynhgoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| | | 3. Bu i'r Aelodau holi ynglŷn â sut y bwriedir mynd i'r afael â bylchau data am ein cymunedau a'n staff.<br><br>4. Gwelwyd y Pwyllgor hefyd yn gofyn ynglŷn â'r cynlluniau dros y 4 blynedd nesaf i godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y Cyngor.<br><br>Wedi ystyried yr holl ddogfennaeth gerbron a'r esboniadau gan y Deilydd Portfflio a'r swyddogion ar y materion a godwyd, fe benderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio argymell y Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2024-2028 i'r Pwyllgor Gwaith i'w fabwysiadu.<br><br>Pwynt Gweithredu Ychwanegol: Ystyried y priodoldeb o addasu teitl Amcan Cydraddoldeb 2 (Gwaith) er mwyn cynnig clirdeb ynghylch rôl y Cyngor fel cyflogwr. |
| 9 | Aelodau Lleol | Ddim yn berthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Cyngor ar gyfer 2024 – 2028 |

| Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028



Tudalen 155

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg
This publication is also available in English

www.ynysmon.llyw.cymru

Dyma gynllun cydraddoldeb strategol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 i 2028. Gallwch ddod o hyd iddo ar ein gwefan, yn cynnwys mewn arddull testun plaen a hawdd i'w ddeall.

www.ynysmon.llyw.cymru

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni.

Tîm Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 25 50
E-bost: Cydraddoldeb@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd cysylltu'n Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cyflwyniad: Trosolwg o’n cynllun



Dyma gynllun cydraddoldeb strategol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 i 2028. Ynddo fe gewch adrannau cryno yn esbonio:

- Sut mae'r cynllun hwn yn cyfrannu at weledigaeth Cynllun y Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.
- Ein hwyth amcan cydraddoldeb hirdymor ar gyfer creu Ynys Môn decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn ein cymunedau, yn ogystal ag yn ein sefydliad.
- Ein prif flaenoriaethau cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf a ddylanwadwyd gan ganfyddiadau A yw Cymru’n Decach?, adroddiad pum mlynedd diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn ogystal gwybodaeth leol.
- Ein trefniadau ar gyfer monitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae dogfennau cysylltiedig yn amlinellu'r gyfraith sy'n sail i'r cynllun hwn a sut y datblygwyd y cynllun. Cewch hefyd ddadansoddiad o'r data cydraddoldeb allweddol am ein poblogaeth o’r cyfrifiad diweddaraf.

# Rhagair



Cynghorydd Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor



Dylan Williams
Prif Weithredwr

Croeso i'n cynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2024 i 2028. Mae'r cyhoeddiad pwysig hwn yn adeiladu ar ein cynlluniau blaenorol, yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor, ac yn gosod ein huchelgais i greu cymdeithas decach i bobl Ynys Môn. Cyfranna at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

Mae creu Ynys Môn lle gall pobl ffynnu yn golygu cydnabod a gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Nid tasg hawdd mo hon, yn enwedig mewn cyfnod o bwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus. Fel pob awdurdod lleol, rydym yn wynebu dyfodol ansicr sy'n peryglu ein hymdrechion. Mae'r galw am ein gwasanaethau yn tyfu yn union fel y mae pris eu darparu yn cynyddu'n sylweddol.

Nid yw hyn yn golygu ein bod yn llai ymrwymedig i wella cydraddoldeb a chefnogi rhai sy'n wynebu anfantais. Fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth, byddwn yn gweithio i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon yn ein holl bolisïau, gweithdrefnau ac arferion.

Byddwn yn talu sylw arbennig dros y pedair blynedd nesaf i godi ymwybyddiaeth a datblygu ein gwybodaeth er mwyn bod yn gyngor sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Trwy ei sefydlu fel egwyddor cyffredinol yng Nghynllun y Cyngor, ein nod yw sicrhau nad mater ar wahân yw cydraddoldeb.

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Ein gweledigaeth yw:



‘Creu Ynys Môn sy’n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu’

Cynllun y Cyngor 2023 to 2028 (llyw.cymru)

Mae gan ein cynllun cydraddoldeb strategol gysylltiad agos â Chynllun y Cyngor a’i weledigaeth. Cynllun y Cyngor yw’r brif ddogfen sy’n ganolbwynt i’r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda thrigolion, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau’r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Mae ei chwe prif amcan yn adlewyrchu’r prif feysydd y dylai’r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Yr Iaith Gymraeg**

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio’r iaith

**Gofal Cymdeithasol a lles**

Darparu’r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.

**Addysg**

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Tai**

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle’n gartref.

**Economi**

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

**Newid Hinsawdd**

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

# Ein gwerthoedd a'n hegwyddorion



Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain ein gweledigaeth, cynlluniau strategol a'n gwasanaethau.

Mae'r egwyddorion cyffredinol canlynol hefyd yn sail i'r cynllun:

- Datblygu cynaliadwy
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Atal a diogelu
- Ymrwymiad ac atebolrwydd
- Gonestrwydd
- Hyrwyddo'r Cyngor a'r ynys

## Gwerthoedd

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys


Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor a'r Ynys.

# Y cylch strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn gyhoeddiad allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.

Ei bwrpas yw esbonio sut rydym yn bwriadu cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar Ynys Môn tra’n gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth Cynllun y Cyngor.



# Ein hamcanion cydraddoldeb 2024-2028



1. Addysg: Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol
2. Y gweithle: Cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog
3. Safonau byw: Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchodedig
4. Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cymryd camau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol
5. Diogelwch personol: Cymryd camau i ddiogelu grwpiau gwarchodedig
6. Cymryd rhan: Cynyddu cyfleoedd ac annog amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau
7. Anfantais economaidd-gymdeithasol: Cymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais
8. Arferion gwaith: Gwella ein harferion mewnol i sicrhau tegwch i bawb

# Amcan cydraddoldeb 1: Addysg

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mynd i'r afael â bylchau mewn cyflawniad addysgol rhwng gwahanol grwpiau gwarchodedig
- Cynnal a chefnogi  lles disgyblion ysgol
- Sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn cael eu croesawu a'u hintegreiddio i'n hysgolion





## Pam fod hyn yn bwysig?

Gwyddom o adroddiad pum mlynedd diweddaraf y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach?, fod rhywfaint o welliant wedi bod mewn bylchau cyrhaeddiad addysgol. Ond yn ôl y data diweddaraf ar gyfer Gogledd Cymru, does fawr o newid wedi bod yn y bwlch rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sef y rheiny sydd ddim.

Rydym hefyd yn gwybod o ymchwil y comisiwn, a'n gwaith gyda staff addysgu, bod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc.

Mae ein hysgolion yn croesawu mwy o newydd-ddyfodiaid o dramor trwy wahanol gynlluniau sefydlu ffoaduriaid. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi i integreiddio'r disgyblion hyn tra'n parchu anghenion diwylliannol a chrefyddol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy barhau â'n cynlluniau i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim o dan gymhwyster prawf modd a'r rhai sydd ddim
- Trwy gydweithio ag ysgolion i atal bwlio a datblygu eu gallu i gofnodi ac adrodd achosion
- Trwy gymryd camau i leihau cyfraddau gwahardd a chynyddu presenoldeb disgyblion o grwpiau gwarchodedig

## Erbyn 2028:

Byddwn wedi cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad a chefnogi lles pobl ifanc mewn ysgolion.

# Amcan cydraddoldeb 2: Y gweithle

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Adnabod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o fewn prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu
- Adnabod bylchau cyflog rhwng pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig
- Gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein cydweithwyr



## Pam fod hyn yn bwysig?

Fel cyflogwr mwyaf Ynys Môn rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle a thriniaeth gyfartal. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i gryfhau amrywiaeth ein gweithlu a chreu diwylliant cynhwysol sy'n dathlu gwahaniaeth a cyfleoedd i bawb lwyddo.

Er ein bod yn talu cyflog cyfartal i ferched a dynion, mae'r bwlch cyflog cyfartalog yn parhau (fel mewn awdurdodau lleol eraill). Mae hwn yn fater yr ydym ni, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, eisiau mynd i'r afael ag o.

I weithredu, rhaid i ni gael gwybodaeth gywir am ein staff i adnabod gwahaniaethau rhwng grwpiau. Fodd bynnag, mae casglu digon o ddata yn anodd gan ein bod yn dibynnu ar gydweithwyr i roi'r wybodaeth hon i ni'n wirfoddol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy barhau i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched a datblygu ein gallu i adrodd ar fylchau rhwng grwpiau gwarchodedig eraill
- Trwy annog a gwneud hi'n haws i weithwyr rannu eu gwybodaeth bersonol efo ni
- Trwy ddatblygu ein dealltwriaeth am gymhwysedd grwpiau gwarchodedig i weithio drwy hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

## Erbyn 2028:

Bydd gennym well dealltwriaeth o'n gweithlu trwy ddata cydraddoldeb a byddwn wedi cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau cyflog.

# Amcan cydraddoldeb 3: Safonau byw

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Darparu cartrefi o safon sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i'r rhai mewn angen
- Cynnal gwasanaethau lleol lle'n bosib
- Sicrhau bod trigolion yn gwybod lle i droi am gymorth





## Pam fod hyn yn bwysig?

Sicrhau bod gan bawb ar Ynys Môn yr hawl i alw yn rhywle yn gartref yw un o'n prif amcanion strategol. Mae'n arbennig o berthnasol i drigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gan eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu arnom am help.

Mae plant sy'n derbyn gofal, ffoaduriaid a'r rhai sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol yn rhai o'r grwpiau sy'n dibynnu arnom am gymorth tai. Fel landlord cymdeithasol mwyaf Ynys Môn, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cartrefi addas i'r rhai mewn angen.

Rydym hefyd yn gwybod bod gwasanaethau lleol fel trafnidiaeth yn cael effaith uniongyrchol ar annibyniaeth a safon byw pobl. Mewn cyfnod o doriadau cynyddol i wasanaethau, mae'n rhaid i ni arloesi er mwyn sicrhau nad yw grwpiau gwarchodedig dan anfantais.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy gynyddu nifer yr eiddo fforddiadwy a hygyrch
- Trwy barhau i ddarparu cefnogaeth cynhwysiant ariannol a hawliau lles i wneud y mwyaf o gyllid a gwytnwch ariannol aelwydydd
- Trwy weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i gynnal gwasanaethau lleol a chyfeirio pobl at asiantaethau a all eu helpu

## Erbyn 2028:

Byddwn wedi darparu mwy o gartrefi hygyrch a fforddiadwy i'r rhai mewn angen a byddwn wedi cymryd camau i ddiogelu gwasanaethau cymorth.

# Amcan cydraddoldeb 4: Iechyd, lles a gofal cymdeithasol



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Creu'r amodau i unigolion wella eu hiechyd a'u lles
- Sicrhau bod gan y rhai sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig fynediad at raglenni sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion penodol
- Darparu gofal cymdeithasol i'n trigolion mwyaf bregus yn eu dewis iaith



## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae ein poblogaeth yn heneiddio. Yn ôl y data diweddaraf o'r cyfrifiad, mae 26.5% o'n trigolion dros 65 oed, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 21.3%. Drwy ein statws fel cymuned oed gyfeillgar, rydym wedi ymrwymo i wneud Ynys Môn yn lle da i heneiddio.

Gwyddwn fod cadw'n actif yn helpu'n iechyd corfforol a meddyliol. Mae rhaglenni fel y cynllun atgyfeirio ymarfer corff cenedlaethol, Demetia Actif Môn, sesiynau MonActif 60+ ac Insport ar gyfer oedolion a phobl ifanc anabl yn cynnig cyfleoedd ymarfer corff o safon dan oruchwyliaeth yn ein cymunedau.

Er nad yw'n nodwedd warchodedig, rydym yn cydnabod effaith gadarnhaol darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn newis iaith ein trigolion mwyaf bregus.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy gynnal ein statws fel aelod o rwydwaith byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o gymunedau oed gyfeillgar
- Trwy barhau i gynnig rhaglenni ymarfer corff o ansawdd sy'n canolbwyntio ar anghenion grwpiau gwarchodedig fel rhan o wasanaeth MônActif
- Trwy weithredu'r fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yn Gymraeg a chyfeirio at wasanaethau cymorth iaith eraill

## Erbyn 2028:

Bydd gan ein trigolion gyfleoedd i wella eu hiechyd a'u lles a bydd y rhai sydd angen ein cymorth yn derbyn gofal cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion.

# Amcan cydraddoldeb 5: Diogelwch personol

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb, aflonyddu a chefnogaeth i adrodd achosion
- Cynnal perthynas dda rhwng trigolion, newydd-ddyfodiaid ac ymwelwyr, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg
- Sicrhau bod ein staff a'n haelodau etholedig yn ymwybodol o'u dyletswyddau diogelu ac yn gweithredu arnynt



## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac aflonyddu ac annog ein trigolion i adrodd am achosion wedi bod yn flaenoriaethau i ni ers peth amser.

Ond, yn ôl A yw Cymru'n Decach? Mae nifer y troseddau casineb yn parhau i gynyddu. Er gwaethaf cynnydd mewn troseddau hiliol a chrefyddol, mae cyfran y troseddau sy'n arwain at gyhuddiad wedi gostwng.

Mae cydweithwyr hefyd wedi tynnu sylw at duedd leol bryderus o densiwn rhwng ein poblogaeth breswyl a'r rhai sy'n ymweld neu'n newydd i'r ardal.

Rhaid i ni felly barhau â'n hymdrechion i wneud cynnydd yn erbyn yr amcan hwn fel bod preswylwyr ac ymwelwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn teimlo'n ddiogel yn ein cymunedau.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy barhau i weithio gyda'n partner, Heddlu Gogledd Cymru, i gynnal diogelwch personol ar lawr gwlad
- Trwy gefnogi ymgyrchoedd cydlyniant cymunedol rhanbarthol a chymorth i dioddefwyr
- Trwy gynnal ein statws fel cyngor sy'n wybodus am drawma a pharhau i godi ymwybyddiaeth drwy hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r gweithlu

## Erbyn 2028:

Bydd gan ein cydweithwyr, waeth beth fo'u rolau, well dealltwriaeth o droseddau casineb ac aflonyddu a'u cyfrifoldeb i weithredu.

# Amcan cydraddoldeb 6: Cymryd rhan



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Gwella ein dulliau o gysylltu â thrigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig
- Sicrhau bod gwybodaeth a chyfle cyfartal i rannu barn ar gael i'n holl drigolion
- Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol ac wrth wneud penderfyniadau



## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae anghenion pobl Ynys Môn wrth wraidd popeth a wnawn.  Er mwyn cwrdd â'r anghenion hynny'n llawn, rhaid i ni wrando ar ein trigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Gwyddom fod bylchau yn ein gwybodaeth a bod yn rhaid i ni wneud mwy i sicrhau bod lleisiau grwpiau gwarchodedig yn llywio ein penderfyniadau. Mae ymgysylltu'n ystyrlon ag unigolion a'u cynrychiolwyr yn hanfodol er mwyn i bobl deimlo'n hyderus i siarad â ni.

Mae rhai cysylltiadau cryf eisoes yn bodoli trwy rwydweithiau fel ein Cyngor a'n Fforwm Pobl Hŷn, Fforwm Ieuenctid, cynghreiriau cymunedol a chynghorau ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni wneud mwy i greu perthynas â grwpiau gwarchodedig eraill.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy gyfarfod a gwrando ar drigolion sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig
- Trwy barhau i weithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori yn unol â'n Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus
- Trwy barhau i gydweithio â'n partneriaid rhanbarthol drwy Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni

## Erbyn 2028:


Bydd gennym well dealltwriaeth o'n trigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig trwy siarad ag unigolion, grwpiau a'u cynrychiolwyr.

# Amcan cydraddoldeb 7: Anfantais economaidd-gymdeithasol

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Sicrhau bod ein penderfyniadau yn ystyried anghenion ein trigolion mwyaf difreintiedig
- Gweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector i gefnogi ein haelwydydd mwyaf bregus
- Creu'r amodau i ddatblygu economi'r ynys ymhellach a chreu cyfleoedd gwaith cynhwysol





## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cyfraddau tlodi yn parhau i fod yn uchel yng Nghymru ac mae rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yma ar Ynys Môn. Mae dros chwarter ein plant yn byw mewn tlodi.

Mae ein cymunedau'n newid gyda mwy o bobl ifanc a rhai o oedran gweithio yn symud i ffwrdd am swyddi ac addysg. Mae'r rhai sy'n symud yma i fyw yn tueddu i fod yn hŷn ac yn fwy dibynnol ar ein cefnogaeth. Caiff y newidiadau hyn effaith ar lefelau iechyd, cyfraddau cyflog a chyrhaeddiad addysgol o fewn ein poblogaeth breswyl.

Rydym wedi gwneud cynnydd da yn ein dealltwriaeth o'r heriau ers cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn 2021. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu ein dulliau o asesu effaith ein penderfyniadau ar y rhai sy'n wynebu anfantais.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy weithredu ein strategaeth trechu tlodi a pharhau i gefnogi aelwydydd wrth weithio ochr yn ochr ag asiantaethau gwrthdlodi lleol
- Trwy wella'r wybodaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau sy'n sail i'n hasesiadau effaith
- Trwy barhau i hwyluso creu cyfleoedd swyddi newydd fel rhan o'n rhaglenni datblygu economaidd

## Erbyn 2028:


Bydd gennym ddealltwriaeth well o'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau i lywio ein harferion gwneud penderfyniadau yn well.

# Amcan cydraddoldeb 8: Arferion gweithio

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cynyddu dealltwriaeth ein staff a'n haelodau etholedig o faterion cydraddoldeb trwy fwy o hyfforddiant
- Adolygu ein gweithdrefnau a'r harferion hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Gwella ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd

Tudalen 170



## Pam fod hyn yn bwysig?

Er mwyn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb a darparu'n gwasanaethau'n effeithiol, rhaid i ni gyd – yn swyddogion ac yn aelodau etholedig – fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol.

O'n sgyrsiau â chydweithwyr, mae'n ymddangos nad yw pawb yn deall yn iawn yr angen i flaenoriaethu ystyriaethau cydraddoldeb na'n sicr sut i wneud hynny'n gywir.

Wrth i arferion gwaith newid, mae'n bwysig bod ein cydweithwyr yn cael eu cefnogi i greu diwylliant gwaith iach sy'n parchu cydraddoldeb.

Yn ogystal â deall ei berthnasedd, rhaid i ni hefyd gymryd perchnogaeth dros hyrwyddo cydraddoldeb trwy ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd.


## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy ddatblygu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb o safon sy'n berthnasol ac yn addas
- Trwy sicrhau bod adnoddau cymorth ar ein mewnrwyd yn cael eu cadw'n berthnasol ac yn gyfredol
- Trwy argymell defnydd priodol o eirfa, iaith ac ymddygiad
- Trwy sefydlu grŵp hyrwyddo cydraddoldeb newydd

## Erbyn 2028:

Bydd gan ein cydweithwyr, waeth beth yw eu rolau, well dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb a'u cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus.

# Llywodraethu ac atebolrwydd




Er bod y cynllun hwn yn adeiladu ar rai blaenorol, croesawn y cyfle i ailystyried ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Ein bwriad yw sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n gwaith ar draws y sefydliad ac nad yw'n eistedd fel prosiect ar wahân.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei wireddu, byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn sy'n canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu blynyddol. Byddwn hefyd yn sefydlu grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd. Nod y grŵp fydd darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth i gynnal ein dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus a chyflawni ein hamcanion.

Byddwn yn adrodd i'n Tîm Rheoli Corfforaethol a'n Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Bydd ein trefniadau yn sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydlyniant a'r strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol. Bydd ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn rhoi gwybod i chi am gynnydd.

# Atodiad 1: Sail gyfreithiol

## 1. Pam fod angen cynllun cydraddoldeb strategol arnom?

Mae'r sail statudol ar gyfer datblygu'r cynllun hwn wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol ym mhob agwedd o'u gwaith:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

Mae Rheoliadau 2011 yn cynnwys dyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynlluniau cydraddoldeb strategol o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

Gosoda'r llywodraeth ddisgwyliadau cadarn ar awdurdodau lleol i gyfrannu tuag wella cydraddoldeb yng Nghymru. Adeilada'r dyletswyddau penodol ar ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i 'greu Cymru fwy cyfartal' drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genedl. Ystyriwn bod ein cynllun cydraddoldeb strategol yn cyfrannu at wireddu sawl un o gynlluniau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

## 2. Pwy sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â sicrhau tegwch i bawb. Diogela'r nodweddion canlynol, a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchodedig':

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth

- Hil
- Crefydd neu gred, yn cynnwys diffyg crefydd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nod arall y Ddeddf yw lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

## 3. Ar gyfer pwy mae'r cynllun hwn?

Cynllun ar gyfer Ynys Môn gyfan yw hwn. Mae pob aelod o'n poblogaeth yn perthyn i o leiaf un o'r grwpiau gwarchodedig uchod. Felly, mae gweithio tuag at greu Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus i bawb yn golygu cydnabod bod llawer o bethau'n achosi anghydraddoldeb a gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â nhw.

Bydd rhai agweddau o'n gwaith yn ymdrin yn agosach â rhai grwpiau gwarchodedig, fel addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol. Gall pobl gael eu heithrio oherwydd bod ganddynt incwm isel, eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol, yn byw mewn tai gwael neu oherwydd eu hiechyd. Mae ffoaduriaid a mudwyr, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn debygol o wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at wasanaethau a chyrraedd eu llawn potensial.

Mae ein gwaith dydd i ddydd yn dangos bod meithrin cysylltiadau da rhwng ein poblogaeth breswyl a'r rhai sy'n newydd i'r ardal neu'n ymweld â hi yn arbennig o berthnasol i ni. Er nad yw'n nodwedd warchodedig, teimlwn fod cyfrifoldeb arnom i ddefnyddio ein dylanwad i liniaru tensiynau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg yn yr un modd ag y byddem yn ceisio lleddfu gwrthdaro rhwng grwpiau eraill.

Rydym hefyd yn ystyried y cynllun hwn fel cyfle i werthuso ein harferion fel cyflogwr. Yn ystod 2024 i 2028 byddwn yn talu cryn sylw i godi ymwybyddiaeth, gwella ein gwybodaeth a sicrhau bod ein diwylliant gwaith yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd ein gweithwyr a'n haelodau etholedig.

Byddwn yn sefydlu grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd fydd yn cynnwys swyddogion allweddol y mae eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â grwpiau gwarchodedig ar Ynys Môn. Bydd eu gwybodaeth a'u profiadau yn llywio ein cyfeiriad strategol i gynnal ein dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus a chyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

# Atodiad 2: Cyd-destun

## 1. Ein cymunedau

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella ein dulliau o gasglu gwybodaeth berthnasol yn barhaus er mwyn gwella ein dealltwriaeth o faint, natur a chymhlethdod pob grŵp gwarchodedig ar Ynys Môn. Er y gallai'r proffil ardal sy'n cyd-fynd â'r cynllun hwn awgrymu nad yw ein cymunedau mor amrywiol ag mewn rhannau eraill o'r wlad, nid yw hyn yn golygu nad yw pobl Ynys Môn yn wynebu anfantais.

Mae ein poblogaeth yn heneiddio, ac mae effeithiau anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu teimlo'n mewn sawl ardal. Mae demograffeg ein cymunedau'n newid gyda phobl iau yn gadael ar drywydd addysg a gwaith a phobl hŷn yn symud yma yn chwilio am ansawdd bywyd gwell. Rydym hefyd yn croesawu nifer cynyddol o newydd-ddyfodiaid o dramor trwy wahanol gynlluniau ailsefydlu ffoaduriaid.

Gwyddom fod bylchau data yn parhau, a bod angen gwneud mwy i adnabod ac ymgysylltu'n ystyrlon â nifer o'n grwpiau gwarchodedig. (Yn enwedig y rhai sy'n rhannu nodweddion ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol.) Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio â rhwydweithiau presennol, fel ein Cyngor a'n Fforwm Pobl Hŷn a'n Fforwm Ieuenctid, yn ogystal â chreu cysylltiadau newydd trwy bartneriaid trydydd sector fel Medrwn Môn. Rydym yn esbonio ein bwriadau yn fanylach o dan amcan cydraddoldeb 6: Cyfranogiad.

## 2. Ein Cyngor

Cynrychiolir trigolion Ynys Môn gan 35 o aelodau etholedig (a elwir hefyd yn gynghorwyr). Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor yw Pwyllgor Gwaith o naw aelod, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor. Mae'r Arweinydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am gynrychioli materion cydraddoldeb ar y Pwyllgor Gwaith. Mae pencampwr amrywiaeth hefyd yn cael ei benodi o blith yr aelodau.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn cael eu hystyried gan ddau bwyllgor craffu. Cewch hyd i fwy o wybodaeth am drefniadau gwleidyddol y Cyngor, yn ogystal â manylion ein pwyllgorau a dyddiadau cyfarfodydd, ar ein gwefan.

Mae tîm arweinyddiaeth y Cyngor yn cynnwys ein prif weithredwr, dirprwy brif weithredwr a phedwar cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb am:

- Adnoddau
- Addysg, sgiliau a phobl ifanc
- Busnes y Cyngor
- Gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys gwasanaethau plant)

Mae'r tîm rheoli corfforaethol yn cynnwys yr uchod yn ogystal â phum pennaeth gwasanaeth gyda chyfrifoldeb am:

- Adnoddau dynol a thrawsnewid corfforaethol
- Gwasanaethau oedolion
- Gwasanaethau priffyrdd, gwastraff ac eiddo
- Gwasanaethau tai
- Rheoleiddio a datblygu economaidd

## 3. Ein staff

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i'n holl weithwyr. Mae gennym bolisi clir o dalu cyflogeion yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Caiff rolau swyddi a graddau cyflog eu gwerthuso gennym yn ôl yr angen i sicrhau strwythur teg. Gweithredwn ddull 'cyflogwr o ddewis' i ddenu, cadw ac ysgogi gweithwyr medrus addas fel y gall y Cyngor berfformio hyd eithaf ei allu tra'n darparu gwasanaethau.

Cyhoeddem y data cydraddoldeb sydd gennym am y gweithlu yn ein hadroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, mae casglu digon o ddata yn anodd gan ein bod yn dibynnu ar gydweithwyr i ddarparu'r wybodaeth hon i ni’n wirfoddol. Rydym yn esbonio ein bwriadau i wella'r wybodaeth hon yn fanylach o dan amcan cydraddoldeb 2: Gwaith.

## 4. Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Yn unol â'n dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus, mae'n rhaid i ni asesu effaith debygol ein polisïau a'n harferion. Gellir cyflawni hyn drwy ddadansoddiad trylwyr o dystiolaeth cydraddoldeb ac ymgysylltu â chymunedau, unigolion ac arbenigwyr. Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut y gallai ein polisïau a'n harferion effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ac a oes angen cymryd camau i ddileu neu leihau unrhyw effeithiau negyddol lle bo hynny'n bosibl.

Ein nod yw sicrhau bod adnabod a lleihau effeithiau negyddol a hyrwyddo cydraddoldeb yn dod yn rhan o'n gwaith beunyddiol. Rhaid i gynghorwyr a swyddogion sydd â chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ddeall yr effaith debygol cyn gwneud unrhyw

benderfyniadau. Am y rheswm hwn, mae adroddiadau eglurhaol ein prif bwyllgorau – pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Gwaith – yn cyfeirio at unrhyw effaith bosibl ar rai grwpiau o fewn ein cymunedau.

Mae templedi a chanllawiau ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r Tîm Polisi a'r Gymraeg hefyd wrth law i gynnig cyngor. Mae hyfforddiant rheolaidd hefyd ar gael ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n teimlo bod angen arweiniad pellach arnynt.

Rydym yn bwriadu adolygu a gwella cynnwys ein tudalennau cydraddoldeb ein mewnrwyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod adnoddau ar gael yn rhwydd mewn un lle i gefnogi swyddogion sy'n cynnal asesiadau effaith. Rydym wedi cynnwys y weithred hon o dan amcan cydraddoldeb 8: Arferion gwaith mewnol.

# Atodiad 3: Datblygu'r cynllun

## 1. Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun?

Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2024 i 2028 yn adeiladu ar ein cynllun blaenorol ac yn cysylltu'n agos â'n Cynllun Cyngor newydd ar gyfer 2023 i 2028. Fe'i siapir gan wybodaeth am ein cymunedau o ddata cydraddoldeb diweddaraf y cyfrifiad, yn ogystal ag ymchwil leol a rhanbarthol a gynhaliwyd gennym ni a Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN). Mae hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau A yw Cyrmu'n Decach?, adroddiad cyflwr y genedl pum mlynedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae cydweithio â'n hadrannau gwasanaeth wedi bod yn allweddol. Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad agos â'n Tîm Rheoli Corfforaethol ac fe'i lywiwyd gan wybodaeth swyddogion sy'n gweithio'n agos gyda grwpiau gwarchodedig yn lleol.

Rydym hefyd wedi ceisio clywed gan sefydliadau ac unigolion sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn. Ymgysylltom yn uniongyrchol â'n Fforwm Ieuenctid a defnyddwyr darpariaethau gofal dydd Mencap Môn, Boston Centre Stage, Tyddyn Môn a Blaen y Coed.

Mae cyfarfod a chlywed gan bobl yn allweddol i'n galluogi i ddod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol. Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon yn broses barhaus a bod angen i ni wneud mwy i glywed yn uniongyrchol gan ein grwpiau gwarchodedig. Ymdrechwn yn ystod cyfnod y cynllun hwn i gryfhau ein rhwydweithiau cymunedol yn ogystal â chysylltiadau o fewn ein sefydliad.

Dyma grynodeb o ffynonellau gwybodaeth benodol a ystyriwyd gennym wrth ddatblygu'r cynllun:

- Canfyddiadau proses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022 i ddatblygu blaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor 2023-2028

- Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Adroddiad data a thystiolaeth (Ebrill 2023) a gomisiynwyd gan NWPSEN

- Adborth o'r ymgynghoriad ar ein hamcanion rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru a gynhaliwyd gan NWPSEN (Medi 2023)

- Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? (Tachwedd 2023)

# 2. Sut wnaethom ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb?

Fel gyda'n cynlluniau blaenorol, mae ein hamcanion cydraddoldeb yn seiliedig ar y 'parthau' a ddefnyddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i fonitro cynnydd mewn cydraddoldeb ym Mhrydain. Ers dros ddegawd mae NWPSEN (sy'n cynnwys holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus eraill) wedi cydweithio i ddatblygu a chytuno ar set o amcanion cyffredin ar gyfer y rhanbarth, yn seiliedig ar y meysydd bywyd allweddol hyn.

Daeth ymchwil ac ymgynghori diweddar gan NWPSEN i'r casgliad bod yr amcanion lefel uchaf gwreiddiol yn parhau'n berthnasol. Cadarnhaodd yr adolygiad diweddaraf yn haf 2023 – oedd yn cynnwys ymarfer ymgynghori cyhoeddus – fod cefnogaeth eang i'n hamcanion rhanbarthol ar y cyd.

Mae amcanion cydraddoldeb 1, 3 a 4 yn arbennig o berthnasol gan eu bod yn cyd-fynd â thri amcan strategol ein Cynllun Cyngor ar gyfer 2023 i 2028:

- Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Gofal cymdeithasol a lles: Darparu'r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Tai: Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n cartref

Mae amcan cydraddoldeb 7 yn deillio o ddyletswydd benodol i Gymru i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol yn yr un modd â'r nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dewiswyd amcan cydraddoldeb 8 gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd inni ddatblygu ein harferion gwaith mewnol er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

Mae cysylltiad agos rhwng nifer o'r amcanion â chynlluniau strategol eraill gan gynnwys:

- Cynllun strategol trechu tlodi
- Strategaeth dai
- Strategaeth rhaglen cymorth tai
- Strategaeth cyfranogiad cyhoeddus
- Strategaeth cyfranogiad tenantiaid

Rydym yn cydnabod bod rhai amcanion yn fwy perthnasol i rai grwpiau gwarchodedig. Fodd bynnag, drwy ein cynlluniau gweithredu blynyddol, byddwn yn sicrhau bod pob grŵp gwarchodedig yn cael sylw dyledus yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Gwyddom fod cael wyth amcan cydraddoldeb yn uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae cydweithio agos â'n partneriaid rhanbarthol yn gryfder cyson i ni. Mae gweithio gyda'n gilydd tuag at

amcanion cydraddoldeb ar y cyd yn ein galluogi i wneud defnydd effeithiol o adnoddau ac arbenigedd ac osgoi dyblygu.

# Ynys Môn: Proffil ardal Cyfrifiad 2021

## 1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â nodweddion pobl ac aelwydydd ar Ynys Môn. Daw'r ffigurau o gyfrifiad 2021. Cafodd ei baratoi i gefnogi cynllun cydraddoldeb strategol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 i 2028.

Mae'n cynnwys ystadegau ar wahanol bynciau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a statws economaidd-gymdeithasol a ryddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol hyd at fis Rhagfyr 2023.

## 2. Cynnwys

- Demograffeg
- Ethnigrwydd, hunaniaeth, crefydd ac iaith
- Gwaith a theithio
- Tai
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- Addysg
- Iechyd

## 3. Demograffeg

### Gwybodaeth: Rhyw

| | cyfrif | % |
|---|---:|---:|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Benyw | 35,219 | 51.1 |
| Gwryw | 33,659 | 48.9 |

**Disgrifiad:** Dyma'r rhyw a gofnodwyd gan y person wnaeth gwblhau'r cyfrifiad. Yr opsiynau oedd 'benyw' a 'gwryw'.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymaradwy iawn

## Gwybodaeth: Oedran

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| 4 mlwydd oed ac iau | 3,209 | 4.7 |
| Rhwng 5 a 9 oed | 3,861 | 5.6 |
| Rhwng 10 a 15 oed | 4,659 | 6.8 |
| Rhwng 16 a 19 oed | 2,716 | 3.9 |
| Rhwng 20 a 24 oed | 3,055 | 4.4 |
| Rhwng 25 a 34 oed | 7,003 | 10.2 |
| Rhwng 35 a 49 oed | 10,963 | 15.9 |
| rhwng 50 a 64 oed | 15,202 | 22.1 |
| Rhwng 65 a 74 oed | 9,794 | 14.2 |
| Rhwng 75 ac 84 oed | 6,237 | 9.1 |
| 85 mlwydd oed a throsodd | 2,176 | 3.2 |

**Disgrifiad:** Oedran person ar ddiwrnod y cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, yng Nghymru a Lloegr.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymaradwy iawn

## Gwybodaeth: Statws partneriaeth gyfreithiol

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 16 oed a throsodd | 57,147 | 100.0 |
| Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil | 18,849 | 33.0 |
| Yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 26,596 | 46.5 |
| Priod | 26,478 | 46.3 |
| Mewn partneriaeth gofrestredig | 118 | 0.2 |
| Wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod yn gyfreithiol neu mewn partneriaeth sifil | 1,066 | 1.9 |
| Ysgariad neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu | 5,957 | 10.4 |
| Gweddw neu bartner partneriaeth sifil sydd wedi goroesi | 4,679 | 8.2 |

**Disgrifiad:** Yn dosbarthu person yn ôl ei statws priodasol cyfreithiol neu bartneriaeth sifil gofrestredig ar ddiwrnod y cyfrifiad, 21 Mawrth 2021. Mae'r un peth â 'statws priodasol' amrywiol yng nghyfrifiad 2011 ond wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyfrifiad 2021 i adlewyrchu'r Ddeddf Partneriaeth Sifil ddiwygiedig ddaeth i rym yn 2019.

Yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021, mae 'sengl' yn cyfeirio at rywun sydd erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig.

**Gwybodaeth ansawdd:** Nid oes amcangyfrifon ar wahân ar gael ar gyfer partneriaethau o'r un ac o wahanol ryw ar gyfer y categorïau statws priodasol 'wedi gwahanu', 'ysgaru/diddymu' a 'phartneriaid gweddw/goroesi'. Mae hyn oherwydd bod sicrwydd ansawdd yn dangos bod y ffigurau ar gyfer rhai o'r categorïau yn annibynadwy.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n fras. Ychwanegwyd y categorïau statws priodas sifil o'r un rhyw a phartneriaeth sifil gwahanol ryw a ddaeth i rym yn 2011. Felly, mae categorïau o'r un ac o wahanol ryw yn perthyn i'r rhai sydd mewn partneriaeth sifil. Fodd bynnag, mae'r categorïau o'r un ac o wahanol ryw ar gyfer statws partneriaeth gyfreithiol y tu allan i bartneriaeth (pobl sydd naill ai wedi gwahanu, yn weddw, partner sy'n goroesi, wedi ysgaru neu eu partneriaeth wedi'u diddymu'n gyfreithiol) wedi'u cyfuno oherwydd materion ansawdd data.

## Gwybodaeth: Math o breswylfa

| | cyfrif | % |
|---|---:|---:|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Yn byw mewn cartref | 68,184 | 99.0 |
| Yn byw mewn sefydliad cymunedol | 694 | 1.0 |

**Disgrifiad:** Os yw person yn byw mewn cartref neu sefydliad cymunedol. Cofnodwyd bod pobl a gwblhaodd yr holiadur aelwyd arferol yn byw mewn cartref. Gofynnwyd i'r rhai a gwblhaodd holiadur unigol a oeddent yn byw mewn cartref neu sefydliad cymunedol.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymaradwy iawn

## Gwybodaeth: Cyfansoddiad aelwyd

| | cyfrif | % |
|---|---:|---:|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Aelwyd un person | 10,189 | 33.1 |
| Aelwyd deulu sengl | 19,438 | 63.1 |
| Mathau eraill o aelwydydd | 1,196 | 3.9 |

**Disgrifiad:** Aelwydydd yn ôl y berthynas rhwng aelodau. Mae aelwydydd un teulu yn cael eu dosbarthu yn ôl:

- nifer y plant dibynnol
- math o deulu (priod, partneriaeth sifil neu deulu cwpl sy'n cyd-fyw, neu deulu unig riant)

Caiff aelwydydd eraill cael eu dosbarthu yn ôl:

- nifer y bobl
- nifer y plant dibynnol
- a yw'r aelwyd yn cynnwys myfyrwyr yn unig neu ddim ond pobl 66 oed a throsodd

**Gwybodaeth ansawdd:** Mae ystyriaethau ansawdd yn bodoli ynghylch cysondeb data'r cyfrifiad ar gyfansoddiad cartrefi a theulu a statws partneriaeth gyfreithiol, a newidiadau yn y diffiniad o 'fathau eraill o aelwydydd' ers 2011.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n fras. Mae hyn yn codi o'r newidyn sy'n deillio o statws partneriaeth gyfreithiol. Gwnaed newidiadau i adlewyrchu y gall pobl bellach briodi rhywun o'r un rhyw a gall pobl o wahanol ryw fod mewn partneriaeth sifil.

# 4. Ethnigrwydd, hunaniaeth, crefydd ac iaith

## Gwybodaeth: Ethnigrwydd

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Cymry Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd | 430 | 0.6 |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 104 | 0.2 |
| Grwpiau ethnig cymysg neu lluosog | 598 | 0.9 |
| Gwyn | 67,587 | 98.1 |
| Grŵp ethnig arall | 160 | 0.2 |

**Disgrifiad:** Y grŵp ethnig y mae'r person sy'n cwblhau'r cyfrifiad yn teimlo ei fod yn perthyn iddo. Gallai hyn fod yn seiliedig ar eu diwylliant, cefndir teuluol, hunaniaeth neu ymddangosiad corfforol. Gallai ymatebwyr ddewis un allan o 19 ateb posib, gan gynnwys opsiynau ymateb ysgrifenedig.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n fras. Mae'r cwestiwn hwn yn un goddrychol ac yn gofyn i ymatebwyr hunan-adnabod pa grŵp ethnig maent yn teimlo eu bod yn perthyn iddo. Gall y ffordd y mae person yn dewis adnabod ei hun newid dros amser.

Cynhwyswyd categori Roma wrth ymyl y blwch ticio Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig o fewn y categori Gwyn. Ychwanegwyd hefyd opsiwn ysgrifennu i mewn ar gyfer y rhai sy'n dewis Affrica o fewn y Categori Du, Du Prydeinig, Du Cymreig neu Caribïaidd. Golyga hyn y gellid cofnodi cefndir ethnig mwy penodol.

## Gwybodaeth: Hunaniaeth genedlaethol

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Hunaniaeth Brydeinig yn unig | 12,594 | 18.3 |
| Hunaniaeth Saesnig yn unig | 8,794 | 12.8 |
| Hunaniaeth Saesnig a Prydeinig yn unig | 1,541 | 2.2 |
| Hunaniaeth Gymreig yn unig | 38,301 | 55.6 |
| Hunaniaeth Gymreig a Saesnig yn unig | 3,847 | 5.6 |
| Unrhyw gyfuniad arall o hunaniaethau'r Deyrnas Unedig yn unig | 1,916 | 2.8 |
| Hunaniaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn unig | 1,225 | 1.8 |
| Hunaniaeth y Deyrnas Unedig a hunaniaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig | 660 | 1.0 |

**Disgrifiad:** Mae hunaniaeth genedlaethol rhywun yn asesiad personol o'i hunaniaeth ei hun. Gallai fod yn wlad neu wledydd lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn neu'n ystyried yn gartref. Nid yw'n dibynnu ar grŵp ethnig na dinasyddiaeth.

Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un hunaniaeth genedlaethol.

**Gwybodaeth am ansawdd:** Gall y cynnydd ers Cyfrifiad 2011 mewn pobl sy'n nodi eu bod yn 'Brydeinwyr' a chwymp mewn pobl sy'n nodi eu bod yn 'Saesnig' adlewyrchu'n rhannol wir newidiadau mewn hunanganfyddiad. Mae hefyd yn debygol o adlewyrchu bod 'Prydeinig' wedi disodli 'Saesnig' fel yr opsiwn ateb cyntaf a restrir ar yr holiadur yn Lloegr.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n fras. Yn gyffredinol, gellir cymharu'r newidyn deilliadol hwn â'r un newidyn a ddefnyddir yng Nghyfrifiad 2011, ond mae rhai materion ansawdd yn y data.

## Gwybodaeth: Crefydd

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Dim crefydd | 28,066 | 40.7 |
| Cristion | 35,485 | 51.5 |
| Bwdhaidd | 154 | 0.2 |
| Hindŵaidd | 62 | 0.1 |
| Iddewig | 30 | 0.0 |
| Mwslim | 328 | 0.5 |
| Sikh | 30 | 0.0 |
| Crefydd arall | 278 | 0.4 |
| Heb ei ateb | 4,446 | 6.5 |

**Diffiniad:** Y grefydd y mae pobl yn ei chysylltu neu'n uniaethu â hi (eu cysylltiad crefyddol), p'un a ydynt yn arfer neu â ffydd yn y grefydd. Roedd y cwestiwn hwn yn wirfoddol. Mae'n cynnwys pobl a nododd un o'r wyth ateb posib, gan gynnwys 'dim crefydd', ochr yn ochr â'r rhai wnaeth ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n fras. Yn gyffredinol, gellir cymharu'r newidyn deilliadol hwn â'r un newidyn a ddefnyddir yng Nghyfrifiad 2011, ond mae rhai materion ansawdd yn y data.

## Gwybodaeth: Gwlad geni

| | cyfrif | % |
|---|---:|---:|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Ewrop | 67,864 | 98.5 |
| Ewrop: Y Deyrnas Unedig | 66,584 | 96.7 |
| Ewrop: Ewrop Arall: Gwledydd yr UE | 338 | 0.5 |
| Ewrop: Ewrop Arall (ac eithrio Iwerddon) | 942 | 1.4 |
| Affrica | 257 | 0.4 |
| Y Dwyrain Canol ac Asia | 480 | 0.37 |
| America a'r Caribî | 190 | 0.3 |
| Antarctica ac Oceania | 88 | 0.1 |
| Arall | 0 | 0.0 |

**Disgrifiad:** Y wlad lle cafodd person ei eni. I bobl heb eu geni yn un o bedair rhan y DU, roedd opsiwn i ddewis 'rhywle arall'. Gofynnwyd i bobl a ddewisodd 'rywle arall' ysgrifennu enw cyfredol eu gwlad enedigol.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n fras. Newidiwyd rhai categorïau i'w cysoni â dosbarthiadau gwlad a ddefnyddir mewn ystadegau cenedlaethol eraill.

## Gwybodaeth: Cyfnod preswylio yn y DU

| | cyfrif | % |
|---|---:|---:|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Ganwyd yn y Deyrnas Unedig | 66,583 | 96.7 |
| 10 mlynedd neu fwy | 1,727 | 2.5 |
| 5 mlynedd neu fwy, ond llai na 10 mlynedd | 246 | 0.4 |
| 2 flynedd neu fwy, ond llai na 5 mlynedd | 190 | 0.3 |
| Llai na 2 flynedd | 131 | 0.2 |

**Disgrifiad:** Mae'r cyfnod preswylio yn y DU yn deillio o'r dyddiad fwyaf diweddar y daeth person i fyw yn y DU. Nid yw'n cynnwys dychwelyd o wyliau neu arhosiad byr y tu allan i'r DU.

Mae’r cyfnod preswylio yn berthnasol i breswylwyr arferol na chawsant eu geni yn y DU yn unig. Nid yw'n cynnwys preswylwyr arferol a anwyd yn y DU sydd wedi nychwelyd ar ôl ymfudo – mae'r rhain yn cael eu cofnodi yn y categori 'ganwyd yn y DU'.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymaradwy iawn

### Gwybodaeth: Iaith yr aelwyd

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob aelwyd | 30,822 | 100.0 |
| Mae’r Gymraeg neu’r Saesneg yn brif iaith i bob oedolyn | 30,459 | 98.8 |
| Mae’r Gymraeg neu’r Saesneg yn brif iaith i o leiaf un oedolyn | 186 | 0.6 |
| Mae’r Gymraeg neu’r Saesneg yn brif iaith i o leiaf un person rhwng 3 a 15 mlwydd oed, ond nid i’r oedolion | 29 | 0.1 |
| Nid yw’r Gymraeg na’r Saesneg yn brif iaith i unrhyw aelod o’r aelwyd | 148 | 0.5 |

**Disgrifiad:** Yn dosbarthu aelwydydd yn ôl y cyfuniad o oedolion a phlant (3 i 15 oed) o fewn aelwyd sydd â’r Gymraeg neu’r Saesneg fel eu prif iaith.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymaradwy iawn

## 5. Gwaith a theithio

### Gwybodaeth: Gweithgaredd economaidd

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol dros 16 mlwydd oed | 57,148 | 100.0 |
| Yn economaidd weithredol (ac eithrio myfyrwyr llawn amser) | 30,023 | 52.5 |
| Mewn cyflogaeth | 28,540 | 49.9 |
| Di-waith | 1,483 | 2.6 |
| Yn economaidd weithgar ac yn fyfyriwr llawn amser | 842 | 1.5 |
| Mewn cyflogaeth | 663 | 1.2 |
| Di-waith | 179 | 0.3 |
| Economaidd anweithgar | 26,283 | 46.0 |
| Ymddeol | 17,457 | 30.5 |
| Myfyriwr | 2,279 | 4.0 |
| Gofalu am gartref neu deulu | 2,344 | 4.1 |
| Yn sâl neu'n anabl hirdymor | 2,714 | 4.7 |
| Arall | 1,489 | 2.6 |

**Disgrifiad:** Mae pobl dros 16 mlwydd oed yn economaidd weithredol os, rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth, roeddent:

- Mewn cyflogaeth (yn weithiwr neu hunangyflogedig)
- Yn ddi-waith, ond yn chwilio am waith ac ar gael i ddechrau o fewn pythefnos
- Yn ddi-waith, ond yn aros i ddechrau swydd a gynigiwyd ac a dderbyniwyd

Mae'n fesur a oedd person yn cyfrannu'n weithredol i'r farchnad lafur yn ystod y cyfnod hwn ai peidio. Ystyrir pobl yn economaidd anweithgar os oeddent dros 16 mlwydd oed ac yn ddi-waith rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth ac heb fod yn chwilio am waith rhwng 22 Chwefror a 21 Mawrth 2021 neu ddim ar gael i ddechrau gweithio o fewn pythefnos.

Mae diffiniad y cyfrifiad yn wahanol i ddiffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn arolwg y llafurlu, felly ni ellir cymharu amcangyfrifon yn uniongyrchol.

Mae'r dosbarthiad hwn yn gwahanu myfyrwyr llawn a rhan amser pan fyddant yn gyflogedig neu'n ddi-waith. Argymhellir crynhoi'r rhain gyda'i gilydd i edrych ar bawb sydd mewn cyflogaeth neu'n ddi-waith, neu i ddefnyddio'r dosbarthiad marchnad lafur pedwar categori, os am edrych ar y rhai sydd â statws marchnad lafur penodol.

**Gwybodaeth am ansawdd:** Gan fod Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfnod unigryw o newid cyflym, cymerwch ofal wrth ddefnyddio data'r Farchnad Lafur at ddibenion cynllunio.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n n fras. Roedd peth o'r geiriad ar holiadur Cyfrifiad 2021 yn newidiadau ac fe gafodd yr opsiynau y gallai pobl ddewis ohonynt eu dileu.

## Gwybodaeth: Oriau gweithio

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yn yr wythnos cyn y cyfrifiad | 29,202 | 100.0 |
| Rhan-amser | 9,257 | 31.7 |
| 15 awr neu lai o waith | 2,716 | 9.3 |
| 16-30 awr o waith | 6,541 | 22.4 |
| Llawn amser | 19,945 | 68.3 |
| 31-48 awr yn gweithio | 16,493 | 56.5 |
| 49 awr neu fwy o waith | 3,452 | 11.8 |

**Disgrifiad:** Mae nifer yr oriau a weithiwyd yr wythnos cyn y cyfrifiad yn cynnwys goramser â thâl a di-dâl. Mae hyn yn cynnwys prif swydd unrhyw un 16 oed a throsodd.

**Gwybodaeth am ansawdd:** Gan fod Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfnod unigryw o newid cyflym, cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r data hwn at ddibenion cynllunio.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymaradwy iawn

## Gwybodaeth: galwedigaeth

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yr wythnos cyn y cyfrifiad | 29,202 | 100.0 |
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion | 3,167 | 10.8 |
| Galwedigaethau proffesiynol | 4,716 | 16.1 |
| Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol | 3,179 | 10.9 |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 2,482 | 8.5 |
| Galwedigaethau crefftau medrus | 4,547 | 15.6 |
| Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill | 3,638 | 12.5 |
| Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 2,522 | 8.6 |
| Gweithwyr prosesau, peiriannau a pheiriant | 2,065 | 7.1 |
| Galwedigaethau elfennol | 2,886 | 9.9 |

**Disgrifiad:** Dosbarthu yr hyn y mae pobl 16 oed a throsodd yn ei wneud fel eu prif swydd. Mae eu teitl swydd neu fanylion y gweithgareddau a wnânt yn eu swydd ac unrhyw gyfrifoldebau goruchwylio neu reoli yn ffurfio'r dosbarthiad hwn. Defnyddir yr wybodaeth hon i godio ymatebion i alwedigaeth gan ddefnyddio Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) 2020.

**Gwybodaeth am ansawdd:** Gan fod Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfnod unigryw o newid cyflym, cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r data hwn at ddibenion cynllunio.

**Cymhariaeth â 2011:** Anghymaradwy. Newidiwyd y dosbarthiad ar gyfer Cyfrifiad 2021 a chyfuno'r categorïau a oedd ar gael yn flaenorol yng nghyfrifiad Cyfrifiad 2011.

# 6. Tai

## Gwybodaeth: Daliadaeth

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob aelwyd | 30,824 | 100.0 |
| Mewn perchnogaeth: Yn berchen yn llwyr | 13,756 | 44.6 |
| Yn berchen trwy forgais neu ran-berchnogaeth | 7,351 | 23.8 |
| Rhent cymdeithasol | 4,820 | 15.6 |
| Rhentu preifat neu’n byw yn ddi-rent | 4,897 | 15.9 |

**Disgrifiad:** P'un a yw aelwyd yn berchen ar neu'n rhentu'r llety y mae'n byw ynddo.

Gall llety sy'n eiddo i berchennog fod:

- Ym mherchnogaeth lwyr yr aelwyd, lle mae'r aelwyd yn berchen ar yr holl eiddo
- Gyda morgais neu fenthyciad
- Yn berchen yn rhannol trwy gynllun rhan-berchnogaeth

Gall llety rhent fod yn:

- rhentu preifat, er enghraifft, drwy landlord preifat neu asiant gosod tai
- Rhent cymdeithasol drwy gyngor lleol neu gymdeithas dai

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer cartrefi heb unrhyw breswylwyr arferol.

**Gwybodaeth am ansawdd**: Mae tystiolaeth bod pobl yn nodi'n anghywir eu math o landlord fel 'Cyngor neu awdurdod lleol' neu 'gymdeithas dai'. Dylech ychwanegu'r ddau gategori hyn at ei gilydd wrth ddadansoddi data sy'n defnyddio'r newidyn hwn.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymaradwy iawn

# 7. Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd

## Gwybodaeth: Cyfeiriadedd rhywiol

| | cyfrif | % |
|---|---:|---:|
| Pob preswylydd arferol 16 oed a throsodd | 57,149 | 100.0 |
| Strêt neu heterorywiol | 51,430 | 90.0 |
| Hoyw neu lesbiaid | 620 | 1.1 |
| Deurywiol | 470 | 1.8 |
| Pansexual | 25 | 0.0 |
| Asexual | 23 | 0.0 |
| Hoyw | 4 | 0.0 |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 24 | 0.0 |
| Heb ei ateb | 4,552 | 8.0 |

**Disgrifiad:** Dosbarthu pobl yn ôl yr ymatebion i'r cwestiwn cyfeiriadedd rhywiol. Roedd y cwestiwn hwn yn un gwirfoddol a gofynnwyd i bobl 16 oed a hŷn yn unig.

**Cymhariaeth â 2011:** Anghymaradwy. Mae'r newidyn hwn yn newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021 ac nid oes cymhariaeth â Chyfrifiad 2011.

## Gwybodaeth: Hunaniaeth rhywedd

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 16 oed a throsodd | 57,149 | 100.0 |
| Hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg genedigaeth | 53,217 | 93.1 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i ryw a gofrestrwyd adeg genedigaeth ond ni roddir hunaniaeth benodol | 66 | 0.1 |
| Dynes traws | 34 | 0.1 |
| Dyn traws | 31 | 0.1 |
| Anneuaidd | 16 | 0.0 |
| Pob hunaniaeth rhywedd arall | 16 | 0.0 |
| Heb ei ateb | 3,767 | 6.6 |

**Disgrifiad:** Yn dosbarthu pobl yn ôl yr ymatebion i'r cwestiwn hunaniaeth rhywedd. Roedd y cwestiwn hwn yn un gwirfoddol a gofynnwyd i bobl 16 oed a hŷn yn unig.

**Cymhariaeth 2011:** Anghymeradwy. Mae'r newidyn hwn yn newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021 ac nid oes cymhariaeth â Chyfrifiad 2011.

# 8. Addysg

## Gwybodaeth: Y lefel uchaf o gymhwyster

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 16 oed a throsodd | 57,149 | 100.0 |
| Dim cymwysterau | 10,270 | 18.0 |
| Lefel 1 a chymwysterau lefel mynediad | 4,828 | 8.4 |
| Cymwysterau Lefel 2 | 8,455 | 14.8 |
| Prentisiaeth | 3,752 | 6.6 |
| Cymwysterau Lefel 3 | 9,930 | 17.4 |
| Cymwysterau Lefel 4 neu uwch | 18,445 | 32.3 |
| Cymwysterau eraill | 1,467 | 2.6 |

**Disgrifiad:** Mae'r lefel uchaf o gymhwyster yn deillio o'r cwestiwn sy'n gofyn i bobl nodi'r holl gymwysterau sydd ganddynt, neu eu cymhwyster cyfatebol agosaf. Gall hyn gynnwys cymwysterau tramor lle cawsant eu paru â'r cymwysterau cyfatebol agosaf yn y DU.

Y mathau o gymwysterau sydd wedi'u cynnwys ym mhob lefel yw:

- Cymwysterau Lefel 1 a lefel mynediad: 1 i 4 TGAU gradd A* i C, unrhyw TGAU ar raddau eraill, Lefel O neu CSE (unrhyw raddau), 1 Lefel UG, NVQ lefel 1, GNVQ Sylfaen, Sgiliau Sylfaenol neu Hanfodol
- Cymwysterau Lefel 2: 5 TGAU neu fwy (A* i C neu 9 i 4), Lefel O (pasys), CSEs (gradd 1), Ardystiad Ysgolion, 1 Lefel A, 2 i 3 Lefel AS, VCEs, Diploma Canolradd neu Uwch, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 2, GNVQ Canolradd, Crefft City & Guilds, Diploma Cyntaf neu Gyffredinol BTEC, Diploma RSA
- Cymwysterau Lefel 3: 2 neu fwy o Lefel A neu VCEs, 4 lefel UG neu fwy, Tystysgrif Ysgolion Uwch, Dilyniant neu Ddiploma Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 3; GNVQ Uwch, Crefft Uwch City & Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch RSA
- Cymwysterau Lefel 4 neu uwch: gradd (BA, BSc), gradd uwch (MA, PhD, pgce), NVQ Lefel 4 i 5, HNC, HND, RSA Higher Diploma, BTEC Lefel Uwch, cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifeg)
- Cymwysterau eraill: cymwysterau galwedigaethol neu gymwysterau cysylltiedig â gwaith, cymwysterau eraill a gyflawnir yng Nghymru neu Loegr, cymwysterau a gyflawnir y tu allan i Gymru neu Loegr (sy'n cyfateb heb ei nodi neu heb ei nodi.)

**Gwybodaeth am ansawdd:** Mae ystyriaethau ansawdd am gymwysterau addysg uwch, gan gynnwys y rhai ar Lefel 4+, ymatebion gan bobl hŷn ac ymfudwyr rhyngwladol, a chymharoldeb â data Cyfrifiad 2011.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n fras. Mae'r categorïau ar gyfer y newidyn hwn yr un fath â'r rhai yng Nghyfrifiad 2011. Fodd bynnag, yng Nghyfrifiad 2021 cafodd y cwestiwn ei ddiwygio a'i rannu'n grŵp o wahanol gymwysterau. Mae hyn yn golygu na ellir cymharu'r ffordd yr atebodd pobl y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021 yn llawn â'r atebion o Gyfrifiad 2011. Er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl sydd â chymhwyster hŷn neu di-DU wrth ateb y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021 wedi dewis lefel cymhwyster uwch nag a wnaethant yng Nghyfrifiad 2011, er bod ganddynt yr un cymwysterau.

## Gwybodaeth: Plant ysgol a myfyrwyr llawn amser

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 5 oed a throsodd | 65,667 | 100.0 |
| Myfyriwr | 11,540 | 17.6 |
| Ddim yn fyfyriwr | 54,127 | 82.4 |

# 9. Iechyd

## Gwybodaeth: Iechyd cyffredinol

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Iechyd da iawn | 32,788 | 47.6 |
| Iechyd da | 21,937 | 31.8 |
| Iechyd teg | 10,216 | 14.8 |
| Iechyd gwael | 3,059 | 4.4 |
| Iechyd gwael iawn | 878 | 1.3 |

**Disgrifiad:** Asesiad person o gyflwr cyffredinol ei iechyd o dda iawn i ddrwg iawn. Nid yw'r asesiad hwn yn seiliedig ar iechyd unigolyn dros unrhyw gyfnod penodol.

**Cymhariaeth â 2011:** Cymharu'n dda.

## Gwybodaeth: Problemau iechyd neu anabledd hirdymor

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Yr holl breswylwyr arferol | 68,878 | 100.0 |
| Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu | 6,502 | 9.4 |
| Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi ei cyfyngu ychydig | 7,743 | 11.2 |
| Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, ond he gyfyngu ar weithgareddau o ddydd i ddydd | 4,399 | 6.4 |
| Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hir dymor | 50,232 | 72.9 |

**Disgrifiad:** Ystyrir bod pobl a asesodd bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu gan gyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol tymor hir yn anabl. Mae'r diffiniad hwn o berson anabl yn bodloni'r safon wedi'i chysoni ar gyfer mesur anabledd ac mae'n unol â Deddf Cydraddoldeb (2010).

**Cymhariaeth â 2011**: Cymharu'n fras. Rhannwyd y cwestiwn yn ymwneud â'r newidyn hwn yn ddwy ran ar gyfer Cyfrifiad 2021. Yng Nghyfrifiad 2021 gofynnwyd i bobl sy'n llenwi'r holiadur a oes ganddynt unrhyw gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol. Yng Nghyfrifiad 2011, gofynnwyd i bobl a oedd ganddynt broblem iechyd neu anabledd. Dilewyd opsiwn i gynnwys gwybodaeth am broblemau sy'n gysylltiedig â henaint.

## Gwybodaeth: Darparu gofal di-dâl

| | cyfrif | % |
|---|---|---|
| Pob preswylydd arferol 5 oed a throsodd | 65,667 | 100.0 |
| Ddim yn darparu unrhyw ofal di-dâl | 58,921 | 89.7 |
| Darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos | 3,025 | 4.6 |
| Darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos | 1,373 | 2.1 |
| Darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos | 2,348 | 3.6 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Cyngor llawn |
| **Dyddiad:** | 7 Mawrth 2024 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Adolygu Ardaloedd a Mannau Pleidleisio Ynys Môn |
| **Deilydd portffolio:** | Cyng. Carwyn Elias Jones – Busnes y Cyngor a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog arwain:** | Dylan J Williams, Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau |
| **Swyddog cyswllt / awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cyflwyno canlyniadau'r arolwg a gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'r rhestr mannau pleidleisio. |

**Cefndir**

1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o ganlyniad adolygiad o ardaloedd etholiadol a mannau pleidleisio 2023/24.

2. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu hardaloedd etholiadol a'u mannau pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol o leiaf unwaith pob pum mlynedd. Mae'n ofyniad cyfansoddiadol bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo rhannu'r etholaeth ac adrannau etholiadol yn ardaloedd pleidleisio. [1]

3. Y cyfnod adolygu gorfodol sy'n agored ar hyn o bryd yw'r 16 mis rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Ionawr 2025. Penderfynom gynnal yr adolygiad yn gynnar yn y ffenest statudol yn Ynys Môn oherwydd bod cyfnod heriol o flaen y gwasanaeth etholiadol yn 2024, gyda dau etholiad yn debygol.

4. Nid yw ffiniau etholaethau seneddol, ffiniau etholaethau Senedd Cymru na ffiniau ac enw'r awdurdod lleol neu'i wardiau etholiadol yn rhan o'r broses adolygu yma. Yn hytrach mae'n delio gyda ardaloedd etholiadol llai a mannau pleidleisio.

[1] Adrannau 3.2.3.19 a 3.2.3.20 y Cyfansoddiad

**Adolygiad**

5. Nod yr adolygiad oedd sicrhau bod ardaloedd a mannau pleidleisio Môn yn hygyrch ac yn rhesymol i etholwyr a bod cyfleusterau pleidleisio yn addas yn yr amgylchiadau.

6. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr adolygiad rhwng 13 Tachwedd 2023 a 12 Ionawr 2024. Cyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus ar wefan y Cyngor ynghyd â rhestr o'r dosbarthiadau a mannau pleidleisio.

7. Hysbyswyd yr holl Gynghorau Tref a Chymuned am yr adolygiad drwy anfon neges at y clercod a gofynnwyd iddynt rannu'r rhybudd cyhoeddus yn eu cymunedau.

8. Rhannwyd y rhybudd yn llyfrgelloedd y Cyngor hefyd a rhannwyd yr wybodaeth gyda aelodau'r Cyngor Sir.

9. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, dim ond un ymateb a gafwyd ac roedd yr ymatebydd yn cadarnhau ei fod yn fodlon bod y rhestr yn addas.

10. Mae'n debygol iawn bod y diffyg ymateb yn arwydd o fodlonrwydd cyffredinol gyda dosbarthiad ac hygyrchedd mannau pleidleisio Ynys Môn a hynny yn sgil gwaith cyson sydd wedi ei wneud dros y blynyddoedd i adolygu'r mannau pleidleisio.

11. Yn ystod pob etholiad bydd arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn monitro addasrwydd y gorsafoedd ac yn cadw golwg am unrhyw gyfleusterau addas eraill neu adeiladau newydd yn yr ardal a fyddai'n gallu cael eu defnyddio fel gorsafoedd yn y dyfodol. Mae'r tim etholiadau hefyd yn adolygu addasrwydd a hygyrchedd mannau pleidleisio rhwng etholiadau ac yn cadw golwg ar unrhyw newidiadau mawr mewn poblogaeth ardaloedd etholiadol.

12. Oherwydd na chafwyd unrhyw wrthwynebiad i gynigion y Cyngor yn ystod cyfnod ymgynghori'r adolygiad, rydym yn dod i'r casgliadau bod y rhestr mannau pleidleisio (atodiad 1) yn addas.

**13. Argymhellion -**

a. Bod y Cyngor yn nodi canlyniad yr adolygiad.

b. Bod y cynigion terfynol a nodir yn **Atodiad 1** ynghylch ardaloedd pleidleisio, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

# AROLWG LLEFYDD PLEIDLEISIO / POLLING PLACES REVIEW

| WARD ETHOLIADOL<br>ELECTORAL WARD | NIFER O SEDDI<br>NO. OF SEATS | TREF/CYMUNED<br>TOWN/COMMUNITY | GOFRESTR<br>REGISTER | WARD CYMUNED<br>COMMUNITY WARD | NIFER O SEDDI<br>NO. OF SEATS | RHIF GORSAF PLEIDLEISIO<br>POLLING STATION NO. | NIFER ETHOLWYR<br>NO. ELECTORS | GORSAF PLEIDLEISIO<br>POLLING STATION |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AETHWY | 3 | PORTHAETHWY | P1 | CADNANT | 7 | 15 | 909 | CANOLFAN GOFFA CYMDEITHASOL, PORTHAETHWY / WAR MEMORIAL COMMUNITY CENTRE, MENAI BRIDGE |
| | | | P2 | TYSILIO | 8 | 16 | 1534 | YSGOL Y BORTH, PORTHAETHWY / MENAI BRIDGE |
| | | LLANFAIRPWLLGWYNGYLL | SE1 | BRAINT | 7 | 55 | 1153 | NEUADD GOFFA LLANFAIRPWLL / LLANFAIRPWLL MEMORIAL HALL |
| | | | SE2 | GWYNGYLL | 7 | 56 | 1236 | YSGOLDY CAPEL EBENESER, LLANFAIRPWLL / EBENESER CHAPEL SCHOOL ROOM, LLANFAIRPWLL |
| | | PENMYNYDD | SH | PENMYNYDD | 8 | 59 | 392 | CANOLFAN PENMYNYDD |
| BODOWYR | 2 | LLANFIHANGEL ESCEIFIOG | SF | LLANFIHANGEL ESCEIFIOG | 11 | 57 | 1335 | NEUADD BENTREF GAERWEN / GAERWEN VILLAGE HALL |
| | | LLANDDANIEL FAB | SG | LLANDDANIEL FAB | 9 | 58 | 646 | YR EFAIL, LLANDDANIEL |
| | | LLANIDAN | SI | LLANIDAN | 11 | 60 | 823 | CANOLFAN GYMUNED BRYNSIENCYN / BRYNSIENCYN COMMUNITY CENTRE |
| BRO ABERFFRAW | 2 | ABERFFRAW | CO1 | GOGLEDDOL / NORTHERN | 2 | 34 | 89 | NEUADD GLANNAU FFRAW, ABERFFRAW / ABERFFRAW VILLAGE HALL |
| | | | CO2 | DEHEUOL / SOUTHERN | 8 | | 319 | |
| | | | CO3 | LLANGWYFAN | 2 | | 54 | |
| | | BODORGAN | SK1 | LLANGADWALADR | 3 | 64 | 180 | YSGOL GYNRADD BODORGAN / BODORGAN PRIMARY SCHOOL |
| | | | SK2 | TREFDRAETH | 7 | | 579 | |
| | | RHOSYR | SJ1 | NIWBWRCH / NEWBOROUGH | 7 | 61 | 765 | CANOLFAN PRITCHARD JONES, NIWBWRCH / PRITCHARD JONES CENTRE, NEWBOROUGH |
| | | | SJ2 | LLANGEINWEN | 5 | 62 | 734 | YR HEN FECWS, DWYRAN |
| | | | SJ3 | LLANGAFFO | 2 | 63 | 264 | NEUADD BENTREF LLANGAFFO / LLANGAFFO VILLAGE HALL |
| BRO'R LLYNNOEDD | 2 | BODEDERN | CI | BODEDERN | 11 | 26 | 833 | NEUADD BENREF BODEDERN / BODEDERN VILLAGE HALL |
| | | Y FALI | CE1 | GORAD | 4 | 22 | 672 | YSGOL GYMUNED Y FALI / VALLEY COMMUNITY SCHOOL |
| | | | CE2 | LLANYNGHENEDL | 1 | | 75 | |
| | | | CE3 | Y PENTREF / VILLAGE | 5 | | 736 | |
| | | | CE4 | GORLLEWINOL / WEST | 3 | | 397 | |
| | | LLANFAIR YN NEUBWLL | CH | LLANFAIR YN NEUBWLL | 11 | 25 | 1138 | Y NEUADD CAERGEILIOG / CAERGEILIOG HALL |
| CANOLBARTH MÔN | 3 | LLANGEFNI | L2 | CYNGAR | 5 | 13 | 1690 | NEUADD EGLWYS SANT GYNGAR, LLANGEFNI / LLANGEFNI ST CYNGAR CHURCH HALL |
| | | | L3 | TUDUR | 5 | 14 | 927 | NEUADD Y DREF LLANGEFNI / LLANGEFNI TOWN HALL |
| | | BOFFORDD | CL1 | HENEGLWYS | 5 | 30 | 425 | CANOLFAN GYMUNED BODFFORDD / BODFFORDD COMMUNITY CENTRE |
| | | | CL2 | BODWROG | 3 | 31 | 211 | NEUADD GOFFA BODWROG / BODWROG MEMORIAL HALL |
| | | | CL3 | LLANDRYGARN | 2 | | 150 | |
| | | LLANDDYFNAN | EH1 | LLANDDYFNAN | 7 | 48 | 528 | NEUADD BENTREF TALWRN / TALWRN VILLAGE HALL |
| | | | EH3 | TREGAIAN | 1 | 30 | 64 | CANOLFAN GYMUNED BODFFORDD / BODFFORDD COMMUNITY CENTRE |
| | | | EH4 | LLANGWYLLOG | 2 | | 95 | |
| CEFNI | 2 | LLANGRISTIOLUS | CN1 | LLANGRISTIOLUS | 5 | 33 | 684 | NEUADD YR HENOED, LLANGRISTIOLUS / OLD PEOPLE'S HALL, LLANGRISTIOLUS |
| | | | CN2 | CERRIGCEINWEN | 5 | | 474 | |
| | | LLANGEFNI | L1 | CEFNI | 5 | 12 | 1309 | NEUADD Y DREF LLANGEFNI / LLANGEFNI TOWN HALL |
| CRIGYLL | 2 | BRYNGWRAN | CK1 | BRYNGWRAN | 8 | 29 | 529 | CANOLFAN GYMUNED BRYNGWRAN / BRYNGWRAN COMMUNITY CENTRE |
| | | | CK2 | LLANBEULAN | 2 | | 139 | |
| | | LLANFAELOG | CJ1 | RHOSNEIGR | 6 | 27 | 617 | NEUADD BENTREF RHOSNEIGR / RHOSNEIGR VILLAGE HALL |
| | | | CJ2 | MAELOG | 6 | 28 | 579 | CANOLFAN GYMUNED LLANFAELOG / LLANFAELOG COMMUNITY HALL |
| | | TREWALCHMAI | CM | TREWALCHMAI | 10 | 32 | 781 | CANOLFAN HENOED GWALCHMAI / GWALCHMAI OAP CENTRE |
| LLIGWY | 3 | MOELFRE | EE1 | PENRHOSLLIGWY | 3 | 41 | 193 | NEUADD GYMUNED PENRHOSLLIGWY / PENRHOSLLIGWY COMMUNITY HALL |
| | | | EE2 | LLANALLGO | 8 | 42 | 561 | NEUADD GYMUNEDOL AC EGLWYS MOELFRE / MOELFRE COMMUNITY AND CHURCH HALL |
| | | LLANEUGRAD | EF | LLANEUGRAD | 7 | 43 | 211 | HEN YSGOL MARIANGLAS / OLD SCHOOL MARIANGLAS |
| | | LLANFAIR MATHAFARN EITHAF | EG1 | BRYNTEG | 2 | 44 | 377 | NEUADD BENTREF BRYNTEG / BRYNTEG VILLAGE HALL |
| | | | EG2 | LLANBEDRGOCH | 2 | 45 | 384 | Y GANOLFAN LLANBEDRGOCH / LLANBEDRGOCH CENTRE |
| | | | EG3 | BENLLECH A | 4 | 46 | 698 | LLYFRGELL BENLLECH / BENLLECH LIBRARY |
| | | | EG4 | BENLLECH B | 6 | 47 | 1164 | NEUADD GYMUNEDOL A CHYN-FILWYR BENLLECH / BENLLECH COMMUNITY AND EX-SERVICEMEN'S HALL |
| | | LLANDDYFNAN | EH2 | LLANFIHANGEL TRE'R BEIRDD | 4 | 49 | 223 | YSGOLDY CAPEL TY MAWR, CAPEL COCH / TY MAWR CHAPEL SCHOOL ROOM, CAPEL COCH |
| | | PENTRAETH | SA | PENTRAETH | 11 | 51 | 959 | NEUADD GOFFA PENTRAETH / PENTRAETH MEMORIAL HALL |
| PARC A'R MYNYDD | 2 | CAERGYBI | HA | PARC A'R MYNYDD | 2 | 5 | 1227 | NEUADD GYMUNED LLAINGOCH / LLAINGOCH COMMUNITY CENTRE |
| | | CAERGYBI | HB | PORTHYFELIN | 3 | 6 | 1582 | NEUADD Y DREF CAERGYBI / CAERGYBI TOWN HALL |
| SEIRIOL | 3 | BEAUMARIS | B1 | GORLLEWINOL / WEST | 7 | 1 | 721 | CANOLFAN GYMUNED DAVID HUGHES, BIWMARES / DAVID HUGHES COMMINTY CENTRE, BEAUMARIS |
| | | | B2 | DWYREINIOL / EAST | 3 | | 342 | |
| | | | B3 | CANOLOG / CENTRAL | 4 | | 278 | |
| | | LLANDDONA | SB1 | LLANDDONA | 7 | 52 | 442 | HEN YSGOL LLANDDONA / LLANDDONA OLD SCHOOL |
| | | | SB2 | LLANIESTYN | 2 | | 100 | |
| | | LLANGOED | SC1 | LLANGOED | 9 | 53 | 849 | NEUADD BENTREF LLANGOED / LLANGOED VILLAGE HALL |
| | | | SC2 | PENMON | 2 | | 207 | |
| | | CWM CADNANT | SD1/2 | CWM CADNANT | 12 | 54 | 1706 | NEUADD Y PLWYF LLANDEGFAN / LLANDEGFAN PARISH HALL |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **TALYBOLION** | **3** | **CYLCH Y GARN** | CA1 | LLANRHUDDLAD | 7 | 17 | 388 | CANOLFAN LLANFAIRYNGHORNWY / LLANFAIRYNGHORNWY CENTRE |
| | | | CA2 | LLANFAIRYNGHORNWY | 4 | | 218 | |
| | | **LLANFAETHLU** | CB1 | LLANFAETHLU | 7 | 18 | 318 | NEUADD GRIFFITH READE, LLANFAETHLU / GRIFFITH READE HALL, LLANFAETHLU |
| | | | CB2 | LLANFWROG | 2 | | 117 | |
| | | **TREF ALAW** | CC1 | LLANDDEUSANT | 6 | 19 | 255 | NEUADD BENTREF LLANDDEUSANT / LLANDDEUSANT VILLAGE HALL |
| | | | CC2 | LLANBABO | 2 | 37 | 57 | YSGOL GYNRADD CARREGLEFN / CARREGLEFN PRIMARY SCHOOL |
| | | | CC3 | LLANTRISANT | 2 | 19 | 96 | NEUADD BENTREF LLANDDEUSANT / LLANDDEUSANT VILLAGE HALL |
| | | | CC4 | LLECHCYNFARWY | 2 | 20 | 56 | YSGOLDY CAPEL M C CARMEL / CARMEL M C CHAPEL OLD SCHOOL ROOM |
| | | **LLANFACHRAETH** | CD | LLANFACHRAETH | 8 | 21 | 492 | NEUADD BENTREF LLANFACHRAETH / LLANFACHRAETH VILLAGE HALL |
| | | **MECHELL** | EB1 | LLANFECHELL | 8 | 36 | 833 | CANOLFAN GYMUNED LLANFECHELL / LLANFECHELL COMMUNITY CENTRE |
| | | | EB2 | CARREGLEFN | 3 | 37 | 232 | YSGOL GYNRADD CARREGLEFN / CARREGLEFN PRIMARY SCHOOL |
| | | **LLANNERCHYMEDD** | EI1 | COEDANA | 2 | 50 | 228 | CAFFI STESION LLANNERCHYMEDD / LLANNERCHYMEDD STATION CAFÉ |
| | | | EI2 | RHODOGEIDIO | 3 | 50 | 74 | CAFFI STESION LLANNERCHYMEDD / LLANNERCHYMEDD STATION CAFÉ |
| | | | EI3 | | | 20 | 136 | YSGOLDY CAPEL M C CARMEL / CARMEL M C CHAPEL OLD SCHOOL ROOM |
| | | | EI4 | LLANNERCHYMEDD | 8 | 50 | 613 | CAFFI STESION LLANNERCHYMEDD / LLANNERCHYMEDD STATION CAFÉ |
| **TREF CYBI** | **2** | **CAERGYBI** | HC | Y DREF / TOWN | 2 | 7 | 799 | NEUADD EGLWYS SANTES FAIR, CAERGYBI / ST. MARY'S CHURCH HALL, HOLYHEAD |
| | | | HD | FFORDD LLUNDAIN / LONDON ROAD | 2 | 8 | 1119 | WOW TRAINING, CAERGYBI / HOLYHEAD |
| | | | HE | MORAWELON | 2 | 9 | 1053 | NEUADD GYMUNEDOL DEWI SANT, CAERGYBI / ST. DAVID'S COMMUNITY CENTRE, HOLYHEAD |
| **TWRCELYN** | **3** | **AMLWCH** | X1 | GWLEDIG / RURAL | 5 | 2 | 1013 | NEUADD GOFFA AMLWCH / AMLWCH MEMORIAL HALL |
| | | | X2 | Y DREF / TOWN | 5 | 3 | 925 | NEUADD GOFFA AMLWCH / AMLWCH MEMORIAL HALL |
| | | | X3 | Y BORTH / PORT | 5 | 4 | 872 | HEN YSGOL PORTH AMLWCH / OLD SCHOOL, AMLWCH PORT |
| | | **LLANBADRIG** | EA1 | CEMAES | 9 | 35 | 766 | NEUADD BENTREF CEMAES / CEMAES VILLAGE HALL |
| | | | EA2 | PADRIG | 2 | | 180 | |
| | | **RHOSYBOL** | EC1 | RHOSYBOL | 7 | 38 | 611 | CANOLFAN GYMUNED RHOSYBOL / RHOSYBOL COMMUNITY CENTRE |
| | | | EC2 | LLANDYFRYDOG | 3 | 39 | 254 | YSGOLDY CAPEL M C PARC LLANDYFRYDOG / M C CHAPEL SCHOOL ROOM PARC LLANDYFRYDOG |
| | | **LLANEILIAN** | ED1 | EILIAN | 6 | 40 | 443 | NEUADD BENTREF PENYSARN / PENYSARN VILLAGE HALL |
| | | | ED2 | LLWYFO | 5 | | 549 | |
| **YNYS GYBI** | **3** | **CAERGYBI** | HF | MAESHYFRYD | 3 | 10 | 1584 | CANOLFAN GYMUNED MILLBANK / MILLBANK COMMUNITY CENTRE |
| | | | HG | KINGSLAND | 2 | 11 | 1181 | CANOLFAN GYMUNED KINGSLAND / KINGSLAND COMMUNITY CENTRE |
| | | **RHOSCOLYN** | CF | RHOSCOLYN | 8 | 23 | 430 | NEUADD EGLWYS ST GWENFAEN, RHOSCOLYN / ST GWENFAEN CHURCH HALL, RHOSCOLYN |
| | | **TREARDDUR** | CG | TREARDDUR | 12 | 24 | 1297 | NEUADD GYMUNED TREARDDUR / TREARDDUR COMMUNTIY HALL |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | Mawrth 7fed, 2024 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Aelodaeth a chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) |
| **AWDUR:** | Jane Ashman |
| **PENNAETH GWASANAETH** | Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | I'r Cyngor gytuno i addasu aelodaeth ac enw'r CYSAG yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol o ganlyniad i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Jane Ashman |

**1. Cefndir:**

Dan Ddeddf Addysg 1996 (EA1996), mae gan yr Awdurdod Addysg Lleol ddyletswydd i sefydlu Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG).

O ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol o adran 390 i 392 yr EA1996, sydd wedi dod i rym dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (CA(W)A2021), mae'r gofyniad i awdurdod lleol sefydlu CYSAG wedi cael ei ddisodli, yn amodol ar gyfnod pontio, gyda'r gofyniad i gynnwys Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (GGM).

Mae briff y CYS yn fwy eang na'r CYSAG a hynny am ei fod yn cynnwys nid yn unig crefydd, ond GGM (gwerthoedd a moeseg) o fewn Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yn ogystal â'r briff ehangach, mae cyfansoddiad y CYS yn wahanol i'r CYSAG blaenorol oherwydd mae'n rhaid iddo gynnwys cynrychiolwyr sydd ag argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Mae'r EA1996 diwygiedig yn amodi y dylai'r CYS gynnwys y grŵp canlynol o aelodau (elfennau ychwanegol, fel yr ychwanegwyd gan y CA(W)A2021 mewn ysgrifen italig):

- Grŵp o unigolion sy'n cynrychioli enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill, ac enwadau o'r crefyddau hynny, *ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol* – sydd, ym marn yr AALl, *yn adlewyrchu cryfder cymesur eang y crefydd, yr enwad neu'r argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal;*
- Grŵp sy'n cynrychioli asiantaethau'r athrawon hynny mae'r AALl yn credu y dylid eu cynrychioli, gan roi ystyriaeth i amgylchiadau'r ardal; a
- Grŵp i gynrychioli'r AALl.

Mae hefyd yn bosibl cynnwys aelodau cyfetholedig; nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.

Er mwyn cydymffurfio gyda deddfwriaeth, ac yn unol â phenderfyniad y CYSAG yn ystod Tachwedd 2020 i adolygu ei Gyfansoddiad pan gyflwynwyd newidiadau deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru, mae swyddogion yn y Gwasanaethau Dysgu, ac sy'n cefnogi gwaith CYSAG, wedi gwneud gwaith i adolygu aelodaeth cynrychiolwyr crefyddol ac anghrefyddol.

## 2. Adolygu Aelodaeth:

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu manylion am ba grefyddau, enwadau neu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol sydd angen eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y CYS. Nid yw'r ddeddfwriaeth ychwaith yn cynnig canllawiau ar y data y dylid dibynnu arno er mwyn dyrannu seddi; mae'n nodi mai penderfyniad ar gyfer yr AALl ydyw, yn seiliedig ar y safbwynt bod yr aelodaeth yn adlewyrchu cryfder cymesur y crefydd, enwad neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal.

Mae aelodaeth bresennol y cynrychiolwyr perthnasol, nad yw wedi'i adolygu ers rhai blynyddoedd, yn cynnwys chwe enwad Cristnogol a dim cynrychiolwyr o grefyddau eraill neu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Mae swyddogion o'r Gwasanaethau Dysgu wedi cwblhau dadansoddiad bwrdd gwaith ar grwpiau crefyddol ac anghrefyddol ar Ynys Môn. Mae manylion y broses ddilynwyd a'r canfyddiadau fel a ganlyn:

- **Cyfrifiad:**
  Roedd yr adolygiad a gwblhawyd gan swyddogion o'r Gwasanaeth Dysgu yn ystyried canlyniadau y cwestiwn crefyddol yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Ynys Môn fel man cychwyn. Cadwyd mewn cof fod y Cwestiwn yn y Cyfrifiad ynghylch crefydd yn gwestiwn opsiynol, ac felly efallai na fydd y canlyniadau yn adlewyrchiad teg o gredoau crefyddol/anghrefyddol y boblogaeth, ond dylid nodi mai dim ond 6.5% o bobl Ynys Môn wnaeth benderfynu peidio ag ateb y cwestiwn hwn. Mae'r canlyniadau cyflawn wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1.**

- **Archwiliad Pellach:**
  Anfonwyd gohebiaeth gan swyddogion o'r Gwasanaeth Dysgu at grwpiau sydd wedi'u rhestru yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn, gyda chais am wybodaeth am nifer yr aelodau ar gyfer Ynys Môn. Anfonwyd gohebiaeth yn wreiddiol ar 11.08.23; anfonwyd nodyn atgoffa ar 18.08.23 gyda chais i anfon ymatebion erbyn 23.08.23. Er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn cael cyfle rhesymol i ymateb i'r cais hwn am wybodaeth, ac er mwyn gallu cysylltu â chynrychiolwyr o'r enwad Crynwyr a'r grefydd Siciaeth (nad oedd wedi'u cynnwys yn y garfan gyntaf), anfonwyd gohebiaeth bellach gan swyddogion o'r Gwasanaeth Dysgu ar 06.10.23, a nodyn atgoffa ar 25.10.23; disgwyliwyd ymatebion erbyn 06.11.23. Mae manylion am yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Dysgu wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2.**

## 3. Crynodeb:

Nid yw'r data a gasglwyd yn yr ymarferiad hwn yn gyflawn.

- Mae gwybodaeth y Cyfrifiad (**Atodiad 1**) yn rhoi trosolwg cyffredinol o grefydd/anghrefydd ar Ynys Môn, ond nid yw'n darparu'r manylion er mwyn pennu cryfder y gwahanol enwadau.

- Dim ond ychydig o ymatebion a dderbyniwyd i'r ohebiaeth a anfonwyd gan y Gwasanaeth Dysgu at y grwpiau sydd wedi'u nodi yn **Atodiad 2.**

Er y cydnabyddir fod yr argymhelliad canlynol yn seiliedig ar y data anghyflawn sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'n dilyn ymdrechion rhesymol gan y Gwasanaeth Dysgu i gasglu'r wybodaeth berthnasol. Mae'n annhebygol y byddai oedi er mwyn cwblhau ymgynghoriad pellach yn golygu bod data pellach yn cael ei gasglu; ystyrir bod yr argymhelliad hwn yn gynnig rhesymol ym mhob un o'r amgylchiadau:-

### A. Cristnogaeth

Gan fod ffigyrau'r cyfrifiad yn dangos mai Cristnogaeth yw'r ateb mwyaf poblogaidd ar gyfer yr ymholiad hwn, ac mai dyma'r crefydd cryfaf ar Ynys Môn (35,485 o bobl / 51.5%), mae'n rhesymol, ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth, bod y mwyafrif o seddi ar y SAC yn cynrychioli'r crefydd hwn.

Mae nifer o enwadau o fewn Cristnogaeth. Nid yw'r cyfrifiad yn archwilio hyn mewn rhagor o fanylder, ac felly nid yw'n bosibl casglu gwybodaeth am yr enwadau gwahanol sy'n rhan o'r ymateb hwn.

Mae chwe enwad gwahanol yn cael eu cynrychioli ar y CYSAG ar hyn o bryd, sef Eglwys Bresbyteraidd Cymru; Undeb Bedyddwyr Cymru; Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Yr Eglwys Babyddol; Yr Eglwys Fethodistaidd ac Yr Eglwys yng Nghymru. Bu i'r Gwasanaeth Dysgu gysylltu â'r rhain, ac eraill, i gasglu ffigyrau aelodau presennol; mae'r ymatebion wedi'u cynnwys yn **adran (a) Atodiad 2.**

Er mai dim ond ymatebion uniongyrchol cyfyngedig i geisiadau am niferoedd aelodau a geir gan nifer o'r enwadau Cristnogol, mae'n amlwg fod yr Eglwys yng Nghymru, Pabyddion ac Anghydffurfwyr Protestannaidd yn cael eu cynrychioli ar Ynys Môn, ac yn seiliedig ar hynny, **argymhellir y parheir i gynnig un sedd yr un i'r chwe enwad Cristnogol presennol ar y CYS.**

Fel y nodwyd yn **adran (a) Atodiad 2**, mae 500 aelod o Dystion Jehofa ar Ynys Môn, ac mae hwn yn ffigwr sy'n llawer uwch na nifer yr aelodau a gasglwyd gan Undeb Bedyddwyr Cymru ac Yr Eglwys Fethodistaidd (gyda'r ddau eisoes yn cael eu cynrychioli ar y CYSAG). Mae'r ymateb yn debyg i nifer aelodau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (sydd eisoes â chynrychiolaeth ar y CYSAG). Yn seiliedig ar y ffigwr hwn, a gasglwyd yn uniongyrchol mewn ymateb i ymholiadau'r Gwasanaeth Dysgu, **argymhellir bod cynrychiolydd o'r Tystion Jehofa yn cael sedd ar y CYS.**

### B. Dim Crefydd

Yr ail ateb mwyaf poblogaidd i gwestiwn y Cyfrifiad oedd "dim crefydd" (28,066 o bobl / 40.7%). Mae hwn yn ymateb eang iawn, a gall gynnwys amrywiaeth o unigolion nad ydynt, o bosibl, yn uniaethu â system grêd e.e. anffyddiwr, agnostig, ysbrydol ond nid crefyddol, ac ati: er, mae'n amlwg o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (**Atodiad 1**) bod rhai aelodau'r grŵp hwn wedi nodi eu hymateb dan "arall" yn hytrach na "dim crefydd" ac felly nid yw'r ffigwr yn hollol ddibynadwy. Bu i gyfanswm o 0.4% ymateb i 'arall' ar Ynys Môn.

Mae'n rhesymol credu nad yw canran o'r rheiny a ddewisodd "dim crefydd" yn rhan o unrhyw grŵp, ac yn seiliedig ar hynny, nid oes cynrychiolydd amlwg ar gyfer y gyfran helaeth hon o'r boblogaeth. Nid yw'n bosibl penodi unigolyn sy'n dweud ei fod yn perthyn i'r grŵp "dim crefydd"; mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn gynrychiolydd o *argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol*, ac mae'n rhaid i'r diffiniad statudol ddangos argyhoeddiad (nid syniad na barn) sy'n meddu lefel benodol o effeithiolrwydd, difrifolwch, cydlyniad a phwysigrwydd.

Cafodd grwpiau posibl sy'n bodloni'r diffiniad o *argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol* eu hadnabod gan swyddogion o'r Gwasanaeth Dysgu, a chysylltwyd â nhw; mae eu hymatebion wedi'u cynnwys yn **adran (b) Atodiad 2.**

Yn seiliedig ar y ffaith bod rhaid i'r cynrychiolwyr CYS perthnasol gynnwys cynrychiolaeth gan unigolion sydd ag argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol, os bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn ystyried bod penodi unigolion o'r fath yn adlewyrchu cryfder cymesur y crefydd, enwad neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal, mae'n rhesymol bod sedd yn cael ei chynnig i'r grŵp a all fodloni'r diffiniad.

Er nad yw nifer yr aelodau o Dyneiddwyr DU ar Ynys Môn yn amlwg, ac yn seiliedig ar y ffaith nad oes unrhyw grwpiau / gwybodaeth arall ar gael i'w hystyried, **mae'n rhesymol cynnig sedd ar y CYS i gynrychiolydd o** Dyneiddwyr DU **er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth ar gyfer safbwynt argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol ar CYS Cyngor Sir Ynys Môn.**

Mae wedi'i dderbyn nad yw Dyneiddwyr DU yn cynrychioli safbwyntiau'r rheiny sy'n dweud nad oes ganddynt "dim crefydd" neu "arall" yn y Cyfrifiad. Fodd bynnag, fel sefydliad, mae'n bodloni'r diffiniad deddfwriaethol o gynrychioli unigolion gydag argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol. Mae gan Dyneiddwyr DU seddi ar nifer o CYSau eraill hefyd.

### C. Crefyddau eraill nad ydynt yn Gristnogol

Mae ffigyrau'r Cyfrifiad (**Atodiad 1**) yn dangos niferoedd isel iawn ar gyfer crefyddau eraill nad ydynt yn Gristnogol, yn amrywio o 328 (Mwslim) a 30 yr un yn perthyn i Iddewiaeth a Siciaeth. Mae **Adran (c) Atodiad 2** yn nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i ohebiaeth gan y Gwasanaeth Dysgumo'r crefyddau hynny sydd wedi'u hadnabod ar restr y Cyfrifiad ar gyfer ymatebion posibl.

Mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos mai Islam yw'r crefydd nad yw'n Gristnogol cryfaf ar Ynys Môn. Mae felly'n rhesymol **dyrannu un sedd i gynrychiolydd o Islam ar y CYS.**

## 4. Opsiynau Posibl

<u>Peidio â gwneud unrhyw beth a methu â bodloni gofynion statudol.</u>

- Gall peidio â diweddaru'r gofyniad aelodaeth ar gyfer CYS arwain at yr Awdurdod yn methu â bodloni ei rwymedigaeth gyfreithiol a bod cyfansoddiad y CYS yn anaddas, sy'n golygu y gall unrhyw benderfyniad a wneir gan y CYS fod yn destun her gyfreithiol.

<u>Gwneud newidiadau sy'n cydymffurfio gyda gofynion statudol.</u>

- Bydd argymell y newidiadau arfaethedig yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio gyda'i rwymedigaeth gyfreithiol ar gyfer y CYS.

- Mae’n rhaid i’r Pwyllgor gynnwys cynrychiolwyr o ddiddordebau gwahanol (fel sydd wedi’i grybwyll yn adran 1 yr adroddiad hwn) er mwyn gweithredu fel pwyllgor gweithredol; mae’r cynnig i gael cyfanswm o 9 cynrychiolydd crefyddol/anghrefyddol yn rhesymol ac yn cydymffurfio gyda’r gofyniad cyfreithiol.

**5. Argymhelliad:**

1) Bod y Cyngor llawn yn cytuno i addasu enw’r CYSAG i CYS a bod ei gylch gorchwyl yn cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor gan y Swyddog Monitro, yn unol â’r gofyniad cyfreithiol ar gyfer CYS; a

2) Mae’n rhaid i’r awdurdod lleol gymryd y camau priodol er mwyn sicrhau bod yr aelodaeth yn gymesur â chryfder pob crefydd, enwad, neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol, yn ei ardal leol, ac mae’r Cyngor llawn yn cytuno bod aelodaeth y CYS yn cynnwys cyfanswm o 9 sedd, yn cynnwys 6 sedd ar gyfer yr aelodau presennol a 3 sedd ychwanegol newydd, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **1** | **Dyneiddwyr DU (*ychwanegol)*** |
| **2** | **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** |
| **3** | **Islam (*ychwanegol)*** |
| **4** | **Tystion Jehova (*ychwanegol)*** |
| **5** | **Undeb Bedyddwyr Cymru** |
| **6** | **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** |
| **7** | **Yr Eglwys Babyddol** |
| **8** | **Yr Eglwys Fethodistaidd** |
| **9** | **Yr Eglwys yng Nghymru** |

3) Cynnal adolygiad pellach o fewn 6 mis, ar gyfer y seddi Cristnogol cyfredol (ac felly’n eithrio Tystion Jehova o’r ymgynghoriad nesaf) yn dilyn sylwadau a wnaethpwyd pan ymgynghorwyd gyda CYSAG a’r ffigyrau sydd wedi dod i law.

## Canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Ynys Môn

Y grefydd mae pobl yn cysylltu neu'n uniaethu â hi, fel y nodwyd yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Ynys Môn (a chan ddilyn yr un drefn o adrodd):

| | Nifer yr ymatebion yng Nghyfrifiad 2021 |
|---|---|
| Dim crefydd | 40.7% (28,066) |
| Cristnogaeth | 51.5% (35,485) |
| Bwdhaeth | 0.2% (154) |
| Hindŵaeth | 0.1%(62) |
| Iddewiaeth | 0% (30) |
| Mwslimaidd | 0.5% (328) |
| Siciaeth | 0% (30) |
| Crefydd arall | 0.4% (278) |
| Heb ateb | 6.5% (4,446) |

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi, ar gyfer y rheiny a atebwyd “arall” ledled Cymru a Lloegr (nid Ynys Môn yn benodol), mai'r canlynol oedd rhai o'r grwpiau crefyddol mwyaf cyffredin: Alefiaeth, Jainiaeth, Pagan, Rafidasia, Rastaffaraidd, Shamaniaeth, Wica a Zoroastriaidd; a'r grwpiau anghrefyddol a enwyd oedd: Agnostig, Anffyddwyr a Dyneiddwyr.

## Atodiad 2

**Aelodaeth grwpiau/sefydliadau gwahanol ar Ynys Môn**

Anfonwyd neges e-bost/ffurflen gyswllt gan y Gwasanaeth Dysgu at y grwpiau a restrwyd ar 11.08.23 gyda chais am nifer aelodau. Anfonwyd neges e-bost atgoffa ar 18.08.23 yn gofyn am ymateb erbyn 23.08.23.

Gwnaed cyswllt pellach gan y Gwasanaeth Dysgu ar 06.10.23 gyda'r grwpiau hynny nad oeddynt wedi ymateb i'r cais uchod am wybodaeth. Gofynnwyd am ymatebion erbyn 6.11.23. Gwnaed galwad ffôn / anfonwyd neges e-bost atgoffa ar 25.10.23.

### a. Enwadau Cristnogol:

**Nifer yr ymatebion yng Nghyfrifiad 2021:** 35,485

| | Nifer yr aelodau ar Ynys Môn a nodwyd gan bob grŵp |
|---|---|
| **Crynwyr** | 25 |
| **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** | Ni dderbyniwyd ymateb* |
| **Eglwys Bresbyteraidd Lloegr** | Ni lwyddwyd i ddod o hyd i fanylion cyswllt** |
| **Eglwys Pentecostaidd** | 135 |
| **Eglwysi Pioneer** | 80 |
| **Tystion Jehofa** | 500 |
| **Undeb Bedyddwyr Cymru** | 168*** |
| **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** | 488 |
| **Yr Eglwys Babyddol** | 255**** |
| **Yr Eglwys Fethodistaidd** | 61 |
| **Yr Eglwys yng Nghymru** | Ni dderbyniwyd ymateb |

*Mae'r ffigwr o 962 wedi ei dderbyn gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dilyn ymgynghoriad gyda CYSAG.
**Cadarnhawyd yn dilyn ymgynghoriad gyda CYSAG fod yr Eglwys Bresbyteraidd Lloegr yn rhan o ffigwr Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Nid yw Eglwys Bresbyteraidd Lloegr yn weithredol yn Nghymru erbyn hyn.
***Derbyniwyd y ffigwr o 196 gan Undeb Bedyddwyr Cymru yn dilyn ymgynghoriad gyda CYSAG.
**** Yn dilyn ymgynghoriad gyda CYSAG, mae'r Eglwys Gatholig wedi cadarnhau mai dyma'r nifer a fynychodd Eglwysi Môn ar Sul penodol yn ystod Hydref 2023 ac nid cyfanswm yr aelodau.

### b. Dim crefydd:

**Nifer yr ymatebion yng Nghyfrifiad 2021**

- Dim crefydd 40.7% (28,066)
- Heb ateb 6.5% (4,446)
- Arall 0.4% (278)

| | Nifer yr ymatebion yng Nghyfrifiad 2021 | Nifer yr aelodau ar Ynys Môn a nodwyd gan bob grŵp |
|---|---|---|
| **Dyneiddwyr DU** | Ddim yn opsiwn yn y Cyfrifiad | Anhysbys. 4,000 yng Nghymru. |
| **Urdd Derwyddon Môn** | Ddim yn opsiwn yn y Cyfrifiad | Ni dderbyniwyd ymateb. |

### c. Crefyddau eraill:

| | Nifer yr ymatebion yng Nghyfrifiad 2021 | Nifer yr aelodau ar Ynys Môn a nodwyd gan bob grŵp |
|---|---|---|
| Bwdhaeth | 154 | Dim manylion cyswllt ar gael. Yn Llandudno mae'r grŵp agosaf. |
| Hindŵaeth | 62 | Dim manylion cyswllt ar gael. Dim cyfeiriadau ar-lein at unrhyw deml na chymdeithas Hindŵaeth yng ngogledd Cymru. |
| Iddewiaeth | 30 | Mae ymatebion yn nodi nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys. Yn Llandudno mae'r grŵp agosaf. |
| Islam | 328 | Mae ymatebion yn nodi nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dim mosg ar Ynys Môn; Canolfan Islamaidd Bangor yw’r agosaf. |
| Siciaeth | 30 | Ni dderbyniwyd ymateb. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | Cyngor Sir |
| DYDDIAD: | 07/03/2024 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Datganiad Polisi Tâl 2024 |
| ADRODDIAD GAN: | Cynghorydd Carwyn E Jones |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'i gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i gyhoeddi Polisi Tâl erbyn 31.3.24 |

RHAGARWEINIAD

Dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor "power to appoint officers on such reasonable terms and conditions as the authority thinks fit". Yn unol ag Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar gyfer bob blwyddyn ariannol.

SGÔP Y POLISI

Yn unol â Deddf Lleoliaeth Act 2011, rhaid i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ar bob agwedd o Gydnabyddiaeth i Brif Swyddogion. Er budd tryloywder ac atebolrwydd, mae'r Cyngor wedi dewis dull mwy cyffredinol a bydd yn cynhyrchu datganiad polisi sy'n cynnwys yr holl grwpiau o weithwyr ac eithrio athrawon ysgolion oherwydd nid yw'r gydnabyddiaeth a roddir iddynt hwy o fewn rheolaeth yr awdurdod lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi eu cynnwys yn y datganiad.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel ei Ddatganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25.

Atodiad 1 Datganiad Polisi Tâl

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**DATGANIAD POLISI TÂL**

**CHWEFROR 2024**

## 1. Rhagarweiniad a Phwrpas

Yn unol ag adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor "power to appoint officers on such reasonable terms and conditions as the authority thinks fit". Mae'r Datganiad Polisi Tâl hwn (y 'datganiad') yn nodi dull gweithredu'r Cyngor o ran y polisi tâl yn unol â gofynion Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Pwrpas y datganiad yw darparu tryloywder mewn perthynas â dull y Cyngor o bennu tâl ei weithwyr (ac eithrio'r rheini sy'n dysgu yn ysgolion yr awdurdod lleol) trwy nodi;

- dulliau ar gyfer penderfynu cyflogau gweithwyr;
- lefel ac elfennau y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i'w prif swyddogion, fel y diffinnir hynny gan y ddeddfwriaeth berthnasol;
- lefel tâl gweithwyr ar y cyflogau isaf;

Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau cymhleth, mawr gyda chyllidebau o filiynau o bunnau. Mae ganddynt amrediad eang iawn o swyddogaethau ac maent yn darparu ac/neu'n comisiynu ystod eang o wasanaethau hanfodol. O'r herwydd, gall y dull gweithredu cyffredinol o ran lefelau cydnabyddiaeth wahaniaethu o un grŵp o weithwyr i'r llall i adlewyrchu anghenion penodol ar lefel leol, lefel Cymru neu lefel y Deyrnas Gyfunol. Rhaid iddo hefyd fod yn hyblyg, pan fo angen, i roi sylw i amrywiaeth o amgylchiadau sy'n newid a rhaid iddo fod yn gyson â'r amcanion busnes.

## 2. Y Fframwaith Deddfwriaethol

Wrth benderfynu tâl a chydnabyddiaeth ei weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o ran cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldebau 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Rhan Amser (Rhwystro Triniaeth Llai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a lle mae hynny'n berthnasol, Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006. (Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol).

## 3. Sgôp y Datganiad Polisi Tâl

Yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ynghylch pob agwedd ar y Gydnabyddiaeth Ariannol i Brif Swyddogion (gan gynnwys cytundebau terfynu) ac i'r rheini yn yr awdurdod sy'n cael y 'tâl isaf', gan esbonio eu polisi ar y berthynas rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i'r haen rheolaeth uwch a gweithwyr eraill ac eithrio athrawon ysgol oherwydd bod eu cydnabyddiaeth ariannol nhw y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol.
Nid oes dim o fewn darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 yn tynnu oddi wrth y grym sydd gan gynghorau i wneud penderfyniadau ar dâl sy'n briodol i amgylchiadau lleol ac sy'n darparu gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr lleol. Fodd bynnag, cydymffurfir gyda'r

datganiad polisi hwn wrth bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr holl grwpiau o fewn ei sgôp.

Nid yw'r polisi tâl hwn yn berthnasol i athrawon yn ysgolion yr awdurdod lleol, a fydd â'u polisi cyflog eu hunain.

## 4. Datblygu Strategaeth Tâl a Gwobrwyo

Prif nod y strategaeth wobrwyo yw denu, cadw a chymell staff sydd â’r sgiliau addas fel y gall yr awdurdod berfformio ar ei orau. Un o'r heriau mwyaf i’r Cyngor yw sicrhau’r effeithlonrwydd a’r cynhyrchedd mwyaf posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae’r polisi tâl yn fater o daro cydbwysedd anodd weithiau rhwng pennu cydnabyddiaeth ariannol ar lefelau priodol i hwyluso cyflenwad digonol o unigolion gyda'r sgiliau priodol i lenwi’r ystod eang iawn o swyddi yn yr awdurdod, a sicrhau nad yw'r baich ar y trethdalwyr yn fwy na’r hyn y gellir ei gyfiawnhau’n llawn ac yn wrthrychol.

Yn y cyd-destun hwn, mae’n rhaid cydnabod bod rhaid i lefelau cydnabyddiaeth ariannol, ar y lefelau uwch yn arbennig, fedru denu ymgeiswyr gydag ystod eang o ddoniau gan sicrhau hefyd y gellir cadw unigolion cymwys a chanddynt sgiliau addas unwaith y maent yn eu swyddi. Dylid cydnabod y bydd y Cyngor yn aml yn ceisio recriwtio mewn cystadleuaeth gyda chyflogwyr da eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r Cyngor yn gyflogwr mawr yn yr ardal a, gan hynny, rhaid iddo gadw mewn cof ei rôl o ran gwella lles economaidd pobl Ynys Môn. Mae argaeledd cyflogaeth o safon dda ar delerau ac amodau rhesymol ac am dâl teg yn cael effaith lesol ar ansawdd bywyd yn y gymuned yn ogystal ag ar yr economi leol. Mae gan y Cyngor rôl o ran pennu enghraifft meincnod o ran telerau ac amodau i gyflogwyr eraill yn yr ardal am yr un rhesymau.

Wrth ddylunio, datblygu ac adolygu’r strategaeth tâl a gwobrwyo, bydd y Cyngor yn ceisio cydbwyso’r ffactorau hyn yn briodol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr awdurdod a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, tra’n rheoli costau yn briodol a sicrhau digon o hyblygrwydd i gwrdd ag anghenion y dyfodol. Caiff y Datganiad Polisi Tâl hwn ei adolygu a'i gymeradwyo bob blwyddyn gan y Cyngor Llawn.

## 5. Y Strwythur Tâl

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r graddfeydd tâl NJC a drafodwyd yn genedlaethol fel sail ar gyfer ei strwythur tâl lleol. Hwn sy’n penderfynu’r cyflogau ar gyfer y mwyafrif llethol o’r gweithwyr nad ydynt yn athrawon, ynghyd â defnydd o’r cyfraddau cenedlaethol diffiniedig eraill lle mae hynny'n berthnasol. Mae dyfarniad cyflog blynyddol i staff ar y raddfa NJC ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrch 2024 wedi ei gytuno. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydymffurfio gyda gweithdrefnau bargeinio tâl cenedlaethol mewn perthynas â’r strwythur tâl cenedlaethol ac unrhyw gynnydd blynyddol ar gyfer costau byw a drafodir yn y strwythur tâl. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i bennu cyflogau’n deg yn unol â deddfwriaeth tâl gyfartal ac, ers 1 Rhagfyr 2015, wedi gweithredu strwythur tâl a graddfeydd Statws Sengl. Mae strwythur graddau NJC y Cyngor yn rhedeg o Raddfa 1 (pwynt 3) hyd at Raddfa 10 (pwynt uchaf 50) gyda’r isafswm ac uchafswm cyflog fesul awr ar hyn o bryd yn £11.79 a £31.64 yn y drefn honno. Bydd y Datganiad Polisi Tâl hwn yn cael ei ddiwygio os cytunir ar ddyfarniad cyflog ar gyfer 2024/25 yn y cyfamser.

Unwaith bydd swydd yn cael ei gwerthuso, bydd y sgôr yn penderfynu i ba raddfa neu fand tâl bydd y swydd yn cael ei gymhathu. Fel arfer, penodir i swyddi newydd ar waelod y raddfa berthnasol, er bod modd amrywio hynny lle bo angen i sicrhau y gellir penodi'r ymgeiswyr gorau, gyda chytundeb y Pennaeth Gwasanaeth – Trawsnewid ac Adnoddau Dynol. Mae cyflogau wedyn yn destun codiad blynyddol bob blwyddyn hyd nes bod uchafswm y raddfa wedi cyrraedd (fel arfer o fewn 3 blynedd).

Mae'r holl lwfansau eraill sy'n gysylltiedig â thâl yn ddarostyngedig i gyfraddau a drafodwyd yn genedlaethol neu'n lleol, a benderfynwyd o bryd i'w gilydd yn unol â'r gweithdrefnau bargeinio ar y cyd ac/neu fel y penderfynir gan Bolisi'r Cyngor.

Yn hanesyddol, nid yw'r Cyngor wedi defnyddio ychwanegiadau marchnad i gymryd y farchnad dâl allanol i ystyriaeth wrth ddenu a chadw gweithwyr gyda phrofiad, sgiliau a chapasiti penodol. Fodd bynnag, mabwysiadwyd Polisi Ychwanegiad Marchnad ac, wrth weithredu'r polisi, bydd y Cyngor yn sicrhau fod unrhyw ychwanegiad marchnad yn cael ei gyfiawnhau yn wrthrychol trwy gyfeirio at dystiolaeth glir a thryloyw o fethiant yn olynol i recriwtio i swydd, a thystiolaeth o gymaryddion perthnasol yn y farchnad, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol sydd ar gael y tu mewn a'r tu allan i'r sector llywodraeth leol. Mae'r Cyngor, drwy ei Bolisi ar Secondiadau a Honoraria, hefyd yn gallu rhoi "honoraria" dros dro i aelodau staff sydd, oherwydd amryw reswm, yn gweithredu ar lefel uwch o gyfrifoldeb am gyfnod o amser.

Mae'r Cyngor yn disgwyl lefelau uchel o berfformiad gan bob gweithiwr ac mae ganddo Gynllun Arfarnu Blynyddol ar waith i fonitro, gwerthuso a rheoli perfformiad yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn gweithredu unrhyw drefniadau tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae proses Werthuso'r Awdurdod yn sail i'r dull o reoli talent a chynllunio olyniaeth. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o berfformiad a photensial gweithwyr, gall rheolwyr gynllunio gweithredoedd talent perthnasol, gan ystyried pawb fel unigolyn, y datblygiad sydd ei angen arnynt, gan wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo a'u galluogi i fod yn effeithiol yn eu rôl o fewn yr Awdurdod. Prif ran y broses yw'r sgwrs agored, onest ac adeiladol rhwng y rheolwr a'r gweithiwr i sefydlu ble maen nhw nawr, ble maen nhw eisiau bod a sut y gellir eu cefnogi i gyrraedd yno.

## 6. Buddion Eraill

Yn amodol ar amodau cymhwyso, mae gan yr holl weithwyr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae cyfraddau cyfraniad y gweithwyr, a ddiffinnir gan statud, ar hyn o bryd yn amrywio rhwng 5.8% a 11.4% o'u cyflog, gan ddibynnu ar y bandiau tâl sy'n ymwneud â'r cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfatebol. Caiff cyfraddau'r cyflogwr eu pennu gan Actiwarïaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Gwynedd a chânt eu hadolygu bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod y cynllun wedi ei gyllido'n briodol. Y gyfradd o 1.4.2023 fydd 20.1% ac yn weithredol hyd at 31.3.2026.

Mae gan y Cyngor ystod o delerau ac amodau eraill sy'n berthnasol i'w weithwyr, yn seiliedig yn bennaf ar delerau ac amodau'r Cydgyngor Cenedlaethol, ynghyd ag amodau a pholisïau a drafodwyd yn lleol. Mae rhai o'r telerau a'r amodau hyn yn golygu tâl ariannol, gan gynnwys benthyciadau car, talu ffioedd proffesiynol a thaliadau honoraria ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol. Ni thelir unrhyw fonws. Ar gyfer 'ychwanegiadau i gyflogau Prif Swyddogion', gweler paragraff 10 isod. Mae telerau ac amodau staff yn cael

eu hadolygu yn rheolaidd mewn ymgynghoriad a negydu gyda'n undebau llafur cydnabyddedig.

## 7. Tâl Cyfartal ac adrodd ar y Bwlch Cyflog Rhyw

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i bob gweithiwr. Mae ganddo bolisi clir o dalu gweithwyr yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol, gwaeth beth fo'u rhyw ac mae'n gwerthuso swyddi a graddau cyflog fel bo'r angen er mwyn sicrhau strwythur teg. Mae'r Cyngor yn adrodd ar ei ffigwr Bwlch Cyflog Rhyw yn flynyddol i'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Tra bod gan y Cyngor bwlch cyflog rhyw, mae'n hyderus nad yw'r bwlch hwn oherwydd bod y Cyngor yn talu merched a dynion yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfwerth ac mae'r Cyngor yn falch o adrodd bod ei bwlch cyflog rhyw gymedrig yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae bwlch cyflog rhyw y Cyngor yn ganlyniad i'r swyddi y mae dynion a merched yn gweithio o fewn y sefydliad a'r cyflogau y mae'r swyddi hyn yn eu denu. Tra bod y Cyngor yn cyflogi mwy o ferched na dynion, nid ydynt wedi eu gwasgaru'n gyfartal ar draws y graddfeydd. Mae unrhyw ddyfarniadau cyflog yn cael eu gweithredu ar draws yr holl raddfeydd ac felly ni fyddent yn lleihau'r bwlch cyflog rhyw yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella ei fwlch cyflog rhyw drwy gefnogi merched ar bob lefel o'r sefydliad i ddatblygu eu gyrfaoedd.

## 8. Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Reolwyr

I ddibenion y datganiad hwn, mae uwch reolwyr yn golygu 'prif swyddogion' fel y diffinnir hynny yn Adran 43 y Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi dilynol yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o 'uwch reolwyr' yng nghyd-destun y datganiad hwn:-

a) Prif Weithredwr (sydd hefyd yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) - yr uwch swyddog sy'n arwain ac yn cymryd cyfrifoldeb am yr Awdurdod, gan weithio'n agos gydag aelodau etholedig i gyflawni nodau ac amcanion yr Awdurdod.
b) Uwch Dim Arweinyddiaeth (Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifainc.
c) Penaethiaid Gwasnaeth – Plant a Theuluoedd/Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Oedolion, Adnoddau & Thrawsnewid, Tai, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Yn 2019 cafodd yr holl ddisgrifiadau swydd o fewn y strwythur Uwch Reolwyr eu gwerthuso yn unol â Chynllun Gwerthuso Swyddi'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) ar gyfer uwch swyddogion a'u dilysu'n allanol gan yr CLlL. Yna troswyd y sgorau i strwythur cyflog (a adolygwyd eto gan y CLlL ac a ddangosir isod) cyn eu cyflwyno i Banel Annibynnol Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru (IRP) a gadarnhaodd eu cefnogaeth lawn i'r strwythur graddio a chyflog arfaethedig.

Cytunwyd ar dyfarniad cyflog i Brif Weithredwyr a Phrif Swyddogion ar gyfer 2023/24 yn ystod 2023. Gan nad oes dyfarniad cyflog pellach wedi'i gynnig na'i gytuno ar hyn o bryd ar gyfer 2024/25 ar gyhoeddiad yr adroddiad hwn, felly bydd tâl sylfaenol uwch reolwyr ar **1 Ebrill 2024** fel a ganlyn: -

**Strwythur Cyflog CLlL yr Uwch Dîm Rheoli –**

| Graddfa CLlL | Swydd | Cyflog 01/04/2023 |
|---|---|---|
| LGA 1 | | |
| LGA 2 | Penaethiaid Gwasanaeth | £85,097 |
| LGA 2A | Cyfarwyddwr Swyddogaeth<br>Swyddog Monitro | £86,596 |
| LGA 3 | Cyfarwyddwyr /<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth<br>Swyddog A151 | £95,557 |
| LGA 4 | Dirprwy Brif Weithredwr | £106,587 |
| LGA 5 | Prif Weithredwr | £128,608 |

| Uwch Swyddog | Tâl |
|---|---|
| Prif Weithredwr – CLlLGA5 | £128,608 y flwyddyn (ddim yn gynyddrannol). Mae'r swyddog yn gweithredu fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a bydd hefyd yn derbyn ffioedd ychwanegol ar gyfer dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau. |
| Arweinyddiaeth Uwch – CLlL2A-CLlL4<br>- | £86,596 - £106,587 y flwyddyn |
| Penaethiaid Gwasanaeth – CLlL2 | £85,097 y flwyddyn |

Nid yw'r trefniadau cydnabyddiaeth yn cynnwys unrhyw lwfansau arbennig, taliadau bonws neu incrementau eraill.

Mae Pwyllgor Penodi'r Cyngor yn cyfarfod i ystyried a darparu argymhellion i'r Cyngor ar lefelau cyflog a gwobr am y tair haen uchod o uwch swyddogion. Cwmpas y Pwyllgor yw: -

- Gwneud argymhellion ar faterion cyflog a gwobr uwch i'r Cyngor, gan sicrhau cysondeb, tryloywder a hygyrchedd.
- Gwneud argymhellion ar reoli a strwythur tâl a gwobr uwch, a sail ar gyfer dilyniant tâl.
- Gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ar benodiadau uwch reolwyr.

Mae Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi i'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol dros Gymru (yr IRP") pwerau i wneud argymhellion mewn perthynas â chyflog y Prif Weithredwr (sydd hefyn yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig), neu unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog y Prif Weithredwr.  Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw argymhelliad a dderbyniwyd gan yr IRP mewn perthynas â thâl i'r Prif Weithredwr.

## 9. Recriwtio Prif Swyddogion

Mae polisi a gweithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â recriwtio prif swyddogion wedi eu hamlinellu o fewn y Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion yn Rhan 4.10 y Cyfansoddiad. Wrth recriwtio i bob swydd, bydd y Cyngor yn cymryd ystyriaeth lawn a phriodol o'i Bolisïau ar gyfer Cyfleon Cyfartal, Recriwtio a Dewis, ac Adleoli. Bydd y penderfyniad ynghylch y cyflog a gynigir i unrhyw brif swyddog a benodir o'r newydd yn cael ei wneud yn unol â'r strwythur tâl cytunedig a'r polisïau perthnasol sydd mewn grym ar adeg y recriwtio.

Lle na all y Cyngor recriwtio prif swyddogion dan gontract gwasanaeth, neu lle mae angen cymorth dros dro i gyflawni dyletswyddau swydd prif swyddog sy'n wag, bydd y Cyngor, lle bo raid, yn ystyried ac yn gweithredu trefniadau i gyflogi unigolion dan gontractau gwasanaeth. Gwneir hynny trwy broses bwrcasu berthnasol, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos y gwerth gorau am arian o gystadleuaeth, wrth sicrhau gwasanaethau perthnasol.

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n bolisi gan y Cyngor bod y Cyngor llawn yn cael y cyfle i bleidleisio ar dâl ac unrhyw ailstrwythuro ar lefel uwch rheolwyr gwaeth beth yw lefelau cyflog. Mae rheoliadau Llywodraeth Gymru hefyd yn nodi fod rhaid hysbysebu'n allanol unrhyw swyddi gyda chyflog o £100,000 neu fwy os oes disgwyl i'r swydd fod am gyfnod o 12 mis neu fwy.

## 10. Gwobrau Cyflog

Mae'r Cyngor yn cyflogi ei Brif Weithredwr a Phrif Swyddogion dan delerau ac amodau JNC wedi eu hymgorffori yn eu contractau. Mae'r JNC ac gyfer Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion yn negydu codiadau tâl i gwrdd â chostau byw cynyddol ar ran y grŵp hwn ar lefel cenedlaethol, ac mae unrhyw ddyfarniad yn cael ei bennu ar y sail hon. Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion a gyflogir dan delerau ac amodau'r JNC gyda'r hawl cytundebol i unrhyw wobrau cyflog a benderfynwyd yn genedlaethol gan y JNC a bydd y Cyngor hwn felly yn talu'r codiadau cyflog hyn fel a phan eu penderfynwyd yn unol â gofynion cytundebol cyfredol.

## 11. Ychwanegiadau i Gyflogau y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion

Mae'r un meini prawf cymhwyso a'r un trefniadau yn berthnasol i'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion ag sy'n berthnasol i weithwyr eraill mewn perthynas â thelerau ac amodau ychwanegol sy'n denu tâl, gan gynnwys taliadau costau teithio ac ad-dalu ffioedd proffesiynol.

## 12. Taliadau Terfynu

Mae dull y Cyngor o drin taliadau dewisol a statudol ar adeg terfynu cyflogaeth y prif weithredwr, prif swyddogion a gweithwyr sydd o fewn sgôp y datganiad hwn, cyn iddynt gyrraedd oed ymddeol arferol, wedi ei nodi yn ei ddatganiad polisi yn unol â rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Fuan) (Iawndal Dewisol) 2006 a Rheoliadau 12 a 13 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a

Chyfraniad) 2007. Mae unrhyw ychwanegiadau a ddarperir o fewn polisi'r Cyngor yn berthnasol i bob aelod o staff, waeth beth fo'u graddfa a'u statws.

Bydd y Cyngor llawn yn cael cyfle i bleidleisio ar becynnau diswyddo sydd dros £100,000, y cyfanswm i gynnwys tâl diswyddo, tâl yn lle rhybudd a'r gost i'r awdurdod o'r straen ar y gronfa bensiwn sy'n codi o ddarparu mynediad cynnar i bensiwn. Yn achos yr holl daliadau datgysylltu eraill sy'n disgyn y tu allan i dermau contractyddol, bydd angen i'r Cyngor llawn neu aelodau etholedig perthnasol, pwyllgor neu banel o aelodau etholedig gydag awdurdod dirprwyol wneud penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r fath daliadau. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i Werth Gorau wrth ystyried a yw'n briodol gwneud unrhyw daliadau diswyddo arbennig, ac a fyddai taliad o'r fath yn ddefnydd priodol o arian cyhoeddus.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor wedi ailgyflogi Prif Swyddogion sydd wedi ymddeol. Pe bai amgylchiadau yn codi lle byddai angen ystyried gwneud hynny am resymau busnes pwysig, byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn neu aelodau etholedig perthnasol, pwyllgor neu banel o aelodau etholedig gydag awdurdod dirprwyol i gymeradwyo trefniadau o'r fath, yn unol â pholisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor fel y noder isod.

Mae Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor yn nodi na fydd unrhyw weithiwr sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar delerau diswyddo gwirfoddol yn cael ei ail-gyflogi gan y Cyngor am gyfnod y taliad iawndal dileu swydd a dderbyniwyd, e.e. os bydd aelod o staff yn derbyn 45 wythnos o dâl dileu swydd, ni ellir ail-gyflogi gan y Cyngor am 45 wythnos ar ôl y dyddiad terfynu. Bydd y cyfnod hwn yn cael ei ymestyn i 12 mis os yw'r gweithiwr hefyd yn derbyn pensiwn y mae'r Cyngor wedi talu costau ychwanegol iddi. Byddai'n rhaid i unrhyw ail-gyflogaeth gynt na'r hyn a nodir uchod fod gydag awdurdodiad penodol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pennaeth Gwasanaeth - Trawsnewid ac Adnoddau Dynol a fyddai'n ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau.

## 13. Gweithwyr ar y Cyflogau Isaf

Mae'r gweithwyr sy'n cael y tâl isaf ac a gyflogir dan gontract cyflogaeth gyda'r Cyngor yn cael eu cyflogi ar gyflogau sy'n gyfwerth ag amser llawn 37 awr yn unol â'r pwynt cyflog isaf a ddefnyddir ar hyn o bryd yn strwythur graddfeydd y Cyngor. Ar 1 Ebrill 2023, ac yn ddarostyngedig i gytundeb ar unrhyw gynnig codiad cyflog ar gyfer 2024/25 yn fuan yn 2024, y pwynt hwnnw yw'r pwynt graddfa 3 cyfredol a gytunwyd yn genedlaethol, sy'n £22,737 y flwyddyn, neu £11.79 yr awr, sy'n cymharu gyda'r Tâl Byw Cenedlaethol o £11.44 yr awr o 1 Ebrill 2024 a'r Cyflog Byw Iawn (a osodwyd yn Hydref 2023) o £12 yr awr.

Mae'r berthynas rhwng y gyfradd tâl ar gyfer y rheini sydd ar y cyflogau isaf a chyflogau prif swyddogion yn cael ei phenderfynu gan y prosesau a ddefnyddir i benderfynu'r strwythurau tâl a graddfeydd fel y dangosir yn gynharach yn y datganiad polisi hwn.

Mae'r canllawiau statudol dan y Ddeddf Lleoliaeth yn argymell defnyddio lluosyddion tâl fel ffordd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau tâl ar draws y gweithlu a thâl uwch reolwyr, fel sydd wedi ei gynnwys yn Adolygiad Hutton o Dâl Teg yn y Sector Cyhoeddus (2010). Gofynnodd y Llywodraeth i'r adroddiad Hutton ymchwilio i'r achos ar gyfer sefydlu terfyn sefydlog o ran yr ystod tâl, trwy fynnu na all unrhyw reolydd yn y sector cyhoeddus ennill

mwy nag 20 gwaith yr hyn a delir i'r sawl sydd ar y cyflog isaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas gyda chyflog cyfartalog yn fesur mwy perthnasol ac mae Côd Arferion y Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymell y dylid cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog cyfartalog ar gyfer y cyfan o weithlu'r awdurdod.

Fel rhan o'i drefniadau monitro parhaus o ran aliniad gyda marchnadoedd tâl allanol, y tu mewn i'r sector a'r tu allan iddo, bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth meincnodi sydd ar gael fel sy'n briodol.  O'i fynegi fel lluosydd o gyflog, bydd cyflog y Prif Weithredwr yn 5.65:1 yn fwy nag enillydd isaf y Cyngor.

## 14. Contractwyr Allanol

Bydd y Cyngor yn defnyddio ei brosesau pwrcasu i sicrhau y mabwysiedir arferion tâl teg a moesegol gan gontractwyr allanol a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau.

## 15. Cyhoeddi

Ar ôl i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo, cyhoeddir y datganiad hwn ar Wefan y Cyngor.  Yn ogystal, ar gyfer swyddi lle mae'r cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfatebol yn o leiaf £60,000, bydd Datganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn cynnwys nodyn yn amlinellu cyfanswm

- cyflogau, ffioedd neu lwfansau a dalwyd i'r unigolyn yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol neu yr oedd modd i'r unigolyn eu derbyn;
- unrhyw symiau sy'n daladwy ar ffurf lwfans treuliau sy'n denu treth incwm yn y Deyrnas Gyfunol.
- unrhyw iawndal am golli cyflogaeth ac unrhyw daliadau eraill sy'n gysylltiedig â therfynu cyflogaeth;
- unrhyw fuddion a dderbyniwyd nad ydynt o fewn sgôp yr uchod.

## 16. Atebolrwydd a Gwneud Penderfyniadau

Mae Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gofyn i'r Prif Weithredwr gadw dan adolygiad parhaus y trefniadau recriwtio, tâl a graddfeydd staff y Cyngor.

## 17. Monitro

Bydd y Datganiad Polisi Tâl yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i chyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn bob blwyddyn naill ai ym mis Chwefror neu mis Mawrth; yn dilyn hyn bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y canllawiau presennol yn natblygiad y polisi tâl hwn, ond os derbynnir canllawiau diwygiedig pellach, neu os cytunir ar ddyfarniadau cyflog pellach, gall y Cyngor benderfynu diwygio'r polisi gyda chymeradwyaeth y Cyngor llawn. Bydd y fersiwn diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

*Chwefror 2024*

This page is intentionally left blank